

# Cwmniiaith

Creu Cymru Gwbl Ddwyieithog:  
Cyfleoedd deddfu a gweithredu polisi

**Tachwedd 2007**



# Cwmniiaith

Parc Busnes Aberarad  
Castellnewydd Emlyn  
Sir Gaerfyrddin  
SA38 9DB

Ffôn: 01239 711668  
post@cwmni-iaith.com  
www.iaith.eu

## Awduron:

Kathryn Jones  
gyda Steve Eaves a Gareth Ioan

Mae'r cwmni a'r awduron yn arddel eu hawl arferol  
i gael eu cydnabod pan ddyfynnir o'r adroddiad hwn.

Comisiynwyd gan:  
**Hywel Williams AS**  
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
Ffôn: 01286 672076  
williams@parliament.uk

Ariannwyd yr adroddiad hwn, a'r ymchwil y mae'n seiliedig arno, o lwfans  
Seneddol sydd ar gael i bob Aelod Seneddol.

ISBN 978-1-900563-08-6

# Creu Cymru Gwbl Ddwyeithog: Cyfleoedd deddfu a gweithredu polisi

## Rhagair

Creu “Cymru gwbl ddwyeithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd.”<sup>1</sup> Dyma weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cynigia'r weledigaeth her sylweddol, yn enwedig o ran galluogi pawb sydd am fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny'n llawn.

Er mwyn llwyddo bydd rhaid gwneud rhagor na chyflawni camau gweithredu *laith Pawb*, er bod y rheini'n gamau i'r cyfeiriad cywir. I wireddu'r weledigaeth, bydd rhaid hefyd wrth gyfuniad o ddeddfwriaeth bellach, gweithredu polisi effeithiol, newid agweddau, dysgu, annog a chefnogi.

Bwriad y ddogfen hon yw cyflwyno gwybodaeth gyfeiriol i'w defnyddio wrth ystyried cyfleoedd gogyfer â llunio deddfwriaeth newydd ynglŷn â'r iaith Gymraeg. Ei bwriad hefyd yw cyflwyno tystiolaeth ac argymhellion mewn perthynas â gweithredu polisi yn gadarn o blaid hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

Cafodd yr adroddiad hwn ei gomisiynu gan Hywel Williams AS Caernarfon Plaid Cymru, a bydd yn cael ei gyflwyno iddo adeg ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad, fodd bynnag, wedi'i ysgrifennu'n gyfan gwbl annibynnol ar Blaid Cymru. Gofynnwyd i ni baratoi papur cefndir ar gyfer cyflwyno mesur iaith newydd, sef papur a fyddai'n diffinio a chloriannu sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol y Gymraeg ac effaith honno ar y cyfleoedd sydd ar gael i unigolion dderbyn y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnwyd i ni hefyd adnabod cyfleoedd deddfu a gweithredu polisi ynghyd â llunio argymhellion er mwyn gwella'r sefyllfa bresennol.

Man cychwyn y gwaith oedd ymateb i'r galw am ddiwygio *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* a chyflwyno Deddf Iaith Newydd ynghyd â chyhoeddiad gwreiddiol Llywodraeth y Cynulliad i ymgorffori Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Ebrill 2007. O ganlyniad, cyfyngir y drafodaeth ar ddeddfwriaeth yn yr adroddiad hwn i gyfleoedd fyddai'n effeithio'n bennaf ar hawl unigolion i dderbyn gwasanaethau o natur gyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni rydd lawer o sylw i faterion eraill sy'n cyfrannu at greu Cymru cwbl ddwyeithog megis yr hawl i ddysgu'r iaith ac effaith polisi cynllunio ar hyfywedd y Gymraeg ar lefel gymunedol.

Daeth *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* i rym yng nghyfnod paratoi'r adroddiad hwn. Rhydd y ddeddf gyfle i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddod yn fwyfwy cyfrifol am lunio ei ddeddfwriaeth ei hun ar yr iaith Gymraeg. O ganlyniad, mae'n bosibl y daw'r Cynulliad i fod yn bennaf gyfrifol am ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Fodd bynnag, ni chaiff y Cynulliad rwydd hynt i lunio deddfwriaeth iaith yn annibynnol ar Senedd y DU, ac bydd y cyfrifoldeb am ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru ac ar hawliau siaradwyr Cymraeg yn parhau yn San Steffan o hyd. Nid trwy un ddeddf iaith yn unig y bydd modd sefydlu hawliau ieithyddol llawn i siaradwyr Cymraeg a

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyeithog*, Chwefror 2003, tud. 1.

thrigolion Cymru. Yn hytrach, bydd rhaid sefydlu'r hawliau hynny gam wrth gam, trwy gyfuniad o fesurau dros gyfnod o amser. Erys yn briodol, felly, i ystyried sut y gellid llunio deddfwriaeth i'w cyflwyno yn Senedd y Deyrnas Unedig yn San Steffan ynghyd ag unrhyw ddeddfwriaeth a lunnir yn y Cynulliad fyddai'n cyfrannu at gryfhau hawliau ieithyddol siaradwyr Cymraeg.

Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, hoffem ddiolch yn ddiffuant i gynrychiolwyr y sefydliadau, mudiadau, cymdeithasau ac unigolion fu mor barod i gyfrannu gwybodaeth i'r astudiaeth hon.

Gobeithiwn y bydd cynnwys yr adroddiad yn cyfrannu at y broses o gryfhau cwmpas deddfwriaethol y Gymraeg yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn Senedd y DU er budd gwirioneddol siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymreig. Yn ogystal, gobeithiwn y bydd tystiolaeth yr adroddiad yn ysgogi craffu ar weithdrefnau y gellid eu cryfhau o fewn y drefn bresennol heb yr angen am ddeddfwriaeth ychwanegol.

**Cwmni Iaith  
Tachwedd 2007**

# Cynnwys

Rhagair

Cynnwys

Cyflwyniad

## RHAN 1

### Pennod 1 Y cyd-destun deddfwriaethol a syniadaethol yng Nghymru

- 1.1 Y cyd-destun hanesyddol
- 1.2 **Deddfwriaeth ddiweddar a chyfredol ar yr iaith Gymraeg**
  - 1.2.1 Deddf Llysoedd Cymru (1942)
  - 1.2.2 Deddf yr Iaith Gymraeg (1967)
  - 1.2.3 Deddf yr Iaith Gymraeg (1993)
- 1.3 **Cynlluniau iaith Gymraeg statudol a Strategaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg**
  - 1.3.1 Cynlluniau iaith Gymraeg
  - 1.3.2 Cynlluniau Addysg Gymraeg
  - 1.3.3 Strategaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg
- 1.4 **Rôl gynyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym maes cynllunio iaith ers 1999**
  - 1.4.1 *Iaith Pawb* – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog
- 1.5 Casgliadau

### Pennod 2 Gwendidau'r gyfundrefn deddfwriaethol gyfredol a'r fframwaith polisi presennol

- 2.1 **Gwendidau'r deddfwriaeth a'r fframwaith polisi presennol**
  - 2.1.1 Cyngor Defnyddwyr Cymru
  - 2.1.2 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
  - 2.1.3 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
  - 2.1.4 Cyngor Bwrdeistref Arfon (gynt)
  - 2.1.5 Bwrdd yr Iaith Gymraeg

- 2.1.6 Colin H. Williams
- 2.1.7 Casgliadau
  
- 2.2 Galwadau am ddeddfwriaeth iaith newydd**
  - 2.2.1 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
  - 2.2.2 Cymuned
  - 2.2.3 Bwrdd yr Iaith Gymraeg
  - 2.2.4 Cefnogaeth gyhoeddus i ddeddfwriaeth iaith newydd
  
- 2.3 Safbwyntiau'r pleidiau gwleidyddol ynghylch deddfwriaeth a'r Gymraeg**
  - 2.3.1 Y Blaid Lafur
  - 2.3.2 Plaid Cymru
  - 2.3.3 Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
  - 2.3.4 Y Ceidwadwyr Cymreig
  - 2.3.5 Llywodraeth Glymblaid Cynulliad Cenedlaethol Cymru
  - 2.3.6 Cefnogaeth drawsbleidiol i roi blaenoriaeth i'r Gymraeg yn ystod 3ydd tymor Cynulliad Cenedlaethol Cymru
  
- 2.4 Casgliadau**

### **Pennod 3 Deddfwriaeth a'r hawl i dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg**

- 3.1 Hawliau iaith a hawliau cydraddoldeb**
  
- 3.2 Hawliau iaith mewn deddfwriaeth Ewropeaidd a Rhyngwladol**
  
- 3.3 Deddf Hawliau Dynol 1998**
  
- 3.4 Pwysau cynyddol yng Nghymru i gydnabod 'hawliau' siaradwyr Cymraeg**
  - 3.4.1 Cymuned
  - 3.4.2 Cyngor Defnyddwyr Cymru
  - 3.4.3 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
  - 3.4.4 Bwrdd yr Iaith Gymraeg
  - 3.4.5 Polisiâu Cynulliad Cenedlaethol Cymru
  
- 3.5 Hawliau arbennig i grwpiau iaith leiafrifol**
  
- 3.6 Casgliadau**

**Pennod 4 Cyfrifoldebau statudol dros yr iaith  
Gymraeg: bygythiadau a chyfleoedd trwy  
ddiwygio sefydliadol a deddfwriaeth  
newydd**

- 4.1 Comisiwn Cydraddoldeb a  
Hawliau Dynol**
  - 4.1.1 Dyletswyddau a phwerau'r  
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau  
Dynol
  - 4.1.2 Ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r  
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau  
Dynol
  - 4.1.3 Pwyso a mesur goblygiadau  
sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a  
Hawliau Dynol
  
- 4.2 Adolygu'r maes cydraddoldeb  
ym Mhrydain Fawr**
  - 4.2.1 Ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg i  
ddogfen ymgynhori'r Adolygiad o  
Gyfraith Gwahaniaethu
  
- 4.3 Rheoli a mesur polisïau  
gweithredu cydraddoldeb mewn  
awdurdodau lleol**
  
- 4.4 Goblygiadau sefydlu  
Ombwdsmon Gwasanaethau  
Cyhoeddus Cymru**
  - 4.4.1 Ymateb Bwrdd yr Iaith i'r cynigion i  
sefydlu Ombwdsmon  
Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  - 4.4.2 Pwyso a mesur goblygiadau  
sefydlu Ombwdsmon  
Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  
- 4.5 Dyfodol Bwrdd yr Iaith Gymraeg**
  - 4.5.1 Comisiwn yr Iaith Gymraeg
  - 4.5.2 Cyfrifoldebau Comisiwn yr Iaith  
Gymraeg
  - 4.5.3 Sefydlu Adran Polisi a  
Deddfwriaeth Gymraeg  
Llywodraeth y Cynulliad
  
- 4.6 Casgliadau**

**RHAN 2 Camau deddfwriaethol a gweithredol i  
gryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg**

**Pennod 5 Cyfleoedd i ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol**

- 5.1 Deddf Llywodraeth Cymru 2006**
- 5.1.1 Mesurau Seneddol DU
- 5.1.2 Gorchymyn Cymhwysedd  
Deddfwriaethol trwy Orchymyn yn  
y Cyfrin Gyngor

**Pennod 6 Opsiynau ar gyfer diwygio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

- 6.1 Ehangu cwmpas Deddf 1993 i gynnwys cwmnïau preifat sy'n darparu cyfleustodau cyhoeddus**
  
- 6.2 Ehangu Deddf 1993 i gynnwys y sector breifat yn gyffredinol (gan wahaniaethu rhwng y gofynion ar gwmnïau mawr a busnesau bach a chanolig eu maint (SME))**
  - 6.2.1 Ymdrechion i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y sector breifat
  - 6.2.2 Tystiolaeth ymchwil
  - 6.2.3 Cloriannu'r dystiolaeth
  
- 6.3 Ehangu cwmpas Deddf 1993 i gynnwys y sector wirfoddol**
  - 6.3.1 Ymdrechion i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg â sefydliadau a mudiadau gwirfoddol
  - 6.3.2 Tystiolaeth ymchwil
  - 6.3.3 Cloriannu'r dystiolaeth
  
- 6.4 Sefydlu statws swyddogol a chyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg**
  
- 6.5 Casgliadau**

**Pennod 7 Cyfleoedd gweithredu heb angen deddfwriaeth ychwanegol**

- 7.1 Cryfhau cydymffurfiaeth contractwyr 3<sup>ydd</sup> parti â gofynion cynlluniau iaith cyrff cyhoeddus**
  - 7.1.1 Y gofyniad ar gontractwyr 3<sup>ydd</sup> parti o dan Ddeddf 1993
  - 7.1.2 Tystiolaeth Profiad
  - 7.1.3 Cloriannu'r dystiolaeth



- 7.2 **Prif-ffrydio'r Gymraeg i bob agwedd ar fesurau a pholisi'r Cynulliad**
- 7.2.1 Y sefyllfa bresennol
- 7.2.2 Tystiolaeth Profiad
- 7.2.3 Opsiynau posibl ar gyfer prif-ffrydio trwy ddulliau eraill
- 7.3 **Cyflwyno côd ymarfer ar gyfer sefydliadau/gwasanaethau penodedig**
- 7.4 **Arolygiaethau Gwasanaethau Cyhoeddus**
- 7.5 **Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol**
- 7.5.1 Dangosyddion Iaith Gymraeg
- 7.6 **Cyfleoedd newydd yn sgîl Adolygiad Beecham**
- 7.7 **Casgliadau**

**Pennod 8 Cyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg a hawliau iaith Gymraeg trwy ddeddfwriaeth Senedd y Deyrnas Unedig**

- 8.1 **Cyfleoedd i gryfhau hawliau iaith Gymraeg trwy fesurau Senedd y DU**
- 8.2 **Yr hawl i dystysgrifau uniaith Gymraeg**
- 8.3 **Ehangu hawliau ym myd y gyfraith**
- 8.4 **Yr hawl i beidio â phrofi camwahaniaethu ar sail iaith mewn gwasanaethau penodol**
- 8.4.1 Cefndir a chyfiawnhad
- 8.4.2 'Yr hawl i wasanaeth' o dan fesur o'r fath
- 8.4.3 Cryfhau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
- 8.4.4 Gweithredu'r mesur
- 8.4.5 Goblygiadau mesur fyddai'n sefydlu hawliau ieithyddol i 'grwpiau bregus' o ran cynllunio iaith a chynllunio'r gweithlu
- 8.4.6 Sefydlu'r egwyddor o hawliau iaith a chyfle cyfartal i'r unigolyn
- 8.4.7 Ehangu a chryfhau grym

**8.5 Casgliadau**

**Pennod 9 Casgliadau ac Argymhellion**

**9.1 Casgliadau**

**9.2 Argymhellion**

- 9.2.1 Cynlluniau Iaith Gymraeg a Chynlluniau Addysg Gymraeg
- 9.2.2 Hawliau ieithyddol
- 9.2.3 Hawliau ieithyddol siaradwyr Cymraeg a'r maes cydraddoldebau
- 9.2.4 Diwygio cyfrifoldebau statudol a phŵer Bwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydlu Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg yn Llywodraeth y Cynlluniad
- 9.2.5 Gwella darpariaeth yn y Gymraeg gan gwmnïau preifat
- 9.2.6 Gwella darpariaeth yn y Gymraeg gan fudiadau gwirfoddol
- 9.2.7 Rhai opsiynau i'w cynnwys mewn Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- 9.2.8 Rhai opsiynau i'w cynnwys mewn Mesurau Senedd y Deyrnas Unedig
- 9.2.9 Cyfleoedd i gynyddu darpariaeth yn y Gymraeg heb yr angen am ddeddfwriaeth newydd

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn yn ystod cyfnod allweddol o ran sicrhau hyfywedd a dyfodol yr iaith Gymraeg. Mae statws a defnydd cyhoeddus o'r Gymraeg wedi cynyddu yn ddi-os ers pasio *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* a sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gorff statudol. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd a welir yn ôl tystiolaeth Cyfrifiad 2001 yng nghanran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn yr ardaloedd llai traddodiadol Gymreig. Ond pery'r gofid am ddyfodol y cymunedau hynny ble mae dros 80% o'r boblogaeth yn medru'r iaith wrth i nifer y wardiau hynny haneru bron ers 1991 o 32 i 17 ward.<sup>2</sup>

Profa'r dystiolaeth nad yw dyfodol y Gymraeg yn ddiogel o bell ffordd a bod angen gweithredu'n uniongyrchol i warchod y cynnydd a welwyd dros y pymtheng mlynedd diwethaf. Bu cyhoeddiad y Prif Weinidog Rhodri Morgan ym mis Tachwedd 2004 o fwriad ei lywodraeth i ymgorffori Bwrdd yr Iaith Gymraeg erbyn mis Ebrill 2007 yn symbyliad i gynyddu'r pwysau cyhoeddus dros ddiwygio Deddf 1993 a sicrhau gwell hawliau ieithyddol i siaradwyr Cymraeg.

Ni ellir newid swyddogaeth a statws corff statudol heb ddiwygio deddfwriaethol. I'r perwyl hwnnw, buasai diwygio *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* neu gyflwyno mesur iaith newydd yn anorfod wrth ailstrwythuro Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn cynnig cyfle newydd i'r Cynulliad ddod yn gyfrifol am lunio ei ddeddfwriaeth ei hun ar yr iaith Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r Ddeddf o reidrwydd yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael y grym i ddeddfu'n llawn ar faterion sy'n ymwneud ag iaith a hawliau siaradwyr Cymraeg. Felly, er y posibilrwydd y daw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bennaf gyfrifol am ddeddfwriaeth ar y Gymraeg, mae'n briodol hefyd ystyried cyfleoedd i gryfhau ac ategu gwaith y Cynulliad trwy ddeddfwriaeth yn Senedd y Deyrnas Unedig. I'r perwyl hwnnw, mae'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i ystyriaethau deddfwriaethol ar y Gymraeg yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn Senedd y DU, fel ei gilydd.

Ceir dwy ran i'r adroddiad hwn. Yn Rhan 1 ceir amlinelliad o'r cyd-destun deddfwriaethol presennol a thrafodaeth ar wendidau'r ddeddfwriaeth a'r polisïau a strategaethau a weithredir yn sgîl y ddeddfwriaeth honno. Ceir pennod hefyd sy'n ymdrin â hawliau ieithyddol a phennod sy'n ystyried y cyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg trwy ddiwygiadau sefydliadol megis sefydlu Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac ailddiffinio dylanwad a chyfrifoldebau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bwriad Rhan 1 yw gosod y cyd-destun a chyflwyno gwybodaeth fydd yn sail i Ran 2.

Mae Rhan 2 yr adroddiad yn ystyried y cyfleoedd i ehangu pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion yr iaith Gymraeg yn sgîl *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Trafodir y camau deddfwriaethol y gellid eu hystyried i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg a chynnig gwell cyfleoedd i unigolion fyw eu bywydau a derbyn y gwasanaethau hynny sy'n berthnasol iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir yma drafodaeth ar y prif syniadau am ddeddfwriaeth iaith newydd sy'n cael eu cynnig yn gyhoeddus gan amryw o gyrff ac unigolion. Trafodwn, yn ogystal, nifer o gamau y gellid eu hystyried er mwyn cryfhau gweithrediad polisïau cyfredol heb yr angen am ddeddfwriaeth ychwanegol. Yn olaf, trafodwn y meysydd deddfu a erys yn gyfrifoldeb ar Senedd y Deyrnas Unedig.

---

<sup>2</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 'Canlyniadau cymysg ond calonogol i Gyfrifiad 2001'. Datganiad i'r wasg, 30 Mehefin 2003.

# RHAN 1

Ceir pedair pennod i'r rhan hon o'r adroddiad. Ym Mhennod 1, amlinellir y cyd-destun deddfwriaethol gan fanylu ar y polisiau a'r strategaethau cyfredol hynny a weithredir er mwyn hyrwyddo defnydd cyhoeddus o'r Gymraeg. Ym Mhennod 2, trafodwn wendidau'r ddeddfwriaeth a chynlluniau presennol, a hynny o safbwynt detholiad o sefydliadau a chymdeithasau. Mae Pennod 3 yn ymdrin â 'hawliau defnyddwyr iaith'. Trafodwn y cysyniad o hawliau defnyddwyr iaith lleiafrifol o fewn deddfwriaeth Ewropeaidd a Rhyngwladol. Cymharwn hawliau siaradwyr Cymraeg â'r hawliau a feddir gan grwpiau lleiafrifol eraill o fewn deddfwriaeth gydraddoldeb Brydeinig. Ystyriwn, yn ogystal, y pwysau cynyddol yng Nghymru i gydnabod 'hawliau' siaradwyr Cymraeg. Yn olaf, mae Pennod 4 yn pwysu a mesur y bygythiadau i sefyllfa bresennol y Gymraeg a'r cyfleoedd i hyrwyddo a diogelu'r iaith trwy'r diwygio sefydliadol a'r ddeddfwriaeth newydd sydd ar droed, megis sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac, o bosibl, ymgorffori Bwrdd yr Iaith Gymraeg ag adran o Lywodraeth y Cynulliad.

## Pennod 1: Y cyd-destun deddfwriaethol a syniadaethol yng Nghymru

### 1.1 Y cyd-destun hanesyddol

'Deddfau Uno' 1536 a 1542 a osododd gywair deddfwriaethol cyntaf y wladwriaeth ar gyfer statws y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru:

*"All Justices Commissioners Shireves Coroners Eschetours Stewardes and their lieuetenauntes and all other officers and ministers of the lawe shall proclayme and kepe the sessions courtes hundreds letes Shireves and all other courtes in the Englisshe Tonge and all others of officers iuries enquestes and all other affidavithes verdicts and Wagers of lawe to be geven and done in the English tonge."*

*"...And also that from hensforth no personne or personnes that use the Welsshe speech or langage shall have or enjoy any maner of office or fees within the Realme of Englonde Wales or other the Kinges dominions upon peyn of forfeiting the same offices or fees onles he or they use and exercise the speche or langage of Englisshe."*

Roedd effaith y ddeddfwriaeth hon yn bellgyrhaeddol iawn. Esgorodd ar draddodiad hirfaith o:

- (i) ystyried mai'r Saesneg fyddai'r iaith briodol i'w defnyddio mewn peuoedd swyddogol megis y gyfraith a gweinyddiaeth gyhoeddus,
- (ii) cau'r Gymraeg allan o'r peuoedd hynny, a
- (iii) chysylltu'r arfer o ddefnyddio'r Gymraeg â hyn a hyn o beuoedd cyfyngedig.

Am bedair canrif yn dilyn y Deddfau Uno, treiddiodd y meddylfryd cymathiadol oedd y tu ôl iddynt i bob agwedd swyddogol ar fywyd cyhoeddus Cymru. Saesneg oedd iaith y Goron, y Senedd, gweision y Goron a'r dosbarth rheoli. Aeth y prosesau i gymathu Cymru o fewn egin-wladwriaeth Seisnig newydd oes y Tuduriaid rhagddynt law yn llaw ag esblygiad a thwf y wladwriaeth honno. Wrth i sefydliadau a strwythurau llywodraethol, cyfreithiol, gweinyddol, addysgol a chrefyddol y wladwriaeth gael eu sefydlu a'u datblygu, cafwyd deddfau a threfniadau i'w gweithredu'n unffurf ar raddfa Brydeinig, neu'n unffurf drwy Loegr a Chymru, a hynny drwy gyfrwng y Saesneg.

O ganlyniad, datblygodd y Gymraeg yn iaith iselfri mewn llawer pau allweddol, gan gynnwys dysg, byd masnach a diwydiant, technoleg a gwyddoniaeth. Datblygodd y Saesneg yn briod iaith y peuoedd hyn, yn iaith cynnydd a chyfoesedd, iaith y trefedigaethau Prydeinig, ac, maes o law, iaith cyfalafiaeth Brydeinig a'r Ymerodraeth Brydeinig. Bu'n elfen flaenllaw ac annatod o hunaniaeth y 'genedl-wladwriaeth' Brydeinig.

Y cymhelliad cymathiadol sy'n dyddio o'r Deddfau Uno oedd yn gyrru unrhyw ddisgwrs deallusol ar lefel Brydeinig am yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Gymraeg. Hefyd, am y pedair canrif dan sylw, statws iselfri'r Gymraeg ochr yn ochr â grym a dylanwad y Saesneg oedd yn cyflyru agweddau siaradwyr Gymraeg a siaradwyr Saesneg yng Nghymru fel ei gilydd tuag at y Gymraeg. Ni chafwyd deddfwriaeth arall i ymdrin yn benodol â statws y Gymraeg hyd at ganol yr 20<sup>fed</sup> ganrif.

## 1.2 Deddfwriaeth ddiweddar a chyfredol ar yr iaith Gymraeg

Yn ystod yr 20<sup>fed</sup> ganrif cafwyd tair deddf yn ymdrin yn unswydd â sefyllfa'r iaith Gymraeg. Deilliodd pob un o'r rhain o bwysau o du'r cyhoedd Cymraeg am well statws i'r iaith. Bu mudiadau protest ac anufudd-dod sifil yn elfen allweddol o'r pwysau gwleidyddol o blaid y ddwy ddeddf ddiweddaraf, ym 1967 a 1993.

### 1.2.1 Deddf Llysoedd Cymru (1942)

Deddf oedd hon yn ymwneud yn bennaf â statws y Gymraeg mewn achosion cyfreithiol. Caniataodd ddefnydd y Gymraeg mewn rhai amgylchiadau:

*"The Welsh language may be used in any court in Wales by any party or witness who considers that he would otherwise be at a disadvantage by reason of his natural language of communication being Welsh."*

Yn ôl y ddeddf hon, y Llys, yn hytrach na'r siaradwr Cymraeg, fyddai'n gyfrifol am dalu'r cyfieithydd. Yn ôl un sylwebydd, *"in the matter of payment, it [y ddeddf] merely brought Welsh into line with languages such as Greek and Arabic, which were occasionally used in courts in the south Wales ports."*<sup>3</sup>

Sylwer hefyd mai'r unig gyfiawnhad dros ddefnyddio'r Gymraeg yn ôl y ddeddf hon oedd petasai'r siaradwr Cymraeg "dan anfantais" fel arall, hynny yw, petai'n gorfod defnyddio'r Saesneg. Nid yw'r egwyddor o gynnig dewis iaith (sydd mor ganolog i Ddeddf 1993) yn rhan o'r syniadaeth y tu ôl i'r ddeddf hon.

---

<sup>3</sup> Janet Davies, *A Pocket Guide - The Welsh Language*, University of Wales, Cardiff, 1999, tud. 66.

Hefyd, er iddi roi'r hawliau cyfyngedig hyn, cadarnhaodd y ddeddf safle israddol y Gymraeg drwy beidio â rhoi hawl i dystio yn Gymraeg.

### 1.2.2 Deddf yr Iaith Gymraeg (1967)

Roedd y ddeddf hon hefyd yn ymwneud â statws cyfreithiol y Gymraeg. Cryfhaodd yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd barn trwy gyflwyno'r hawl i'r unigolyn ddewis siarad Cymraeg, yn hytrach na chaniatáu'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn arbed unigolyn rhag profi anfantais yn unig.

Yn ogystal, estynnodd y ddeddf hon yr egwyddor o 'ddilysrwydd cyfartal' o dan y gyfraith i gynnwys dogfennau ayyb a baratowyd yn Gymraeg. Un o brif ganlyniadau'r ddeddf oedd sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn swyddogol mewn gweinyddiaeth gyhoeddus. Trwy gydol y 1970egau a'r 1980egau aeth nifer o gynghorau sirol a chynghorau dosbarth ati i weithredu polisiau dwyieithrwydd, i wahanol raddau. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd o arwyddion dwyieithog swyddogol, a chynnydd yn y defnydd 'swyddogol', ffurfiol o'r Gymraeg mewn amryw o beuoedd cyhoeddus.

Fodd bynnag nid oedd y ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r Gymraeg, ac ni roddodd hawl i ddefnyddwyr fynnu gwasanaeth yn Gymraeg. O ganlyniad, bu galw cynyddol am ddeddf iaith newydd a mwy dylanwadol.

### 1.2.3 Deddf yr Iaith Gymraeg (1993)

Mae'r ddeddf hon yn:

- (i) gosod dyletswydd ar gyrff yn y sector gyhoeddus i weithredu'r egwyddor, *“wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru”*, o *“drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal”*;
- (ii) ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus baratoi Cynllun Iaith Gymraeg yn dangos sut y byddant yn gweithredu'r egwyddor uchod,
- (iii) creu Bwrdd yr Iaith Gymraeg i:
  - hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
  - gweinyddu a goruchwyllo'r broses o baratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg;
  - cyflwyno cyngor a gwybodaeth i'r Llywodraeth a'r cyhoedd;
  - cadw gorolwg dros bob agwedd ar addysg a hyfforddiant Cymraeg;
  - annog a chynorthwyo cwmnïau preifat a chyrff gwirfoddol i ddefnyddio mwy o Gymraeg;
  - dosbarthu grantiau i hybu a hwyluso defnyddio Cymraeg;
  - ymateb i gŵynion.

## 1.3 Cynlluniau Iaith Gymraeg Statudol a Strategaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg

### 1.3.1 Cynlluniau Iaith Gymraeg

Mae adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn datgan y gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyflwyno hysbysiad i gorff cyhoeddus i fynnu ei fod yn paratoi Cynllun Iaith Gymraeg yn unol ag adran 5 y Ddeddf. Mae adran 5 (1) y Ddeddf yn nodi'n fanylach beth a olygir gan 'gorff cyhoeddus':

*“5.(1) Bydd pob corff cyhoeddus y cyflwynir hysbyseb iddo o dan adran 7 isod ac sydd -*

- yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, neu*
- yn ymarfer swyddogaethau statudol mewn perthynas â darparu gwasanaethau gan gyrrff cyhoeddus eraill i'r cyhoedd yng Nghymru,*
- yn paratoi cynllun i bennu'r mesurau y bwriada eu cymryd, at y diben y cyfeirir ato yn isadran (2) isod, ynglŷn â defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaethau hynny, neu'r cyfryw wasanaethau o'u plith ag a bennir yn yr hysbysiad.*

Mae adran 5(2) wedyn yn nodi'r egwyddor sylfaenol sydd i'w rhoi ar waith ym mhob Cynllun Iaith:

*“5.(2) Y diben y cyfeirir ato yn isadran (1) uchod yw gweithredu, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.”*

#### **Cryfderau Cynlluniau Iaith Gymraeg Statudol**

- Mae creu cynllun iaith yn fodd i gorff adolygu natur ei wasanaeth a datblygu cynllun gweithredol i sicrhau ei fod yn trin y ddwy iaith yn gyfartal ym mhob agwedd ar ei ymwneud â'r cyhoedd.
- Mae Cynlluniau Iaith wedi cael eu derbyn fel cynlluniau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon, ac nid ydynt yn gysylltiedig ag agenda wleidyddol.
- Mae trefn paratoi, gweithredu, goruchwyllo a diwygio Cynlluniau Iaith wedi ei sefydlu ers yn agos i ddegawd a hanner, ac mae cyrff cyhoeddus wedi hen arfer â'r drefn hon ac yn ei derbyn a'i deall.
- Rhaid i bob corff cyhoeddus sicrhau bod ganddo swyddog neu swyddogion penodol sy'n gyfrifol am faterion iaith o fewn y sefydliad. Mae hyn yn gorfodi pob corff i ddatblygu rhywfaint o arbenigedd mewnol ar faterion iaith.
- Mae awdurdod a hygrededd pob swyddog iaith mewn cyrff cyhoeddus yn deillio o'r ffaith bod yna gynllun statudol i'w weithredu, ei hwyluso a'i fonitro.
- Mae'r drefn o gyflwyno adroddiadau monitro blynyddol ar weithrediad y Cynllun Iaith i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a'r adolygiad o'r Cynllun gan y Bwrdd bob tair blynedd yn gosod fframwaith ar gyfer mesur cynnydd ac unioni diffygion wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg.
- Wrth ddiwygio Cynlluniau Iaith bob 3-4 blynedd creir cyfle i'r Bwrdd a'r corff dan sylw ystyried dulliau mwy creadigol o hybu'r Gymraeg (y tu hwnt i'r fframwaith a osodir gan y Canllawiau Statudol) e.e.:

- drwy fabwysiadu 'Strategaeth Iaith' i'r ardal neu'r sector;
  - drwy ddatblygu defnydd mewnol y Gymraeg mewn cyd-destunau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chyswllt â'r cyhoedd;
  - drwy ddatblygu 'cynlluniau adrannol' i ddatblygu'r Gymraeg o fewn y sefydliad a lledu perchenogaeth fewnol ar y Cynllun;
  - drwy lunio 'Strategaeth Sgiliau Iaith' sy'n galluogi'r corff i gynllunio ei ddefnydd o sgiliau cyfathrebu mewn modd strategol a blaengar er mwyn sicrhau bod ganddo'r adnoddau staff angenrheidiol i weithredu'r Cynllun yn effeithiol.
- O dan y drefn bresennol felly, mae rhai cyrff blaengar wedi gallu llunio Cynlluniau sy'n fwy dyfeisgar ac uchelgeisiol na'i gilydd, gan lwyddo i 'symud y trothwy' o ran disgwyliadau am yr hyn y mae'n deg a rhesymol i Gynlluniau geisio ei gyflawni. Mae Cynlluniau Iaith Cyngor Gwynedd a Heddlu Gogledd Cymru yn enghreifftiau amlwg o gynlluniau blaengar o'r fath sy'n cynnwys elfennau y tu hwnt i gwmpas cyfyng y canllawiau statudol ar lunio Cynlluniau Iaith.

### **Gwendidau Cynlluniau Iaith Gymraeg Statudol**

- Yn ôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei hun, "Credwn fod yna wendidau i'r broses o baratoi a gweithredu cynlluniau iaith, yn benodol y ffaith nad oes mesurau statudol i hyrwyddo gweinyddu dwyieithog o fewn cyrff, a'r diffyg pwerau i sicrhau gweithrediad effeithiol".<sup>4</sup>
- O fewn amryw o gyrff cyhoeddus ac ymhlith staff y Bwrdd ei hun, cred rhai fod cynlluniau iaith yn feichus i'w gweithredu a'u monitro o ran amser staff y corff ac adnoddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Dadleuir felly fod hyn yn arafu'r broses o sefydlu, gweithredu a chryfhau'r cynlluniau. (Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn bwriadu symleiddio'r broses i ateb y broblem yma.)
- Mae'r cyfeiriad, yn adran 5(2) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, at weithredu egwyddor *cydraddoldeb "cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol"* yn agored i'w dehongli mewn llawer dull a modd, felly mae'n gwanhau'r gofynion statudol drwy sicrhau nad yw ymdriniaeth pob sefydliad â'r Gymraeg - ac felly argaeledd, ansawdd ac ehangder eu gwasanaethau Cymraeg - yn gyson nac yn safonol ar draws pob corff ac ym mhob rhan o Gymru.
- Mae'r geiriad 'amodol' hwn yn cael ei ategu ymhellach gan gymal arall yn yr un frawddeg o'r Ddeddf, sy'n cyfarwyddo "*y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal*" (ein pwyslais ni). Nid trin y ddwy iaith **yn gyfartal**, sylwer, ond "*ar y sail*" eu bod yn gyfartal. Mae hyn hefyd yn agored iawn i'w ddehongli mewn amryw fodd.
- O safbwynt defnyddiwr sy'n anfodlon ar wasanaeth Cymraeg, mae'r ddau gymal uchod yn ei (g)osod mewn sefyllfa ansicr ac amwys iawn. Byddai'n anodd dros ben iddi/iddo ddangos nad yw'r darparwr wedi gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb "*cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol*". Byddai'n rhaid wrth wybodaeth fewnol fanwl o weithdrefnau ac adnoddau'r corff i allu gwneud hynny yn hyderus. Byddai'r un mor anodd dadlau'n hyderus nad yw'r darparwr wedi trin y ddwy iaith "*ar y sail*" eu bod yn gyfartal. Ar y llaw arall, byddai'n gymharol rwydd i'r darparwr, o'i ran ef, ddadlau ei fod wedi gweithredu'n unol â'r ddau eiriad hyn.
- Mae'r diffyg pwerau gorfodi gan y Bwrdd yn golygu nad yw'r corff goruchwyliol mor rymus a dylanwadol â'r 'comisiynau cydraddoldeb' eraill. Er enghraifft, nid oes ganddo bwerau i ddwyn achos llys yn erbyn corff nad yw'n gweithredu ei

<sup>4</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Ymgynhoriad gan Lywodraeth y Cynulliad ar Ymgorffori Bwrdd yr Iaith Gymraeg: Ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, Mai 2006, adran 4.7.



Gynllun iaith statudol yn briodol, ac nid oes ganddo hawl i gynorthwyo unigolion i wneud hynny.

- Mae goruchwyliaeth y Bwrdd dros Gynlluniau iaith yn aml yn anghyson o ran safon, ehangder a threiddgarwch.
- Cymharol gyfyngedig yw ymwneud siaradwyr Cymraeg â chyrrff cyhoeddus o ddydd i ddydd. Nid yw Cynlluniau iaith yn dylanwadu ar gyfleoedd a phatrymau defnydd iaith yn yr holl beuoedd eraill sydd heb eu cynnwys o fewn cwmpas y ddeddf - e.e. masnach, diwydiant, cymdeithasu, ayb.

Golyga hyn fod:

- Safon Cynlluniau iaith yn amrywio'n fawr (o'r rhai hynny sydd ond yn ateb gofynion sylfaenol y canllawiau statudol yn unig i'r ychydig rai sy'n cynllunio y tu hwnt i'r gofynion hynny mewn modd mwy rhagweithiol).
- Mae gweithrediad ac ymdreiddiad Cynlluniau iaith i weithdrefnau ac arferion iaith staff cyrrff cyhoeddus eto'n amrywio'n sylweddol o gorff i gorff ac o ardal i ardal.
- Ac, felly, mae statws a defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn anghyson, yn amrywiol ac yn anghyfartal.
- Mae'r ffaith bod yr 'hawl' i ddefnyddio Cymraeg yn amodol ar ddehongliad corff cyhoeddus o briodoldeb hynny ac i ba raddau y mae'n '*rhesymol ymarferol*' yn gosod yr unigolyn sy'n siarad Cymraeg mewn sefyllfa ansicr. Nid yw siaradwyr Saesneg byth yn wynebu'r un ansicrwydd yng Nghymru. Mae hynny'n groes i'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg "*ar y sail eu bod yn gyfartal*".
- Golyga hyn hefyd fod y geiriadau amodol hyn yn Neddf 1993 yn ffafrio'r darparwr ar draul rhoi unrhyw sicrwydd i'r defnyddiwr.

**Argymhelliad 1: Dylid parhau â'r drefn o weithredu Cynlluniau iaith Gymraeg statudol gan edrych am gyfleoedd deddfwriaethol i gryfhau dyletswydd cyrrff i weithredu eu cynlluniau iaith yn llawn.**

### 1.3.2 Cynlluniau Addysg Gymraeg

Nid yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cynnwys awdurdodau addysg lleol yn benodol ar y rhestr o gyrff cyhoeddus a restrir o dan adran 6, sef y rhestr o gyrff y bydd yn ofynnol iddynt baratoi Cynllun Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae cymal 6(1)(o) y Ddeddf yn awdurdodi i'r Bwrdd fynnu Cynllun Iaith gan "*unrhyw berson (p'un a yw'n gorfforaeth gorfforedig neu anghorfforedig ai peidio) (i) y mae'n ymddangos i'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.*" Gan hynny, o dan adran 5 Deddf 1993 derbyniodd pob awdurdod addysg lleol yng Nghymru hysbysiad ffurfiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei gyfarwyddo i baratoi Cynllun Iaith Addysg fel cynllun ar wahân i Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor Unedol perthnasol. Pwrpas Cynllun Iaith Addysg yw dangos pa ddarpariaeth a drefnir ac a weithredir gan yr awdurdod addysg lleol i roi addysg Gymraeg yn ysgolion yr ardal.

Bu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn trafod a chymeradwyo'r Cynlluniau iaith Addysg fel proses ar wahân i'r broses o baratoi a chymeradwyo Cynlluniau iaith y Cyngorau Unedol. Yn ymarferol, mae hyn wedi golygu mai Adrannau Addysg y Cyngorau Unedol a fu'n gyfrifol am y gwaith drafftio a'r cyd-drafod â'r Bwrdd.

Cryfder y drefn hon o baratoi Cynlluniau iaith Addysg yw ei bod yn gorfodi awdurdodau addysg ledled Cymru i ddatgan mewn dogfen gyhoeddus statudol sut y byddant yn darparu addysg Gymraeg o fewn eu dalgylchoedd.

Fodd bynnag, mae sawl gwendid yng ngweithrediad y drefn hon hefyd. Nid yw 'Swyddogion Iaith' y Cynghorau wedi chwarae rhan flaenllaw o gwbl yn y broses hon. Yn wir, yn y mwyafrif o achosion, nid yw'r Swyddogion Iaith wedi chwarae unrhyw ran o gwbl yn y broses ac nid ydynt yn hyddysg iawn yng Nghynllun Iaith Addysg y sir. O'u rhan hwy, nid yw'r awdurdodau addysg wedi bod yn ddigon hyddysg yn y 'prif gynllun iaith' i allu sicrhau bod y ddau gynllun yn rhannu'r un weledigaeth, yr un gwerthoedd allweddol a'r un amcanion gwaelodol am ddwyieithrwydd o fewn y sir.

O ran monitro hefyd, nid yw Swyddog Monitro'r 'prif Gynllun Iaith' yn gyfrifol am fonitro gweithrediad a chyflawniad y Cynlluniau Iaith Addysg. I hwyluso monitro 'prif Gynllun Iaith' pob Cyngor Unedol (a phob corff cyhoeddus arall), datblygodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fframwaith monitro safonol a manwl, yn ogystal â chyfundrefn adrodd, dilysu, ymateb a chyd-drafod er mwyn sicrhau atebolrwydd i'r Bwrdd ynghyd â 'pherchenogaeth' a bugeiliaeth ddigonol y corff ar y broses o weithredu Cynllun Iaith. Nid yw'r drefn a sefydlwyd gan y Bwrdd ar gyfer monitro Cynlluniau Addysg Gymraeg agos mor fanwl a thrwyadl.

Ni ddatblygwyd fframwaith monitro i sicrhau llif cyson o wybodaeth ystyrlon a threiddgar i'r Bwrdd ac i'r cyhoedd am weithrediad y cynlluniau hyn. O ganlyniad, nid yw lefel wybodaeth y Bwrdd am weithrediad y Cynlluniau Iaith Addysg mor ystyrlon a dibynadwy â'r wybodaeth a feddir ganddo am weithrediad y Cynlluniau Iaith Gymraeg.

Ymddengys fod yr her a grëir gan *Iaith Pawb* yn gofyn am agwedd lawer mwy holistaidd a chyfannol nag a gafwyd hyd yma tuag at gynllunio iaith ar draws pob gwasanaeth a phob sector y mae'r Cynghorau Unedol yn rhoi arweiniad ynddynt. Er enghraifft, dyma ddwy agwedd sy'n gofyn am ymdriniaeth fwy cydgysylltiol a chydlynus:

- Mae pob Cynllun Iaith yn creu mwy o angen am sgiliau dwyieithog ym mhob agwedd ar weinyddiaeth gyhoeddus ym mhob sir. Wrth reswm felly mae cyfatebiaeth uniongyrchol rhwng y gronfa o sgiliau lleol y mae eu hangen i weithredu Cynlluniau Iaith a'r amrediad o sgiliau dwyieithog fydd gan y 'darpar lafurlluoedd' - sef y genhedlaeth sy'n derbyn addysg yn ysgolion y sir. Eto, prin y cydnabyddir y berthynas hon mewn Cynlluniau Iaith nac mewn Cynlluniau Addysg Gymraeg, a phrin yw'r blaengynllunio cydlynus i bontio rhwng y ddau gynllun corfforaethol hyn.
- Un o amcanion *Iaith Pawb* yw cynyddu canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gan 5% erbyn 2011. A derbyn bod gan yr ysgolion rôl allweddol i'w chwarae yn y broses hon, gellid dadlau y dylai cyfraniad a chyrhaeddiad y sector ysgolion yn y broses o atgynhyrchu siaradwyr Cymraeg gael eu harolygu a'u monitro'n llawer mwy treiddgar ac effeithiol.

**Argymhelliad 2: Dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg sefydlu trefn fanwl a thrwyadl ar gyfer arolygu a monitro Cynlluniau Addysg Gymraeg.**

**Argymhelliad 3: Dylid meithrin agwedd llawer iawn mwy holistaidd a chyfannol tuag at gynllunio iaith ar draws pob gwasanaeth a sector awdurdodau unedol.**

**Argymhelliad 4: Dylid sicrhau bod Cynllun Iaith Gymraeg a Chynllun Addysg Gymraeg pob Awdurdod Unedol yn rhannu'r un weledigaeth ac yn atgyfnerthu ei gilydd.**

### 1.3.3 Strategaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg

Mae Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn datgan mai prif swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Yn sgîl ei swyddogaeth mae'r Bwrdd wedi mynd ati i gynllunio'n fwriadus er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg. I'r perwyl hwnnw cyhoeddodd dair strategaeth:

#### ***Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg (1996)***<sup>5</sup>

Hon oedd strategaeth gyntaf Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Trafododd bedair prif her:

- cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg;
- darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith;
- newid arferion defnyddio'r iaith, ac annog pobl i fanteisio ar y cyfleoedd a ddarperir;
- atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

#### ***Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth (2000)***<sup>6</sup>

Roedd hon yn ddogfen allweddol gan y Bwrdd yn gosod cywair syniadol ei waith yn y maes. Mae'r ddogfen yn dynodi pedwar math o gynllunio ieithyddol sy'n angenrheidiol i alluogi'r iaith i oroesi, sef:

- Cynllunio caffaeliad
- Cynllunio defnyddio
- Cynllunio statws
- Cynllunio corpws

Mae'r ddogfen yn ymhelaethu ar bob un o'r pedwar math hyn o gynllunio iaith.

#### ***Dyfodol y Gymraeg: Cynllun Strategol (2005)***<sup>7</sup>

Mae'r ddogfen hon yn gosod cynllun strategol ar gyfer y Gymraeg hyd nes cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011. Prif symbyliad y ddogfen yw "sicrhau parhad i waith a gweledigaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth i'r rhan fwyaf o swyddogaethau'r Bwrdd gael eu hymgorffori yn Llywodraeth y Cynulliad erbyn mis Ebrill 2007."<sup>8</sup> Y meysydd gweithredu a restrir yn y cynllun strategol yw:

- Trosglwyddiad iaith yn y teulu
- Plant 0 – 7 mlwydd oed
- Addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog
- Defnyddio'r Gymraeg gan bobl ifanc
- Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Defnyddio'r Gymraeg yn y sector breifat
- Cynlluniau Iaith Gymraeg, a datblygu a darparu gwasanaethau yn y Gymraeg
- Normaleiddio dwyieithrwydd
- Hybu hawliau ieithyddol fel rhan o'r maes cyfle cyfartal
- Technoleg gwybodaeth a chynllunio corpws
- Ymchwil a data

<sup>5</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg*, Caerdydd, Rhagfyr 1996.

<sup>6</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth*, Caerdydd, Tachwedd 1999.

<sup>7</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Dyfodol y Gymraeg – Cynllun Strategol*, Awst 2005.

<sup>8</sup> Ibid. tud. 3.

Yn ogystal, cyhoeddodd y Bwrdd nifer o strategaethau ar gyfer meysydd penodol, sef:

- Strategaeth Cymraeg i Oedolion (1999)
- Strategaeth Addysg a Hyfforddiant (2004)
- Strategaeth Ieuenctid Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2005)
- Strategaeth Sector Preifat 2006
- Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Datblygu'r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/Saesneg (2006) – ar y cyd â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru
- Strategaeth Ddata (2006)
- Technoleg Gwybodaeth a'r Gymraeg: Dogfen Strategaeth (2006)
- Strategaeth Sector Gwirfoddol (i'w chyhoeddi)

#### **1.4 Rôl gynyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ym maes cynllunio iaith ers 1999**

Ehangwyd ar yr ymdriniaeth statudol â'r iaith Gymraeg wrth sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) trwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Datganodd adran 47 (1) y ddeddf honno:

*“The Assembly shall in the conduct of its business give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages shall be treated on a basis of equality.”*

Trwy hyn, sicrhaodd y ddeddf y byddai:

- y Cynulliad yn trin y ddwy iaith yn gyfartal yn ei holl fusnes cyhoeddus, cyn belled ag sy'n briodol ac yn ymarferol;
- modd i Aelodau'r Cynulliad ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall mewn trafodaethau a gohebiaeth; a
- gwasanaethau cyfieithu yn cael eu darparu i gefnogi'r broses hon.

Effaith hyn yw bod y Gymraeg a'r Saesneg ill dwy yn ieithoedd swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r holl is-ddeddfau a greir gan y Cynulliad yn ddwyieithog. Yn ei Chynllun Iaith Gymraeg cyntaf datgan Llywodraeth y Cynulliad yn glir iawn y cyswllt rhwng yr iaith Gymraeg a'r agenda cyfle cyfartal. Dyfynnwn y paragraffau perthnasol o'r Cynllun Iaith:

3.3 *“Bydd ein polisiau yn parchu'r egwyddor y dylai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Dylai darpariaeth ddwyieithog fod yn rhan annatod o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus ... Disgwyliwn weld cyrff cyhoeddus eraill yn mabwysiadu'r un dull o weithredu.”*

3.3.2 *“Mae darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn rhan annatod o ansawdd gofal a byddwn yn disgwyl i'r rhai hynny sy'n arolygu ansawdd gwasanaethau yn gyffredinol i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau yn Gymraeg fel elfen annatod o'u gwaith. Bydd polisiau hyfforddi a recriwtio, ymchwil a strwythuro'r gwasanaeth yn adlewyrchu'r angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.”*

- 3.3.7 “Mae cydraddoldeb ieithyddol yn rhan o agenda cyfle cyfartal Llywodraeth y Cynulliad, a bydd yn cael ei gynnwys yn y gwaith ar gyfle cyfartal. Bydd y Llywodraeth yn disgwyl i sefydliadau eraill fabwysiadu'r un dull o weithredu. Bydd hyn hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith o fesur y ffordd y gweithredir agweddau ar y Siarter Ewropeaidd ar [gyfer (sic)] leithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol. Pan gyfeirir at gyfle cyfartal mewn dogfennau a datganiadau, bydd iaith yn cael ei chynnwys gyda hil, rhyw, anabledd a buddiannau cydraddoldeb eraill.”
- 3.3.13 “.. bydd mesur digonolrwydd ac ansawdd agweddau ar y ddarpariaeth Gymraeg yn dod yn arfer safonol mewn briffiau a methodolegau ar gyfer gwaith arolygu ac adolygu, ac yn rhan o fframweithiau adrodd ar berfformiad ... Byddwn hefyd yn adlewyrchu gofynion ieithyddol wrth bennu safonau.”<sup>9</sup>

Hyd nes y sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, Bwrdd yr Iaith Gymraeg oedd y prif gorff strategol oedd yn ymwneud â maes cynllunio iaith, a hynny am mai ef sy'n gweithredu ar ran y Llywodraeth i weinyddu a goruchwyllo gweithrediad Deddf 1993, a chynghori cyrff cyhoeddus, cyrff y Goron a'r cyhoedd ar ofynion y ddeddf ac arfer dwyieithog da. Dywed **cymal 3(1) y ddeddf** mai “*Swyddogaeth y Bwrdd fydd hwyluso a hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg*” ac mae'r Bwrdd wedi dehongli hyn mewn modd rhagweithiol a chreadigol iawn ar brydiau. Fodd bynnag, mae'n anochel bod gweithgarwch y Bwrdd wedi bod yn gyfyngedig i raddau helaeth i'r hyn a ddiffiniwyd yn Neddf 1993 ei hun, a'r hyn a ystyrir yn brif fyrddwn y ddeddf honno, sef y broses o baratoi, hwyluso a goruchwyllo gweithrediad Cynlluniau Iaith Gymraeg a marchnata a meithrin defnydd o'r gwasanaethau Gymraeg a ddarperir trwy'r broses honno. Mae'r pŵerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan **adran 32 Deddf Llywodraeth Cymru 1998** yn fwy penagored: “*The Assembly may do anything it considers appropriate to support...the Welsh language.*” Mae hwn yn bŵer eang sy'n caniatáu i'r Cynulliad gymryd camau rhagweithiol i gefnogi buddiannau'r iaith mewn llawer dull a modd drwy ei briod waith, ac y tu hwnt i'r meysydd y mae Deddf 1993 yn dylanwadu arnynt – er enghraifft mewn meysydd megis datblygu economaidd, maes cynllunio gwlad a thref, addysg a datblygu cymunedol. Ers sefydlu'r Cynulliad a'i Uned Iaith Gymraeg, gellid dadlau mai'r Cynulliad, yn hytrach na'r Bwrdd, sydd wedi chwarae'r rhan fwyaf blaenllaw mewn materion cynllunio iaith ar lefel cynllunio strategol a chenedlaethol. O ganlyniad, gwelwyd y datblygiadau canlynol:

- |                 |  |
|-----------------|--|
| 2001- 2002      | Pwyllgor Diwylliant a Phwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad yn cynnal ‘adolygiadau polisi o'r iaith Gymraeg’  |
| Gorffennaf 2002 | Cyhoeddi ‘ <b>Ein Hiaith: Ei Dyfodol - Adolygiad polisi o'r iaith Gymraeg</b> ’. <sup>10</sup> Dogfen a baratowyd ar y cyd gan Bwyllgor Diwylliant a Phwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ceir ynddi grynodedb o'u “Hadolygiad Polisi o'r iaith Gymraeg” yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus cynhwysfawr gan y ddau Bwyllgor. Mae'r ddogfen yn cyhoeddi argymhellion y ddau bwyllgor ar sail yr ymgynghoriad. |

<sup>9</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru*. Cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg Hydref 2002.

<sup>10</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Ein Hiaith: Ei Dyfodol – Adolygiad Polisi o'r iaith Gymraeg*, Caerdydd, Gorffennaf 2002.

Gorffennaf 2002	<p>Cyhoeddi <b>'Dyfodol Dwyieithog: A Bilingual Future'</b>.<sup>11</sup></p> <p>'Datganiad cychwynol' cryno iawn oedd y cyhoeddiad hwn yn dilyn yr adolygiad uchod, a chyn i'r cynllun gweithredu dilynol, <i>laith Pawb</i>, gael ei gyhoeddi. Mae'r datganiad yn pennu tair blaenoriaeth, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Ddwieithog;</li> <li>(ii) laith a Chymuned - Hyrwyddo cymunedau sy'n gynaliadwy yn economaidd ac yn gymdeithasol;</li> <li>(iii) laith a'r Unigolyn - cefnogi hawliau a chyfrifoldebau'r unigolyn.</li> </ul> <p>Trafodaeth fer iawn yn unig a geir dan bob un o'r penawdau hyn.</p>
Hydref 2002	<p>Cyhoeddi <b>Cynllun laith Gymraeg ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru</b></p>
Chwefror 2003	<p>Cyhoeddi <b>'laith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog'</b> (Gweler Pennod 1.4.1)</p>
Gwanwyn 2004	<p>Daeth yn ofynnol i bob Corff a noddir gan y Cynulliad gyflwyno 'Strategaeth Brif-ffrydio'r Gymraeg' i'w adran noddri berthnasol yn y Cynulliad.</p>
Tachwedd 2004	<p>Cyhoeddodd Prif Weinidog y Cynulliad y byddai Bwrdd yr laith Gymraeg ar ei ffurf bresennol yn cael ei ddiddymu.</p>
Mawrth 2006	<p>Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru – Ymgynghoriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar yr uno â Bwrdd yr laith Gymraeg.</p>
Rhagfyr 2006	<p>Cyhoeddi fersiwn diwygiedig o'r <b>Cynllun laith Gymraeg ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru</b>.</p>
Mehefin 2007	<p>Datganiad o fwriad i gyflwyno cais am <b>Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol</b> fyddai'n caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio <b>Mesur Cynulliad</b> ynghylch yr iaith Gymraeg.</p>

#### **1.4.1 laith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog**<sup>12</sup>

Dogfen yw hon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn dilyn yr ymarferiad ymgynghori a gynhaliwyd wrth gynnal yr adolygiad polisi a grybwyllir yn 1.4 uchod. Mae'n ddogfen ar ffurf 'cynllun gweithredu' sy'n ymateb i ganfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad a gynhaliwyd ac a gynhowyd yn *Ein Hiaith: Ei Dyfodol*.

**laith Pawb** yw'r brif ddogfen arweiniol a chyd-destunol bellach gan y Cynulliad ar gyfer ymdrin â pholisïau a strategaethau sy'n cyfrannu at ei nod o greu 'Cymru

<sup>11</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Dyfodol Dwyieithog – Datganiad Polisi*, Caerdydd, Gorffennaf 2002.

<sup>12</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *laith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog*, Chwefror 2003.

Ddwyieithog' – hynny yw, pob polisi a phob strategaeth yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Ar sail amcanion a gofynion y ddogfen hon mae Llywodraeth y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith Gymraeg ill dau yn blaenoriaethu a dyrannu adnoddau yn y maes.

Bid a fo am y gwendidau a'r diffygion y mae amryw o feirniaid wedi gweld ynddi, mae'r ddogfen **laith Pawb** yn bwysig iawn am mai'r cynllun gweithredu hwn yw'r un cyntaf yn hanes Cymru i gynllunio ar lefel lywodraethol ar gyfer hybu a gwarchod yr iaith Gymraeg drwy Gymru benbaladr. O'r herwydd, mae'n bwysig nodi'r ymrwymïadau ynddo a'r amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

### **laith Pawb – targedau allweddol<sup>13</sup>**

- (i) Cynyddu'r gyfran o siaradwyr Cymraeg gan 5% erbyn 2011 o'r sylfaen a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2001.
- (ii) Atal y lleihad yn nifer y cymunedau'r lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth.
- (iii) Cynyddu'r ganran o blant sy'n derbyn addysg feithrin Gymraeg.
- (iv) Cynyddu'r ganran o deuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith sgwrsio/cyfathrebu rhwng oedolion a phlant yr aelwyd.
- (v) Cyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddarparu mwy o wasanaethau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

### **Prif ddulliau gweithredu polisi laith Pawb**

- Sefydlu Uned Iaith Gymraeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC).
- Prif-ffrydio'r Gymraeg ym mhortffolios a phrosesau gwneud polisi pob un o Weinidogion y Cynulliad (tebyg i *Gyfle Cyfartal*, *Datblygu Cynaliadwy* ayyb). Prif-ffrydio hefyd yng ngwaith y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.
- Datblygu Cynllunio Iaith Cenedlaethol drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Rhoi *Cynllun Gweithredu* ar waith.
- Ystyried creu Fforwm Iaith.
- Datblygu gallu Bwrdd yr Iaith i ymchwilio a dadansoddi, gyda chymorth Cyfarwyddiaeth Ymchwil a Datblygu'r Cynulliad.
- Creu polisiâu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yng nghyswllt adfywio iaith.
- Cynnal adolygiad trylwyr o'r Cynllun Gweithredu yn 2007.

Mae llawer o'r syniadau a fynegwyd yn yr adolygiad polisi a gynhaliwyd gan Bwyllgor Diwylliant a Phwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad wedi eu cynnwys yn *laith Pawb*:

- Gweithredu egwyddor cyfartaledd iaith.
- CCC i weithredu diwylliant mewnol dwyieithog.
- Penderfynu sut y bydd y Gymraeg yn trawsdorri pob agwedd ar bolisi.
- Cynhyrchu deddfwriaeth ddwyieithog a datblygu tîm proffesiynol i ddrafftio cyfreithiau.
- Datblygu strategaeth gyfieithu genedlaethol.

---

<sup>13</sup> Ibid. tud. 11.

- Datblygu strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ar y rhyngwrwyd a datblygu dulliau cyfieithu technolegol.
- Blaenoriaethu categorïau gwaith cyfieithu CCC.
- Creu methodoleg ar gyfer asesu effaith ieithyddol datblygiadau newydd ar ardaloedd. Bwriedir i'r fethodoleg fod yn gymorth i weithredu 'polisi cynllunio cenedlaethol' a chynghor ynglŷn â'r iaith Gymraeg.
- Monitro Cynlluniau Datblygu Unedol.
- Ymchwil ar effaith gymdeithasol ac economaidd ail gartrefi.
- Diffinio'n well berthynas Cynulliad Cenedlaethol Cymru â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a lefelau eraill y llywodraeth, â sefydliadau, ac â'r gymdeithas sifil.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno adroddiadau blynyddol ar ei weithrediad o *Iaith Pawb* a'i Gynllun Iaith Gymraeg a chaiff y cynnydd ar weithrediad y cynllun ei ddadlau gan aelodau'r cynulliad. Cyhoeddir canlyniadau adolygiad annibynnol trylwyr cyntaf *Iaith Pawb* yn ddiweddarach eleni.

## 1.5 Casgliadau

Dengys y bennod hon bod sefyllfa ddeddfwriaethol y Gymraeg wedi cryfhau'n sylweddol ers dechrau'r ganrif ddiwethaf. Fodd bynnag, tra bod mabwysiadu Cynlluniau Iaith Gymraeg wedi cynyddu a gwella'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i unigolion trwy gyfrwng y Gymraeg, ceir anghysondeb yn y modd y gweithredir y Cynlluniau hyn ac, felly, anghysondeb yn y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir. Ym Mhennod 2, ystyriwn yn benodol wendidau'r gyfundrefn ddeddfwriaethol gyfredol a'r fframwaith polisi presennol.

\* \* \*



## Pennod 2: Gwendidau'r gyfundrefn ddeddfwriaethol gyfredol a'r fframwaith polisi presennol

Yn y bennod hon, ystyriwn y feirniadaeth gyhoeddus o wendidau'r ddeddfwriaethol gyfredol a'r fframwaith polisi presennol gan ddetholiad o sefydliadau a chymdeithasau. Bu tu hwnt i orchwyl y prosiect hwn i adrodd yn fanwl ar safbwynt pob corff, mudiad ac unigolyn sydd wedi datgan barn ar y materion hyn, megis y 178 o gyrff ac unigolion a gyfrannodd sylwadau yn ystod ymgynghoriad y Cynulliad ar Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg yn ystod 2001-2<sup>14</sup>. Cyflwynwn felly, flas o fyrdrwn rhai o'r prif safbwyntiau hyn i dynnu sylw at brif wendidau'r drefn gyfredol.

### 2.1 Gwendidau'r ddeddfwriaeth a'r fframwaith polisi presennol

#### 2.1.1 Cyngor Defnyddwyr Cymru

Mae Cyngor Defnyddwyr Cymru yn pwysleisio mai annigonol fu'r drafodaeth yng Nghymru am faterion defnydd iaith dros y blynyddoedd diwethaf, a chred fod hyn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth annigonol o bwysigrwydd ystyried iaith a pholisi iaith o safbwynt y rhai sy'n ei defnyddio<sup>15</sup>. Prif wendid Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn ôl y Cyngor, yw bod cyfyngu cynlluniau iaith sefydliadau i ddarparu gwasanaethau neu nwyddau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r hyn sy'n "briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol" (Cymal 5 (2)) yn golygu bod "darpariaeth wedi ei chyfyngu'n ddifrifol drwy osod anghenion llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus o flaen anghenion pobl"<sup>16</sup> a bod yr egwyddor hon yn arbennig o bwysig yn achos y gwasanaethau hynny lle mae cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd.

Serch ei wendidau, datgan y Cyngor yn ei ddogfen *Y Gymraeg fel Mater Defnyddwyr (1996)*:

*"Medrai cyfyngiadau'r Ddeddf fod yn dderbyniol pe byddai dyletswydd glir ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu eu cynlluniau iaith gyda defnyddwyr, drwy ymchwil defnyddwyr, a drwy ddealltwriaeth aeddfed o'r hyn mae'r cwsmeriaid ei eisiau ac, yn bwysicaf oll, yr hyn sydd ei angen i ddefnyddwyr iaith fedru defnyddio iaith yn hyderus ac ym mha amgylchiadau"<sup>17</sup>*

Credai'r Cyngor y dylai darparwyr sicrhau bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o natur y ddarpariaeth a gynigir ganddynt trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae beirniadaeth y Cyngor o wendidau'r sefyllfa bresennol yn cynnwys:

- (i) Dylid sicrhau bod llai o amrywiaeth yn safonau a mesurau cynlluniau iaith awdurdodau/cyrrff/busnesau, a'u dulliau o hysbysu eu cwsmeriaid am eu polisïau iaith.
- (ii) Dylid sefydlu trefn 'cael iawn' (*redress*) ar gyfer siaradwyr Cymraeg y gallant ei defnyddio wedi i ddarparwr fethu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg ar ôl ymrwymo i hynny yn y Cynllun Iaith.

<sup>14</sup> Gweler *Ein Hiaith: Ei Dyfodol – Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg* gan Y Pwyllgor Diwylliant a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, 2002.

<sup>15</sup> Cyngor Defnyddwyr Cymru, *Y Gymraeg fel Mater Defnyddwyr*, Gorffennaf 1996, tud. 3.

<sup>16</sup> Ibid. tud. 15.

<sup>17</sup> Ibid. tud. 20.

### 2.1.2 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Gellid crynhoi beirniadaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg o Ddeddf Iaith 1993 fel a ganlyn:

- Barn y Gymdeithas yw bod Deddf 1993 wedi methu:
  - Sicrhau bod y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg ym mhob agwedd ar fywyd;
  - Rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg;
  - Sefydlu dwyieithrwydd fel norm yng Nghymru;
  - Cydnabod y Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru.
- Mynnant nad yw'r "*ddeddfwriaeth bresennol yn gwarchod hawliau pobl Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg nac yn gwneud dim i hybu defnydd o'r iaith.*"<sup>18</sup>
- Pwysleisia'r Gymdeithas fod Deddf Iaith 1993 wedi ei chyfyngu i'r sector gyhoeddus sy'n golygu nad yw'r Ddeddf yn berthnasol i gwmnïau preifat na'r hen wasanaethau cyhoeddus a breifateiddiwyd (dŵr, nwy, trydan, a'r rheilffyrdd). Felly, yn ôl y Gymdeithas, mae "*bellach yn gwbl aneffeithiol o ran ateb anghenion y Gymraeg yn y ganrif newydd*"<sup>19</sup>.
- Noda'r Gymdeithas hefyd bod llawer o ddatblygiadau newydd yn y maes technolegol, e.e. ffonau symudol, yn ddatblygiadau yn y sector breifat, felly nid ydynt yn gorfod cydymffurfio â'r Ddeddf.
- O ran y sector breifat, dibynnir ar ewyllys da cwmnïau i gynnig gwasanaeth Cymraeg ac, yn ôl y Gymdeithas, nid yw hyn yn llwyddo ond mewn achosion eithriadol a chymharol brin.
- Bu'r Gymdeithas yn ymgyrchu i berswadio cwmnïau preifat i gynnig gwasanaeth Cymraeg. Dywedant fod rhai o'r cwmnïau hyn wedi ymateb trwy ddweud na fyddant yn newid eu polisi iaith hyd nes y bydd deddfwriaeth yn eu gorfodi i wneud hynny.
- Yn y sector gyhoeddus, cwyna'r Gymdeithas nad yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn llwyddo i fonitro cynlluniau iaith yn effeithiol.
- Cwynant, yn ogystal, fod Deddf 1993 yn galluogi pobl i weithredu'n uniaith Saesneg neu'n ddwyieithog o fewn y sector gyhoeddus, ond nid yn uniaith Gymraeg.

### 2.1.3 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

- Bu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n dadlau ei bod yn "*naturiol taw'r iaith 'ddiofyn' mewn busnes, llywodraeth a meysydd eraill yw Saesneg*"<sup>20</sup> gan fod bron pawb yng Nghymru yn siarad Saesneg, a thua 20% yn siarad Cymraeg. Mae'n mynd ymlaen i ddweud,

*"Fodd bynnag, mae peth amheuaeth a yw'r sefyllfa hon yn wir adlewyrchu'r Ddeddf. Gellid dadlau, er enghraifft, trwy ddisgwyl i rywun ofyn am wasanaeth yn Gymraeg lle byddai gwasanaeth cyfrwng-Saesneg yn cael ei ddarparu yn awtomatig, nad yw mynediad i wasanaeth cyfrwng-Cymraeg wedi cael ei 'normaleiddio'."*<sup>21</sup>

<sup>18</sup> *Deddf Iaith: Tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Arolwg Iaith*, Mehefin 2000.

<sup>19</sup> *Ibid.*

<sup>20</sup> Tystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i Adolygiad o'r Iaith Gymraeg gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, tud. 2.

<sup>21</sup> *Ibid.* tud. 2.

- Yn ei thystiolaeth i'r Adolygiad o'r Iaith Gymraeg gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r farn ei bod yn bosibl dadlau bod angen buddsoddi llawer iawn mwy o arian yn yr iaith Gymraeg.

*“Pe bai'r weinyddiaeth yn dewis darparu mwy o arian, gall llywodraeth leol ddechrau proses hirdymor i sefydlu a datblygu gweinyddiaeth ddwyieithog a fyddai'n darparu haen o lywodraeth – yr haen a ddefnyddir fwyaf gan y cyhoedd – lle mae'n haws defnyddio dwy iaith genedlaethol Cymru.”<sup>22</sup>*

#### 2.1.4 Cyngor Bwrdeistref Arfon (gynt)

Mae'r detholiad canlynol o gofnodion Pwyllgor Polisi Arfon, ar 10/2/93, yn dangos ei argymhellion nas gwiredwyd ar gyfer Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

1. *“Dylai statws y Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru fod yn eglur a hollol ddiamwys.*
2. *Dylai fod hawl statudol i'r sawl a saif ei brawf gerbron rheithgor i fynnu rheithgor hollol Gymraeg eu hiaith os dymuna hynny.*
3. *Dylai fod hawl statudol i rieni plant a addysgir yng Nghymru fynnu addysg Gymraeg iddynt os dymunant hynny.*
4. *Dylai'r gofynion i gyrff cyhoeddus parthed yr iaith Gymraeg fod yn berthnasol hefyd i gwmnïau'r gwasanaethau monopoli a breifateiddiwyd yn ddiweddar ac sy'n cyflenwi nwy, trydan, dŵr a gwasanaeth ffôn.”<sup>23</sup>*

#### 2.1.5 Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Yn ei bapur safbwynt *Sefyllfa Ddeddfwriaethol y Gymraeg*, rhestru'r Bwrdd brif wendidau Deddf 1993 ar sail ei brofiad o weinyddu'r Ddeddf.

1. *[N]id yw'r gyfundrefn bresennol yn gosod dyletswydd ar gyrff i ddarparu gwybodaeth yn ôl y gofyn i'r Bwrdd fel rhan o unrhyw ymchwiliad statudol o dan adran 17 y Ddeddf i ddiffyg gweithrediad cynllun iaith.*
2. *Nid yw pwerau'r Bwrdd o ran cyflwyno hysbysiad statudol a chymeradwyo cynlluniau iaith yn berthnasol i gyrff y Goron.*
3. *[O] dan Adran 10 (4)-(6) Deddf 1993, mae gofyn i'r Cynulliad gael sêl bendith Senedd San Steffan i unrhyw ddiwygiadau i ganllawiau statudol y Bwrdd ar baratoi Cynlluniau iaith. Yn sgîl datganoli, ac o gofio mai'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n arwain ar y maes polisi hwn, credwn y byddai'n briodol ac yn amserol i'r Cynulliad Cenedlaethol gael y pŵer i arwain y broses o ddiwygio'r canllawiau statudol ar baratoi Cynlluniau iaith.*
4. *Mae geiriad presennol y Ddeddf o dan Adran 16 yn cyfyngu pwerau statudol y Bwrdd o ran diwygio cynnwys Cynlluniau iaith cyrff. [...] Credwn y byddai dileu cymal 2 Adran 16 o gymorth sylweddol o ran pwysleisio natur ddeinamig Cynlluniau iaith a sut y byddant yn cael eu datblygu dros amser i sicrhau rhychwant ehangach o wasanaethau i'r cyhoedd.*
5. *Mae gafael y ddeddfwriaeth bresennol ar bartneriaethau yn aneglur a dylid ystyried diwygio Adran 6 y Ddeddf i'r perwyl hwn.”<sup>24</sup>*

<sup>22</sup> Ibid. tud. 4.

<sup>23</sup> Detholiad o gofnodion Pwyllgor Polisi Arfon (10/2/93).

<sup>24</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Sefyllfa Ddeddfwriaethol y Gymraeg: Papur Safbwynt gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg*, Ionawr 2006.

### 2.1.6 Colin H. Williams

Yn ei ddarlith ar 'Deddfwriaeth Newydd a'r Gymraeg' (2005), â Colin H. Williams i'r afael â gwendidau'r ddeddf bresennol. Gweler isod ddetholiad o'r pwyntiau a gododd:

- Pwysleisia ddiffygion Deddf Iaith 1993 o ran sefydlu hawliau ieithyddol: "*Hawliau sefydliadol sydd gennym ac nid hawliau fel unigolion.*"<sup>25</sup>
- "*Un maes lle y gellid cryfhau'r ddeddfwriaeth yw gosod dyletswydd ar gyrff i ddarparu gwybodaeth yn ôl y gofyn i'r Bwrdd fel rhan o unrhyw ymchwiliad statudol o dan adran 17 y Ddeddf i ddiffyg gweithrediad cynllun iaith. Mae cyrff wedi manteisio ar hyn ac wedi gwrthod cydweithio a darparu gwybodaeth sylfaenol i'r Bwrdd.*"<sup>26</sup>
- "*Mae Deddf 1993 hefyd yn sefydlu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Mae yna densiwn amlwg yn bodoli rhwng y ddau gymal uchod ac, ar lefel ymarferol, cynllun iaith corff yw'r modd i ddatrys y tensiwn hwn. Serch hynny, mae'n deg dweud bod cyrff yn aml yn defnyddio'r cymal yn ymwneud â phriodoldeb a rhesymoldeb yn fympwyol, i osgoi cyfrifoldeb a hefyd i weithredu mewn dull sy'n trin y ddwy iaith yn gyfartal.*"<sup>27</sup>

### 2.1.7 Casgliadau

Dengys yr enghreifftiau uchod bod barn gyhoeddus a phroffesiynol yng Nghymru yn adnabod nifer o wendidau sylfaenol yn perthyn i'r drefn statudol a sefydlwyd gan Ddeddf 1993. Edrychwn nesaf ar yr awgrymiadau ar gyfer cryfhau'r defnydd o'r ddeddfwriaeth a'r cynlluniau presennol er budd siaradwyr Cymraeg.

## 2.2 Galwadau am ddeddfwriaeth iaith newydd

Bu datgan angen deddfwriaeth iaith newydd byth ers sefydlu Deddf 1993 ar ffurf wannach nag y bu nifer fawr yn pwyso amdani. Daeth y galw hwnnw'n fwy amlwg ar droad y ganrif hon gyda Chymdeithas yr Iaith a Chymuned yn arwain y galw hwnnw'n gyhoeddus. Yn dilyn cyhoeddiad Prif Weinidog Cymru ym mis Tachwedd 2004 ynghylch y bwriad i ymgorffori Bwrdd yr Iaith gyda Llywodraeth y Cynulliad erbyn mis Ebrill 2007, cynyddodd y drafodaeth gyhoeddus ar y mater hwn. Unwaith yn rhagor, nid yw'n bosibl cyfeirio at bob cyfraniad i'r drafodaeth hon. Cyflwynwn felly flas o'r prif ddadleuon fel y'u cyflwynir hwy gan Gymdeithas yr Iaith, Cymuned a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

### 2.2.1 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Bu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn flaenllaw wrth bwysu am ddeddf iaith newydd. Cyflwynir dadleuon y Gymdeithas dros ddeddfwriaeth iaith mewn sawl dogfen a gyhoeddwyd ganddi sef: *Deddf Iaith Newydd i'r Ganrif Newydd* (Awst 2001), '*Y Gymraeg yn Goroesi Globaleiddio: Maniffesto Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*' (Ionawr

<sup>25</sup> Colin H. Williams, *Deddfwriaeth Newydd a'r Gymraeg*, 14 Hydref 2005, tud 5. (Fersiwn ddiwygiedig o ddarlith a draddodwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau, 4 Awst 2005.)

<sup>26</sup> Ibid. tud. 5-6.

<sup>27</sup> Ibid. tud. 6-7.

2003), *Deddf Iaith Newydd Gynhwysfawr i'r Gymraeg: Dyma'r Cyfle – Papur Trafod gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg – Cynigion ar gyfer Deddf Iaith Newydd* (Mehafin 2005), *Deddf Iaith Newydd: Dyma'r Cyfle – Cynigion Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar gyfer Deddf Iaith Newydd* (Mawrth 2006) a *Mesur yr Iaith Gymraeg 2007* (Mawrth 2007). Yn y bennod hon, dyfynnwn brif argymhellion y Gymdeithas o'r dogfennau hynny.

Geilw'r Gymdeithas ar Lywodraeth Genedlaethol Cymru i adolygu Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sicrhau Deddf Iaith newydd i'r Gymraeg.

*“Deddf iaith i'r Gymraeg ddylai fod un o'r deddfau cyntaf mae'r Cynulliad yn ei pharatoi o dan y trefniadau newydd a fwriedir ar gyfer ymestyn pwerau'r Cynulliad. Galwn am Ddeddf sy'n cynnwys:*

- *Datganiad clir mai'r Gymraeg yw priod iaith Cymru.*
- *Rhoi statws swyddogol di-amwys i'r Gymraeg yng Nghymru ac yng Ngwledydd Prydain.*
- *Hawliau ieithyddol sylfaenol i bobl Cymru fedru defnyddio a chael mynediad i'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd gan sefydlu hawl y Gymraeg i oroesi fel iaith gymunedol yng Nghymru.*
- *Ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn defnydd o'r Gymraeg neu unigolion sydd am gael mynediad i'r Gymraeg i'w hunain neu'r sawl sy'n ddibynnol arnynt.*
- *Cyfrifoldeb i ddarparu nwyddau, cyfleusterau, gwybodaeth a gwasanaethau Cymraeg yn unol â hawliau defnyddwyr a natur y gwasanaeth, nid yn ôl statws y darparwr(wyr).*
- *Sefydlu swyddogaeth a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ddatblygu a chefnogi gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg.*
- *Sefydlu Cyngor ar gyfer y Gymraeg sy'n ddemocrataidd a chynhwysol i gyfarwyddo a hysbysu gwaith Bwrdd yr Iaith.*<sup>28</sup>

### ***Dyfodol Bwrdd yr Iaith Gymraeg***

Bu cryn dipyn o drafodaeth am ddyfodol Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dilyn cyhoeddiad gwreiddiol Llywodraeth y Cynulliad i'w ymgorffori. Safbwynt Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yw:

*“Dylid cadw swyddogaethau a chyflogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel corff a'i droi yn gorff democrataidd yn atebol i Gyngor yr Iaith Gymraeg”*<sup>29</sup>

Manylir ar natur a dyletswyddau Cyngor yr Iaith Gymraeg fel a ganlyn:

*“Er mwyn sicrhau cyfranogiad ystod helaeth o gyrff statudol, gwirfoddol, preifat ac ymgyrchol yn y gwaith o greu dyfodol i'r Gymraeg, galwn am sefydlu Cyngor y Gymraeg, sef fforwm ar gyfer y Gymraeg sy'n ddemocrataidd a chynhwysol. Gallai fforwm o'r fath weithredu fel corff ymgynghorol i'r Llywodraeth ym maes y Gymraeg a byddai'n sicrhau partneriaeth rhwng y gwahanol sectorau er budd y Gymraeg”*<sup>30</sup>.

<sup>28</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Deddf Iaith Newydd: Dyma'r Cyfle!*, Mawrth 2006, tud 1-2.

<sup>29</sup> Ibid. tud. 14.

<sup>30</sup> Ibid. tud. 14.

Rhestrir y prif ddyletswyddau canlynol:

- *cyd-drefnu ymdrechion dros y Gymraeg*
- *diogelu strategaeth hirdymor dros y Gymraeg*
- *derbyn sylwadau gan unigolion a grwpiau am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg*
- *rhoi cyngor i'r Comisiynydd a Llywodraeth y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg*
- *comisiynu ymchwil ar agweddau ar sefyllfa bresennol y Gymraeg.*<sup>31</sup>

Wrth ystyried dyfodol y Bwrdd a mesur Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Dyfarnydd Cynlluniau Iaith Gymraeg, pwysleisia'r Gymdeithas wendidau argymhellion y Llywodraeth am swyddogaethau Dyfarnydd o'u cymharu â swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Mae'r Gymdeithas yn argymhell creu Comisiynydd y Gymraeg a fyddai'n:

*“bwynt ffocws unigryw ac annibynnol a fyddai'n gweithredu gyda grym i siarad ac ymyrryd ym mhob maes sy'n berthnasol i'r Gymraeg; addysg, tai a chynllunio, yr economi, diwylliant a hamdden, iechyd a gofal cymdeithasol gan gymryd camau pendant i sicrhau hawliau i siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg”*<sup>32</sup>.

Rhestra'r canlynol fel rhai o brif ddyletswyddau Comisiynydd y Gymraeg:

- *“ymarfer yr egwyddor fod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru a bod gan bawb yng Nghymru'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg a chael mynediad teg i'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd*
- *gan ymgymryd â chyfrifoldeb statudol i weithredu fel pencampwr/wraig dros y Gymraeg ac i ymchwilio i honiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r ddeddf iaith newydd*
- *helpu unigolion a chyrff sy'n barnu eu bod wedi cael cam o ran hawliau iaith i wneud cwyn neu ddwyn achos*
- *rhoi cyngor ar wybodaeth i bobl Cymru am eu hawliau iaith*
- *adrodd ar unrhyw fater sydd o fewn swyddogaethau'r comisiynydd gan gynnwys rhoi barn i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddeddfwriaeth a all effeithio ar ddyfodol y Gymraeg yn gyffredinol a hawliau siaradwyr a chymunedau Cymraeg yn benodol.*<sup>33</sup>

### **Darparu gwasanaeth yn Gymraeg ym mhob sector**<sup>34</sup>

Ym marn y Gymdeithas, y diffyg mwyaf amlwg yn Neddf Iaith 1993 yw nad yw'n cynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol, yn enwedig y gwasanaethau hynny sydd wedi'u preifateiddio.

*“Nid statws y darparwr sy'n bwysig yn y pen draw - boed yn gyhoeddus, yn breifat, neu'n wirfoddol - ond y ffaith ei fod yn cynnig nwyddau, cyfleusterau, gwybodaeth neu gwasanaethau i'r cyhoedd. Felly, dylai'r*

<sup>31</sup> Ibid. tud. 14.

<sup>32</sup> Ibid. tud. 14.

<sup>33</sup> Ibid. tud. 14.

<sup>34</sup> Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Deddf Iaith Newydd i'r Ganrif Newydd*, Awst 2001, Adran 01.3

*cyfrifoldeb i ddarparu'r pethau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn ddibynnol ar eu natur ac nid ar statws y darparwr.”<sup>35</sup>*

Mae'r Gymdeithas yn dadlau fod yna ddeddfwriaeth eisoes sy'n rhoi gorfodaeth ar y sector breifat i gydymffurfio mewn meysydd fel hawliau merched, lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a'r amgylchedd. Mae'n dadlau hefyd y gellid cynorthwyo busnesau i gydymffurfio trwy ostwng trethi busnes a chyflwyno'r newidiadau yn raddol dros amser. Gofynion penodol y Gymdeithas, felly, yw:

- *“Galwn am yr hawl i dderbyn gwasanaeth ac i ymwneud â phob darparwr gwasanaeth yn Gymraeg ...[yr] hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, dysgu Cymraeg a chael achos llys yn Gymraeg.*
- *Dylai'r cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaeth Cymraeg fod yn ddibynnol ar natur y gwasanaeth ac nid ar natur y darparwr. Dim ond wedyn y rhoddir cyfle cyfartal i siaradwyr Cymraeg.*
- *Mae'n ddyletswydd ar y Wladwriaeth i ddiogelu hawliau sylfaenol y rhai mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas e.e. trwy ymyrryd yn y farchnad rydd o bosib”.*<sup>36</sup>

Pwysleisia'r Gymdeithas na fyddai disgwyl *“i bob un corff preifat o bob maint ymateb i ofynion deddf newydd yn yr un ffordd ac yn ôl yr un amserlen. Ond, fe fyddai'n golygu cydnabod bod y sector breifat hefyd yn cynnig gwasanaethau cyhoeddus”*<sup>37</sup>.

Ym Maniffesto 2003 mae'r Gymdeithas yn cynnig matrices er mwyn **gwahaniaethu rhwng darparwyr gwasanaethau**<sup>38</sup> wrth osod disgwyliadau arnynt a mesur eu lefel cyrhaeddiad o ran gwasanaethau yn y Gymraeg. Byddai'r disgwyliadau'n amrywio ar sail nifer o ffactorau. Ymddengys y ffactorau sy'n rhan o'r matrices hwnnw ym Mesur Iaith Gymraeg 2007 y Gymdeithas, fel a ganlyn:

- a) nifer y personau a gyflogir gan y darparwr gwasanaethau;*
- b) lleoliad y darparwr gwasanaethau;*
- c) natur ieithyddol yr ardal y mae'r darparwr gwasanaethau yn ei gwasanaethu;*
- d) natur defnyddwyr y gwasanaethau; a*
- e) natur y gwasanaethau a ddarperir.”*<sup>39</sup>

*Hynny yw, yr un fyddai'r nod ar gyfer pob darparwr gwasanaeth yng Nghymru, ond sylweddolwn na fyddai'n bosibl chwyldroi'r sefyllfa dros nos. Bydd y matrices yn gyfrwng blaenoriaethu a chreu amserlen ystyrlon ar gyfer cyrraedd y nod.”*<sup>40</sup>

<sup>35</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Deddf Iaith Newydd: Dyma'r Cyfle!*, Mawrth 2006, tud.11.

<sup>36</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Deddf Iaith Newydd i'r Ganrif Newydd*, Awst 2001, Adran 01.3.

<sup>37</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Cynigion ar gyfer Deddf Iaith Newydd i'r Gymraeg*, Mawrth 2006, tud. 10.

<sup>38</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Y Gymraeg yn Goroesi Globaleiddio: Maniffesto Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*, Ionawr 2003.

<sup>39</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Mesur Yr Iaith Gymraeg 2007*, Rhan 3 (10).

<sup>40</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Y Gymraeg yn Goroesi Globaleiddio: Maniffesto Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*, Ionawr 2003, tud. 25.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynnig **diddymu'r Cynlluniau Iaith Gymraeg** a gosod **Safonau Cyrhaeddiad Ieithyddol Cenedlaethol** yn eu lle.

*“Rydyn ni am weld y system cynlluniau iaith yn dod i ben. Yn bennaf am eu bod yn ddull aneffeithiol o gynnal gwasanaeth Cymraeg. Mae rhai cyrff cyhoeddus yn dal heb gyflwyno cynllun iaith bron i 10 mlynedd ar ôl i'r ddeddf ddod i rym. Yn eu lle, bydd set o Safonau Cyrhaeddiad Ieithyddol Cenedlaethol ar gyfer gwahanol fathau o gyrff a busnesau a bydd disgwyl i bob corff a busnes gydymffurfio â'r Safon yn ôl eu lle ar y matrices. Swyddfa'r Comisiynydd Iaith fydd yn arolygu ac yn sicrhau cydymffurfiaeth.”<sup>41</sup>*

### **Cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn y chwyldro technolegol**<sup>42</sup>

- “Mae angen sicrhau lle i'r Gymraeg yn y byd electronig newydd, neu bydd y Gymraeg yn cael ei gadael ar ôl unwaith eto.”
- Nid yw Deddf Iaith 1993 yn crybwyll gwasanaethau electronig, e.e. gwefannau, felly mae nifer o gyrff cyhoeddus yn anwybyddu eu cyfrifoldebau i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn y maes hwn.
- Ewyllys da sydd tu ôl i gwmnïau preifat yn defnyddio'r Gymraeg, ond hyd yn hyn does dim un cwmni preifat yn defnyddio'r Gymraeg pan ddaw at dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac mae'r ffurf yma o gyfathrebu gyda'r cyhoedd yn dod yn fwyfwy amlwg a chyffredin.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, cyhoeddoedd y Gymdeithas ei **Mesur Iaith Gymraeg 2007** a fyddai, petai'n cael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn sefydlu:

1. Y Gymraeg yn Briod Iaith Cymru
2. Y Gymraeg yn Iaith Swyddogol
3. Yr Hawl i Gael Gwasanaethau yn Gymraeg
4. Yr Hawl i Weithio yn Gymraeg
5. Yr Hawl i Addysg Gymraeg
6. Comisiynydd Iaith Cymru
7. Cyngor yr Iaith Gymraeg

Rhestrir yn y Mesur y 'darparwyr gwasanaethau' y byddai disgwyl iddynt gymryd pob 'cam priodol' (gan gymryd ystyriaeth o'r ffactorau a restrwyd yn y matrices uchod) i ddarparu'u gwasanaethau yn Gymraeg:

(i) Cyrff y Goron;	(vi) pob gwasanaeth ariannol, yswiriant a phensiwn;
(ii) Cynulliad Cenedlaethol Cymru;	(vii) pob siop a lle manwerthu arall;
(iii) Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei hasiantaethau a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi;	(viii) pob cyfleuster adloniant a hamdden;
(iv) Pob corff cyhoeddus a bennwyd yn gorff cyhoeddus o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993;	(ix) pob man sy'n gwerthu bwyd neu ddiod i'r cyhoedd; a
(v) Pob cyfleustod cyhoeddus a reoleiddir nas cynhwysir yn (iv) uchod;	(x) phob gwesty, motel, gwely a brechwast a llety tebyg arall. <sup>43</sup>

<sup>41</sup> Ibid. tud. 25.

<sup>42</sup> Ibid. tud. 5.

<sup>43</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Mesur yr Iaith Gymraeg 2007*, Rhan 3 (5) (b).



## 2.2.2 Cymuned

Deillia gofynion *Cymuned* o'i phryder am sefyllfa, nifer a dwysedd y cymunedau Cymraeg eu hiaith sydd, yn ôl tystiolaeth y cyfrifiad, yn dirywio a'r ffaith bod y broses o ddirywio yn cyflymu yn hytrach na sefydlogi. Pwysleisia fod "*Cymru bellach yn wynebu'r posibilid real na fydd ganddi ymhen ychydig flynyddoedd unrhyw gymunedau Cymraeg gwledig neu bentrefol o gwbl, ac un gymuned Gymraeg drefol yn unig, sef Caernarfon.*"<sup>44</sup> Dyfynnwn isod o gyhoeddiad *Cymuned Tai, Gwaith ac Iaith*, (2001).

### **Cyfrifoldebau'r Cynulliad**

- *Geilw Cymuned ar y Cynulliad i ddatgan mai'r iaith Gymraeg yw priod iaith Cymru.*<sup>45</sup>
- Mae Cymuned yn galw ar y Cynulliad i gydymffurfio â 'Datganiad ar Hawliau Pobloedd sy'n perthyn i Leiafrifoedd Cenedlaethol, Ethnig, Crefyddol neu Ieithyddol' y Cenhedloedd Unedig:
  1. "*States shall protect the existence and the national or ethnic, cultural, religious and linguistic identity of minorities within their respective territories and shall encourage conditions for the promotion of that identity.*"
  2. "*States shall adopt appropriate legislative and other measures to achieve those ends*".<sup>46</sup> (Adran 1.3)
- Yn ôl Cymuned, mae angen:
  - "*Cyflwyno mesurau ieithyddol cryf fel y gall mewnfudwyr Saesneg eu hiaith ddysgu'r Gymraeg a dod yn rhan naturiol o'u cymunedau newydd.*"
  - "*Gweithredu cynllun triphlyg i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn os yw'r Gymraeg i oroesi fel iaith gymunedol; sef ym meysydd tai a chynllunio, datblygu economaidd a chynllunio ieithyddol.*"<sup>47</sup>

### **Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned**<sup>48</sup>

- "*Dylid sicrhau mai'r Gymraeg yw iaith fewnol awdurdodau lleol yn yr ardaloedd Cymraeg. Dylid sefydlu trefn o'r math yma yng nghynghorau Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin yn syth, gan ddilyn enghraifft Gwynedd. Er mwyn hwyluso hyn, dylid [...] hyfforddi staff di-Gymraeg.*" (adran 10.6)
- "*Dylid gwneud gwybodaeth o'r Gymraeg yn amod statudol i unigolion sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mewn sawl pentref, mae'r swyddfa bost leol yn darparu'r gwasanaethau hyn. Dylai'r sawl sy'n gweithio mewn swyddfa bost o fewn yr ardaloedd Cymraeg fedru'r Gymraeg.*" (adran 10.8)
- "*Dylid gosod amod statudol ar gwmnïau preifat yn y sector gwasanaethau yng Nghymru i gynnig gwasanaeth Cymraeg. I'r perwyl hwnnw, rydym yn cefnogi galwad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg am Ddeddf Iaith Newydd.*" (adran 10.9)

<sup>44</sup> Cymuned, *Tai, Gwaith ac Iaith*, 2001, tud. 3.

<sup>45</sup> Ibid. tud. 4.

<sup>46</sup> *The UN Declaration on the Rights of Persons Belonging to a National or Ethnic, Religious or Linguistic minorities* (1992). <http://www.un.org/documents/ga/res/47/a47r135.htm>

<sup>47</sup> Cymuned, *Tai, Gwaith ac Iaith*, 2001, tud. 9.

<sup>48</sup> Ibid. tud. 20-22.

## **Gweinyddiaeth y Cynulliad<sup>49</sup>**

- “Dylid sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth draws-bynciol a llorweddol yn y Cynulliad, yn union fel y gwneir gyda chyfle cyfartal.” (adran 11.1)

## **Llywodraeth yr Ardaloedd Cymraeg<sup>50</sup>**

Mae Cymuned yn dadlau nad yw ffiniau llywodraeth leol yn dilyn ffiniau ieithyddol – a bod rhai cymunedau Cymraeg wedi eu lleoli o fewn ardaloedd Cyngorau Sir Saesneg eu hiaith yn bennaf.

- “Gan fod y cymunedau Cymraeg yn debyg i’w gilydd o ran eu cyfansoddiad sosio-ieithyddol a phroffeil economaidd, credwn y dylid hybu cydweithio rhwng cymunedau Cymraeg ar draws y ffiniau gweinyddol hyn.” (adran 12.4)
- “I’r perwyl hwn, dylid sefydlu pwyllgor rhanbarthol y tu fewn i’r Cynulliad yn seiliedig ar yr ardaloedd Cymraeg.” (adran 12.5)
- “Dylid sefydlu Cyngor Statudol etholedig yn cynrychioli’r ardaloedd Cymraeg. Fe all y Cyngor Statudol newydd fod yn gyfrifol am yr amgylchedd ieithyddol, yn union fel y mae tri Awdurdod Parciau Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am yr amgylchedd gweledol. Dylai’r Cyngor Statudol hwn allu gosod targedau o ran isafswm perfformiad ieithyddol i gynghorau sir sydd â chyfrifoldeb am gymunedau Cymraeg. Yn hyn o beth, fe ddylai fod ganddo ddannedd cyfreithiol. Fe ddylai hefyd fod â chyfrifoldeb am osod is-ddeddfwriaeth yn y maes cynllunio.” (adran 12.6)
- “Fe ellid ystyried datblygu’r Mentrau Iaith maes o law i gael rhai swyddogaethau statudol yn lleol, ac edrych arnynt fel seiliau cymunedol y Cyngor Statudol newydd.” (adran 12.7)

### **2.2.3 Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

Safbwynt Bwrdd yr Iaith ar y mater yw ei bod yn “briodol adolygu cynnwys y ddeddfwriaeth bresennol”<sup>51</sup>. Cyhoeddodd bapur safbwynt ar *Sefyllfa Ddeddfwriaethol y Gymraeg* ym mis Ionawr 2006. Yn gryno, barn y Bwrdd yw bod angen:

- a. *Datblygu mesurau statudol pellach ym maes hawliau ieithyddol;*
- b. *Datblygu mesurau statudol i hyrwyddo gweinyddu dwyieithog o fewn cyrff cyhoeddus;*
- c. *Pennu deddfwriaeth sy’n amcanu i normaleiddio’r Gymraeg.*

Yn ei bapur safbwynt datgan y Bwrdd mai’r Cynulliad Cenedlaethol ddylai fod yn bennaf gyfrifol am ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â’r Gymraeg.

#### **a. Datblygu mesurau statudol ym maes hawliau ieithyddol**

Mae’r Bwrdd yn nodi sawl rheswm dros yr angen i adolygu Deddf 1993 a datblygu mesurau statudol pellach ym maes hawliau ieithyddol. Cyflwynir esboniad o safbwynt y Bwrdd ar y mater hwn ym Mhennod 3 (3.5.4) yr adroddiad hwn.

---

<sup>49</sup> Ibid. tud. 22-23

<sup>50</sup> Ibid. tud. 23-24.

<sup>51</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Sefyllfa Ddeddfwriaethol y Gymraeg: Papur Safbwynt gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg*, Ionawr 2006, tud. 1.

**b. Datblygu mesurau statudol i hyrwyddo gweinyddu dwyieithog o fewn cyrff cyhoeddus**

Cred y Bwrdd fod:

*“ mesurau i gefnogi'r Gymraeg yn y gweithle cyhoeddus yn greiddiol i ddatblygiad gwasanaethau cyhoeddus o'r radd uchaf yng Nghymru a rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Credwn felly ei bod yn angenrheidiol pennu mesurau penodol er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Dylai'r pwyslais fod ar gefnogi a datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac nid ei gorfodi ar unigolion”. (paragraff 19)*

**c. Pennu deddfwriaeth sy'n amcanu i normaleiddio'r Gymraeg**

- *mae angen deddfwriaeth sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg yn benodol, ac yn adlewyrchu'r nod o gynyddu'r cyfleoedd i ddinasyddion a chymdeithas sifil ddefnyddio'r Gymraeg. (paragraff 23)*
- *Dylid pennu'r Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol Cymru. Byddai hawliau dyletswyddau penodol yn deillio o'r datganiad statudol hwn. (paragraff 24)*
- *Credwn fod angen i unrhyw ddeddfwriaeth newydd sicrhau fod cynlluniau [iaith] yn cael eu diwygio'n rheolaidd, a'u bod yn cael eu hystyried nid yn unig fel dulliau o sicrhau cydraddoldeb ieithyddol a chydabod hawliau unigolion, ond hefyd yn fodd o sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg dros gyfnod o amser. (paragraff 25)*

#### **2.2.4 Cefnogaeth gyhoeddus i ddeddfwriaeth iaith newydd**

Er pan gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ei phapur trafod ar gyfer deddf iaith newydd ym Mehefin 2005<sup>52</sup> ac wrth i'w hymgyrch am ddeddf iaith ddwysáu, cafwyd ymateb cyhoeddus cadarnhaol iawn i gynigion y Gymdeithas. Gwelwyd nifer fawr o ddatganiadau cyhoeddus o blaid diwygio Deddf 1993 a chyflwyno deddfwriaeth iaith newydd gan unigolion dylanwadol. Dyfynnwn isod, fel enghraifft, eiriau'r Arglwydd Gwilym Prys Davies a Dr Robyn Lewis:

*“Os yw'r iaith i fyw, gwelwn mor gwbl anhepgor yw ein bod yn symud ymlaen yn ebrwydd i ddiweddarau a chryfhau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993:*

- *i atgyfnerthu safle'r iaith mewn gweinyddiaeth a gwasanaethau cyhoeddus;*
- *i roi hawliau ieithyddol i siaradwyr y Gymraeg sy'n dymuno ei siarad yn eu bywyd beunyddiol ac i'r Gymuned Gymraeg;*
- *i gynyddu'r ddarpariaeth o ysgolion Cymraeg;*
- *i greu canolfan i ddilysu a safoni termau yn y Gymraeg mewn meysydd newydd, ac*
- *i sefydlu Comisiynydd statudol i fod yn warcheidwad cyfansoddiadol dros y Gymraeg.” (Arglwydd Gwilym Prys Davies<sup>53</sup>)*

<sup>52</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Deddf Iaith Newydd: Dyma'r Cyfle!*, Mehefin 2005.

<sup>53</sup> Dyfyniad o lythyr gan yr Arglwydd Gwilym Prys Davies at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cefnogi'r ymgyrch dros Ddeddf Iaith Newydd.

*“I’m tyb i, mae’n rhaid gwasgu’r danadl, a pheri gwneud hawl i wneud y Gymraeg yn orfodol, mewn gweinyddiad, mewn cyfraith, mewn busnes a diwydiant, ac mewn addysg. Dim ond trwy ddeddfwriaeth – a honno’n ddeddfwriaeth gref – y gellir hyn. Mae’r diffyg presennol yn y pwerau a’r galluoedd i beri defnyddio’r Gymraeg yn ei gwlad ei hun yn profi’n eglur mai Deddf Iaith Newydd, ac nid unrhyw bolisiau nac ewyllys da, sydd angen. Ac unwaith y ceir yr hawliau angenrheidiol, rhaid eu gweithredu”. (Dr Robyn Lewis<sup>54</sup>)*

## **2.3 Safbwyntiau’r pleidiau gwleidyddol ynghylch deddfwriaeth a’r Gymraeg**

Bellach, ceir cefnogaeth drawsbleidiol i hyrwyddo’r Gymraeg. Rhestrwn y prif ymrwymïadau ynglŷn â’r Gymraeg a ymddangosodd mewn datganiadau diweddar gan y pleidiau ac ym manifestos y pedair plaid ar gyfer etholiad cyffredinol Cymru 2007.

### **2.3.1 Y Blaid Lafur**

Yn ei dogfen *Final Stage Policy Document November 2006* noda’r Blaid Lafur ei bwriad petai mewn grym ar ôl yr Etholiad ym mis Mai 2007:

*“In our third term we will bring forward proposals to merge the Welsh Language Board with the Assembly Government...”*

*“Where it is necessary for functions to be carried out at arms length from government we will introduce a new statutory adjudication and regulatory office. Known as the Dyfarnydd, its responsibilities will include regulating the Welsh Language Scheme of the Assembly Government and assisting the public to receive public services in Welsh...”*

*“We will continue to reject calls for major new legislation as we do not believe compulsion on private sector businesses such as shops or banks, is in the interests of Wales or in the interests of the language. Likewise, we continue to reject calls for the introduction of a Quebec style, rights based agenda for the language.”<sup>55</sup>*

Yn ei manifesto ar gyfer etholiad cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2007, *Building a Better Wales: Welsh Labour Election Manifesto 2007*, datgan y Blaid Lafur fel a ganlyn:

*“Labour is committed to a strong future for the Welsh language. It is a unique cultural asset of the nation and no party or pressure group has the right to claim ownership of it. Over the last eight years we have backed our commitment with investment, with Assembly spending on supporting the language rising by an additional £28m over the last three years.”*

<sup>54</sup> Dyfyniad o lythyr gan Dr Robyn Lewis at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cefnogi’r ymgyrch dros Ddeddf Iaith Newydd.

<sup>55</sup> Y Blaid Lafur, *Final Stage Policy Document*, November 2006, tud. 3.

*“Great progress has been made in helping more people to learn and to speak Welsh. Public bodies, quite rightly, have a legal obligation to use both our national languages. We will legislate to establish a Dyfarnydd, to be an impartial arbitrator of their Welsh language schemes, and to advise Government. There will be no legislation to compel private sector businesses such as factories, shops and banks to operate in Welsh. We believe that positive engagement and investment, not compulsion and sanctions, are the best way forward for the Welsh language.*

*“The future of the language rests with children and young people. We will encourage local councils to respond positively to the rising demand for Welsh medium education. We will support English- medium schools to offer the choice of taking some subjects through the medium of Welsh. We will encourage Welsh speaking parents to pass on the gift of bilingualism to their children by funding a nationwide Twf programme.”<sup>56</sup>*

### **2.3.2 Plaid Cymru**

Ym mis Gorffennaf 2006, cyhoeddodd Plaid Cymru ei hadroddiad *O Blaid y Gymraeg: Adroddiad Comisiwn Polisi Iaith Plaid Cymru* ac ynddo crynhoir safbwyntiau'r Blaid fel a ganlyn:

#### **1. “Deddf Iaith Newydd**

*Mae Deddf Iaith 1993 bellach yn annigonol ac yn anaddas. Geilw Plaid Cymru am Ddeddf Iaith Newydd fyddai'n sicrhau statws swyddogol i'r Gymraeg ac yn sefydlu hawliau ieithyddol penodol i siaradwyr Gymraeg a hynny cyn ymgorffori Bwrdd yr Iaith Gymraeg.*

#### **2. Uned yr Iaith Gymraeg**

*Yn ogystal geilw Plaid Cymru am sefydlu Uned yr Iaith Gymraeg i gael ei sefydlu yn Swyddfa'r Prif Weinidog er mwyn sicrhau statws a sicrhau dylanwad trawstoriadol cyn ymgorffori Bwrdd yr Iaith Gymraeg.*

#### **3. Comisiynydd yr Iaith Gymraeg**

*Y trydydd mesur y geilw Plaid Cymru am ei fabwysiadu cyn ymgorffori Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw sefydlu Comisiynydd yr Iaith Gymraeg. Byddai'n rôl cwblw annibynnol grymus gyda'r hawl i fynnu bod sefydliadau yn gorfod cydymffurfio â'u cynllun iaith.*

#### **4. Strategaeth Addysg Genedlaethol**

*Byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn creu Strategaeth Addysg Genedlaethol er mwyn sicrhau datblygu darpariaeth addysg Gymraeg yn effeithiol.*

#### **5. Ehangu'r cyfleoedd i dderbyn addysg Gymraeg**

i) *Mae Plaid Cymru yn awyddus i weld ehangu'r ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng addysg i ardaloedd megis Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.*

---

<sup>56</sup> Y Blaid Lafur, *Building a Better Wales: Welsh Labour Election Manifesto 2007*, tud. 29-30.  
**Ni chafwyd hyd i fersiwn Gymraeg o'r cyhoeddiad hwn.**

- ii) *Byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn gofalu bod Awdurdodau Lleol mewn ardaloedd megis yr hen Forgannwg a Gwent yn cynnal arolwg o rieni er mwyn pennu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.*

**6. Uned Cymraeg i Oedolion**

*Byddai Plaid Cymru yn sefydlu Uned Cymraeg i Oedolion gan fod y maes hwn yn un a chanddo botensial i weddnewid sefyllfa ieithyddol Cymru.*

**7. Coleg Ffederal Cymraeg**

*Mae darpariaeth Gymraeg yn ein Prifysgolion yn gyson ddibynnol ar eywyllys da. Cefnoga Plaid Cymru yr alwad am Goleg Ffederal Cymraeg.*

**8. Tai Fforddiadwy**

*Cred Plaid Cymru fod sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol yn gyfrifoldeb Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai gyda chymorth gan Llywodraeth y Cynulliad.*

**9. Cynllunio a'r Iaith**

*Cred Plaid Cymru y dylai'r holl gyfundrefn gynllunio roi pwyslais ganolog ar yr iaith Gymraeg, credwn fod angen datblygu a chryfhau TAN 20 gan gynnwys darparu canllawiau pendant a chlir ar sut i lunio Astudiaeth Ardrowiad Iaith.*

**10. Fforymau Iaith Lleol**

*Byddai Plaid Cymru yn sefydlu Fforymau Iaith Lleol er mwyn dwyn ynghyd yr holl bartneriaid yn y sector wirfoddol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r gymuned er mwyn trafod a chynllunio sut i gynyddu ac i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd ein cymunedau.*

**11. Datblygu economaidd a chynllunio ieithyddol**

*Byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn sicrhau y byddai Uned yr Iaith Gymraeg yn datblygu arbenigedd mewn datblygu economaidd a chynllunio ieithyddol.*

**12. Y Gymraeg yn y gweithle**

*Er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle cred Plaid Cymru y dylid gweithio ar amserlen dymor hir i droi iaith weinyddiaeth Awdurdodau Lleol Ceredigion, Ynys Môn a Sir Gaerfyrddin yn Gymraeg gan eu bod eisoes yn gwneud defnydd gweddol helaeth o'r iaith.*

**13. Cymhwyster Cymraeg Proffesiynol**

*Byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn creu Cymhwyster Cymraeg Proffesiynol gan roi gwerth gyrfaoi i ddysgu'r Gymraeg.*

**14. Symudedd Poblogaeth**

*Byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn parhau gyda gwaith ymchwil i symudedd poblogaeth i hwyluso'r cyfleoedd i symud yn ôl i ardaloedd gwledig.<sup>57</sup>*

Yn Gwna Wahaniaeth!: Maniffesto Etholiad y Cynulliad Cenedlaethol 2007 noda'r Blaid y canlynol ynghylch yr iaith Gymraeg:

<sup>57</sup> Plaid Cymru, *O Blaid y Gymraeg: Adroddiad Comisiwn Polisi Iaith Plaid Cymru*, 2006, tud. 4-5.

*“Mae’r iaith Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, boed yn siarad yr iaith ai peidio. Mae’n drysor gwerthfawr sydd angen ei ddiogelu a’i hyrwyddo.*

*Nod Plaid Cymru yw creu cymdeithas wirioneddol ddwyieithog. ‘Rydym am weld pawb yng Nghymru yn cael pob cyfle i ddysgu a defnyddio’r Gymraeg.*

***Bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn cyflwyno Deddf Iaith Newydd a fydd yn sylfaen gref i greu cymdeithas gwbl ddwyieithog. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn sicrhau statws cyfartal i’r Gymraeg, creu hawliau i unigolion dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a sefydlu swydd Comisiynydd Iaith er mwyn sicrhau bod buddiannau’r Gymraeg yn cael eu gwarchod a’u hyrwyddo mewn modd rhagweithiol.***

***Gall adrannau Llywodraeth gyflawni rôl bwysig yn hyrwyddo’r Gymraeg mewn gwahanol ardaloedd, megis addysg, tai, cynllunio a chyflogaeth. Fe fyddwn yn creu uned iaith bwerus yn Swyddfa’r Prif Weinidog i sicrhau cydlynu effeithiol o bolisiau ymhob rhan o lywodraeth.***

***Mae Plaid Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ar bob lefel a bydd ein Llywodraeth yn cefnogi sefydlu Coleg Ffederal i gynnig darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein prifysgolion, fel ag amlinellir yn yr adran Seiliau Cryf.”<sup>58</sup>***

### 2.3.3 Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Yn eu dogfen *Creu Cyfle Adeiladu Cymuned: Maniffesto Byr Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar yr Iaith Gymraeg* (14 Ebrill 2005) noda’r Democratiaid Rhyddfrydol y canlynol:

*“Er mwyn cael cenedl sy’n wirioneddol ddwyieithog byddwn yn gwneud mwy i gefnogi, hwyluso a hyrwyddo Cymraeg ym mhob rhan o fywyd. Byddwn ni’n:*

- Cefnogi cymunedau wrth [g]ael gafael [â]’r argyfwng tai fford[d]iadwy [a] hyrwyddo gwasanaethau a rhwydwaith cymunedol cryf.*
- Ei hwyluso trwy basio Deddf Iaith Gymraeg newydd a fydd yn ei gwneud hi’n rhwyddach i bobl Cymru ddefnyddio’r iaith ym mywyd pob dydd.*
- Hyrwyddo addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog a gwella dilyniant mewn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.”<sup>59</sup>*

Â’r ddogfen yn ei blaen i ymhelaethu ar safbwyntiau’r Democratiaid Rhyddfrydol o ran y Gymraeg. Crynhoir y prif safbwyntiau isod:

*“Mae angen Deddf Iaith Gymraeg newydd er mwyn cynnwys y gwasanaethau hynny sydd wedi ymfudo o’r sector gyhoeddus [i]’r sector breifat ers i’r Ddeddf gyfredol gael ei phasio ... Mae uniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth y Cynulliad yn galw am ddeddf iaith newydd. Rhaid dadlau a thrafod union amcanion a chyrhaeddiad y ddeddf newydd yn drwyadl, gan gynnwys sectorau, cymunedau a sefydliadau ledled Cymru...”*

<sup>58</sup> Plaid Cymru, *Gwna Wahaniaeth!: Maniffesto Etholiad y Cynulliad Cenedlaethol 2007*, tud. 32.

<sup>59</sup> Democratiaid Rhyddfrydol, *Creu Cyfle Adeiladu Cymuned: Maniffesto Byr Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar yr Iaith Gymraeg*, 14 Ebrill 2005.

*“Fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rydym yn credu bod gan bob unigolyn, lle bynnag y byddo’n ymarferol, yr hawl i gyfathrebu yn ei (h)iaith ddewisol gyda’r llywodraeth, gyda’i gymunedau/chymunedau a gyda’i gilydd...*

*“Hoffai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru weld y Cynulliad Cenedlaethol yn cael mwy o bwerau fel y gall Cymru gael Senedd ei hun. Byddai senedd sydd â’r un pwerau â Senedd yr Alban yn rhoi’r offer sydd [ei] angen ar y wlad i wneud y gwaith a thrwy gael Senedd Gymreig, byddem yn sicrhau bod yr iaith yn cael ei chefnogi, ei hwyluso a’i hyrwyddo ar draws bob agwedd o fywyd Cymreig.”<sup>60</sup>*

Mae’r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn ystyried y cysyniad o **“Adeiladu Cymuned”** a fyddai’n:

*“cynnig gwell cyfleoedd i’r Gymraeg ffynnu, megis mwy o fuddsoddi mewn cludiant, mynd i’r afael â’r argyfwng tai fforddiadwy, diogelu a hyrwyddo gwasanaethau lleol, darparu adnoddau ychwanegol i Fenter a Busnes, darparu cyrsiau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg, a diogelu ysgolion cefn gwlad.”<sup>61</sup>*

Yn eu maniffesto *Dyfodol Teg, Dyfodol Gwyrdd* ar gyfer Etholiad Cyffredinol Cymru 2007<sup>62</sup>, ymrwma’r Democratiaid Rhyddfrydol i:

- *gefnogi deddf iaith newydd er mwyn cynnwys yr hawl i wasanaeth yn Gymraeg;*
- *gwneud y Gymraeg a’r Saesneg yn ieithoedd swyddogol Cymru;*
- *ailgadarnhau annibyniaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyda phwerau’r un fath â Chomisiynydd i ymchwilio cwynion a wnaed wedi i’r hawliau newydd gael eu cyflwyno;*
- *annog Bwrdd yr Iaith Gymraeg i flaenoriaethu cynlluniau ar gyfer hyrwyddo’r cyfleoedd i’r Gymraeg gael ei defnyddio gan ac oddi mewn i gwmnïau a sefydliadau;*
- *datblygu ac ehangu Ardaloedd Gweithredu Iaith, er mwyn helpu gwrthdroi’r tueddiad tuag at ddiboblogi a sicrhau croesawu ac integreiddio unigolion sy’n symud i mewn i ardaloedd Cymraeg;*
- *sicrhau y bydd cynlluniau ar gyfer Ardaloedd Gweithredu Iaith yn cynnwys annog trosglwyddo’r iaith Gymraeg rhwng y cenedlaethau a’i hyrwyddo fel iaith gymunedol;*
- *annog cydweithredu rhwng cyrff a sefydliadau lleol er mwyn hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg mewn cymunedau;*
- *hyrwyddo’r defnydd cymunedol llawn o’r Gymraeg ym mhob rheng o addysg o feithrinfeydd i addysg oedolion.*

---

<sup>60</sup> Ibid.

<sup>61</sup> Ibid.

<sup>62</sup> Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, *Dyfodol Teg, Dyfodol Gwyrdd*, Maniffesto ar gyfer Etholiad Cyffredinol Cymru 2007.



### 2.3.4 Y Ceidwadwyr Cymreig

Mewn datganiad i'r wasg ar 19 Rhagfyr 2006 noda'r Ceidwadwyr eu bod yn galw "am i'r iaith Gymraeg gael statws iaith swyddogol ac i gomisiynydd iaith annibynnol gael ei benodi".<sup>63</sup> Âr datganiad yn ei flaen i ddatgan y canlynol:

*"Mae'r blaid hefyd wedi ymrwymo i adolygu Deddf yr Iaith Gymraeg – a gyflwynwyd ym 1993 – gan ddadlau nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn cyrraedd ei llawn botensial i greu Cymru ddwyieithog.*

*Mae'r polisïau yn ffurfio conglfaen argymhellion y blaid i hybu mwy o ddefnydd o'r iaith ac amddiffyn hawliau siaradwyr Cymraeg a Saesneg.*

*O dan yr argymhellion byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn sefydlu comisiynydd iaith, a fyddai'n annibynnol o'r Llywodraeth, er mwyn rheoleiddio a gorfodi deddfwriaeth ar ran siaradwyr Cymraeg a Saesneg.*

*Byddai'r comisiynydd hefyd yn gweithredu fel ymgynghorydd er mwyn sicrhau y cedwid at ysbryd y ddeddfwriaeth newydd.*

*Heddiw [19 Rhagfyr 2006], datganodd y Ceidwadwyr Cymreig eu bwriad unwaith yn rhagor i gadw fersiwn symlach o Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a fyddai'n gweithio ar y cyd â'r comisiynydd newydd...*

*O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid yw'r Gymraeg yn cael yr un statws swyddogol â Saesneg.*

*Yn hytrach, mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cyfeirio at y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn "gyfartal" ond o dan amgylchiadau cyfyngedig yn unig megis mewn busnes cyhoeddus ac yn y llysoedd cyn belled ag y bo hi'n "briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol".*

*Mae'r Ceidwadwyr Cymreig hefyd am annog yn hytrach na gorfodi'r sector breifat i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.*

*Ond mae'r blaid yn mynnu nad ydyw yn ymarferol i orfodi cwmnïau, yn enwedig cwmnïau bychain, i ddefnyddio Cymraeg a Saesneg."<sup>64</sup>*

Dyfynnir isod safbwynt y Ceidwadwyr Cymreig ynghylch yr iaith Gymraeg yn eu Maniffesto ar gyfer Etholiad y Cynulliad Cenedlaethol 2007:

*"Mae'r Ceidwadwyr Cymreig o'r farn y dylid rhoi statws iaith swyddogol i'r Gymraeg, ac y dylid creu comisiynydd iaith annibynnol. Mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu am y tro cyntaf ers 1891, yn ôl cyfrifiad 2001, yn rhannol oherwydd polisïau'r Ceidwadwyr rhwng 1979 a 1997. Ond dim ond dechrau taith hir yw hyn, ac nid ei diwedd buddugoliaethus. Mae angen i ni gymryd cam mentrus arall ac ymrwymo ein hunain i greu cenedl gwbl ddwyieithog. Byddai llywodraeth Geidwadol yng Nghymru yn sefydlu uned adfer iaith i archwilio'r dystiolaeth ryngwladol yn y maes hwn"<sup>65</sup>.*

<sup>63</sup> 'Y Gymraeg yn haeddu statws iaith gyfreithol', 19 Rhagfyr 2006.

[http://www.conservatives.com/tile.do?def=wales.news.story.page&obj\\_id=134219](http://www.conservatives.com/tile.do?def=wales.news.story.page&obj_id=134219)

<sup>64</sup> Ibid.

<sup>65</sup> Ceidwadwyr Cymreig, *Pleidleisiwch dros y Ceidwadwyr Cymreig am newid*, Maniffesto ar gyfer Etholiad Cyffredinol Cymru 2007, tud. 27.

Ac ymhellach, noda'r blaid sut y byddai'n "Creu Cymru Ddwylieithog":

*"Byddai'r Mesur hwn yn rhoi statws iaith swyddogol i'r Gymraeg a'r Saesneg, a hefyd yn:*

- creu swyddfa Comisiynydd iaith ac yn amlinellu swyddogaethau'r swyddfa honno;*
- gosod dyletswydd ar lywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol a chyrff."*<sup>66</sup>

### 2.3.5 Llywodraeth Glymblaid Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn eu rhaglen llywodraethu Cymru, **Cymru'n Un**<sup>67</sup>, datgan y Blaid Lafur a Phlaid Cymru fel a ganlyn:

*Mae'r Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru, ac yn rhan o'n treftadaeth, ein hunaniaeth a'r lles cyhoeddus sy'n eiddo i ni i gyd. Byddwn yn gweithio i sicrhau gall mwy o bobl, yn hen ac yn ifanc, ddysgu Cymraeg a'i helpu i ffynnu fel iaith fyw mewn cymunedau lu ledled Cymru.*

- Byddwn yn ceisio cael mwy o hawl i ddeddfu o safbwynt yr iaith Gymraeg. Gyda'n gilydd, byddwn yn gweithio i ehangu cwmpas y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer yr iaith Gymraeg sydd wedi'i gynnwys yn rhaglen deddfwriaethol blwyddyn gyntaf llywodraeth y Cynulliad, gyda'r nod o greu Mesur Cynulliad newydd i gadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, hawliau ieithyddol o safbwynt darparu gwasanaethau a sefydlu swydd Comisiynydd iaith.*
- Byddwn yn parhau â'n hymdrechion i sicrhau cytundeb ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd penodol o fusnes yr Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn defnyddio'r profiad hwn i drafod â llywodraeth San Steffan ynghylch gwneud cais swyddogol i Gyngor y Gweinidogion i'r Gymraeg gael statws iaith gwaith a statws iaith swyddogol yn yr UE.*
- Byddwn yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg.*
- Byddwn yn cefnogi ymgyrch dot.cym i gael statws enw parth i Gymru ar y rhyngwyd.*
- Byddwn yn parhau â gwaith ymchwil i shifftiau yn y boblogaeth er mwyn hybu cydbwysedd yn y boblogaeth ym mhob rhan o Gymru*<sup>68</sup>.

---

<sup>66</sup> Ibid. tud. 27.

<sup>67</sup> *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru.* Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol, 27 Mehefin 2007.

<sup>68</sup> Ibid. tud. 35-36.

### 2.3.6 Cefnogaeth drawsbleidiol i roi blaenoriaeth i'r Gymraeg yn ystod 3ydd tymor Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ceir tystiolaeth y bydd yr agenda ar gyfer y Gymraeg yn cael sylw buan a chefnogaeth drawsbleidiol yn y Cynulliad. Ar Fehefin 27 2007 pasiwyd yn unfrydol "Gynnig NDM3623 fel y'i diwygwyd bod:

#### *Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

1. yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i lunio rhaglen weithredu er mwyn i Gymru fod yn fwy dwyieithog, gan gynnwys:

- a) creu swyddfa comisiynydd iaith ac amlinellu swyddogaethau'r swyddfa honno;
- b) cyflwyno deddfwriaeth i sefydlu hawliau i unigolion dderbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a chadarnhau statws swyddogol Cymraeg a Saesneg;
- c) cefnogi'r ymgyrch dotCYM i ddynodi parth rhyngrywyd lefel uchaf ar gyfer yr iaith Gymraeg a'i chymuned ddiwylliannol;
- d) diwygio 'Nodyn Cyngor technegol (Cymru) 20: Yr Iaith Gymraeg – Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio' (2000) i gryfhau arweiniad ar gyfer astudiaethau ar gyfer effaith ar yr iaith;

2. yn condemnio gweithredoedd diweddar Thomas Cook i atal defnyddio'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd yn y gweithle<sup>69</sup>.

Cyflwynodd Prif Weinidog y Cynulliad, Rhodri Morgan AC, ddatganiad ar 6 Mehefin 2007 y byddir yn cyflwyno 6 cais i lywodraeth San Steffan am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD), gyda'r Gymraeg ymysg y ceisiadau hyn.<sup>70</sup> Mae'r broses o lunio cais ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) fyddai'n rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cynulliad Cymru lunio Mesur Cynulliad Cymru ar yr iaith Gymraeg eisoes wedi dechrau mynd rhagddo. Rhagwelir y bydd y gwaith o lunio'r cais ar gyfer y GCD yn parhau am gyfnod o tua thri mis gyda'r cam cyntaf yn y broses o gyflwyno GCD yn San Steffan yn debyg o ddigwydd yng ngwanwyn 2008.

**Argymhelliad 5: Dylid ystyried cyfleoedd i ddeddfu i sicrhau hawliau i bobl Cymru fedru defnyddio a chael mynediad i'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd.**

<sup>69</sup> Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cymru Ddwyieithog, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 27 Mehefin 2007.

<sup>70</sup> "Yn ein trafodaethau gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol edrychwyd hefyd ar gynigion ar gyfer Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, ac, eto, yr wyf yn awyddus i gynnwys pleidiau eraill mewn trafodaeth bellach ar y pwnc. Yr wyf am sicrhau bod digon o amser ar gael i weithio tuag at gasgliad y gallwn gytuno arno, a byddwn yn gosod y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw yn ein rhaglen ar gyfer yr hydref er mwyn caniatáu o leiaf dri mis i'r trafodaethau ddwyn ffrwyth. Wedi hynny, bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol perthnasol yn cael ei gyflwyno ger eich bron". Geiriau Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru yn y Datganiad am y Rhaglen Ddeddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dydd Mercher, 6 Mehefin 2007, tud.5.

## 2.4 Casgliadau

Gwelir felly bod yr agenda ar gyfer diwygio Deddf 1993 a chyflwyno mesur(au) iaith newydd yn un eang. Gwelir, yn ogystal, y ceir cefnogaeth drawsbleidiol bellach i'r galw am lunio deddfwriaeth newydd ynglŷn â'r Gymraeg, a hynny'n cael lle o fewn amserlen y Cynulliad ar gyfer hydref 2007. Y prif gonsŷrn ym mhob achos a adolygwyd yw'r angen i gryfhau eto ar hawliau unigolion i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r pwyslais ar hawliau ieithyddol yn amserol ac yn adlewyrchu nifer o ddatblygiadau deddfwriaethol ar lefel Ewropeaidd a Phrydeinig sy'n rhoi pwyslais ar hawliau'r unigolyn gan gynnwys yr hawl i ddefnyddio ieithoedd lleiafrifol. Trafodwn hawliau ieithyddol ym Mhennod 3.

\*

\*

\*

## Pennod 3: Deddfwriaeth a'r hawl i dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg

Yn y bennod hon, ystyriwn y dadleuon dros sefydlu hawliau iaith statudol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Dechreuwn trwy gymharu statws cyfreithiol hawliau siaradwyr Cymraeg â hawliau grwpiau 'lleiafrifol' eraill i beidio â phrofi cam-wahaniaethu. Edrychwn, yn arbennig, ar yr hawliau a sefydlir yn sgîl y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (1995) a Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000. Ceir datganiadau pendant ynglŷn â hawliau ieithyddol grwpiau iaith lleiafrifol yn neddfwriaeth ryngwladol a gwelwn sut mae cadarnhad Prydain o Siarter Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol wedi cyfrannu at newid yr hinsawdd iaith a'r agenda cydraddoldeb yng Nghymru. Gorffennwn drwy ystyried y pwysau cynyddol yng Nghymru i gydnabod hawliau siaradwyr Cymraeg, gan fanylu ar y mathau o hawliau ieithyddol sy'n cael eu cynnig ar gyfer diwygio deddfwriaethol pellach.

### 3.1 Hawliau iaith a hawliau cydraddoldeb

Yr unig hawl a sefydlir gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yw'r hawl i gael gwrandawriad drwy'r Gymraeg mewn Llys Barn. Yn hyn o beth, mae Deddf 1993 yn wannach o lawer na'r deddfau cydraddoldebau eraill o ran sefydlu hawliau penodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, er enghraifft, yn ei gwneud yn anghyfreithlon i ddarparu'r gwasanaethau wahaniaethu yn erbyn pobl anabl:

- drwy wrthod darparu (neu'n fwriadol beidio â darparu) unrhyw wasanaeth y mae'n ei ddarparu (neu'n barod i'w ddarparu) i'r cyhoedd; neu<sup>71</sup>
- yn safon y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i'r person anabl neu'r ffordd mae'n ei ddarparu; neu<sup>72</sup>
- o ran y telerau y mae'n darparu gwasanaeth i'r person anabl o danynt.<sup>73</sup>

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn diffinio (i) pwy sy'n berson anabl; (ii) goblygiadau ar gyflogwyr ym mhob sector i (a) beidio â thrin person yn llai ffafriol; (b) gwneud addasiadau rhesymol i'r adeilad.

Mae 'rhesymoldeb' yn air pwysig yn y Ddeddf Anabledd. Rhoddir pwys ar ystyried beth sy'n rhesymol i bob unigolyn a phob darparwr. Mae hyn yn cynnig hawl i unigolyn ddwyn achos gerbron llys barn os nad yw'r fodlon â'r ddarpariaeth neu'r driniaeth a gaiff, a gall hyn fod yn ffordd i orfodi cydymffurfiaeth. Mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn gallu cynnig cyngor cyfreithiol a chynorthwyo i ddwyn achos gerbron tribiwnlys neu Lys.

Mae **Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000** yn ei gwneud yn anghyfreithlon i ddarparu'r gwasanaethau wahaniaethu yn erbyn pobl ar sail hil. Mae'r deddf yn diffinio'r gwahaniaeth rhwng camwahaniaethu uniongyrchol a chamwahaniaethu anuniongyrchol, ac erledigaeth fel a ganlyn:

<sup>71</sup> *Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995*, adran 19 (1) (a)

<sup>72</sup> *Ibid.* adran 19 (1) (b).

<sup>73</sup> *Ibid.* adran 19 (1) (c).

- **gwahaniaethu uniongyrchol** - trin un person yn llai ffafriol nag un arall ar sail ei hil. Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.
- **gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail hil** - mae hyn yn digwydd pan fydd rheol neu amod sy'n cael ei chymhwyso i bawb yn gyfartal:
  - ddim ond yn bodloni cyfran lawer llai o bobl o grŵp hil benodol;
  - yn rhoi'r grŵp hwnnw dan anfantais; ac
  - na ellir ei gyfiawnhau ar sail an-hiliol.
- **erledigaeth** - cosbi neu drin rhywun yn annheg oherwydd iddo/iddi wneud cwyn am wahaniaethu ar sail hil, neu credir iddo/iddi wneud cwyn; neu oherwydd iddo/iddi gefnogi rhywun sydd wedi gwneud cwyn am wahaniaethu ar sail hil. Diffinnir erledigaeth fel gwahaniaethu anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.<sup>74</sup>

Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol yn gwneud gwahaniaethu ar sail hil mewn cyflogaeth, hyfforddiant, addysg, tai, penodiadau cyhoeddus, a darparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau yn anghyfreithlon.<sup>75</sup>

Pan fo gan awdurdod cyhoeddus gontract neu gytundeb arall â chwmni preifat neu sefydliad gwirfoddol i gyflawni rhai o'i swyddogaethau, ac mae'r ddyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol yn berthnasol i'r swyddogaethau, mae'r awdurdod cyhoeddus yn parhau i fod yn gyfrifol am unrhyw ddyletswyddau penodol sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny.<sup>76</sup>

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol wedi ymrwymo i ddefnyddio ei holl bwerau gorfodi mewn modd priodol. Mae gan y Comisiwn bwerau newydd o dan y Ddeddf i orfodi cyflawniad y ddyletswyddau penodol i hybu cydraddoldeb hiliol.<sup>77</sup>

Os nad yw awdurdod cyhoeddus yn cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, gellir herio ei gamau gweithredu (neu ddiffyg gweithredu) trwy gais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol. Os nad yw awdurdod cyhoeddus yn cyflawni unrhyw rai o'i ddyletswyddau penodol, gallai wynebu camau gorfodi gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol o dan adran 71D y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.<sup>78</sup>

O gymharu'r hawliau a sefydlir i'r unigolyn gan y deddfau anabledd a hil, gwelir bod yr hawliau i siaradwyr Cymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn wannach o gryn dipyn. Mae statws cyfartaledd y Gymraeg wedi ei gyfyngu i ddau faes yn unig, sef: wrth ymdrin â'r cyhoedd, ac yn y llysoedd, fel y crynhoir ym mharagraff agoriadol Deddf 1993:

*“Deddf i sefydlu Bwrdd a chanddo'r swyddogaeth o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg, i ddarparu i gyrff cyhoeddus baratoi cynlluniau i weithredu'r egwyddor wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal...”*

<sup>74</sup> Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, *Côd Ymarfer Statudol ar y Ddyletswydd i Hybu Cydraddoldeb Hiliol*, tud. 4.

<sup>75</sup> Ibid. tud. 12.

<sup>76</sup> Ibid. tud. 13.

<sup>77</sup> Ibid. tud. 50.

<sup>78</sup> Ibid. tud. 50.

Mae adran 22(1) y Ddeddf yn rhoi'r hawl i'r unigolyn siarad Cymraeg mewn llys yng Nghymru.

*“Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Cymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion mewn llys heblaw llys ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn.”*

Fodd bynnag, yng nghyswllt darparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd, mae pwyslais y ddeddfwriaeth ar 'gyfrifoldebau' a dull gweithredu'r sefydliadau yn hytrach na rhoi'r hawl i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyd-destun gwasanaethau cyhoeddus. Gwelir felly fod y ddeddfwriaeth bresennol wedi ei seilio ar y cysyniad o ddyletswydd y darparwr i drefnu darpariaeth yn hytrach nag ar unrhyw hawliau statudol i'r defnyddiwr megis yn achos aelodau grwpiau lleiafrifol eraill.

Nid oes gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg hawl i ddwyn achos llys, ac nid oes ganddo bwerau mandadol i orchymyn cydymffurfiaeth. O dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, os yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn anfodlon ar y modd y mae corff cyhoeddus wedi delio â chwyn gall orchymyn bod ymchwiliad statudol yn cael ei gynnal i'r mater dan sylw, a bydd adroddiad yn cael ei baratoi ar ganfyddiadau'r ymchwiliad hwnnw.

Yn ôl adran 20 y Ddeddf, os ymddengys i Fwrdd yr Iaith Gymraeg bod corff cyhoeddus a fu'n destun ymchwiliad o'r fath wedi methu ymateb yn briodol i'r adroddiad, gall gyfeirio'r mater at yr “Ysgrifennydd Gwladol” (sef, bellach, Prif Weinidog Cymru). Mae hyn yn rym llawer gwannach nag a feddir gan y 'comisiynau' eraill. Serch hynny, rhydd adran 20 (3) y Ddeddf y pŵer i orfodi cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau'r Prif Weinidog drwy gyfrwng mandamws. Mae'n arwyddocaol, fodd bynnag, yn yr achos mwyaf cyhoeddus o gorff cyhoeddus yn 'methu ymateb yn briodol' yn dilyn ymchwiliad o'r fath gan y Bwrdd, fod Prif Weinidog Cymru heb weithredu'n gyhoeddus i orfodi ymateb priodol wedi i'r Bwrdd gyfeirio'r achos ato.<sup>79</sup>

Yn hynny o beth, gwelwn fod yna gryn anghysondeb yn y modd y gall y gwahanol 'gyrff cydraddoldeb' geisio sicrhau cydymffurfiaeth. Gellid dadlau'n gryf fod angen sicrhau bod y cydraddoldebau hwythau yn cael eu trin yn gydradd. Efallai y bydd cyfuno'r cydraddoldebau dan ofalaeth un corff cynhwysfawr fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn fodd i hwyluso proses gysoni o'r fath. Ceir cyfle i gysoni hefyd o ganlyniad i'r *Adolygiad o Gyfraith Gwahaniaethu a'r Adolygiad o Gydraddoldeb* a'r mesur arfaethedig ar gyfer Mesur Cydraddoldeb Unigol i Brydain Fawr.<sup>80</sup> (Gweler Pennod 4.1 am drafodaeth ar hyn).

### **3.2 Hawliau iaith mewn deddfwriaeth Ewropeaidd a Rhyngwladol**

Caiff y cysyniad o 'hawliau iaith' unigolyddol ei gydnabod mewn deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd sy'n amddiffyn lleiafrifoedd wedi ei seilio ar egwyddorion cyfraith ryngwladol sef: (i) rhyddid barn a mynegiant, (ii) rhyddid i ymgynnull, (iii) yr hawl i urddas personol a (iv) yr hawl i fywyd preifat heb

<sup>79</sup> Cyfeirir yma at achos yr Ymchwiliad Cyhoeddus a gynhaliwyd gan y Bwrdd i faterion staffio a phenodiadau yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Gweler *Adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg i Gyngor Sir Caerfyrddin Tachwedd 2005* am fanylion yr Ymchwiliad.

<sup>80</sup> *A Framework for Fairness: Proposals for a Single Equality Bill for Great Britain.*

ymyrraeth gan y wladwriaeth.<sup>81</sup> Yn achos Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol y Cenhedloedd Unedig, caiff hawliau unigolyddol eu diffinio yn nhermau aelodaeth unigolyn o'i grŵp lleiafrifol. Datgan y Cyfamod fel a ganlyn:

*"In those states in which ethnic, religious or linguistic minorities exist, persons belonging to such minorities shall not be denied **the right in community with the other members of their group** to enjoy their own culture, profess and practice their own religion or to **use their own language**."*<sup>82</sup> [ein pwyslais ni]

Datgan **Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd (2000)** ym Mhennod 3 ar Gydraddoldeb:

*"Any discrimination based on any ground such as sex, race, colour, ethnic or **social origin**, genetic features, **language**, religion or belief, political or any other opinion, **membership of a national minority**, property, birth, disability, age or sexual orientation shall be prohibited."*<sup>83</sup> [ein pwyslais ni]

**Siarter Ewrop ar gyfer leithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol** sy'n ymwneud yn uniongyrchol â sefydlu a gwarchod hawliau aelodau grwpiau lleiafrifol y cyfandir i ddefnyddio eu hiaith eu hunain. Daeth y Siarter yn Gyfamod Ewropeaidd ym Mehefin 1992 ac fe'i cadarnhawyd gan Lywodraeth Prydain ar 27 Mawrth 2001. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i weithredu'r Siarter yng nghyswllt yr iaith Gymraeg (ac ieithoedd eraill y DU). Y cyswllt rhwng hawliau ieithyddol a chyfle cyfartal yw'r sylfaen y mae'r gwahanol Erthyglau wedi eu hadeiladu arni a'u hasio gyda'i gilydd i wneud y Siarter hon. Datgan rhagarweiniad y Siarter sut y caiff hawliau ieithyddol eu cydnabod:

*"Considering that **the right to use a regional or minority language in private or public life is an inalienable right** conforming to the principles embodied in the United Nations International Covenant on Civil and Political rights and according to the spirit of the Council of Europe Convention for the Protection of Human Rights and fundamental freedoms"*<sup>84</sup> [ein pwyslais ni]

Fel y gwelir, mae'r Siarter yn pwysleisio'r **hawl ddiymwad** i ddefnyddio iaith lleiafrifol mewn **bywyd preifat** a **chyhoeddus**. Nid yw'r Siarter yn creu hawliau i unigolion fel y cyfryw ac yn hyn o beth mae'n wahanol i'r Cyfamod Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.<sup>85</sup> Serch hynny, mae'r Siarter yn gyfamod Cyngor Ewrop ac felly'n ddogfen ryngwladol sy'n rhwymo'r gwladwriaethau a'i cadarnhaodd, megis Prydain. Mae'n egwyddor, yn ogystal, y dylai deddfwriaeth ddomestig gydymffurfio â deddfwriaeth ryngwladol ac ni chaiff gwladwriaeth weithredu mewn modd sy'n groes i'r Siarter a dderbyniwyd ganddi.

Mae'r Siarter yn cynnwys fel un o'i Hamcanion ac Egwyddorion:

*"[that] parties undertake to eliminate, if they have not yet done so, any unjustified distinction, exclusion, restriction, or preference relating to the use*

<sup>81</sup> Emyr Lewis, 'New Dignity is Chartered' yn *Agenda*, cyfnodolyn y Sefydliad Materion Cymreig, Hydref 2004.

<sup>82</sup> Ibid.

<sup>83</sup> [http://www.europarl.europa.eu/charter/pdf/text\\_en.pdf](http://www.europarl.europa.eu/charter/pdf/text_en.pdf) Pennod 3 Cydraddoldeb.

<sup>84</sup> Rhagymadrodd, *Siarter Ewrop ar gyfer leithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol*, 25 Mehefin 1992.

<sup>85</sup> Ibid. tud. 24.



*of a regional or minority language and intended to discourage or endanger the maintenance or development of a regional or minority language. The adoption of special measures in favour of regional or minority languages aimed at promoting equality between the users of these languages and the rest of the population or which take due account of their specific conditions is not considered to be an act of discrimination against the users of more widely used languages.*<sup>86</sup>  
[ein pwyslais ni]

Mae'r Siarter yn cynnig rhestr o ddewisiadau priodol a rhesymol ar gyfer cyflwyno gwasanaeth cydradd i ddefnyddwyr yr iaith [Gymraeg]. Y '*special measures*' yn y Siarter a fabwysiadwyd yng nghyd-destun y Gymraeg yw'r rhai sy'n cyfateb i Ddeddf yr Iaith Gymraeg a chynnwys Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol. Mae'n dilyn felly bod Llywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried y mesurau hyn fel rhai rhesymol a phriodol i sicrhau hawl i wasanaethau yn y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg. O fewn y cyd-destun hwn, byddai'n briodol ystyried diwygio Deddf 1993 neu gyflwyno deddfwriaeth newydd fyddai'n sefydlu'r hawl i'r cyhoedd yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd preifat a chyhoeddus.

### 3.3 Deddf Hawliau Dynol 1998

Yn Atodlen 1 (*Articles of the Convention*), mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori, yn rhan o gyfraith Prydain, y rhan fwyaf o'r hawliau a'r rhyddid a geir yng Nghonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol. Mae Erthygl 14 y Confensiwn wedi ei chynnwys, ac mae'n enwi 'iaith' ochr yn ochr â'r dimensiynau cydraddoldeb eraill:

*"The enjoyment of the rights and freedoms set forth in this Convention shall be secured without discrimination on any ground such as sex, race, colour, **language**, religion, political or other opinion, national or social origin, association with a national minority, property, birth or other status."*<sup>87</sup> [ein pwyslais ni]

Cydnabyddir, felly, bod cydraddoldeb ieithyddol yn rhan annatod o warchod a hyrwyddo hawliau dynol a chyfle cyfartal. O safbwynt siaradwyr unrhyw iaith ac o safbwynt cyfraith ryngwladol fel ei gilydd, gwelir bod cydraddoldeb ieithyddol wrth wraidd bod yn gyfartal. Mae'n cadarnhau, yn ogystal, bod iaith yn fater cyfle cyfartal ac y gellir gwahaniaethu ar sail iaith yn ogystal â hil, anabled, rhyw ac oedran.

**Argymhelliad 6: Dylid sefydlu'r egwyddor bod hawliau unigolion i ddysgu Cymraeg a hawliau siaradwyr Cymraeg i'w defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd yn fater cyfle cyfartal dilys a gydnabyddir gan gyfraith a pholisi cyfle cyfartal yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.**

<sup>86</sup> Ibid. tud. 5.

<sup>87</sup> *Deddf Hawliau Dynol 1998*, Atodlen 1 (Articles of the Convention), Erthygl 14, "Probation of Discrimination":

### 3.4 Pwysau cynyddol yng Nghymru i gydnabod 'hawliau' siaradwyr Cymraeg

Cafodd y datganiadau ar hawliau iaith ar lefel Ewropeaidd, arwyddo Siarter Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol, a Deddf Hawliau Dynol 1998 oll ddylanwad allweddol ar yr hinsawdd cydraddoldebau ac iaith yng Nghymru. Gwelir cyfeiriadau cynyddol at 'hawliau siaradwyr Cymraeg' yn dod yn rhan o bolisiau Llywodraeth y Cynulliad a chlywir y galw hwn gan y lleisiau sy'n cynnal trafodaeth gyhoeddus ar sefyllfa'r iaith Gymraeg. Yn y bennod hon, amlinellir safbwyntiau *Cymuned*, Cyngor Defnyddwyr Cymru, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran yr angen i gydnabod hawliau siaradwyr Cymraeg. Cyfeiriwn hefyd at y cyfeiriadau at hawliau iaith a geir yn nogfennau polisi Llywodraeth y Cynulliad ar yr iaith Gymraeg ac, yn benodol, ar gyfer pobl ifanc.

#### 3.4.1 Cymuned

##### *Yr Hawl i Fodoli*

- “Cred **Cymuned** fod hawl cymunedau ieithyddol cynhenid i fodoli yn hawl ddiymwad y mae'r cymunedau Cymraeg yn ei rhannu â chymunedau cynhenid lleiafrifol eraill ar hyd a lled y byd.”<sup>88</sup>
- “Geilw **Cymuned** ar y Cynulliad Cenedlaethol i wneud datganiad diamwys fod gan gymunedau Cymraeg yr hawl foesol i fodoli.”<sup>89</sup>
- “Geilw **Cymuned** ar y Cynulliad Cenedlaethol i ddatgan y bydd yng Nghymru gymunedau Cymraeg eu hiaith.”<sup>90</sup>

#### 3.4.2 Cyngor Defnyddwyr Cymru

Pwysleisia Cyngor Defnyddwyr Cymru “*bwysigrwydd edrych ar iaith a pholisi iaith o safbwynt y rhai sy'n ei defnyddio*” yn arbennig yn achos “*siopau, busnesau, banciau, gweithredwyr trafnidiaeth, awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus*”.<sup>91</sup> Sail dadl y Cyngor Defnyddwyr yw **8 hawl sylfaenol defnyddwyr**<sup>92</sup> a gyflwynwyd yn y *Guidelines for Consumer Protection* gan y Cenhedloedd Unedig ym mis Ebrill 1985. Yn ôl y Cyngor, gellir dadlau'n gryf mai hawl fwyaf sylfaenol defnyddwyr yng nghyswllt iaith (fel ym mhob mater arall) yw'r hawl i foddhau anghenion sylfaenol. Dyma'r hawl a roddir yn gyntaf gan Consumers International, ac fe'i diffiniant fel hawl i gael mynediad i nwyddau a gwasanaethau hanfodol sylfaenol, bwyd, dillad, cysgod, gofal, iechyd, addysg a glanweithdra digonol. Fodd bynnag, “mae medru siarad a chael eich deall a byw eich bywyd yn eich iaith eich hun yn ddi-os hefyd yn angen sylfaenol.”<sup>93</sup>

Sonia'r adroddiad *Y Gymraeg fel Mater Defnyddwyr* am y pump 'hawl' sy'n uniongyrchol berthnasol i'r iaith, sef:

<sup>88</sup> Cymuned, *Tai, Gwaith ac Iaith*, 2001, tud. 3.

<sup>89</sup> Ibid. tud. 4.

<sup>90</sup> Ibid. tud. 5.

<sup>91</sup> Gyngor Defnyddwyr Cymru, *Y Gymraeg fel Mater Defnyddwyr*, Gorffennaf 1996, tud. 3 a 4.

<sup>92</sup> Hawliau sy'n deillio o bedwar hawl a gyflwynwyd mewn datganiad gan JFK i Gyngres y Cenhedloedd Unedig ym 1962, ac yna pedwar pwynt pellach a ddatblygwyd gan 'Consumers International.' Mae grwpiau defnyddwyr o amgylch y byd yn ymgyrchu dros y materion sylfaenol hyn.

<sup>93</sup> Gyngor Defnyddwyr Cymru, *Y Gymraeg fel Mater Defnyddwyr*, Gorffennaf 1996, tud. 11.

- yr hawl i dderbyn gwybodaeth;
- yr hawl i gael iawn;
- yr hawl i ddewis;
- yr hawl i gael llais;
- yr hawl i addysg defnyddwyr<sup>94</sup>

Nodwyd bod amryw o'r rhain yn bethau nad ydynt ar gael ar hyn o bryd i'r rhan fwyaf o bobl a allai fod yn dymuno siarad Cymraeg mewn llawer o sefyllfaoedd. Cwyna'r Cyngor y dylid sefydlu fframwaith a hawliau clir sy'n cynnwys trefniadau 'cael iawn' i'w defnyddio ar ôl i ddarparwr fethu darparu gwasanaeth yn Gymraeg ar ôl ymrwymo i wneud hynny. Yn ôl yr ymchwil a wnaed gan y Cyngor ym 1996:

*"Mae rhai cyrff yn gweithio i hysbysu eu cwsmeriaid am eu polisiau iaith. Ond mae llawer o rai eraill heb fod yn gwneud hynny. Mae llawer yn cyfyngu eu 'hysbysu' i gynhyrchu cynlluniau ffurfiol. A hyd yn oed lle mae'r cynlluniau a'r wybodaeth yn dda, mae'r amrywiaeth rhwng awdurdod ac awdurdod, corff cyhoeddus a chorff cyhoeddus a busnes a busnes mor fawr fel bod ansicrwydd yn rhemp."<sup>95</sup>*

Pwysleisia'r Cyngor fod **yr hawl i gael llais** yn fwy na mater o sicrhau bod unigolyn yn medru cyflwyno ei achos trwy gyfrwng ei (h)iaith ei hunan. Yn fwy pwysig, golyga yn ogystal ei fod yn hollbwysig cynnwys diddordebau defnyddwyr wrth lunio a gweithredu polisi, datblygu nwyddau a gwasanaethau. Yn hyn o beth, mae'r hawl i gael llais yn allweddol yn natblygiad Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus.

Dadleua'r Cyngor, yn ogystal, nad oes sail i'r ddadl nad oes angen cystal safon o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ardaloedd ble mae canran a/neu niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn gymharol isel. Er nad yw'r galw am wasanaethau Cymraeg cymaint mewn rhai ardaloedd, ac felly nid oes cymaint o ddewis i'r defnyddiwr, dylid disgwyl yr un safon o wasanaeth. Gwneir y gymhariaeth â phrynu tegell:

*"...fel defnyddiwr byddwn yn disgwyl - ac yn cael - yr un gwarantau am safon â rhywun yn byw mewn dinas gyda dewis helaethach o fodolau. Nid oes unrhyw fodd lle medrai'r siopwr gwledig ddileu fy hawliau a gwarantau sylfaenol 'oherwydd ei bod yn anodd trwsio neu newid pethau yn y wlad'.<sup>96</sup>*

### 3.4.3 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Mae 'Y Gymraeg yn Goroesi Globaleiddiop: Manifesto Cymdeithas yr Iaith 2003' yn rhoi pwyslais ar sicrhau'r **hawl i bawb yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg** wrth gael nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau:

*"Yr hyn rydyn ni eisiau'i weld mewn deddf iaith newydd yw hawl i bawb yng Nghymru gael nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau drwy'r Gymraeg*

<sup>94</sup> Ibid. tud. 10.

<sup>95</sup> Ibid. tud. 20-21.

<sup>96</sup> Ibid. tud. 16.

os dyna yw eu dewis, beth bynnag fo statws y darparwyr - cyhoeddus, preifat neu wirfoddol”<sup>97</sup>

Dadleua'r Gymdeithas “ei fod yn fater o gyfiawnder amlwg fod pawb yng Nghymru yn meddu'r;

- hawl i weld a chlywed y Gymraeg yn eang o'u cwmpas,
- yr hawl i adael yr ysgol yn ddwyieithog,
- yr hawl i weithio drwy'r Gymraeg,
- yr hawl i dderbyn addysg Gymraeg,
- yr hawl i dderbyn gofal iechyd a chefnogaeth cymdeithasol yn Gymraeg,
- yr hawl i ddysgu Cymraeg,
- a'r hawl di-ymwad i gael gwrandawriad llys a rheithgor yn Gymraeg.

Credwn hefyd mai gwir gryfder Deddf Iaith Newydd fyddai iddi nid yn unig sefydlu hawliau ar gyfer unigolion, ond hefyd sefydlu hawl sylfaenol i'r Gymraeg oroesi fel iaith gymunedol. Os ydi'r Gymraeg i fyw, mae'n rhaid i gymunedau Cymraeg fyw, ac yn wir, rhaid i'r Gymraeg gael yr hawl i gael ei hadfywio fel rhan integral a sylfaenol o fywyd pob cymuned yng Nghymru. Byddai sicrhau'r hawliau cymunedol a chasgliadol yma yn gosod cynsail i gryfhau'r ddarpariaeth bresennol mewn deddfwriaeth gynllunio “**i ystyried y Gymraeg fel ffactor cynllunio**” ac yn gynsail hefyd ar gyfer sefydlu Deddf Eiddo i Gymru.”<sup>98</sup> [pwyslais y Gymdeithas]

#### 3.4.4 Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Yn Ionawr 2006, cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg bapur safbwynt ar *Sefyllfa Ddeddfwriaethol y Gymraeg*. Ynndo mae'n datgan ei farn bod angen adolygu cynnwys y ddeddfwriaeth gyfredol a datblygu mesurau statudol pellach ym maes hawliau iaith am y rhesymau canlynol:

1. “Anghyson yw gweithrediad cynlluniau iaith, ac nid yw'n glir i'r cyhoedd beth y gallant ddisgwyl ei dderbyn o ran gwasanaethau Cymraeg.
2. [Mae] angen cymryd camau i fantoli'r ddyletswydd o ddarparu gwasanaeth gyda hawl yr unigolyn i'w dderbyn.
3. Mae'r egwyddor o hawliau ieithyddol yn sylfaen i gynllunio ieithyddol mewn nifer helaeth o wledydd – ond mae bron yn llwyr absennol yma yng Nghymru.
4. Mae nifer o ddeddfwriaethau yn y maes camwahaniaethu, er enghraifft o ran hil ac anabledd, yn sefydlu hawliau pendant i'r unigolyn ... [E]r bod y Gymraeg yn rhan o'r agenda cydraddoldeb yma yng Nghymru, nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn pennu hawliau ieithyddol clir i'r cyhoedd. Credwn fod angen ymestyn yr egwyddor o gamwahaniaethu i faes iaith, ac osgoi gwahaniaethu ar sail dewis iaith. Tra bo unigolion yn gallu sicrhau gwasanaethau drwy gyfrwng y Saesneg, nid yw'r un peth yn wir os yw unigolion am sicrhau gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.”<sup>99</sup>

Cynigia'r Bwrdd y byddai'n rhesymol ac yn ymarferol mewn rhai achosion i bennu rhai **hawliau ieithyddol absoliwt**, sef:

<sup>97</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Y Gymraeg yn Goroesi Globaleiddio: Maniffesto Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*, Ionawr 2003, tud. 24.

<sup>98</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Deddf Iaith Newydd: Dyma'r Cyfle!*, Mawrth 2006, tud. 7.

<sup>99</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Sefyllfa Ddeddfwriaethol y Gymraeg*. Papur Safbwynt gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Ionawr 2006, paragraffau 10 – 12.

- “Yr hawl i ohebu â chorff cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Yr hawl i dderbyn a chwblhau ffurflenni yn Gymraeg;
- Yr hawl i gyfrannu mewn cyfarfod neu ymchwiliad cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Yr hawl i dderbyn gwasanaethau ffôn cyhoeddus, gan gynnwys llinell gymorth, drwy gyfrwng y Gymraeg”.<sup>100</sup>

Yn yr achosion hynny lle na fyddai'n rhesymol nac yn ymarferol i osod hawliau absoliwt, cynigia'r Bwrdd y byddai modd cysylltu **hawliau ieithyddol yn unol â Chynllun Iaith** corff cyhoeddus, sef:

- “Yr hawl i dderbyn gohebiaeth neu wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Chynllun Iaith corff;
- Yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle cyhoeddus, yn unol â chynnwys Cynllun Iaith corff.”<sup>101</sup>

Pwysleisia'r Bwrdd mai cynigion cychwynnol yw'r uchod ac y byddai'n “*briodol adolygu'r hawliau hyn dros gyfnod o amser wrth i gyrff gynyddu eu gallu i gynnig gwasanaethau a gweinyddu trwy'r Gymraeg*”.<sup>102</sup>

O safbwynt y Bwrdd, manteision pennu hawliau iaith penodol fyddai:

- “*ei gwneud yn gliriach i unigolion beth y gallant ei ddisgwyl o ran gwasanaeth cyfrwng Cymraeg [ac felly'n] hybu'r defnydd ymarferol o'r Gymraeg gan y cyhoedd;*
- *ymbweru'r cyhoedd[ trwy] newid perthynas yr unigolyn â chyrrff cyhoeddus o ran y Gymraeg. [Byddai hyn yn galluogi'r cyhoedd] i hawlio gwasanaethau a rhoi'r hyder iddynt ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchiadau penodol;*
- *Dwyn pwysau ar gyrff cyhoeddus i wella eu perfformiad o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac yn fodd o sicrhau eu bod yn parchu hawliau unigolion o ran eu dewis iaith mewn amgylchiadau penodol”.*<sup>103</sup>

### 3.4.5 Polisïau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adlewyrchir egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol ym mholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda, er enghraifft, **Creu'r Cysylltiadau** (gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru) yn gosod cwsmeriaid ac anghenion y dinesydd<sup>104</sup> yn ganolog i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac yn mynnu bod gan y dinesydd yr hawl i ddwyn gwasanaethau cyhoeddus i gyfrif. Mae sawl cyfeiriad at hawliau siaradwyr Cymraeg yn ymddangos mewn rhai o'r dogfennau polisi a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y Cynulliad.

<sup>100</sup> Ibid. para. 14.

<sup>101</sup> Ibid. para. 15.

<sup>102</sup> Ibid. para. 16.

<sup>103</sup> Ibid. para. 13.

<sup>104</sup> *Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd* (2006). Adolygiad o wasanaethau cyhoeddus lleol yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru a gadeiriwyd gan Syr Jeremy Beecham.

## **Dyfodol Dwyieithog: Polisi Iaith Gymraeg y Cynulliad**

Mae *Dyfodol Dwyieithog*, datganiad polisi Llywodraeth y Cynulliad ar yr iaith Gymraeg, yn cyfeirio at hawliau siaradwyr fel a ganlyn:

*“Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i sicrhau y ceir cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd. I gychwyn mae hyn yn golygu diogelu a hyrwyddo **hawliau unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg**. [Pwyslais Llywodraeth y Cynulliad]*

*Mae'r Gymraeg yn **un o ieithoedd swyddogol bywyd cyhoeddus yng Nghymru a byddwn yn disgwyl i'r holl sefydliadau a chyrrff a enwir o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg gydymffurfio â'u cynlluniau iaith a **darparu gwasanaethau drwy'r Saesneg a'r Gymraeg**** [ein pwyslais ni].*

*Byddwn yn parhau i bwysleisio'r pwysigrwydd o allu cynnig gwasanaethau yn newis iaith y defnyddiwr mewn gwasanaethau allweddol megis iechyd a gofal cymdeithasol, a byddwn yn gweithio gyda'r cyrrff sy'n darparu'r gwasanaethau i'w helpu i gyflawni'r nod hwn.”<sup>105</sup>*

Mae *Iaith Pawb* yn pwysleisio **“hawl yr unigolyn i ddefnyddio'r iaith o'u dewis a chyfrifoldeb sefydliadau o fewn cymdeithas Cymru i gydnabod a hyrwyddo hawl yr unigolyn i wneud hyn.”<sup>106</sup>**

Yn ei hadroddiad blynyddol cyntaf ar *Iaith Pawb* trosglwydda Llywodraeth y Cynulliad y cyfrifoldeb am gydnabod 'hawliau' iaith i sefydliadau eraill:

**“Yr Unigolyn a Hawliau Iaith** (adran 1.5)

*Cyfrifoldeb sefydliadau sy'n rhan o'r gymdeithas Gymreig yw cydnabod a hwyluso hawl yr unigolyn i ddefnyddio'r iaith o'i ddewis.”<sup>107</sup>*

### **Maes Pobl Ifanc**

Ym mis Medi 2000, cyhoeddwyd *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru*, sef astudiaeth gan Uned Bolisi'r Cynulliad sy'n cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisiau'r Cynulliad ar gyfer pobl ifanc. Y tair tasg allweddol sy'n cael eu diffinio ar gyfer y maes ieuencid yw:

- *ennyn brwdfrydedd pobl ifanc dros achub ar gyfleoedd i ddysgu - drwy ddangos iddynt y byddai hyn yn eu cynorthwyo i gael swyddi ac i ddatblygu mewn cyflogaeth*
- *sicrhau bod yr holl wasanaeth a gynigir i bobl ifanc o safon uchel, yn cyd-fynd â'u diddordebau a'u cymwyseddau, ac yn*
- ***Hyrwyddo cyfle cyfartal*** er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yn gallu manteisio ar bob peth a gynigir.<sup>108</sup> [ein pwyslais ni]

<sup>105</sup> Dyfynnir y tri pharagraff o *Dyfodol Dwyieithog: Datganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru*, 2002, tud. 20.

<sup>106</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog*, Chwefror 2003, Rhan 4.1.

<sup>107</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2003–4*, tud. 22.

<sup>108</sup> *Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru*, Adroddiad gan yr Uned Bolisi, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Medi 2000, tud 5.

Yn yr adroddiad *Ymestyn Hawliau*, pwysleisir y cysyniad o hawliau sy'n sail i gynlluniau'r Cynulliad er mwyn sicrhau **cyfle cyfartal**, **mynediad** a **chynhwysiant**.<sup>109</sup> Caiff hawliau'r unigolyn i amrediad o wasanaethau yn ei ddewis iaith flaenoriaeth yn yr adroddiad. O'r deuddeg argymhelliad, y cyntaf yw:

*“dylid strwythuro cymorth i bobl ifanc yng Nghymru o amgylch rholi hawl i bob person ifanc fanteisio ar amrediad o wasanaethau yn yr iaith o'u dewis, wedi eu llunio i hybu'u cyrhaeddiad a'u datblygiad fel unigolion”*<sup>110</sup>  
[pwyslais yr Uned Bolisi, ein tanlinelliad ni]

Mae'r rhestr ganlynol a nodir o dan bennawd y bwriad i ymestyn hawliau pobl ifanc Cymru yn dangos yr amrediad o wasanaethau a chyfleoedd y bernir eu bod yn berthnasol i fywydau pobl ifanc:

### Ymestyn hawl pob person ifanc yng Nghymru i gael:

- *“addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith - wedi'u teilwra i'w anghenion*
- *cyfleoedd i gyflawni, ym mha bynnag faes y dymuna, gan dderbyn achrediad a chlod am ei lwyddiannau*
- *cyngor ac arweiniad arbenigol, annibynnol ym maes gyrfaoedd a gwasanaethau cymorth a chyngori i fyfyrwyr*
- *cymorth a chynngor personol - ble bynnag a phryd bynnag y bydd ei angen - gyda rheolau pendant a chlir ar gyfrinachedd*
- *cyngor ynglŷn ag iechyd, tai, budd-daliadau a materion eraill, wedi'i ddarparu mewn amgylchedd hygyrch a chroesawgar*
- *cyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch*
- *profiadau chwaraeon, celf ac awyr agored ar gyfer datblygu talentau ac ehangu gorwelion, gan gynnwys persbectif rhyngwladol”*.<sup>111</sup>

Pwysleisir pwysigrwydd y model hawliau sydd wrth wraidd yr adroddiad gan ei fod 'yn gynhwysol, yn berthnasol i bobl ifanc, ac yn darparu safon ar gyfer tafoli darpariaeth leol ar gyfer pob grŵp o bobl ifanc'.<sup>112</sup>

Cynigir yr enghraifft ganlynol:

*“a yw'r gwasanaethau yn ddigon amrywiol ac ymatebol i fod yn wirioneddol hawdd i bob person ifanc gael gafael arnynt. Er enghraifft, efallai na fydd gwasanaethau ar gael yn newis iaith pobl ifanc, fel sy'n ofynnol gan Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Efallai mewn rhai rhannau o Gymru na fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg, neu eu bod ar gael yn Gymraeg yn unig - bydd y ddwy sefyllfa hyn yn eithrio rhai pobl ifanc.”*<sup>113</sup> [Ein pwyslais ni]

Mae pwyslais y ddogfen ar sicrhau 'hawliau' a 'chyfleoedd cyfartal' yn amlwg yn cynnig y cyfle i wella ar y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ym mhob agwedd ar faes pobl ifanc. Mae'r pwyslais ar hawliau cwbl gyfartal i siaradwyr Gymraeg a di-Gymraeg wrth gwrs yn gallu bod yn fgythyriad i ddigwyddiadau uniaith Gymraeg megis yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol oni phwysir i sicrhau bod anghenion ac felly 'hawliau' arbennig grwpiau lleiafrifol yn cael eu cydnabod.

<sup>109</sup> Ibid. tud. 53.

<sup>110</sup> Ibid. tud. 6.

<sup>111</sup> Ibid. tud. 7.

<sup>112</sup> Ibid. tud. 53.

<sup>113</sup> Ibid. tud. 53.

### 3.5 Hawliau arbennig i grwpiau iaith lleiafrifol

Wrth bwysu am gydnabyddiaeth gyfreithiol o hawliau penodol i siaradwyr Cymraeg, gwelir ymgais i glosio at y gydnabyddiaeth o hawliau arbennig ar gyfer unigolion a grwpiau iaith lleiafrifol a welir ar amryw wedd mewn nifer helaeth o wledydd (megis, fel enghreifftiau, Canada, Sbaen, Lithuania a'r Ffindir). Yn achos pob un, bu'r gydnabyddiaeth o hawliau yn gydnabyddiaeth o'r angen i warchod dyfodol a pharhad y grwpiau hynny ac i drin aelodau'r grwpiau yn gyfartal ag aelodau o'r gymdeithas fwyafrifol.

Gwelwyd siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn manteisio ar y datganiadau dros hawliau unigolyddol sylfaenol a sefydlwyd gan amryw gyfamodau'r Gymuned Ewropeaidd a'r Cenhedloedd Unedig. Gwelwyd hefyd gydnabyddiaeth gynyddol o hawliau sy'n gwahaniaethu o blaid grŵp.

Mae safbwyntiau Cymuned a Chymdeithas yr Iaith yn benodol, yn cyd-fynd â'r gydnabyddiaeth gynyddol o fewn damcaniaethau rhyddfrydol cyfoes dros gyfiawnhau hawliau sy'n gwahaniaethu o blaid grŵp (*group-differentiated rights*) neu hawliau sy'n benodol i grŵpiau (*group-specific rights*). Maent yn cydnabod yr angen i neilltuo hawliau i grwpiau lleiafrifol cenedlaethol neu siaradwyr ieithoedd lleiafrifol brodorol er mwyn amddiffyn eu hawl i fodoli ac i fyw eu bywydau trwy gyfrwng eu hiaith a'u diwylliant eu hunain.<sup>114</sup>

Mae'r traddodiad yma'n un pwysig i'w ystyried wrth bwysu am ddeddfwriaeth sy'n sefydlu hawliau ieithyddol gan ei fod yn cydnabod hawliau arbennig grwpiau brodorol (sy'n wahanol i grwpiau o fewnfudwyr) ac yn pwysleisio (megis yn y dyfyniad o'r Siarter Ewropeaidd uchod) nad yw rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg yn fygythiad i hawliau'r mwyafrif di-Gymraeg. Dadleua'r athronydd gwleidyddol dylanwadol Will Kymlicka:

*"liberals can and should accept a wide range of group-differentiated rights for national minorities [e.e. Cymry Cymraeg a di-Gymraeg] and ethnic groups [mewnfudwyr], without sacrificing their core commitments to individual freedom and social equality ... minority cultures in multination states may need protection from the economic or political decisions of the majority culture .. for example they may need self-governing powers or veto rights over certain decisions regarding language and culture, and may need to limit the mobility of migrants or immigrants into their homelands."*

*While these group-differentiated rights for national minorities may seem discriminatory at first glance, since they allocate individual rights and political powers differentially on the basis of group membership, they are in fact consistent with liberal principles of equality. They are indeed required by the view ... that justice requires removing or compensating for undeserved or 'morally arbitrary' disadvantages, particularly if these are "profound and pervasive and present from birth." Were it not for these group-differentiated rights, the members of minority cultures would not have the same ability to live and work in their own language and culture that the members of majority cultures take for granted. This [...] can be seen as just*

---

<sup>114</sup> Gweler, er enghraifft, *Multicultural Citizenship* gan Will Kymlicka, Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1995.



*as profound and morally arbitrary a disadvantage as the inequalities in race and class that liberals more standardly worry about.*<sup>115</sup>

**Argymhelliad 7: Dylid cynnal trafodaeth ddeallusol a chytbwys ynglŷn â hawliau unigolyddol a hawliau grŵp lleiafrifol er mwyn cyfarwyddo barn gyhoeddus a chyfrannu at ddatblygiadau mewn cyfraith a pholisi.**

### 3.6 Casgliadau

Gwelwyd bod Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn wannach o lawer na'r deddfau cydraddoldebau eraill o ran sefydlu hawliau penodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Ceir felly anghysondeb yn y maes cydraddoldebau y perthyn y Gymraeg iddo yng Nghymru gan fod y ddeddfwriaeth yn gwahardd camwahaniaethu ar sail anabledd, hil a rhyw ond nid ar sail iaith. Mae deddfwriaeth Ewropeaidd a rhyngwladol yn cydnabod hawliau iaith fel un o hawliau sylfaenol unigolion. Gwelir bod cydnabyddiaeth o hawliau iaith eisoes yn ymddangos yn natganiadau polisi a dogfennau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth y Cynulliad. Awgryma hyn fod y sefyllfa'n aeddfed i bwysu am gydnabyddiaeth o hawliau iaith siaradwyr Cymraeg wrth weithredu'r ddeddfwriaeth gyfredol ac wrth lunio unrhyw fesur(au) iaith newydd neu unrhyw fesurau penodol eraill a allai neilltuo hawliau ieithyddol mewn meysydd a chyd-destunau penodol i siaradwyr Cymraeg.

Bydd unrhyw bwysau am gydnabod hawliau yn esgor ar ddatleuon dros yr union hawliau hynny. Mae'r bennod hon wedi cyfeirio at ystod helaeth o bosibiliadau o sawl ffynhonnell ar gyfer cydnabod hawliau cyfreithiol penodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Cofiw'n fod ymrwymiad yr amryw bleidiau gwleidyddol at ddeddfu o blaid hawliau ieithyddol yn amrywio. Wrth i'r broses o lunio'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â'r Gymraeg fynd rhagddi dros fisoedd yr hydref, mae angen trafodaeth ddeallusol a chytbwys ynglŷn â'r hyn a olygir wrth 'hawliau' gan ystyried, yn enwedig, bod cyfiawnhau hawliau penodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn cyd-fynd â'r egwyddorion o gyfiawnder a thegwch i holl aelodau cymdeithas Cymru a'r Deyrnas Unedig.

\* \* \*

---

<sup>115</sup> Will Kymlicka, *Multicultural Citizenship*, Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1995, tud. 126. Pennod 3 'Justice and Minority Rights'.

## Pennod 4: Cyfrifoldebau statudol dros yr Iaith Gymraeg: bygythiadau a chyfleoedd trwy ddiwygio sefydliadol a deddfwriaeth newydd

Yn y bennod hon ystyriwn y cyfleoedd a'r bygythiadau i sefyllfa'r Gymraeg a'i siaradwyr sy'n codi o ganlyniad i'r diwygiadau deddfwriaethol a sefydliadol sy'n mynd rhagddynt yng nghyfnod ysgrifennu'r adroddiad hwn. Edrychwn yn benodol ar dair agwedd sef:

- i) adolygiad o Gyfraith Gwahaniaethu, sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a diwygio Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol;
- ii) creu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; ac
- iii) ystyried dyfodol Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

### 4.1 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Sefydlodd Deddf Cydraddoldebau 2006 Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) newydd. Pan ddaw yn weithredol ym mis Hydref 2007, daw bodolaeth y Comisiwn Hawliau Anableddau, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol i ben. Mae'r symudiad i sefydlu un corff cyfunol i ymdrin â'r cydraddoldebau statudol yn codi cwestiynau diddorol ynghylch perthynas y Gymraeg â'r cydraddoldebau statudol eraill. Gwelwyd eisoes bod y Gymraeg yn cael ei thrin gan bolisiau'r Cynulliad fel rhan o'r agenda Cyfle Cyfartal ond gwelwyd hefyd bod hawliau siaradwyr Cymraeg yn wannach o lawer na hawliau grwpiau lleiafrifo eraill, am nad oes ganddynt hawl i beidio â phrofi camwahaniaethu. Mae'r adran isod yn crynhoi dyletswyddau a phwerau'r CCHD ac yn trafod y goblygiadau posibl o ran cryfhau sefyllfa'r Gymraeg.

#### 4.1.1 Dyletswyddau a phwerau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<sup>116</sup>

Bydd y CCHD yn derbyn pwerau'r comisiynau presennol yn ogystal â rhai pwerau a dyletswyddau newydd gan gynnwys:

- dyletswydd i ymgynghori â budd-ddeiliaid ar gynlluniau strategol;
- sicrhau trefniadau rhanbarthol;
- y pŵer i wneud ymholiadau cyffredinol i hyrwyddo hawliau dynol;
- y pŵer i hyrwyddo arfer da a gweithredu'r gyfraith ym meysydd tueddfryd rhywiol, oedran a chrefydd neu gred.

Rhagwelir mai manteision sefydlu un Comisiwn cyfunol yw:

- Gwarchod arbenigedd yn y meysydd unigol yn ogystal â gallu rhoi ystyriaeth ehangach i faterion cyfartaledd a hawliau dynol;
- Y gallu i ddelio â rhwystrau ac anghyfartaledd sy'n effeithio ar sawl grŵp;
- Rhoi un pwynt cyswllt ar gyfer pob math o gamwahaniaethu;
- Gallu delio â chamwahaniaethu lluosog ('*multiple discrimination*');

<sup>116</sup> Mae'r pwyntiau a wneir yn yr adran hon yn grynodedb o *Fairness For All: A New Commission for Equality and Human Rights*. Papur Gwyn 2004.

- Cynnig un pwynt cyswllt er mwyn i gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad;
- Creu dull mwy cytbwys o weithredu deddfwriaeth gwahaniaethu – pan fo deddfwriaeth yn cael ei chreu mewn un maes, bydd modd i gomisiwn cyfunol weithredu deddfau cyffelyb mewn meysydd eraill;
- Gallu hybu cydberthynas rhwng gwahanol gymunedau;
- Gallu cyfuno arbenigedd y comisiynau presennol â'r meysydd cyfartaledd newydd.

### **Egwyddorion**

Bydd y CCHD yn gweithredu ar yr egwyddorion canlynol, gan:

- Roi arweiniad yn y trafodaethau ehangach ar gydraddoldeb a hawliau dynol.
- Bod yn sensitif i anghenion y sefydliadau sy'n gorfod cydymffurfio gan warchod ar yr un pryd hawliau unigolion neu gymunedau sy'n profi gamwahaniaethu.
- Gwreiddio yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu gan weithio gyda grwpiau diddordeb a sefydliadau eraill yn y sectorau gwirfoddol a chymunedol. Delio â gwahanol rannau o'r DU mewn ffyrdd gwahanol.
- Cysylltu'n eang â budd-ddeiliaid gan gynnwys grwpiau sydd â phrofiad o gamwahaniaethu.

### **Gorfodi Dyletswyddau**

Bydd gan y Comisiwn y pwerau i gyflwyno rhybuddion cydymffurfiaeth os oes sicrwydd nad yw corff wedi cydymffurfio. Gall y CCHD hefyd sefydlu adolygiad barnwrol. Er bod hawl gan y CCHD gymryd rhan mewn achosion cyfreithiol, bydd yn ceisio datrys anghydfod trwy gymodi. ACAS fydd yn parhau i gynnig gwasanaeth cymodi ym maes tribiwnlysoedd cyflogaeth. Arf arall fydd gan y Comisiwn yw'r hawl i wneud ymholiadau cyffredinol i faterion o ddiddordeb cyhoeddus.

Fel corff cyhoeddus an-adrannol (*non-departmental public body*) bydd gan y Comisiwn lais sy'n annibynnol ar y llywodraeth. Bydd yn atebol i Dŷ'r Cyffredin gan ei bod yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno adroddiad blynyddol gerbron y Senedd.

### **Cefnogi Busnes**

Un o'r rhesymau dros sefydlu un corff oedd ymateb i alwad byd busnes am ymagwedd gydlynol yn y maes hwn. Nod y Comisiwn wrth gydweithio â'r sector breifat fydd rhoi cyngor, gwybodaeth, arweiniad a chynyddu ymwybyddiaeth. Er mwyn sicrhau eu cefnogaeth, bydd y Comisiwn yn ymgynghori â busnesau bach a mawr ar faterion sy'n debygol o effeithio arnynt. Y prif nod fydd darbwyllo busnesau i arwyddo cytundebau ymrwymo, gan ddefnyddio gorfodaeth yn unig os yw pob ffordd arall o sicrhau cydymffurfiaeth wedi methu.

### **Y Sector Gyhoeddus**

Bydd y CCHD yn ceisio sicrhau bod yr holl ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu prif-ffrydio yn y sector gyhoeddus. Un o amcanion y Comisiwn newydd fydd rhannu gwybodaeth ynglŷn â beth yw dyletswyddau cyrff cyhoeddus. Bydd y Comisiwn yn ceisio sicrhau bod Cyrff Cyhoeddus yn cydymffurfio â'r canlynol:

- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000.
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.
- Camau pendant y llywodraeth er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched.

### ***Y Dimensiwn Albanaidd a Chymreig***

Oherwydd y cyd-destun datganoledig ym Mhrydain, bydd rhaid i strategaeth y CCHD adlewyrchu profiadau a blaenoriaethau Cymreig ac Albanaidd. Er mwyn caniatáu hyn, bydd rhaid gwneud y trefniadau canlynol ar lefel Gymreig:

- Sefydlu swyddfeydd yng Nghymru.
- Bydd y Cynulliad yn penodi un aelod o'r bwrdd sydd â gwybodaeth arbennig am Gymru.
- Sefydlu pwyllgor Cymreig fydd yn gosod blaenoriaethau ac yn goruchwyllo.
- Paratoi adroddiadau ar eu gweithredoedd yng Nghymru fydd yn cael eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd cael swyddfeydd yng Nghymru yn galluogi deialog â budd-ddeiliaid a grwpiau o gwsmeriaid yng Nghymru. Gall y pwyllgor Cymreig ddylanwadu ymhellach ar waith y Comisiwn yng Nghymru gan y bydd yn derbyn pwerau fydd yn ei alluogi i wneud penderfyniadau mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, a bydd ganddo rôl ymgynghorol mewn meysydd eraill hefyd.

Un o ddyletswyddau eraill y CCHD fydd cynorthwyo Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad i fabwysiadu dull cyson o weithredu ei ymrwymadau ar faterion cydraddoldeb. Bydd hefyd angen i'r CCHD fabwysiadu perthnasau gwaith effeithiol â'r Comisiynydd Plant, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

#### **4.1.2 Ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<sup>117</sup>**

Yn ei ymateb i'r Papur Gwyn ar bwerau'r Comisiwn newydd, nododd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod yr iaith yn ystyriaeth a ddylai gael ei gosod ochr yn ochr ag ystyriaethau cyfartaledd eraill yng Nghymru. Mynegodd hefyd fod angen meddwl am y berthynas rhwng y Bwrdd a'r CCHD, nid yn unig ar lefel Gymreig ond ar lefel Brydeinig. Argymhellir yr angen i ystyried y posibilrwydd o sefydlu memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y Bwrdd a'r CCHD.

Rhai o'r pwyntiau eraill o ddiddordeb a godwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg oedd:

- I ba raddau y bydd modd i'r CCHD brif-ffrydio'r iaith fel rhan o'r agenda gydraddoldebau yng Nghymru?
- I ba raddau y gellir osgoi dyblygu dyletswyddau? e.e.
  - Os bydd y CCHD yn datblygu arfau prif-ffrydio ac asesiadau effaith cydraddoldebau, a fydd modd i'r Gymraeg gael ei chynnwys?
  - I ba raddau y bydd modd cydweithio wrth gynnig cyfleoedd hyfforddi?
  - I ba raddau y bydd modd cydweithio wrth farchnata'r cydraddoldebau a chodi ymwybyddiaeth?

<sup>117</sup> Ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r Papur Gwyn, 'Fairness for All: A new commission for equality and human rights'. Dim Dyddiad.

Hefyd, tanlinellwyd bod dyletswydd ar y CCHD i lunio Cynllun Iaith Gymraeg a'i bod yn bwysig sicrhau bod ei swyddfeydd y tu allan i Gymru yn gallu delio yn Gymraeg â'r cyhoedd yng Nghymru.

#### **4.1.3 Pwyso a mesur goblygiadau sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Mae sefydlu'r CCHD newydd yn cynnig nifer o gyfleoedd i brif-ffrydio ac felly cryfhau sefyllfa'r Gymraeg a hawliau ei siaradwyr ym mhob sector o fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Bydd sefydlu'r CCHD yng Nghymru yn sicr yn cryfhau'r duedd tuag at gysoni prosesau mesur cyrhaeddiad polisïau a mesurau cydraddoldeb a chyfuno rhaglenni hyfforddiant. O 2007 ymlaen rhagwelir y bydd nifer o gyrff yn mynd ati i gyfuno'u cynlluniau ar gyfer hil, rhyw ac anabledd a chreu un ddogfen sy'n cyfuno pob Cynllun Cydraddoldeb. Rhagwelir y bydd angen cysoni a safoni'r dulliau a ddefnyddir gan sefydliadau cyhoeddus i weithredu a hybu cyfartaledd ar sail rhyw, hil, anabledd ac iaith (fel y ceisir ei wneud ar hyn o bryd ym myd Llywodraeth Leol drwy hybu'r Safon Cydraddoldeb).

Er bod cyfleoedd i gryfhau cydnabyddiaeth o hawliau siaradwyr Cymraeg yn codi trwy sefydlu'r CCHD, erys anfanteision a chamwahaniaethu tra bod gwendidau Deddf 1993 ar ei ffurf bresennol yn parhau. Bydd gan y CCHD bwerau i gyflwyno rhybuddion cydymffurfiaeth os ceir sicrwydd nad yw corff wedi cydymffurfio. Gall y CCHD hefyd sefydlu adolygiad barnwrol. Mae'r pwerau hyn yn gryfach na'r pwerau sydd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Un o'r problemau sy'n llesteirio gweithrediad yr agenda cydraddoldebau yng Nghymru yw bod cyfartaledd i'r Gymraeg, o ganlyniad i statws statudol cyfyngedig y Bwrdd, yn cael ei weld yn llai "cyfartal" na'r cyfartaleddau eraill. Mae sefydlu'r CCHD yng Nghymru yn tanlinellu hyn ac yn cyfiawnhau'r angen i:

- i. sefydlu hawliau ieithyddol pendant i siaradwyr Cymraeg, a
- ii. sicrhau bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu'r Comisiynydd Iaith arfaethedig yn cael y pwerau i gyflwyno rhybuddion cydymffurfiaeth a'r gallu i sefydlu adolygiad barnwrol.

Mae cwmpas statudol y deddfau anabledd, rhyw a hil yn draws-sectorol ac yn tanlinellu gwendid cyfyngu dylanwad Deddf 1993 i'r sector gyhoeddus. O fewn cyd-destun sefydlu'r CCHD, rhydd yr anghysondeb hwn sail i'r galw dros ymestyn cwmpas y ddeddf iaith i gynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol. Er mwyn sicrhau eu cefnogaeth, bydd y CCHD yn ymgynghori â busnesau bach a mawr ar faterion sy'n debygol o effeithio arnynt. Mae'n bosibl y buasai hyn yn cynnig modd ychwanegol o ddylanwadu ar y sector breifat pe na chyflwynir mesur iaith newydd i'r perwyl hwnnw.

Rhaid gofyn hefyd, ym mha fodd y bydd yr agenda hawliau dynol ac agenda'r cydraddoldebau yn cael eu cymathu a'u cyfuno? Gall gosod y Gymraeg o fewn yr agenda 'hawliau dynol' Ewropeaidd ehangach fod yn fodd i dynnu sylw at le'r Gymraeg ac ieithoedd eraill a gafodd eu lleiafrifo.

Mae tuedd ymhlith asiantaethau sy'n ymdrin ag agweddau ar 'amrywiaeth ddiwylliannol' yng Ngwledydd Prydain i ystyried ieithoedd brodorol lleiafrifol (ac iselfri yn hanesyddol) o fewn yr un cyd-destun ag ieithoedd ethnig anffroddol. Dyma ddau faes sy'n perthyn yn agos i'w gilydd ond sy'n gofyn am wahanol fathau o ymyrraeth gadarnhaol ac ystyriaethau polisi. Rhaid gofyn a fyddai modd i'r drefn arfaethedig newydd fod yn fodd i sicrhau mwy o eglurder yn y cyswllt hwn.

Nid oes amheuaeth bod gosod hawliau siaradwyr Cymraeg yng nghyd-destun y cydraddoldebau statudol yn cynnig perspectif priodol ar yr iaith, a gallai fod yn fodd effeithiol o ledu ymwybyddiaeth am y Gymraeg ymhlith yr holl gyrff ac asiantaethau sy'n ymwneud â'r cydraddoldebau. Hefyd, gall godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a dyfnhau eu dealltwriaeth o sefyllfa'r iaith yn gyffredinol wrth i'r Gymraeg gael ei chysylltu'n gyson â'r cydraddoldebau eraill.

Wedi cydnabod, felly, bod y Gymraeg yn teilyngu lle priodol o fewn yr agenda gydraddoldebau, yr unig anfantais bosibl o gysylltu'r iaith Gymraeg â'r agenda honno yw'r posibilrwydd o glymu mater parhad ac adferiad yr iaith yn gyfan gwbl wrth y cyd-destun hwnnw. Mae gwyddor cynllunio iaith yn llawer ehangach. Mae'n ymwneud â sawl cyd-destun pwysig arall, sawl 'agenda' arall a sawl gwyddor arall. Ymhlith y cyd-destunau pwysig hyn mae gwyddor gymharol newydd eco-ieithyddiaeth a'r angen i warchod a hybu 'ecosystemau' ieithyddol a chymdeithasol; cymdeithaseg iaith; anthropoleg; datblygiad syniadaeth wleidyddol ar lefel Ewropeaidd a thu hwnt sy'n parchu ac yn ceisio hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a diwylliannau brodorol, a'r symudiad a welir ymhlith pobloedd frodorol a diwylliannau brodorol ar bob cyfandir i oroesi a gwarchod eu hunaniaeth yn wyneb y globaleiddio cynyddol.

Wrth osod y Gymraeg o fewn unrhyw gyd-destun datblygol megis y cydraddoldebau, felly, doeth o beth yw cadw mewn golwg yr holl ystyriaethau ehangach hyn, gan dynnu sylw atynt a phrif-ffrydio eu perthnasedd gymaint ag sy'n bosibl.

**Argymhelliad 8: Dylid gochel rhag clymu mater parhad ac adferiad yr iaith yn gyfan gwbl wrth y cyd-destun cydraddoldeb.**

**Argymhelliad 9: Dylid sefydlu hawliau ieithyddol pendant i siaradwyr Cymraeg.**

**Argymhelliad 10: Dylid sicrhau bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael y pwerau i gyflwyno rhybuddion cydymffurfiaeth a'r gallu i sefydlu adolygiad barnwrol.**

## 4.2 Adolygu'r maes cydraddoldeb ym Mhrydain Fawr

Bu'r ddeddfwriaeth a luniwyd ar gyfer sefydlu'r CCHD yn rhan o agenda ehangach Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ymdrin â phroblemau gwahaniaethu. Cynhaliwyd dau adolygiad dylanwadol i lywio gwaith y llywodraeth yn y maes. Yn gyntaf, cynhaliwyd **Adolygiad o Gydraddoldeb**. Cyhoeddodd yr Adolygiad o Gydraddoldeb ei adroddiad ymgynghorol ym mis Mawrth 2006 a'i adroddiad terfynol *Tegwch a Rhyddid*<sup>118</sup> ym mis Chwefror 2007. Nod yr Adolygiad o Gydraddoldeb oedd ymchwilio i'r ffactorau cymdeithasol a diwylliannol sydd wrth wraidd anfantais ac anghydraddoldeb ym Mhrydain.

Yn ail, mae gan y Llywodraeth ymrwymiad maniffesto i gyflwyno Mesur Cydraddoldeb Unigol yn ystod y Senedd hon. Er mwyn gweithredu ar yr ymrwymiad hwn, lansiwyd yr **Adolygiad o Gyfraith Gwahaniaethu** ym mis Chwefror 2005 i "ystyried y cyfleoedd ar gyfer creu fframwaith gyfraith gwahaniaethu cliriach a symlach sy'n cynhyrchu canlyniadau gwell i'r rhai o dan anfantais."<sup>119</sup> Ym mis

<sup>118</sup> *Tegwch a Rhyddid: Adroddiad terfynol yr Adolygiad o Gydraddoldeb: Crynodeb* (yn y Gymraeg). Yn y Saesneg yn unig y ceir yr adroddiad llawn: *Fairness and Freedom: The Final Report of the Equalities Review*.

<sup>119</sup> *Adolygiad o Gyfraith Gwahaniaethu – Fframwaith ar gyfer Tegwch: Cynigion ar gyfer Mesur Cydraddoldeb Unigol i Brydain Fawr*, Mehefin 2007, tud. 3.

Mehafin 2007, cyhoeddwyd *Fframwaith ar gyfer Tegwch* sy'n cyflwyno cynigion y Llywodraeth ar gyfer Mesur Cydraddoldeb Unigol i Brydain Fawr, gyda'r cyfnod ymgynghori ar y cynigion hynny'n cau ar 4 Medi 2007.

Yn fras, mae'r cynigion ar gyfer Mesur Cydraddoldeb Unigol i Brydain Fawr sy'n anelu at gysoni a symleiddio'r gyfraith ar draws chwe maes cydraddoldeb (hil, rhyw, anabledd, oedran, tueddfryd rhywiol a chrefydd/cred) yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- symleiddio a safoni diffiniadau a phrofion mewn cyfraith a gwahaniaethu;
- symleiddio eithriadau a'u cysoni;
- hyrwyddo diwylliant o gydymffurfio â'r gyfraith;
- symleiddio'r ffordd y mae'r gyfraith yn trin swyddogaethau cyhoeddus a darpariaethau nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau;
- cyflwyno dyletswydd unigol ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb ar sail hil, anabledd a rhyw yn lle'r dyletswyddau ar gyfer hil, anabledd a rhyw ar wahân;
- Ymestyn dyletswydd cydraddoldeb unigol y sector gyhoeddus i gwmpasu oedran, tueddfryd rhywiol, a/neu grefydd neu gred;
- hyrwyddo arfer da o ran cydraddoldeb yn y sector breifat;
- datrys anghydfod mewn modd effeithiol.<sup>120</sup>

Tynnwn sylw at dair agwedd ar y cynigion a allai fod yn arwyddocaol o ran ymdrechion i sefydlu a gwarchod hawliau siaradwyr Cymraeg trwy deddfwriaeth.

1. Gall cynnwys y Gymraeg wrth '*safoni diffiniadau a phrofion mewn cyfraith a gwahaniaethu*' fod yn fodd i amlygu'r angen i lunio deddfwriaeth fyddai'n cydnabod 'hawliau' ar gyfer siaradwyr Cymraeg.
2. Mae'r cynnig "*mai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ddylai fod yn bennaf gyfrifol am gyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer, gan weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol*"<sup>121</sup> yn codi cwestiynau ynglŷn â chyfrifoldebau Bwrdd yr Iaith Gymraeg a pherthynas y Bwrdd â'r CCHD.
3. Bwriad y Llywodraeth i **hyrwyddo** yn hytrach na **gosod dyletswydd** ar y sector breifat. Ceir beirniadaeth o sawl cyfeiriad fod y cynnig hwn yn fethiant, yng ngeiriau'r Comisiwn Hawliau Anabledd er enghraifft, o ran "*address[ing] the continuing failure of the private sector to tackle discrimination or embrace equality*".<sup>122</sup> Gall ymateb y Llywodraeth i'r feirniadaeth hon a'i hymateb i unrhyw bwysau arni i osod dyletswydd benodol ar y sector breifat fod yn arwydd o'i pharodwrydd i gytuno i gynnwys y sector breifat mewn deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg ai peidio.

<sup>120</sup> Ibid. Crynodeb cyffredinol o: Ddogfen Ymgynghori, Asesiad Effaith Reoleiddiol Cychwynnol, Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

<sup>121</sup> Ibid. tud. 6.

<sup>122</sup> E.e. gweler ymateb y Comisiwn Hawliau Anabledd: <http://www.drc-gb.org>

#### 4.2.1 Ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddogfen ymgynghori'r Adolygiad o Gyfraith Gwahaniaethu

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi llunio ymateb<sup>123</sup> trylwyr a manwl i argymhellion y Llywodraeth ('Every one of us...') sy'n werth ei ddarllen yn llawn er mwyn deall yn union yr her a'r cyfleoedd a gynigir trwy Fesur Cydraddoldeb Unigol.

##### ***Sefydlu'r Gymraeg fel mater cydraddoldeb***

Ni cheir unrhyw gyfeiriad at yr iaith Gymraeg nac ychwaith unrhyw ieithoedd eraill yn yr adroddiadau *Rhyddid a Thegwch a Fframwaith ar gyfer Tegwch*. Adlewyrcha hyn ddiffyg dealltwriaeth o sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Nghymru gan y rhai sy'n arwain y drafodaeth ddeallusol ar natur cydraddoldeb a gwahaniaethu yn Lloegr. Yn ogystal, dengys yr adroddiadau hyn sut yr erys Llywodraeth Prydain yn gyndyn i gofleidio cyfleoedd pellach i hyrwyddo a chynnig gwell hawliau i siaradwyr ieithoedd lleiafrifol Prydain, er bod y Llywodraeth wedi arwyddo *Siarter Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol*.

Yn '*Pob un ohonom ni...*' mae Bwrdd yr Iaith yn dadlau dros yr egwyddor o drin yr iaith Gymraeg fel mater cydraddoldeb gan gyfeirio at Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, Deddf yr Alban 1998, Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd 2000, Cynllun Iaith Statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Safon Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol Cymru. Dywed:

*"There are legal precedents at UK and European level for treating languages as an equality issue. In Wales, all levels of Government have made unequivocal commitments that treat the Welsh language as a part of the equalities agenda. The UK Government should adopt this approach as it takes this issue forward, following this consultation."* (t.4)

*"The Welsh language is greatly valued, but faces significant challenges. Including the Welsh language as an equality strand would protect its future prospects."* (t.5)

Mae'r angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ddadlau dros gydnabod y Gymraeg fel mater cydraddoldeb yn adlewyrchu'r her a wynebir o ran sefydlu a gwreiddio cydnabyddiaeth ac ystyriaethau o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar yr agenda gydraddoldeb unedig newydd. Byddai gwell cyfle i gyflawni hyn petai Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu weinidogion Llywodraeth y Cynulliad yn dod yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chydabod fel mater cydraddoldeb llawn yng ngolwg y ddeddfwriaeth gydraddoldeb arfaethedig fel y'i gweithredir yng Nghymru.

Datgan y *Fframwaith ar gyfer Tegwch*: *"there will be special arrangements to ensure that the Single Equality Bill is tailored to the needs of Scotland and Wales"*.<sup>124</sup>

Rhydd y gydnabyddiaeth hon o sefyllfa unigryw Cymru, gyfle i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio'n effeithiol o fewn yr agenda gydraddoldeb newydd

<sup>123</sup> 'Every one of us ...' *The Welsh Language Board's response to the Discrimination Law review consultation paper "A Framework for Fairness: Proposals for a Single Equality Bill for Great Britain"*, September 2007.

<sup>124</sup> *A Framework for Fairness: Proposals for a Single Equality Bill for Great Britain*, Mehefin 2007, tud. 4.



fel y mae'n cael ei gweithredu yng Nghymru. Priodol, felly, fyddai sicrhau cymalau o fewn y Mesur Cydraddoldeb Unigol i Brydain Fawr fyddai'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Cynulliad am lunio Mesur sy'n sefydlu'r Gymraeg fel y seithfed elfen gydraddoldeb yng Nghymru.

Byddai'n rhaid sicrhau, yn ogystal, bod Mesur Cydraddoldeb Unigol i Brydain Fawr yn:

- i) cydnabod siaradwyr Cymraeg fel grŵp sy'n haeddu cael ei warchod rhag camwahaniaethu anuniongyrchol; a
- ii) datgan na chaiff sefydliadau cyhoeddus a leolir y tu allan i Gymru gamwahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg yng Nghymru sy'n derbyn eu gwasanaethau.

I'r perwyl hwn, datgan y Bwrdd:

*“As discrimination law is harmonised across the UK and across each equality strand, we believe that discrimination law should be extended to protect Welsh speakers. The UK and Welsh Assembly Governments should agree to introduce discrimination legislation which includes the language alongside the other equality strands in the most effective and appropriate manner”<sup>125</sup>.*

*“It would be entirely appropriate to include Welsh speakers as a protected group within legislation covering **indirect discrimination**.”<sup>126</sup>*

*“any indirect discrimination legislation which is relevant to the activities of public, private and voluntary sector organisations must also include Welsh speakers as a protected group”.<sup>127</sup>*

*“Under statutory language schemes prepared in accordance with the Welsh Language Act 1993, public bodies based outside Wales are required to provide services in Welsh to the public in Wales. Discrimination law should operate on a similar basis, therefore, so that public bodies based outside Wales would need to avoid discriminating against Welsh speakers based in Wales”.<sup>128</sup>*

### **Camwahaniaethu yn erbyn y rhai sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg.**

Mae ymateb y Bwrdd i'r Adolygiad o Gyfraith Gwahaniaethu hefyd yn cyflwyno'r achos ar gyfer cydnabod sut y camwahaniaethir yn erbyn siaradwyr Cymraeg yn achos:

- gofal ar gyfer pobl hŷn
- gofal iechyd
- gofal plant
- addysg
- gwasanaethau
- yn y gweithle<sup>129</sup>

<sup>125</sup> 'Every one of us...', tud. 9.

<sup>126</sup> Ibid. tud. 9.

<sup>127</sup> Ibid. tud. 10.

<sup>128</sup> Ibid. tud. 8, troednodyn 14.

<sup>129</sup> Ibid. tud. 5 a 6.

*“Many people in Wales are unable to use the Welsh language where they would prefer to, need to, or would be better served by being able to. These people are being discriminated against, and the best way to address that discrimination is by unequivocally establishing the Welsh language as an equality issue in law.”<sup>130</sup>*

Er mwyn cydnabod sefyllfa arbennig siaradwyr Cymraeg ar gyfer cael eu gwarchod rhag camwahaniaethu anuniongyrchol, buasai'n rhaid sefydlu statws grŵp penodol i siaradwyr Cymraeg trwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae caniatáu hawliau penodol i aelodau o grwpiau ieithyddol yn cael ei gydnabod fel arfer da yn y maes cydraddoldebau:

*“group-differentiated rights compensate for unequal circumstances which put the members of minority cultures at a systemic disadvantage in the cultural market-place regardless of their choices in life. This is one of the many areas in which true equality requires not identical treatment, but rather differential treatment in order to accommodate differential needs”<sup>131</sup>*

Ceir cynsail eisoes ar gyfer cydnabod hawliau sy'n gwahaniaethau ar sail perthyn i grŵp o fewn cyfraith Prydain. Mae cyfraith achosion yn Lloegr wedi datgan, er enghraifft, caiff y Roma a Theithwyr Gwyddelig, er enghraifft, eu cydnabod fel grŵp hil gan *Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976*. Er na chaiff cymunedau tebyg (megis Teithwyr Albanaidd a Sipsiwn Albanaidd) eu cydnabod fel grŵp hil neu grŵp ethnig gan ddeddfwriaeth hil Prydain Fawr, mae Gweinyddiaeth yr Alban yn eu trin felly. Mae Gweinyddiaeth yr Alban yn cydnabod bod gan yr holl gymunedau Sipsiwn a Theithwyr anghenion penodol a'u bod yn haeddu'r un lefel o amddiffyniad rhag camwahaniaethu a chamdriniaeth â holl gymunedau ethnig lleiafrifol yr Alban<sup>132</sup>.

**Argymhelliad 11: Dylid sefydlu statws grŵp penodol i siaradwyr Cymraeg (megis yn achos y Roma a Theithwyr Gwyddelig) trwy ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn gwarchod siaradwyr Cymraeg rhag gwahaniaethu anuniongyrchol.**

***Dyletswyddau a phwerau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg***

Dengys y dyfyniadau dilynol gan Fwrdd yr Iaith sut y gall y Mesur Cydraddoldeb Unigol gyfrannu'n uniongyrchol at ymestyn dylanwad y Bwrdd fel gwarchodydd hawliau siaradwyr Cymraeg. Gallai'r Mesur hefyd greu pwerau gorfodi cydymffurfiaeth i'r Bwrdd neu'r Comisiynydd Iaith arfaethedig:

*“We support the proposal for the CEHR to issue **compliance notices**, enforceable through the courts, if a public body fails to comply with its scheme. We believe the Board (or the proposed Welsh Language Commissioner) should have the same enforcement powers with regard to the provision of services through the medium of Welsh”<sup>133</sup>*

*“We support the need for the CEHR to agree memoranda of understanding with the **public service inspectorates**. We believe that*

<sup>130</sup> Ibid. tud. 6.

<sup>131</sup> Will Kymlicka (1995) *Multicultural Citizenship*. Gwasg Prifysgol Rhydychen, tud. 113.

<sup>132</sup> <http://www.Scotland.gov.uk/Topics/people/Equality/gypsiestravellers/ethnic>

<sup>133</sup> 'Every one of us...', tud. 11.

*the Board (or the proposed Welsh Language Commissioner) should have similar memoranda agreed with the inspectorates.*<sup>134</sup>

*“we will wish to work closely with the CEHR as it develops its guidelines and codes of practice:*

- a. Firstly, in order to ensure that the needs, status and legal position of the Welsh language and Welsh speakers are properly recognised and provided for (this will include the need to ensure that nothing is published in the CEHR’s documents which could undermine the position of the language).*
- b. Secondly, we will need to consider to what extent the CEHR, the Board and individual public bodies (as appropriate) should work together as single equality schemes are developed, implemented and monitored.*
- c. Thirdly, we can expect that **Crown bodies** will be required to prepare single equality schemes, when requested by the CEHR. At present, the Board cannot require Crown bodies to prepare Welsh language schemes.*<sup>135</sup>

Gan mai parhau o hyd y mae'r trafodaethau uchod rhwng y Bwrdd a'r cyrff perthnasol eraill ynghylch sut yn union y bydd y darpar fframwaith cydraddoldebau cyfunol yn ymdrin â'r Gymraeg, amhriodol ar adeg ysgrifennu'r bennod hon fyddai dyfalu sut y datrysir y materion cymhleth sy'n codi o'r trafodaethau hynny.

Ymddengys fodd bynnag mai'r egwyddorion sylfaenol y dylid eu cadw mewn golwg yw:

- Priodol yw gosod y Gymraeg yng nghyd-destun materion cydraddoldeb.
- Dylai'r materion cydraddoldeb eu hunain – gan gynnwys y Gymraeg – gael eu trin yn gyfartal a chyn bwysiced â'i gilydd o fewn y cyd-destun hwnnw, er mwyn sicrhau tegwch a chyfiawnder i'r grwpiau a gynrychiolir gan y cyrff statudol perthnasol a fo'n lladmeryddion ac eiriolwyr drostynt.

### **4.3 Rheoli a mesur polisiau gweithredu cydraddoldeb mewn awdurdodau lleol**

Yn 2002 lanswyd y Safon Cydraddoldeb (sic) ar gyfer Llywodraeth Leol Cymru<sup>136</sup> yn dilyn cyhoeddi'r Safon yn Lloegr yn 2001. Nod y Safon yw darparu “*Cyfrwng ymarferol [...] i helpu awdurdodau i briflifo a meincodi'r ffordd y maent yn ymdrin â'r cydraddoldebau yn y ddarpariaeth o wasanaethau ac mewn cyflogaeth.*”<sup>137</sup>

Ymgais yw'r Safon, felly, i gysoni a safoni i ryw raddau y modd yr ymdrinnir â materion cydraddoldeb hil, rhyw ac anabledd gan awdurdodau lleol. Caiff y Gymraeg ei chynnwys fel maes cydraddoldeb ychwanegol yng Nghymru. Er ei bod yn Safon wirfoddol, mabwysiadwyd hi gan fwyafrif yr awdurdodau lleol yng Nghymru, ac mae

<sup>134</sup> Ibid. tud. 11.

<sup>135</sup> Ibid. tud. 13-14.

<sup>136</sup> Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, *Y Safon Cydraddoldeb (sic) ar gyfer Llywodraeth Leol Cymru*, Caerdydd, 2002.

<sup>137</sup> Ibid. Cyflwyniad.

16 cyngor wedi ymrwymo i gynyddu eu lefel cyrhaeddiad<sup>138</sup> fel rhan o'u Cytundebau Polisi â Llywodraeth y Cynulliad.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, amlygwyd yr angen i addasu'r Safon Cydraddoldeb yn sylweddol o ganlyniad i nifer o newidiadau yn y maes deddfwriaeth cydraddoldebau yn y cyd-destun Prydeinig sef:

- Dyletswyddau Sector Gyhoeddus (Public Sector Duties) ar gyfer dileu gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb hil, anabledd a rhyw.
- Rheoliadau cyflogi 2003 a 2006 sy'n gwahardd gwahaniaethu ym meysydd cyflogaeth a hyfforddi ar sail tueddfryd rhywiol, crefydd/cred ac oedran.
- Amodau newydd ar ddiogelwch rhag gwahaniaethu mewn perthynas â darparu nwyddau, adnoddau a gwasanaethau ar sail crefydd/cred a thueddfryd rhywiol.
- Y goblygiadau ar gyfer llywodraeth leol yn dilyn adolygiad o'r anghydraddoldeb sy'n parhau o fewn cymdeithas Prydain a rôl deddfwriaeth wrth ymgodymu â chydraddoldeb gan yr *Adolygiad o Gydraddoldeb a'r Adolygiad o Gyfraith Gwahaniaethu*. Mae Llywodraeth San Steffan wedi cyhoeddi Papur Gwyrdd ar ei bwriad i lunio deddf cydraddoldeb cyfansawdd sef y *Mesur Cydraddoldeb Unigol* ar gyfer Prydain Fawr, gyda'r cyfnod ymgynghori ar y papur hwnnw'n dod i ben ddechrau mis Medi 2007.

Yng Nghymru, mae *Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella*; adolygiad Beecham o wasanaethau cyhoeddus; ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Beecham gyda *Creu'r Cysylltiadau* a'r pwyslais ar y 'dinesydd' a model 'cydweithredol' ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau; *Rhannu Cyfrifoldeb* sy'n ailddiffinio'r berthynas rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn dilyn Beecham; ynghyd â'r *Fframwaith Mesur Perfformiad* oll wedi esgor ar yr angen i weddnewid y Safon Cydraddoldeb a'i theilwra'n benodol i'r cyd-destun polisi sy'n unigryw i Gymru.

Bwriedir disodli'r Safon Cydraddoldeb gan y **Fframwaith Gwella Cydraddoldeb**. Daeth y cyfnod ymgynghori ar y Fframwaith Gwella Cydraddoldeb (FfGC) arfaethedig i ben ddiwedd mis Gorffennaf 2007 a'r bwriad, yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, yw cychwyn gweithredu'r Fframwaith ym mis Hydref/Tachwedd 2007.

Mae'r Fframwaith Gwella Cydraddoldeb yn:

*"annog awdurdodau lleol i ddatblygu un cynllun cydraddoldeb fydd yn cynnwys y 7 agwedd ar gydraddoldeb sef hil, rhyw, anabledd, y Gymraeg, oedran, tueddiad [sic] rhywiol a chrefydd/credo"*<sup>139</sup>.

Er bod y Gymraeg yn cael ei rhestru fel un o'r saith maes cydraddoldeb mae diffyg crebwyll ynghylch materion cydraddoldeb o ran y Gymraeg yn drwm iawn ar

<sup>138</sup> Mae'r Safon yn gosod 5 Lefel Cyrhaeddiad sef: Lefel 1 : Ymrwymiad i Bolisi Cydraddoldeb Cynhwysfawr; Lefel 2 : Asesu ac Ymgynghori; Lefel 3 : Gosod Amcanion a Thargedau Cydraddoldeb; Lefel 4 : Systemau Gwybodaeth a Monitro yn ôl Targedau; Lefel 5 : Sicrhau ac Adolygu Canlyniadau.

<sup>139</sup> The Equality Improvement Framework for Wales (Draft), Rhagarweiniad.

ymagwedd a manylion y Fframwaith y bu ymgynghori arno. Nid yw'r ddogfen ymgynghorol yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw destun yn ei adran ar:

- *Welsh local government policy context and public services reform agenda*
- *Relationship with statutory equality schemes*
- *Mainstreaming approach to equality*<sup>140</sup>

Tra bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei adborth i'r ymarfer ymgynghori yn "croesawu gweld y Gymraeg yn cael ei chynnwys o fewn yr agenda gydraddoldeb fel y dylai fod" mae'n pwysleisio'r angen am "eglwriad llawn ynghylch safleoliad y ddogfen hon mewn perthynas â'r Gymraeg."<sup>141</sup>

Ar y cyfan, mae'r Bwrdd yn derbyn nifer o elfennau'r Fframwaith arfaethedig gan weld tebygrwydd â nifer o elfennau a weithredir eisoes gan gynlluniau iaith cyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, nodar Bwrdd nifer o elfennau fyddai'n greiddiol i fframwaith gwella cydraddoldeb o safbwynt mynediad siaradwyr Cymraeg i wasanaethau yn y Gymraeg nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith ymgynghorol. Un o'r pwysicaf o'r rhain, yn ôl y Bwrdd, byddai cynnwys 'datblygu sgiliau' yn y rhestr o elfennau craidd sydd eu hangen i wella cydraddoldeb, gan bwysleisio bod "datblygu sgiliau iaith gweithlu, ar lafar neu ysgrifenedig, er mwyn gwella gwasanaethau yn hanfodol".<sup>142</sup>

Un o'r prif gwestiynau sy'n codi wrth ystyried y Fframwaith arfaethedig a'r bwriad i fabwysiadu'r agenda hon drwy weddill y sector gyhoeddus maes o law yw perthynas y fframwaith cydraddoldebau cyfunol â Chynlluniau Iaith Gymraeg. Pwysleisia'r Bwrdd nad yw statws cynlluniau iaith yn un sy'n agored i newid ar hyn o bryd gan fod sefyllfa ddeddfwriaethol gyfredol y Gymraeg a'r cydraddoldebau eraill yn dra gwahanol:

*"Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng meysydd cydraddoldeb, e.e. dyletswydd sydd yna ar gorff i ddarparu gwasanaethau Cymraeg tra fo materion cydraddoldeb hil, rhyw ac anabledau yn ymhél â hawl yr unigolyn. Ni fydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhan o'r CEHR er y bydd perthynas hyd braich."*<sup>143</sup>

Ni wél y Bwrdd unrhyw anghysondeb rhwng gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg ynghyd â'r FfGC:

*Nid yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweld fod y ffaith fod gan awdurdod gynllun iaith Gymraeg yn rhwystr rhag cydweithio gyda'r chwe elfen cydraddoldeb arall fel rhan o'r Fframwaith Gwella Cydraddoldeb. Er enghraifft ac er mwyn osgoi dyblygu gwaith efallai gallai trefniadau monitro ac adrodd presennol cynlluniau iaith Gymraeg gyfrannu tuag at y dystiolaeth iaith o dan y fframwaith newydd*<sup>144</sup>.

---

<sup>140</sup> The Equality Improvement Framework for Wales (Draft) gan Stuart Speeden, Centre for Local Policy Studies, Edge Hill University, Liverpool. 25 Ebrill 2007. Esboniad yr awdur yw fod yr adrannau hyn i'w drafftio maes o law.

<sup>141</sup> Fframwaith Gwella Cydraddoldeb, Holiadur Derbyn Adborth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

<sup>142</sup> Ibid.

<sup>143</sup> Ibid.

<sup>144</sup> Ibid.

## Casgliadau

Mae'r Fframwaith Gwella Cydraddoldeb ymgynghorol yn cynnig model generig ar gyfer rheoli a mesur perfformiad ac nid yw'n manylu ar union elfennau gweithredu'r saith elfen cydraddoldeb. Yn hyn o beth, anodd yw rhagweld yn union sut y byddai gweithredu'r fframwaith yn ymgodymu â gofynion tra wahanol y saith maes cydraddoldeb. Mae'r Fframwaith ar ei ffurf ymgynghorol yn adlewyrchu mai Fframwaith a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer Lloegr ydyw sy'n anwybyddu unrhyw ystyriaethau o'r iaith Gymraeg. Er mai rhan ganolog o genhadaeth y Fframwaith arfaethedig yw prif-ffrydio agweddau ar gydraddoldeb mewn meysydd polisi ac wrth ddarparu gwasanaethau, mae'n amlwg ddigon nad yw'r Gymraeg wedi ei phrif-ffrydio i'r agenda honno gan y prif-ffrydwyr eu hunain. Bydd yn bwysig ceisio sicrhau bod ystyriaethau o'r Gymraeg yn ymddangos fel ystyriaethau cyfartal yn y fersiwn derfynol er mwyn parhau a chryfhau ar ei ragflaenydd, y *Safon Cydraddoldeb*.

Mantais cynnwys y Gymraeg o fewn *Fframwaith Gwella Cydraddoldeb*, wrth gwrs, fyddai normaleiddio ystyriaeth o'r Gymraeg fel mater cydraddoldeb. Ar ei orau, byddai'n priflifo ystyriaethau dewis iaith i'r dinesydd a medrau iaith staff y sefydliad ar draws pob agwedd ar wasanaeth a chyflogaeth awdurdodau lleol. Mae'r Cynlluniau Iaith Gymraeg gorau yn cynnig arf effeithiol iawn ar gyfer gwella gallu sefydliadau i drin y Gymraeg fel mater cydraddoldeb. Yn enwedig, felly, os parheir i weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg ochr yn ochr â'r FFGC newydd, gallasai'r datblygiadau i'r cyfeiriad hwn gryfhau statws ac ystyriaethau o'r Gymraeg gogyfer â gwasanaethau i'r cyhoedd.

Erys peryg, fodd bynnag, y gall mabwysiadu un fframwaith safonol ar gyfer mesur cynnydd ar gyfer cydraddoldeb, a hynny'n fframwaith na fyddai'n rhoi sylw llawn i'r elfennau hynny (megis datblygu sgiliau iaith staff) sy'n cael dylanwad uniongyrchol ar allu'r sefydliad i gynnig gwasanaethau cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg, wanhau a neilltuo'r Gymraeg o'r brif-ffrwd cydraddoldebau. Byddai'n fygythiad hefyd i sefyllfa bresennol y Gymraeg petai'r pwysau i arbed gwariant a phrinder adnoddau yn arwain, er enghraifft, at duedd ymhlith sefydliadau i benodi un swyddog â chyfrifoldeb am yr holl faes cydraddoldebau gan gollu arbenigedd swyddogion iaith a manylder a thrylwyrdeb datblygu a monitro gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg.

**Argymhelliad 12: Dylid parhau i weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg ochr yn ochr â'r *Fframwaith Gwella Cydraddoldeb ar gyfer Cymru*.**

**Argymhelliad 13: Dylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gydweithredu'n agos â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sicrhau bod y *Fframwaith Gwella Cydraddoldeb ar gyfer awdurdodau lleol yn adlewyrchu gofynion trin y Gymraeg yn fater cydraddoldeb cyflawn*.**

## **4.4 Goblygiadau sefydlu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Daeth y swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i rym ar 1 Ebrill 2006 gan ddisodli'r swyddi Ombwdsmon Llywodraeth Leol, Ombwdsmon Gwasanaeth Iechyd dros Gymru, Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ac Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru.

Prif swydd yr Ombwdsmon yw ymchwilio i gŵynion a gyflwynir iddo gan aelodau o'r cyhoedd am y ffordd y maent wedi cael eu trin gan gorff cyhoeddus. Rhestrwn isod brif nodweddion y gwasanaeth a gyflawnir gan yr Ombwdsmon:

- Mae'r Ombwdsmon yn gallu gweinyddu cyfiawnder mewn achosion na fyddai'n cael eu cywiro drwy'r llysoedd.
- Mae'n annibynnol ac yn ddiuedd ac yn cynnal ymchwiliadau preifat.
- Mae'r gwasanaeth am ddim i'r sawl sy'n achwyn.
- Nid ydyw wedi'i gyfyngu gan ddehongliad caeth o'r ddeddf na chynseiliau.
- Nid oes rhaid i achwynwr gael cyngor proffesiynol er mwyn cyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon.
- Sicheir cydymffuriad â'r Ombwdsmon drwy gyfreithiau, cytundebau, rheoleiddiwr neu rym moesol. Mae diffyg cydymffuriad yn brin iawn.
- Gwneir defnydd helaeth o setliadau anffurfiol a chymodi.
- Gall Ombwdsmon archwilio cofnodion, holi tystion a defnyddio arbenigwyr proffesiynol.
- Mae'n rhaid i achwynwr gwyno yn erbyn corff gan roi cyfle digonol iddo ymateb cyn troi at yr Ombwdsmon.

Yn y papur ymgynghorol ceir rhestr o'r sefydliadau y gall yr Ombwdsmon newydd ymchwilio iddynt<sup>145</sup>.

- Oedi wrth ddelio â cheisiadau unigolion pan fyddai wedi bod yn bosibl osgoi hynny.
- Gweithdrefnau gwallus neu fethiant i ddilyn gweithdrefnau.
- Delio yn wael â chwynion a pheidio rhoi gwybod am hawl achwynwr i apelio.
- Annhegwch neu gamwahaniaethu wrth ddelio ag unigolion.
- Rhoi cyngor camarweiniol neu annigonol.
- Gwrthod rhoi gwybodaeth heb reswm digonol.
- Anghwrteisi neu fethiant i ymddiheuro am gamgymeriad.
- Camgymeriadau wrth ddelio â hawliadau neu geisiadau.
- Methu cynnig datrysiad digonol pan fo angen.
- Gwneud dyfarniad ar sail ystyriaethau amherthnasol.

Fel rheol, ni fydd yr Ombwdsmon yn delio ag achosion lle gall llysoedd, tribiwnlysoedd neu apeliadau gynnig mecanwaith amgen. Sail y pwerau i ymchwilio, felly, yw camweinyddu yn ogystal â methiant gweithredol mewn gwasanaeth.

Ni fydd pwerau'r Ombwdsmon yn ymrwymadau cyfreithiol ac ni fydd pwerau barnwriaethol gan yr Ombwdsmon. Os nad yw awdurdod yn ymateb mewn modd digonol i adroddiad gan yr Ombwdsmon, bydd hawl gan yr Ombwdsmon gyhoeddi ail adroddiad ac yna gorfodi'r Awdurdod i gyhoeddi hysbyseb mewn papur newydd yn amlinellu argymhellion yr Ombwdsmon a'i resymau dros beidio ag ymateb.

---

<sup>145</sup> Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, *A Public Services Ombudsman for Wales: Powers and Jurisdiction*, Hydref 2003.

#### 4.4.1 Ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cynigion i sefydlu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<sup>146</sup>

Dealltwriaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw bod modd i'r Ombwdsmon ymchwilio i gwynion ynglŷn â chamweinyddu neu fethiannau cyrff a restrwyd yn unol â'u dyletswyddau yn ôl Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn ôl y Bwrdd, mae hyn yn gyson â'r egwyddor o brif-ffrydio'r iaith yng ngwaith cyrff y sector gyhoeddus yng Nghymru. Gall methiant i gydymffurfio â mesurau cynlluniau iaith fod yn esiampl o gamweinyddu neu fethiant i ddarparu gwasanaeth.

Noda'r Bwrdd y bydd angen sefydlu memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y Bwrdd a'r Ombwdsmon i osgoi dyblygu dyletswyddau.

Bydd angen i ddeunydd cyhoeddusrwydd gan gyrff cyhoeddus egluro sut y mae cyflwyno cwyn ynglŷn â gweithrediad Cynlluniau Iaith. Gall methiant i gynnig dewis iaith gael ei ystyried fel camweinyddu neu fethiant i ddarparu gwasanaeth.

#### 4.4.2 Pwyso a mesur goblygiadau sefydlu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1. Mae sefydlu swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnig rhai cyfleoedd i gryfhau atebolrwydd cyrff cyhoeddus i ddarparu cystal gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. O'r esiamplau o gamweinyddu a restrir yn y Papur Ymgynghorol, ymddengys bod llawer o'r cwynion arferol a dderbynnir gan gyrff cyhoeddus mewn cysylltiad â'u Cynlluniau Iaith Gymraeg yn rhai a allai o bosibl gael eu diffinio fel 'camweinyddu'. Nodwn rai enghreifftiau posibl isod:

- Gallai peidio â dilyn y drefn a nodir mewn Cynllun Iaith statudol wrth staffio gwasanaethau, neu fethu â dilyn trefn benodol i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg, fod yn "*fethiant i ddilyn gweithdrefnau*".
- Gallai darparu gwasanaeth sylfaenol hanfodol yn fwy hwylus, yn rhwyddach, yn helaethach, hyd safon well neu'n gynt yn Saesneg nag yn Gymraeg fod yn "*Annhegwch neu gamwahaniaethu wrth ddelio ag unigolion*".
- Gall peidio ag ymateb yn effeithiol i gais neu hawliad yn Gymraeg, pan fo'n hysbys mai honno yw dewis iaith y defnyddiwr, gael ei ddehongli fel "*camgymeriad wrth ddelio â hawliadau neu geisiadau*", neu "*fethiant i ddilyn gweithdrefnau*".

Wrth reswm, byddai'n rhaid sefydlu dealltwriaeth rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gwasanaeth yr Ombwdsmon am yr union fathau o achosion y gellid eu cwmpasu o dan y pennawd cyffredinol 'camweinyddu' yn y "*memorandwm cyd-ddealltwriaeth*" a awgrymwyd gan y Bwrdd.

2. Gan na fydd yr Ombwdsmon yn delio ag achosion y gall llysoedd, tribiwnlysoedd neu apeliadau gynnig mecanwaith amgen i'w datrys, rhaid gwahaniaethu rhwng achosion y byddai'n briodol i'r Ombwdsmon eu trin, a rhai y byddai'n addas i'w dwyn gerbron Llys neu Dribiwnlys.

---

<sup>146</sup> Public Services Ombudsman (Wales) Bill. Llythyr gan Prys Davies, Bwrdd yr Iaith Gymraeg i Virginia Hawkins, Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. 11.1.05



O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, nid oes modd i'r Bwrdd na'r unigolyn ddwyn achosion gerbron llys. Un cwestiwn sy'n codi yw: a fyddai'n fwy priodol i Lysoedd, yn hytrach na'r Ombwdsmon, ymdrin ag achosion o "Annhegwch neu gamwahaniaethu wrth ddelio ag unigolion"? Sut mae achosion o'r fath yn cael eu trin yng nghyswllt y cydraddoldebau eraill? Er enghraifft, sut mae gwahaniaethu rhwng achosion i'r Ombwdsmon ar y naill law, ac achosion i'w dwyn gerbron Llys neu Dribiwnlys ar y llaw arall, ym meysydd hil, anabledd a rhyw?

## Casgliadau

Deuwn, felly, i'r casgliad bod swydd yr Ombwdsmon yn prif-ffrydio yn ehangach gyfleoedd siaradwyr Cymraeg i ddwyn cwyn yn erbyn corff cyhoeddus am safon y gwasanaeth a gaent trwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, yr unig ffordd i gryfhau hawl unigolion i wasanaeth cyfrwng Cymraeg cystal â thrwy gyfrwng y Saesneg byddai trwy roi'r pŵer i'r Bwrdd (a'i olynnydd) neu'r unigolyn ddwyn achos gerbron y llys.

**Argymhelliad 14: Dylai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gydweithredu'n agos â Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn osgoi dyblygu dyletswyddau a hysbysu'r cyhoedd sut y gellid dwyn cwyn yn erbyn corff cyhoeddus am safon gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.**

## 4.5 Dyfodol Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Ers i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ddod i rym, y sefydliad sydd wedi ennill y mwyaf o dir o ran hyrwyddo a gwarchod yr iaith Gymraeg a chynyddu'r cyfleoedd go iawn i unigolion ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu bywyd beunyddiol yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Dros y blynyddoedd, ers ei fodolaeth fel corff statudol, mae'r Bwrdd wedi llwyddo i ddylanwadu i ryw raddau ar bron pob agwedd ar bolisi a bywyd cyhoeddus a chymdeithasol yng Nghymru sy'n allweddol i hyfywedd y Gymraeg. Mae *Iaith Pawb* yn datgan:

*'Bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn parhau fel y corff cynllunio iaith cenedlaethol dros Gymru a bydd ganddo rôl ganolog wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Llywodraeth y Cynulliad.'*<sup>147</sup>

Ym mis Tachwedd 2004, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru fwriad ei Gabinet i uno Bwrdd yr Iaith Gymraeg â Llywodraeth y Cynulliad erbyn mis Ebrill 2007. Bu i'r cyhoeddiad hwnnw esgor ar gryn drafodaeth gyhoeddus ynglŷn â grym neu ddiffyg grym y Bwrdd. Lleisiwyd pryderon o sawl cyfeiriad am arwyddocâd a goblygiadau ymgorffori'r Bwrdd â Llywodraeth y Cynulliad i sefyllfa'r iaith Gymraeg. Gellid crynhoi argymhellion gwreiddiol y Llywodraeth yn bedwar cam fel a ganlyn:<sup>148</sup>

1. Uno staff y Bwrdd â staff presennol Uned Iaith Gymraeg y Llywodraeth i **ffurfio Is-adran Iaith Gymraeg yn yr Adran Ddiwylliant** newydd.
2. **Penodi Dyfarnydd** i gyflawni'r rolau hynny lle mae'n briodol iddynt gael eu cyflawni hyd braich o'r Llywodraeth.

<sup>147</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog*, Chwefror 2003, para 2.36.

<sup>148</sup> *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru – Ymgynghoriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar uno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, Mawrth 2006, tud. 14.

3. Cynigir **cadw ‘corff gweddilliol’ bychan** yn y cyfnod rhwng trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd i'r Llywodraeth (erbyn 1 Ebrill 2007) a sefydlu'r Dyfarnydd yn statudol.
4. Er mwyn i'r Gweinidog Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon barhau i dderbyn cyngor arbenigol allanol ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg (un o ddyletswyddau cyfredol y Bwrdd), bwriad y Llywodraeth oedd sefydlu **Panel Cynghori dan gadeiryddiaeth y Gweinidog**. Nid yw'n gwbl glir o ddogfen ymgynghorol y Llywodraeth os mai'r bwriad oedd sefydlu un Panel Cynghori ar gyfer y Gymraeg, ynteu a fyddai'r panel yn gyfrifol am gynghori'r Gweinidog ym mhob rhan o'i bortffolio.

Roedd cynigion y Llywodraeth ar gyfer uno'r Bwrdd yn gweddnwedd y cyd-destun ar gyfer datblygu a gweithredu polisi iaith yng Nghymru, gyda'r trefniadau a gynigiwyd i sefydlu 'corff gweddilliol' gyda rôl ymgynghorol yn unig yn bygwth tansellio hygrededd y gofyniad statudol ar sefydliadau cyhoeddus i ddarparu Cynlluniau Iaith Gymraeg ac yn gam mawr yn ôl i statws a bri presennol y Gymraeg.

Mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar ei hargymhellion cafwyd nifer o leisiau cyhoeddus allweddol yn mynnu bod olynydd Bwrdd yr Iaith yn cael ei sefydlu gyda'r pwerau i gyflwyno rhybuddion cydymffurfiaeth a'r gallu i sefydlu adolygiad barnwrol. Bu galw o sawl cyfeiriad hefyd i sefydlu Comisiynydd Iaith ac erbyn hyn, gwelir bod y farn gyhoeddus yn ffafrio sefydlu Comisiynydd Iaith yn yr un modd ag y mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi sefydlu Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Pobl Hŷn.<sup>149</sup> Ceir hefyd, nifer o fodolau o Gomisiynwyr Iaith statudol mewn gwledydd eraill megis Gweriniaeth yr Iwerddon, Canada a Seland Newydd.<sup>150</sup>

Erbyn hyn, mae Llywodraeth newydd y Cynulliad wedi datgan ei "*nod o greu Mesur Cynulliad newydd i gadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, hawliau ieithyddol o safbwynt darparu gwasanaethau a sefydlu swydd Comisiynydd Iaith.*"<sup>151</sup> Ni chafwyd unrhyw ddatganiad ar ddyfodol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ei ffurf bresennol. Hoffem, felly, gynnig un senario posib (sy'n gwyro ychydig wrth amcanion y Llywodraeth) a fyddai'n gwarchod y manteision i'r Gymraeg sy'n deillio o waith presennol y Bwrdd gan gryfhau hefyd ar sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaeth newydd, sef:

- Sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn Gomisiwn yr Iaith Gymraeg, a
- Sefydlu Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg o fewn Llywodraeth y Cynulliad.

#### 4.5.1 Comisiwn yr Iaith Gymraeg

Dengys ein hadolygiad o statws hawliau siaradwyr Cymraeg, yr hinsawdd ddeddfwriaethol a pholisi sy'n arwain yr agenda ieithoedd lleiafrifol yn Ewrop a Phrydain, a'r agenda gydraddoldeb a hawliau dynol yn y DU bod angen:

<sup>149</sup> Gweler, er enghraifft, C.H. Williams, *Deddfwriaeth Newydd a'r Gymraeg*, Hydref 2005.

<sup>150</sup> Gweler Atodiad 'Tueddiadau Rhyngwladol o ran Deddfwriaeth' yn *Sefyllfa Ddeddfwriaethol y Gymraeg: Papur Safbwynt gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg*, Ionawr 2006, am grynodedd o'r sefyllfa deddfwriaethol Gweriniaeth yr Iwerddon; Yr Alban; Llywodraeth Ffederal Canada; Québec, Canada; New Brunswick, Canada; Gwlad y Basg, Sbaen; Catalwnia, Sbaen a Seland Newydd.

<sup>151</sup> *Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru*. Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol, 27 Mehefin 2007.

- (i) sefydlu hawliau iaith statudol pendant i'r cyhoedd yng Nghymru, a
- (ii) sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn rhoi'r pŵer i Fwrdd yr Iaith Gymraeg fedru cyflwyno rhybuddion cydymffurfiaeth a'r gallu i sefydlu adolygiad barnwrol.

Buasai'n briodol yn sgîl llunio deddfwriaeth newydd sy'n sefydlu hawliau ieithyddol i siaradwyr Cymraeg bod y mesur hwnnw, megis yn achos Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, hefyd yn ailsefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel Comisiwn yr Iaith Gymraeg. Byddai'r Comisiwn arfaethedig yn parhau i ddwyn holl gyfrifoldebau presennol y Bwrdd ond gyda'r cyfrifoldeb statudol newydd i ddiogelu hawliau a gyda'r un grym rheoleiddio a'r gallu i ddwyn adolygiad barnwrol â'r hyn sydd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CCH).

#### **4.5.2 Cyfrifoldebau Comisiwn yr Iaith Gymraeg**

Rhestrwn yma rai o'r cyfrifoldebau a fyddai'n briodol ar gyfer Comisiwn yr Iaith Gymraeg:

##### ***a) Cytuno, adolygu a monitro gweithredu cynlluniau iaith***

- Goruchwylio'r gwaith o baratoi, gweithredu, adolygu a monitro Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad.
- Goruchwylio'r gwaith o baratoi, gweithredu, adolygu a monitro Cynlluniau Iaith Gymraeg Cyrff y Goron.
- Goruchwylio'r gwaith o baratoi, gweithredu, adolygu a monitro Cynlluniau Iaith Gymraeg darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a enwir gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac unrhyw ddiwygiad ohoni.

Dyma un o brif gyfrifoldebau statudol presennol y Bwrdd. Byddai modd trosglwyddo'r cyfrifoldeb ar gyfer cytuno cynlluniau iaith i Lywodraeth y Cynulliad pe byddai cam i ymgorffori rhai o swyddogaethau'r Bwrdd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'r Llywodraeth yn debygol o gytuno cynlluniau gwannach na chynlluniau presennol y Bwrdd neu Gomisiwn sy'n lled annibynnol oddi ar y Llywodraeth. Serch eu gwendidau, mae Cynlluniau Iaith Gymraeg wedi creu rhagor o gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg a buasai gwanhau'r gofynion ar ddarparwyr cyhoeddus yn cynrychioli cam yn ôl yn hytrach na cham ymlaen i sefyllfa bresennol yr iaith.

##### ***b) Diogelu hawliau, ymdrin â chwynion a chamweithredu***

- Addysgu a darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ar eu 'hawliau iaith' ac ar gyflwyno cwynion.
- Diogelu hawliau siaradwyr Cymraeg, ymdrin â chwynion ac ymchwilio i gŵynion/honiadau o fynd yn groes i Gynllun Iaith Gymraeg ynghylch Llywodraeth y Cynulliad, Cyrff y Goron a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus.
- Cyflawni swyddogaeth ddyfarnu yn achos Cynlluniau Iaith Gymraeg cyrff cyhoeddus,<sup>152</sup> sef y swyddogaeth ddyfarnu a gaiff ei chyflawni ar hyn o bryd gan y Gweinidog Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon.

---

<sup>152</sup> Ibid.

Megis gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CCH) byddai'n briodol i Gomisiwn yr Iaith Gymraeg feddu ar bwerau statudol i orfodi cyflawniad darparwyr gwasanaethau o'u ddyletswyddau penodol i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Pe na fyddai darparwr yn cyflawni ei ddyletswydd o ran yr hyn a ymrwymwyd iddo yn ei gynllun iaith, byddai'r Bwrdd yn gallu herio ei gamau gweithredu (neu ddiffyg gweithredu) trwy gais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol. Os nad yw awdurdod cyhoeddus yn cyflawni rhai o'i ddyletswyddau penodol, gallasai wynebu camau gorfodi gan y Bwrdd o dan adran berthnasol y ddeddfwriaeth newydd.

Rhaid cofio, yn ymarferol, na ddefnyddiwyd y pwerau dyfarnu sydd ym meddiant y Gweinidog ar hyn o bryd. Hyd yma, bu'r pwyslais ar ddwyn pwerswâd er mwyn sicrhau cydweithrediad. Priodol fyddai i'r pwyslais barhau felly, ond fod gan Gomisiwn yr Iaith Gymraeg, megis y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y grym i orfodi cydymffurfiaeth darparwyr pe byddai'n gweld yr angen am hynny.

### **c) Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg**

Cadw a chryfhau gweithgarwch presennol y Bwrdd o ran hyrwyddo'r Gymraeg:

- o fewn y sector breifat, y trydydd sector, y sector ddiwylliannol a'r maes TGCh;
- trwy gadw gorolwg dros addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;
- trwy gadw gorolwg dros sectorau 'iaith gysylltiol'<sup>153</sup> megis y sector gyfieithu;
- trwy gynnal a chomisiynu ymchwil, marchnata a chynlluniau hyrwyddo;
- trwy ddosrannu grantiau, ynghyd â chyllido a rhedeg prosiectau;
- trwy weithredu ar lefel Ewropeaidd a rhyngwladol i hyrwyddo a chydlynu cydweithrediad rhwng cymunedau ieithoedd lleiafrifol;

Mae 'Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg'<sup>154</sup> yn swyddogaeth statudol sy'n caniatáu i'r Bwrdd chwarae rôl ragweithiol ac arweiniol o ran datblygu, comisiynu ac ariannu prosiectau sy'n effeithio ar sefyllfa'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd cymdeithasol. Bu hwn yn un o gryfderau gwaith y Bwrdd hyd yma. Tra bod *Deddf Llywodraeth Cymru 1998* yn rhoi'r hawl i'r Cynulliad wneud "*beth bynnag y mae'n ei ystyried yn briodol i gefnogi'r iaith Gymraeg*"<sup>155</sup> nid yw'n gosod yr un cyfrifoldeb statudol i weithredu'n rhagweithiol o blaid y Gymraeg. Mae yna bryder nad yw diwylliant mewnol hierarchaidd y gwasanaeth sifil yn ddiwylliant digon deinamig, creadigol a blaengar i ymgymryd yn effeithiol â'r gwaith datblygu, a'r ysbryd 'cenhadol' bron, sy'n ofynnol ar gyfer gwireddu gweledigaeth *Iaith Pawb*. Credwn, felly, fod parhau gyda'r rôl statudol o ran hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn hollbwysig a'i bod yn gweithredu orau hyd braich o'r Llywodraeth.

Rheswm arall dros gadw swyddogaethau presennol y Bwrdd hyd braich o'r Llywodraeth yw y byddai yna berygl, wrth i'r Llywodraeth ddod yn gyfrifol am y swyddogaethau hynny, y buasai swyddogaeth cynllunio iaith yn dod dan ddylanwad gwleidyddol uniongyrchol ac yn colli rhywfaint o'i hannibyniaeth hyd braich oddi wrth y Llywodraeth a gwleidyddiaeth bleidiol. Byddai hyn yn ei dro yn peryglu'r consensws gwleidyddol a'r agwedd gynhwysol a ddatblygodd dros y degawd diwethaf ynghylch

<sup>153</sup> 'Chwilio am Gyfleodd i Greu Gwaith yn y Sector Iaith-gysylltiol'. Adroddiad i Menter a Busnes: Y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth gan Steve Eaves, Cwmni Iaith, Mawrth 2002.

<sup>154</sup> *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, Adran 3.

<sup>155</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru (1998)*, Adran 32 (c).

pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan greiddiol o etifeddiaeth pawb sy'n byw yng Nghymru.

Mae yna gonsensws, yn ogystal, bod y rôl dosbarthu grantiau a gyflawnir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar hyn o bryd yn un a weithredir orau hyd braich oddi wrth reolaeth wleidyddol bleidiol. Cam yn ôl yn hanes y Gymraeg fyddai i ddyfarniadau ariannol fynd yn destun cecru gwleidyddol - yn enwedig pan fo dyfarniadau o'r fath yn effeithio'n uniongyrchol ac yn sylweddol ar y diwylliant Cymraeg, megis yng nghyswllt ariannu'r Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol, Urdd Gobaith Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, papurau bro a gwyliau lleol.

#### ***ch) Cynghori Llywodraeth y Cynulliad***

- Cynghori'r Llywodraeth ar faterion priodol yn ôl y gofyn (e.e. sut i sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyrff cyhoeddus a gwella'r canllawiau ar gynhyrchu cynlluniau iaith).
- Dwyn safbwyntiau i'w hystyried gerbron y Llywodraeth (e.e. cyflwyno awgrymiadau ynghylch hybu'r defnydd o'r Gymraeg).
- Sicrhau ystyriaeth deilwng i'r Gymraeg ym mhob maes polisi, e.e. datblygu cymunedol, datblygu economaidd, iechyd a gofal, cynllunio defnydd tir ac ati.

#### ***d) Cadw gorolwg ar deddfwriaeth berthnasol yn y Cynulliad a San Steffan***

- Gwirio mesurau deddfwriaethol allweddol ar raddfa Cymru-Lloegr, Prydain Fawr a'r DU o ran y cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a gwarchod anghenion/hawliau siaradwyr Cymraeg.
- Gwirio mesurau, polisiâu a chynlluniau'r Cynulliad.
- Cynhgori aelodau Llywodraeth y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol ar faterion priodol.
- Cydweithio â Swyddfa Cymru a'r Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg arfaethedig. (Gweler y bennod ddilynol)

Cynnig yw'r uchod, felly, i gadw cyfrifoldebau sylweddol y Bwrdd, gyda'r unig newid sylfaenol yn newid i greu grym rheoleiddio nad yw'r Bwrdd yn berchen arno ar hyn o bryd. Byddai cyflawni'r holl ddyletswyddau hyn tu hwnt i allu un Comisiynydd Iaith gyda thîm bychan o staff cynorthwyol megis yn achos y Comisiynydd Plant neu'r comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn. O ganlyniad, dadleuwn y byddai'n fwy priodol ailsefydlu'r Bwrdd yn Gomisiwn yr Iaith Gymraeg. Byddai'n rhaid wrth deddfwriaeth sylfaenol a diwygio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 i gyflawni hyn.

**Argymhelliad 15: Dylid ailsefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel Comisiwn yr Iaith Gymraeg. Dylai'r Comisiwn barhau i ddwyn holl gyfrifoldebau presennol y Bwrdd ond dylai feddu hefyd ar (i) y cyfrifoldeb statudol i ddiogelu hawliau, a (ii) y grym i reoleiddio a dwyn Adolygiad Barnwrol.**

#### **4.5.3 Sefydlu Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad**

Credwn fod achos cryf dros sefydlu adran o fewn Llywodraeth y Cynulliad gyda chyfrifoldeb penodol dros sicrhau bod polisiâu a deddfwriaeth yn cael eu llunio a'u gweithredu er lles ac nid er tranc y Gymraeg. Mae'r Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad ill dau wedi ymrwymo i warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Golyga hyn fod ystyriaeth o effaith polisi ar hyfywedd y Gymraeg yn fater trawsbynciol yn yr un modd â'r meysydd cydraddoldeb eraill ac felly'n haeddu cryn flaenoriaeth. Serch

hynny, nid yw rôl, statws ac adnoddau presennol yr Uned Iaith Gymraeg yn llawn adlewyrchu hyn. Mae'r Uned yn cyflogi cyfwerth â chwech aelod o staff ar faterion iaith Gymraeg. O'r rhain, mae tri ohonynt yn delio'n unig â materion sy'n ymwneud â gweithredu a monitro *Iaith Pawb*, y Cynllun Iaith Gymraeg a phrif-ffrydio'r iaith. Nid yw adnoddau a dyletswyddau presennol yr Uned Iaith Gymraeg y caniatáu iddi fod yn ddigon dylanwadol na gweithredu'n gwbl effeithlon nifer o amcanion *Iaith Pawb*. Mae adolygiad o effeithiolrwydd gweithredu *Iaith Pawb* yn mynd rhagddo ers mis Mai 2007. Er nad yw casgliadau'r adolygiad hwnw'n gyhoeddus ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, disgwylir i'r adolygiad adnabod nifer o elfennau y gellid eu cryfhau er mwyn gwella gweithrediad *Iaith Pawb*. Er enghraifft, dengys Pennod 7.2 yr adroddiad hwn nad yw'r Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio'n llawn ym mhob un o feysydd polisi Llywodraeth y Cynulliad a weithredir gan y Llywodraeth a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a bod diffyg adnoddau priodol o fewn yr Uned Iaith Gymraeg yn rhannol gyfrifol am y sefyllfa honno.

At hynny, yn y cyd-destun datganoli cyfredol, ceir cyfleoedd ychwanegol i ddatganoli pwerau deddfu o Lywodraeth y DU i'r Cynulliad Cenedlaethol yn achos rhai meysydd (gweler Pennod 5 yr adroddiad hwn) fydd yn golygu cynnydd yn ystod y mesurau y dylid craffu arnynt o safbwynt eu heffaith ar les y Gymraeg. Ac, yn ogystal, dadleuir mewn sawl man yn yr adroddiad hwn (ym Mhennod 8 yn benodol) bod angen parhau i fod yn effro i gyfleoedd i warchod y Gymraeg a sefydlu hawliau ieithyddol trwy gynnwys cymalau mewn mesurau Cymru-Lloegr, Prydain Fawr a DU perthnasol yn San Steffan. Mae cydweithio rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisoes wedi arwain at nifer o gamau i ehangu cyfleoedd i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg, megis cynhyrchu fersiynau Gymraeg o Lwon a Datganiadau ar gyfer Seremonïau Dinasyddiaeth a chynnwys y Gymraeg ar basbort. Yn y cyd-destun deddfwriaethol presennol, gwelwn yr angen i ddwysáu'r cydweithredu hwn.

Amlyga'r sefyllfa gyfredol, felly, yr angen am uned gref o fewn Llywodraeth y Cynulliad a fyddai'n meddu ar y cyfrifoldeb a'r adnoddau llawn (ar ffurf staff priodol a digonol) i sicrhau ystyriaethau llawn a phriodol er lles y Gymraeg mewn:

- Mesurau, polisiâu a chynlluniau Llywodraeth y Cynulliad; a
- Mesurau Cymru-Lloegr, Prydain Fawr a DU.

Ym mhob achos, y maen prawf fyddai ystyried beth sy'n llesol i'r Gymraeg ai peidio.

Byddai adran o'r fath yn esblygiad naturiol o Uned Iaith Gymraeg gyfredol y Llywodraeth yn unol â bwriad gwreiddiol y Llywodraeth i ffurfio 'Is-adran Iaith Gymraeg yn yr Adran Ddiwylliant newydd'. Yn wahanol i fwriad y Llywodraeth flaenorol, byddai gan yr adran rôl benodol iawn gyda golwg ar ddeddfwriaeth a pholisi a fyddai'n ymdebygu fwy, er enghraifft, i'r Secretariat à la Politique Linguistique<sup>156</sup> yn Llywodraeth Québec.

Rhagwelir, felly, y byddai'r Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg arfaethedig yn cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu, gweithredu a chyfathrebu mesurau, polisiâu a chynlluniau sy'n cyflawni ei hamcanion i hyrwyddo a gwarchod yr iaith Gymraeg. Yn hyn o beth, byddai'n ymdebygu rhywfaint i'r Adran Polisi Strategol, Deddfwriaeth a Chyfathrebu (APSDCh) sy'n bodoli eisoes i gynnig arweiniad ar gyflawni amcanion strategol y Llywodraeth. Yn wahanol i'r APSDCh, sydd â chyfrifoldeb dros bolisi a deddfwriaeth yng Nghymru yn unig, byddai dyletswydd ar yr

---

<sup>156</sup> <http://www.spl.gouv.qc.ca/secretariat/index.html>

Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg i gadw golwg hefyd ar fesurau Cymru-Lloegr, Prydain Fawr a DU yn Senedd y DU yn San Steffan.

Byddai dyletswyddau'r Adran yn cynnwys:

- Sicrhau bod yr ymrwymiad statudol i warchod a hybu'r iaith Gymraeg wrth wraidd pob un o fesurau, polisïau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad.
- Cynghori'r gweinidog â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg a gweinidogion eraill ar weithredu *laith Pawb* a gofynion ieithyddol polisïau eraill Llywodraeth y Cynulliad.
- Cynorthwyo Gweinidogion a staff i lunio a gweithredu'r ddeddfwriaeth neu'r rheoliadau sydd eu hangen i warchod a hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus.
- Ymyrryd yn ôl yr angen i warantu cysondeb gweithredu ar bolisïau a chynlluniau'r Llywodraeth o ran y Gymraeg.
- Adolygu mesurau Cymru-Lloegr, Prydain Fawr a DU newydd o San Steffan a pharatoi adroddiad i'r Gweinidogion ar y cyfleoedd i gynnwys cymalau i gydnabod anghenion/hawliau siaradwyr Cymraeg a/neu drosglwyddo cyfrifoldeb deddfwriaethol i'r Cynulliad.
- Cydweithio'n agos â'r Is-ysgrifennydd Gwladol a swyddogion Swyddfa Cymru.

Buasai creu adran o'r fath yn fodd o gryfhau gallu Llywodraeth y Cynulliad i warchod a hyrwyddo'r Gymraeg yn dra effeithiol ym mhob agwedd ar y fframwaith deddfwriaethol, polisïau a dulliau gweithredu. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn berchen ar y grym angenrheidiol i greu Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg yn ddi-oed heb orfod gwneud cais ar Lywodraeth y DU. Ceir yma gyfle, felly, i fynd ati ar unwaith i gryfhau'n sylweddol sefyllfa'r Gymraeg a hawliau siaradwyr Cymraeg a dinasyddion Cymru yn gyffredinol.

**Argymhelliad 16: Dylid sefydlu'n ddi-oed Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg gref o fewn Llywodraeth y Cynulliad gyda'r adnoddau priodol er mwyn:**

- Sicrhau bod yr ymrwymiad statudol i warchod a hybu'r iaith Gymraeg wrth wraidd pob un o fesurau, polisïau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad.
- Cynghori'r gweinidog â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg a gweinidogion eraill ar weithredu *laith Pawb* a gofynion ieithyddol polisïau eraill Llywodraeth y Cynulliad.
- Cynorthwyo Gweinidogion a staff i lunio a gweithredu'r ddeddfwriaeth neu'r rheoliadau sydd eu hangen i warchod a hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus.
- Ymyrryd yn ôl yr angen i warantu cysondeb gweithredu ar bolisïau a chynlluniau'r Llywodraeth o ran y Gymraeg.
- Adolygu mesurau Cymru-Lloegr, Prydain Fawr a DU newydd o San Steffan a pharatoi adroddiad i'r Gweinidogion ar y cyfleoedd i gynnwys cymalau i gydnabod anghenion/hawliau siaradwyr Cymraeg a/neu drosglwyddo cyfrifoldeb deddfwriaethol i'r Cynulliad.
- Cydweithio'n agos â'r Is-ysgrifennydd Gwladol a swyddogion Swyddfa Cymru.

## 4.6 Casgliadau

Yn y bennod hon, bŵm yn ystyried goblygiadau adolygiad Llywodraeth y DU o Gyfraith Gwahaniaethu, sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD), diwygio Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol, creu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r posibilrwydd o ailddiffinio cyfrifoldeb a strwythur Bwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydlu Comisiynydd yr Iaith Gymraeg.

Gwelsom fod yr agenda gydraddoldebau Brydeinig, sy'n llywio'r diwygiadau deddfwriaethol a'r dulliau gweithredu ym maes y cydraddoldebau, yn anwybyddu unrhyw ystyriaeth o'r Gymraeg. Serch hynny, mae'r gydnabyddiaeth bod sefyllfa Cymru a'r Alban yn wahanol i'r sefyllfa sydd ohoni yn Lloegr yn caniatáu peth cyfle i gynnwys ystyriaeth o anghenion siaradwyr Cymraeg wrth ddiffinio cwmpas y CCHD a'r Fframwaith Gwella Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru maes o law.

Un o'r problemau sy'n llesteirio gweithrediad yr agenda gydraddoldebau yng Nghymru yw bod cyfartaledd i'r Gymraeg, o ganlyniad i statws statudol cyfyngedig y Bwrdd, yn cael ei weld yn llai "cyfartal" na'r cyfartaleddau eraill. Mae sefydlu'r CCHD yng Nghymru yn tanlinellu hyn ac yn cyfiawnhau'r angen i:

- i. sefydlu hawliau ieithyddol pendant i siaradwyr Cymraeg, a
- ii. sicrhau bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu'r Comisiynydd Iaith arfaethedig yn cael y pwerau i gyflwyno rhybuddion cydymffurfiaeth a'r gallu i sefydlu adolygiad barnwrol.

Er mwyn cydnabod sefyllfa arbennig siaradwyr Cymraeg ar gyfer cael eu gwarchod rhag camwahaniaethu anuniongyrchol, buasai'n rhaid sefydlu statws grŵp penodol i siaradwyr Cymraeg trwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

Wedi cydnabod, felly, bod y Gymraeg yn teilyngu lle priodol o fewn yr agenda gydraddoldebau, yr unig anfantais bosibl o gysylltu'r iaith Gymraeg â'r agenda honno yw'r posibilrwydd o glymu mater parhad ac adferiad yr iaith yn gyfan gwbl wrth y cyddestun hwnnw. Mae gwyddor cynllunio iaith yn llawer ehangach.

Mantais cynnwys y Gymraeg o fewn *Fframwaith Gwella Cydraddoldeb* (FfGC), wrth gwrs, fyddai normaleiddio ystyriaeth o'r Gymraeg fel mater cydraddoldeb. Ar ei orau, byddai'n priflifo ystyriaethau dewis iaith i'r dinesydd a medrau iaith staff y sefydliad ar draws pob agwedd ar wasanaeth a chyflogaeth awdurdodau lleol. Mae'r Cynlluniau Iaith Gymraeg gorau yn cynnig arf effeithiol iawn ar gyfer gwella gallu sefydliadau i drin y Gymraeg fel mater cydraddoldeb. Yn enwedig, felly, os parheir i weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg ochr yn ochr â'r FfGC newydd, gallasai'r datblygiadau i'r cyfeiriad hwn gryfhau statws ac ystyriaethau o'r Gymraeg gogyfer â gwasanaethau i'r cyhoedd.

Erys peryg, fodd bynnag, y gall mabwysiadu un fframwaith safonol ar gyfer mesur cynnydd ar gyfer cydraddoldeb, a hynny'n fframwaith na fyddai'n rhoi sylw llawn i'r elfennau hynny (megis datblygu sgiliau iaith staff) sy'n cael dylanwad uniongyrchol ar allu'r sefydliad i gynnig gwasanaethau cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg, wanhau a neilltuo'r Gymraeg o'r brif-ffrwd cydraddoldebau. Byddai'n fygythiad hefyd i sefyllfa bresennol y Gymraeg petai'r pwysau i arbed gwariant a phrinder adnoddau yn arwain, er enghraifft, at duedd ymhlith sefydliadau i benodi un swyddog gyda chyfrifoldeb am yr holl faes cydraddoldebau gan gollu arbenigedd swyddogion iaith a manylder a thrylwyrdeb datblygu a monitro gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg.



Casglwyd bod sefydlu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn prif-ffrydio yn ehangach cyfleoedd siaradwyr Cymraeg i ddwyn cwyn yn erbyn corff cyhoeddus am safon y gwasanaeth a gaent trwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, yr unig ffordd i gryfhau hawl unigolion i wasanaeth cyfrwng Cymraeg cystal â thrwy gyfrwng y Saesneg, byddai trwy roi'r pŵer i'r Bwrdd (a'i olynydd) neu'r unigolyn i ddwyn achos gerbron y llys.

Awgrymwyd y dylid ailsefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel Comisiwn yr Iaith Gymraeg. Byddai'r Comisiwn arfaethedig yn parhau i ddwyn holl gyfrifoldebau presennol y Bwrdd ond gyda'r cyfrifoldeb statudol newydd i ddiogelu hawliau siaradwyr Cymraeg (a dinasyddion Cymru'n gyffredinol i ddysgu'r iaith) a gyda'r un grym rheoleiddio a'r gallu i ddwyn adolygiad barnwrol ag sydd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Byddai cyflawni'r holl ddyletswyddau hyn y tu hwnt i allu un Comisiynydd Iaith gyda thîm bychan o staff cynorthwyol megis yn achos y Comisiynydd Plant neu'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn. O ganlyniad, dadleuwn y byddai'n fwy priodol ailsefydlu'r Bwrdd yn Gomisiwn yr Iaith Gymraeg. Byddai'n rhaid wrth deddfwriaeth sylfaenol a diwygio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 i gyflawni hyn.

Dadleuwyd hefyd o blaid creu Adran Polisi a Deddfwriaeth Cymraeg gref o fewn Llywodraeth y Cynulliad fyddai'n ehangu ar waith presennol yr Uned Iaith Gymraeg. Buasai'r Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg arfaethedig yn cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu, gweithredu a chyfathrebu mesurau, polisiau a chynlluniau sy'n cyflawni ei hamcanion i hyrwyddo a gwarchod yr iaith Gymraeg. Byddai dyletswydd ar yr Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg i gadw golwg hefyd ar fesurau Cymru-Lloegr, Prydain Fawr a DU yn Senedd y DU yn San Steffan.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn berchen ar y grym angenrheidiol i greu Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg yn ddi-oed heb orfod gwneud cais ar Lywodraeth y DU. Ceir yma gyfle, felly, i fynd ati ar unwaith i gryfhau'n sylweddol sefyllfa'r Gymraeg a hawliau siaradwyr Cymraeg a dinasyddion Cymru yn gyffredinol.

## Casgliadau

Yn Rhan 1 yr adroddiad hwn gwelwch fod *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, gweithgareddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ers 1993 a pholisiau Llywodraeth y Cynulliad oll wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar sefyllfa'r iaith Gymraeg. Ond gwelwyd hefyd fod lle i wella'n sylweddol ar y dylanwad hwnnw.

Wrth i Lywodraeth newydd y Cynulliad fwrw ymlaen â'i hagenda i geisio'r cymhwysedd deddfwriaethol i lunio mesur iaith Gymraeg, bydd rhaid pwysu a mesur yn ofalus pa gamau fyddai'n cryfhau orau sefyllfa'r Gymraeg. Yn Rhan 2, trown ein sylw at gyfleoedd i lunio deddfwriaeth iaith a chryfhau'r gweithdrefnau cyfredol.

\*

\*

\*

## RHAN 2: Camau deddfwriaethol a gweithredol i gryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg

Yn ail ran yr adroddiad, trafodwn nifer o gyfleoedd gweithredu posibl i warchod a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg. O ran deddfu, rhaid ystyried y camau deddfwriaethol priodol fyddai'n gwarchod cryfderau a manteision y sefyllfa sydd ohoni ac yn eu gwella.

Ceir pedair pennod i Ran 2. Ym Mhennod 5 dechreuwn trwy grynhoi'r cyfleoedd sy'n codi o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i ymestyn pwerau'r Cynulliad i lunio deddfwriaeth iaith ddiwygiedig.

Ystyrir opsiynau ar gyfer diwygio *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* ym Mhennod 6. Trafodwn fanteision ac anfanteision y prif syniadau sy'n cael eu lleisio'n gyhoeddus ar gyfer diwygio *Deddf 1993* a chyflwyno mesur iaith newydd.

Yn ogystal, erys nifer o wendidau sylfaenol yn y drefn gyfredol, sef gwendidau sy'n rhwystro gweithrediad effeithiol cynlluniau iaith a'r camau eraill i brif-ffrydio'r Gymraeg er budd gwirioneddol siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymreig. Cyflwynwn ym Mhennod 7 nifer o opsiynau fyddai'n cryfhau gweithrediad o fewn y drefn statudol gyfredol, heb yr angen, o reidrwydd am ddeddfwriaeth ychwanegol.

Yn olaf, ym Mhennod 8, ystyriwn y cyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg a hawliau iaith Gymraeg trwy ddeddfwriaeth bellach yn Senedd y Deyrnas Unedig.

\* \* \*

## Pennod 5: Cyfleoedd i ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol

### 5.1 Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Rhydd *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* gyfle pwysig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth y Cynulliad ennill cyfrifoldeb deddfwriaethol ehangach dros yr iaith Gymraeg y tu hwnt i'w cyfrifoldeb cyfyngedig blaenorol i gymeradwyo is-ddeddfwriaeth o dan Adran 6(1)(o) *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*.

Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn gosod y seiliau i gyflwyno pwerau deddfwriaethol sylfaenol ar draws holl feysydd<sup>157</sup> cyfrifoldeb gweithredol Llywodraeth y Cynulliad (gan gynnwys yr iaith Gymraeg) heb fod angen mynd ar ofyn Senedd

<sup>157</sup> Ceir 20 maes cyfrifoldeb gweithredol fel a ganlyn: 1) amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig; 2) henebion ac adeiladau hanesyddol; 3) diwylliant; 4) datblygu economaidd; 5) addysg a hyfforddiant; 6) yr amgylchedd; 7) y gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch tân; 8) bwyd; 9) iechyd a gwasanaethau iechyd; 10) priffyrdd a thrafnidiaeth; 11) tai; 12) llywodraeth leol; 13) Cynulliad Cenedlaethol Cymru; 14) gweinyddiaeth gyhoeddus; 15) lles cymdeithasol; 16) chwaraeon a hamdden; 17) twristiaeth; 18) cynllunio gwlad a thref; 19) dŵr ac atal llifogydd; 20) yr iaith Gymraeg.

San Steffan amdanynt. Fodd bynnag, byddai'n rhaid ennill refferendwm er mwyn cyflawni hynny.<sup>158</sup>

Yn y cyfamser, mae Deddf 2006 yn darparu mecanwaith sy'n caniatáu i Senedd y DU roi pwerau deddfu wedi'u cryfhau i'r Cynulliad mewn cysylltiad â materion sy'n ymwneud â phynciau penodol o fewn meysydd datganoledig, gan gynnwys yr iaith Gymraeg (gweler y rhestr yn nhroednodyn 157).<sup>159</sup> Nid yw'r Ddeddf ei hun yn rhoi pwerau deddfwriaethol newydd i'r Cynulliad o ran yr iaith Gymraeg. Ond, yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2007, gellir gwneud cais i San Steffan am y pwerau hynny i greu categori newydd o ddeddfwriaeth a fydd yn cael ei galw'n **Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru** neu'n **Fesurau'r Cynulliad**.

Bydd dwy ffordd i'r Cynulliad sicrhau 'cymhwysedd deddfwriaethol' (sef, derbyn awdurdod cyfreithiol gan Senedd y DU) er mwyn cael y pŵer i wneud deddfau mewn meysydd penodol. Y cyntaf yw trwy **Fesurau Seneddol** neu, yn ail, trwy ddull newydd sef y **Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol** trwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. O safbwynt cyfreithiol a chyfansoddiadol, rhoddir cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy gynnwys 'Mater' newydd o dan un o'r 20 Maes datganoledig yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ar sail pob achos yn unigol.

### 5.1.1 Mesurau Seneddol DU

Dyma'r 'dull traddodiadol' oedd yn bodoli cyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ac sy'n parhau ar ôl y ddeddf newydd. Mae cymalau mewn Mesurau Seneddol sy'n mynd drwy Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phynciau penodol o fewn yr 20 maes datganoledig. Er enghraifft, mae'r *Mesur Addysg Bellach a Hyfforddiant a'r Mesur Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd* sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd ill dau'n cynnwys cymalau sy'n rhoi'r pŵer i'r Cynulliad basio ei fesurau ei hun ar bynciau penodol o fewn y Meysydd hyn. Bydd parhau i sicrhau bod cymalau mewn Mesurau Seneddol yn rhoi pwerau penodol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn allweddol ar gyfer cynyddu ystod grym datganoledig y Cynulliad. O ran y Gymraeg yn benodol, gall cymalau sy'n gwarantu ystyriaethau iaith o fewn mesurau San Steffan gryfhau hawliau ieithyddol dinasyddion yng nghyswllt gwasanaethau penodol.

Ni fyddai angen cyfyngu perthnasedd deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a ffiniau Cymru yn unig. Yn hytrach bydd angen sicrhau bod ystyriaethau o'r Gymraeg yn parhau i fod yn fater ar gyfer deddfwriaeth y Deyrnas Unedig, megis yn achos Deddf Iaith 1993 ei hun.

### 5.1.2 Gorchmyn Cymhwysedd Deddfwriaethol trwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor

Yr ail ddull o geisio cael cymhwysedd deddfwriaethol gan Senedd y DU yw trwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Bwriad mecanwaith Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor

---

<sup>158</sup> Ceir darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnal refferendwm ar drosglwyddo pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad, megis yn yr Alban. Fodd bynnag, er mwyn cynnal refferendwm o'r fath byddai'n rhaid i ddwy ran o dair o'r 60 Aelod Cynulliad ynghyd â mwyafrif yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi bleidleisio o blaid cynnal refferendwm.

<sup>159</sup> Explanatory Notes to the Government of Wales Act 2006, 14 b).

yw hwyluso a chyflymu'r broses o wneud deddfau ar gyfer Cymru wrth i'r Cynulliad fedru craffu a chymeradwyo deddfau Cymru ei hun yn hytrach na chystadlu am le yn rhan o raglen Senedd y DU. Ar ei gorau, byddai'r weithdrefn newydd hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad gyflwyno newidiadau mwy sylfaenol a hynny o fewn ei amserlen ei hun. Wrth ystyried y potensial i weithredu'r weithdrefn newydd, dylid nodi hefyd y gall Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ogystal â gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno Mesurau'r Cynulliad.

Gellid dyrannu'r weithdrefn o lunio Mesur y Cynulliad trwy orchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn 5 prif gam:

1. Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adrannau Llywodraeth y DU a Swyddfa Cymru yn cytuno ar ddrafft arfaethedig o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.
2. Cyfle i bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU graffu ar y Gorchymyn arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor.
3. Drafft terfynol y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn cael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gymeradwyo'n ffurfiol a chais yn cael ei anfon at Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan Brif Weinidog Cymru.
4. Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn penderfynu o fewn 60 niwrnod i naill ai gosod y Gorchymyn drafft gerbron Senedd y DU neu hysbysu Prif Weinidog Cymru o'i reswm petai'n gwrthod gwneud hynny.
5. Dadl yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar y drafft o'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a phleidlais arno. Ei Mawrhydi, Y Frenhines yn gwneud y Gorchymyn (mewn cyfarfod o'r Cyfrin Gyngor).<sup>160</sup>

Dylid cofio na ellir bod yn gwbl sicr o lwyddiant cais am bwerau i ddiwygio Deddf 1993 na chyflwyno mesurau eraill ynglŷn â'r iaith Gymraeg oherwydd byddai'n rhaid wrth gymeradwyaeth Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, yn ogystal â'r Ysgrifennydd Gwladol, i gais o'r fath. Yn ei araith ar '*The Future of Welsh Politics*', mae'r Arglwydd Richard yn tynnu sylw at y problemau a all godi yn sgîl mecanwaith Gorchymyn y Cyfrin Gyngor. Gall tensiynau godi petai Senedd San Steffan yn anghytuno â Gorchymyn Llywodraeth y Cynulliad, fel y mae'r Arglwydd Richard yn ei nodi isod:

*"In a situation in which the Assembly Government is firm on what it wanted and the Westminster Parliament did not fully agree, then the Assembly Government would be put in an extremely difficult position of either losing the Order totally or having to back down on the extent of legislation which it was convinced it needed. This procedure could work reasonably well if Administrations in Cardiff and London were of the same political persuasion. What cannot be dealt in this way is a situation in which the Government in London and the Assembly Government in Cardiff differed strongly on policy."*<sup>161</sup>

Serch hynny, rhydd y mecanwaith gyfle i hwyluso llunio mesurau iaith diwygiedig a newydd gyda'r manylion yn cael eu llunio'n bennaf ym Mae Caerdydd<sup>162</sup>. Yn achos

<sup>160</sup> gweler <http://new.wales.gov.uk/gowasub/gowa/changes/hownewlaws?lang=cy>

<sup>161</sup> 'The Future of Welsh Politics', 20 September 2006, tud. 8.

<sup>162</sup> "Bydd prif gamau'r weithdrefn fel arfer yn cynnwys: (i) paratoi Gorchymyn drafft gan y Cyfrin Gyngor ar ôl trafodaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, adrannau perthnasol Whitehall a Swyddfa Cymru; (ii) craffu cyn-ddeddfwriaethol (anstatudol) gan y Cynulliad a'r Senedd (Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi) ar y Gorchymyn drafft cyntaf; (iii) y prosesau ffurfiol (statudol) i'r Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd gymeradwyo drafft terfynol Gorchymyn y Cyfrin

yr iaith Gymraeg ceir dadl amlwg dros drosglwyddo cyfrifoldeb deddfwriaethol i'r Cynulliad, fel y pwysleisia Bwrdd yr Iaith yn ei ymateb i'r Papur Gwyn:

*“O gofio bod gan y Cynulliad swyddogaethau gweithredol yn ymwneud â'r Gymraeg, gwna synnwyr i'r Cynulliad gael y pŵer i newid y ddeddfwriaeth yn hytrach na gorfod cystadlu am amser deddfu yn San Steffan ... Mae'r Gymraeg yn faes polisi unigryw i Gymru a chredwn y dylai hwn fod yn un o'r meysydd cyntaf lle trosglwyddir pŵer mewn meysydd penodol i'r Cynulliad.”<sup>163</sup>*

Mae'n gwbl briodol felly bod unrhyw gynigion i ddiwygio Deddf Iaith 1993 a chyflwyno mesurau eraill i gryfhau a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn cael eu llunio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n codi yn sgîl *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Rhaid cydnabod, fodd bynnag, y gellid disgwyl rhywfaint o gyfyngu ar bŵer y Cynulliad i ddeddfu ym maes yr iaith Gymraeg yn unol â chyfyngiadau eraill ar bwerau datganoledig y Cynulliad o ganlyniad i'r ffurf ar ddatganoli a sefydlwyd ar gyfer Cymru. Er enghraifft, noda fersiwn Saesneg y Papur Gwyn fel a ganlyn:

*“The power would be framed to ensure that no Order could give the Assembly powers over the whole of any of the fields [gan gynnwys yr iaith Gymraeg] listed in Schedule 2 of the Government of Wales Act”<sup>164</sup>*

Nid yw'n eglur eto ym mha fodd y byddid yn cyfyngu ar gyfrifoldeb y Cynulliad dros yr iaith Gymraeg, heblaw mai mater i Senedd San Steffan fyddai hynny. Cofiw'n hefyd y byddai fersiwn ddiwygiedig o Ddeddf 1993 yn parhau i fod yn fesur y bydd angen craffu democrataidd arno yn San Steffan gan fod y ddeddf yn weithredol ar lefel y Deyrnas Gyfunol ac yn creu goblygiadau statudol i gyrff sy'n gweithredu o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Felly, wrth bwysleisio cyfrifoldeb y Cynulliad i arwain yr agenda ar gyfer deddfwriaethu pellach i hybu a gwarchod sefyllfa'r Gymraeg, rhaid edrych hefyd am gyfleoedd a gyfyd yn San Steffan i ategu a chryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Bwriad Penodau 6, 7 ac 8 yr adroddiad hwn yw cyfrannu'n benodol at hynny.

**Argymhelliad 17: Dylid gweithredu i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg a sefydlu hawliau ieithyddol i siaradwyr Cymraeg a thrigolion Cymru trwy gyfuniad o Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Mesurau Senedd y DU.**

- (i) Dylai Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg arwain ar hyn ar ran Llywodraeth y Cynulliad gan gydweithio'n agos â Swyddfa Cymru.
- (ii) Dylai Bwrdd yr Iaith hefyd gadw gorolwg ar gyfleoedd deddfu o safbwynt amhleidiol a hyd-braich wrth Lywodraeth y Cynulliad gan gynghori fel y bo'n briodol.

---

Gyngor, a fydd wedi'i ddiwygio yn ôl y gofyn yn dilyn y broses graffu”. (Gweler Canllaw i Fesur Llywodraeth Cymru 8 Rhagfyr 2005 gan Swyddfa Cymru am ragor o fanylion am y broses hon.)

<sup>163</sup> Ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r Papur Gwyn *Trefn Lywodraeth Well i Gymru*, 2 Medi 2005, paragraffau 6 a 7.

<sup>164</sup> Wales Office, *Better Governance for Wales*, June 2005, para 3.18. Dyfynnwyd o fersiwn Saesneg y Papur Gwyn gan nad yw cyfieithiad Cymraeg y ddogfen yn cyfleu'n gywir natur y cyfyngiad: “Byddai'r pŵer yn cael ei fframio i sicrhau na allai unrhyw Orchymyn roi pwerau i'r Cynulliad dros y meysydd cyfan a neu unrhyw feysydd a restrir yn atodlen 2 Deddf Llywodraeth Cymru.”

## Pennod 6: Opsiynau ar gyfer diwygio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Yn y bennod hon trafodwn opsiynau ar gyfer diwygio *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* mewn modd sy'n ehangu cwmpas ei pherthnasedd i gynnwys:

- cwmnïau preifat sy'n darparu cyfleustodau cyhoeddus
- y sector breifat yn gyffredinol
- y sector wirfoddol
- sefydlu statws swyddogol a chyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg.

### 6.1 Ehangu cwmpas Deddf 1993 i gynnwys cwmnïau preifat sy'n darparu cyfleustodau cyhoeddus

Gellid dadlau mai diwygio pwerau Deddf 1993 i gynnwys y cyfleustodau cyhoeddus fyddai'r gwelliant lleiaf dadleuol. Yn wir, ffurfioli'n statudol y gweithredu sydd eisoes ar gynydd â'r sector hon fyddai cam o'r fath.

Hepgorwyd y cyfleustodau a breifateiddiwyd rhag gorfod llunio cynllun iaith o dan Ddeddf 1993 er mwyn "*gwneud gwahaniad absoliwt rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus*".<sup>165</sup> Bu cryn ddadlau dros y penderfyniad hwn ar y pryd, gyda'r beirniaid yn mynnu bod hepgor y cyfleustodau'n amddifadu trigolion Cymru o'r hawl i ddewis iaith wrth ymwneud ag ystod sylweddol o wasanaethau cyhoeddus hollbwysig. Ers ei sefydlu'n gorff statudol, mae'r Bwrdd wedi galw'n gyson am ymestyn y ddeddfwriaeth bresennol i gwmpasu cwmnïau preifat sy'n darparu gwasanaethau o natur gyhoeddus. Mae dau ddyfarniad cyfreithiol (un gan y Llys Ewropeaidd) wedi awgrymu y dylid diffinio gwasanaethau cyfleustod fel "darparwyr gwasanaethau cyhoeddus dan reolaeth y wladwriaeth".<sup>166</sup>

Mae Adran 6 (1) (o) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi'r pŵer cyfreithiol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn hyn i wneud gorchymyn drwy Offeryn Statudol i enwebu cyrff ychwanegol yr ystyrir eu bod yn gweithredu swyddogaethau o natur gyhoeddus yng Nghymru. At hynny, mae *Iaith Pawb* yn cynnwys ymrwymiad i "barhau i weithio i ganfod rhagor o sefydliadau sydd yn darparu gwasanaethau o natur gyhoeddus y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu Cynlluniau Iaith Gymraeg". Hyd yma, cafwyd pum Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg Cyrff Cyhoeddus ym 1996, 1999, 2001, 2002 a 2004. Arweiniodd y gorchymynion hyn at osod dyletswydd statudol ar nifer sylweddol o ddarparwyr 'preifat' o wasanaethau cyhoeddus i baratoi cynlluniau iaith. Ymhlith y rhain y mae nifer o gyfleustodau gan gynnwys cwmnïau dŵr. Ym mis Mawrth 2007, ymgynghorodd Llywodraeth y Cynulliad â chyfanswm o 59 sefydliad arall (gan gynnwys Banc Lloegr, Cyngor Llyfrau Cymru a'r Comisiwn Etholiadol) gyda golwg ar eu cynnwys hwythau mewn gorchymyn newydd dan adran 6(1)(o) Ddeddf 1993. Yn sgîl *Iaith Pawb*, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi derbyn buddsoddiad ychwanegol sy'n ei alluogi i ymgymryd â rhagor o waith ym maes cytuno a monitro gweithrediad cynlluniau iaith statudol. Yn ystod 2006-07, cymeradwywyd 62 o gynlluniau iaith Gymraeg gan y Bwrdd, gan ddod â chyfanswm y Cynlluniau sy'n weithredol i dros

<sup>165</sup> *Ansawdd Gwasanaeth, Dwyieithrwydd a'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru*. 1998 Adroddiad a baratowyd gan John Wilson ar gyfer y Sefydliad Materion Cymreig a Chyngor Defnyddwyr Cymru.

<sup>166</sup> 96/280/EC, Argymhelliad Comisiwn Ewrop 3 Ebrill 1996, tud. 54-57.

450. Yn ogystal, ymatebodd y Bwrdd i 160 o adroddiadau monitro ar Gynlluniau Iaith Gymraeg cyfredol yn ystod y flwyddyn, ac adolygwyd 34 Cynllun.<sup>167</sup>

Gwelir, felly, bod priodoldeb dwyn gorfodaeth statudol ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus i baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg yn egwyddor sydd wedi'i derbyn a bod y Cynulliad eisoes yn mynd ati i ehangu cwrpas y ddeddf i'r cyfeiriad hwn. Rhagdybir felly mai cam naturiol fyddai cynnwys y cyfleustodau cyhoeddus mewn unrhyw ddiwygiad pellach o Ddeddf 1993. Mwy dadleuol o lawer yw'r galw i ddiwygio'r Ddeddf fel ei bod yn cynnwys y sector breifat yn ei chyfanrwydd.

**Argymhelliad 18: Dylid parhau i ddwyn gorfodaeth statudol ar ddarparwyr cyfleustodau cyhoeddus o dan adran 6(1)(o) Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 neu ddiwygiad pellach o'r ddeddf honno.**

## **6.2 Ehangu Ddeddf 1993 i gynnwys y sector breifat yn gyffredinol (gan wahaniaethu rhwng y gofynion ar gwmnïau mawr a busnesau bach a chanolig eu maint (SME))**

### **6.2.1 Ymdrechion i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y sector breifat**

Bu galw cyson am ehangu Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 fel ei bod yn cynnwys y sector breifat ers i'r gofyniad statudol ar y sector i baratoi cynlluniau iaith Gymraeg gael ei hepgor o'r mesur i sefydlu'r ddeddf honno. Serch hynny, bu cynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan gwmnïau preifat dros y deng mlynedd diwethaf. Daeth y cynnydd hwn o ganlyniad i bwysau ar y sector breifat o sawl cyfeiriad gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Cefn a'r Mentrau Iaith.

#### ***Bwrdd yr Iaith Gymraeg***

Nid yw'r Bwrdd erioed wedi gofyn am orfodaeth statudol i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal ar draws y sector breifat. Amcan y Bwrdd yw dylanwadu, dwyn perswād a chydweithio'n agos â chwmnïau'r sector yn hytrach na cheisio mynnu gorfodaeth. Cyhoeddodd y Bwrdd ddau ganllaw penodol i'r sector breifat (y cyntaf ar gyfer cwmnïau mawr, y cyfleustodau a'r sector yn gyffredinol<sup>168</sup> a'r ail ar gyfer busnesau bach a chanolig - SME<sup>169</sup>). Yn fwy diweddar, cyhoeddwyd *Strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg / Gorffennaf 2006 – Gorffennaf 2009* i gyd-fynd ag un o brif amcanion *Iaith Pawb* a'r targed "i gyrrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg"<sup>170</sup>. Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi cynhyrchu nifer o adnoddau ychwanegol y gall busnesau eu defnyddio i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg megis bathodynau a deunyddiau *Iaith Gwaith, Cynllun Grantiau Bach a Chanllawiau Dylunio Dwyieithog*.<sup>171</sup>

<sup>167</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2006-07*, tud.14.

<sup>168</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Defnyddio'r Gymraeg mewn Busnes*, dim dyddiad.

<sup>169</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Y fantais Gymraeg: Canllaw ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg er mantais busnes, ar gyfer busnesau bach a chanolig*, dim dyddiad.

<sup>170</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog*, Chwefror 2003, tud. 11.

<sup>171</sup> Gweler *Defnyddio'r Gymraeg mewn Busnes*, tud 48. neu wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg [www.bwrdd-yr-iaith.org](http://www.bwrdd-yr-iaith.org) am ragor o fanylion.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cydweithio ag amryw o gwmnïau yn y sector breifat gan gynnwys: Asda, Bmi Baby, BT, HSBC, Ikea, Kwiks, Lloyds TSB, Maes Awyr Caerdydd, McDonalds, Microsoft, Nationwide, Natwest, Orange, Sainsbury's, Somerfield a Tesco. Er bod y Bwrdd wedi bod yn weithgar wrth geisio dylanwadu ar y sector breifat, mae'n amheus pa mor effeithiol y bu'r dylanwad hwn o safbwynt sicrhau cyfleoedd ychwanegol go iawn i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â'r busnesau hyn. Bu achosion diweddar – cwmni Thomas Cook<sup>172</sup> yn gwahardd ei staff rhag siarad Cymraeg yn y gwaith, Nwy Prydain<sup>173</sup> yn penderfynu rhoi terfyn ar anfon biliau a llythyrau Cymraeg, a methiant Tesco<sup>174</sup> i wneud defnydd helaeth o'r Gymraeg yn ei archfarchnadoedd – yn brawf o'r diffygion sy'n parhau yn y sector.

Ceir tystiolaeth o ddiffyg ymrwymiad y sector breifat i wella ei gwasanaeth cyfrwng Cymraeg trwy gymharu buddsoddiad y sector breifat â buddsoddiad y sector gyhoeddus mewn hyfforddiant Cymraeg i'w staff. Dengys *Arolwg Defnydd Iaith 2004* y Bwrdd fod y ganran o staff oedd wedi cael cynnig hyfforddiant i wella'u Cymraeg lawer yn uwch yn y sector gyhoeddus (35%, sef 30,000 o bobl) o'i chymharu â'r sector breifat (6%, sef 5,000).<sup>175</sup>

Datgan Strategaeth ddiweddar y Bwrdd mai ei brif amcan ar gyfer y sector breifat yw:

*'Cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat, drwy hyrwyddo manteision y Gymraeg, annog cwmnïau sy'n defnyddio'r iaith i wneud mwy o ddefnydd ohoni, annog cwsmeriaid i ofyn am wasanaethau Cymraeg a'u defnyddio, a thrwy ei gwneud yn hawdd i gwsmeriaid weld fod gwasanaethau Cymraeg ar gael.'*<sup>176</sup>

Mae amcanion strategaeth y Bwrdd yn rhai dilys ac yn ceisio dylanwadu ar y sector breifat yn y modd mwyaf effeithiol o fewn y cyd-destun deddfwriaethol presennol a'r adnoddau cyfyngedig sydd gan y Bwrdd i weithredu yn y maes. Dadleua'r Bwrdd mai defnyddio contractau gwirfoddol â chwmnïau preifat sy'n manylu ar ymrwymadau penodol i ddefnyddio'r Gymraeg ac y mae modd eu monitro trwy raglen gyfrifiadurol yw'r ffordd fwyaf briodol o weithredu mewn hinsawdd nad yw'n gefnogol i ddeddfwriaeth<sup>177</sup>. Serch hynny, mae'r Bwrdd yn cefnogi sefydlu'r hawl i gyfathrebu yn y Gymraeg yn y gwaith ar lafar (gyda chydweithwyr a chwsmeriaid) ym mhob sector, gan gynnwys y sector breifat.

Beirniadaeth gan nifer, megis Cymdeithas yr Iaith, yw na fydd y math hwn o bwysio ar y sector breifat yn cael dylanwad arwyddocaol ar allu unigolion i ddefnyddio'r iaith yng nghyd-destun busnes heblaw bod dyletswydd statudol ar y sector breifat i ddarparu ei gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Y mentrau iaith**

Rhan bwysig o waith y Mentrau Iaith yw ceisio darbwyllo cwmnïau preifat i gynnig elfen o wasanaeth dwyieithog. Gwneir hyn drwy egluro manteision dwyieithrwydd i fusnesau. Canolbwyntia ymdrechion y mentrau iaith ar fusnesau bach a chanolig lleol a siopau'r stryd fawr yn bennaf. Anogir y busnesau hyn i ddefnyddio deunydd '*Iaith Gwaith*' y Bwrdd, cefnogi ymdrechion staff i ddysgu Cymraeg a chynhyrchu deunydd

<sup>172</sup> <http://cymdeithas.org>

<sup>173</sup> <http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid> (Dydd Mawrth, 23 Mai 2006)

<sup>174</sup> <http://cymdeithas.org>

<sup>175</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Arolwg Defnydd Iaith 2004*, tud. 20.

<sup>176</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Strategaeth Sector Preifat*, 2006, tud. 7.

<sup>177</sup> Cyfathrebiad personol, Awst 2007.



dwyeithog gan gynnwys deunydd hysbysebu a marchnata. Mae'r Mentrau Iaith yn cynnig cefnogaeth i fusnesau trwy eu cynorthwyo i ymgeisio am grantiau i osod arwyddion dwyeithog, darparu cyfieithiadau byrion a dod o hyd i gyrsiau iaith i staff. Tra bod y mentrau'n llwyddo i sicrhau bod y Gymraeg yn fwy gweladwy mewn siopau, rhaid amau eto pa mor effeithiol yw eu gallu i gynyddu cyfleoedd i dderbyn gwasanaeth cyfrwng Cymraeg, heb fod pwysau statudol ar y sector breifat i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.

### **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi bod yn weithgar iawn wrth geisio dylanwadu a dwyn pwysau ar y sector breifat trwy gyfrwng ymgyrchoedd penodol i berswadio cwmnïau preifat i fabwysiadu agwedd mwy cadarnhaol at yr iaith Gymraeg. Yn ddiweddar cafwyd ymgyrchu yn erbyn penderfyniad Thomas Cook i wahardd ei staff rhag siarad Cymraeg yn y gwaith. Ymgyrchwyd hefyd i ddwyn pwysau ar archfarchnadoedd Morrisons a Tesco i fabwysiadu polisïau dwyeithog cynhwysfawr.<sup>178</sup> Bu Cell Caerdydd y Gymdeithas, er enghraifft, yn arbennig o weithgar â'r sector breifat yn ystod y 1990au. Roedd tri phrif nod i'w gofynion wrth roi pwysau ar gwmnïau'r sector breifat i gynnig gwasanaeth Cymraeg, sef:

- 1) Gosod arwyddion dwyeithog,
- 2) Arddangos deunydd *Iaith Gwaith*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- 3) Cynnig hyfforddiant Cymraeg i staff.

Defnyddiwyd dulliau megis picedu siopau a lobio Aelodau Seneddol a Thŷ'r Arglwyddi er mwyn dwyn pwysau ar gwmnïau i gynnig elfen o Gymraeg yn eu gwasanaeth. Trefnwyd cyfarfodydd â rheolwyr cenedlaethol a chorfforaethol cwmnïau mawr er mwyn pwysu arnynt hwythau i gynnig gwasanaeth dwyeithog. *Marks and Spencer* oedd un o'r cwmnïau cyntaf i gangen Caerdydd ddylanwadu arno. Ni ddaethpwyd i gytundeb ffurfiol â'r cwmni ond cafwyd cytundeb llafar gan *Marks and Spencer* y byddai'n cynnig rhagor o wasanaethau dwyeithog. Mewn ymateb i'r pwysau a roddwyd arnynt gan Gymdeithas yr Iaith, cyflwynodd rhai cwmnïau bolisïau iaith Gymraeg ysgrifenedig. Rhai o'r cwmnïau a gyflwynodd bolisïau o'r fath oedd *Halifax*, *Lloyds TSB* a *Burtons*.

Cred Cymdeithas yr Iaith Gymraeg y buasai deddfwriaeth a fyddai'n ymrwymo busnesau preifat i gynnig gwasanaethau Cymraeg yn llwyddo. Mae'r Gymdeithas yn cynnig diffinio gofynion ar sail 'matrics' gyda'r gofynion yn amrywio yn ôl: natur y gwasanaeth; adnoddau'r darparwr; nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn ardal weithredu'r darparwr; lefel y cyswllt â'r cyhoedd; a'r defnydd o dechnoleg.<sup>179</sup> Er y byddai cwmnïau'n sicr o wrthwynebu hyn i ddechrau, cred y Gymdeithas y byddent yn barod i gyfaddawdu yn y pen draw. Pwysleisia fod gorfodaeth ar gwmnïau i weithredu yn achos y cydraddoldebau eraill (hil, rhyw ac anabledd), a chyfeirir at y ffaith bod cwmnïau megis *Marks and Spencer* eisoes yn cynnig gwasanaeth dwyeithog yn nhalaith Quebec yng Nghanada lle mae rheidwydd arno i wneud hynny.

### **Cefn**

Sefydlwyd *Cefn* ym 1985 yn sgîl y brotest genedlaethol yn erbyn camddefnydd o'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol yn achos *Jones a Doyle v. Cyngor Sir Gwynedd*. Mae *Cefn* wedi chwarae rôl allweddol wrth sicrhau cyfiawnder i siaradwyr Cymraeg yn y

<sup>178</sup> <http://cymdeithas.org>

<sup>179</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Deddf Iaith Newydd i'r Ganrif Newydd*, Awst 2001, tud. 4.

gweithle ac fel defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r mudiad wedi seilio'i waith ar ddefnyddio'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol yn hytrach na Deddf Iaith 1993 i fynnu hawliau dynol a phwyso am gyfiawnder i siaradwyr Cymraeg sydd wedi profi camwahaniaethu, a hynny am fod y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol yn caniatáu dwyn mater gerbron llys neu driwlynys. Defnyddiwyd pwerau'r ddeddf wrth ddwyn achosion ac mewn ymgyrchoedd yn erbyn nifer o gyflogwyr yn y sector breifat.

Mae *Cefn* wedi cynnal ei ymgyrchoedd trwy ymateb i gŵynion gan aelodau o'r cyhoedd. Yn wir, bu *Cefn* yn effeithiol iawn yn archwilio a chefnogi cwynion siaradwyr Cymraeg. Un o'r ymgyrchoedd mwyaf allweddol oedd yr ymgyrch yn erbyn Telecom Prydain (BT). Trefnwyd triwlynys ym Mhorthmadog ym 1990 yn erbyn cyflogwr a waharddodd rai o'i staff rhag siarad Cymraeg â'i gilydd.<sup>180</sup> Cafwyd setliad i'r cyflogai rai dyddiau cyn dyddiad y triwlynys. Cynhaliwyd ymgyrchoedd tebyg yn erbyn nifer fawr o gyflogwyr, a mabwysiadwyd 'Cyfamod Iaith' i'w arwyddo gan berchennog y cwmni a *Cefn*. Cytuna *Cefn* â galwad Cymdeithas yr Iaith y dylid cynnwys y sector breifat o dan amodau Deddf Iaith 1993. Cred *Cefn* ei bod yn hanfodol ffurfioli ei Gyfamod Iaith â chyflogwyr yn y sector breifat trwy rym deddfwriaeth.<sup>181</sup>

### 6.2.2 Tystiolaeth ymchwil

Dengys tystiolaeth ymchwil bod agweddau at y Gymraeg yn gymysg iawn o fewn y sector breifat. Serch hynny, gwelir arwydd o gynnydd pendant yn y canfyddiad o werth y Gymraeg o fewn y sector drwy Gymru gyfan ac yn enwedig yn y Gogledd-orllewin.

#### ***Arolwg a Thystiolaeth Ffederasiwn Busnesau Bychan***<sup>182</sup>

Dengys canlyniadau arolwg gan y Ffederasiwn Busnesau Bychan ym 1999 mai 8% yn unig o fusnesau oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. O'r 92% nad oedd yn defnyddio'r iaith, dim ond 6% oedd yn gweld diffyg Cymraeg yn anfantais. Awgryma canlyniadau'r arolwg fod busnesau'n ddi-hid tuag at yr iaith, hynny yw, nid ydynt yn ystyried bod defnyddio'r Gymraeg yn fanteisiol nac yn anfanteisiol i'w busnesau. Daeth yr arolwg i'r casgliad mai'r dull gorau o hyrwyddo'r iaith yw trwy amlygu'r manteision economaidd, diwylliannol a chymdeithasol y gallai'r iaith Gymraeg eu cynnig i fusnesau. Pwysleisir y byddai angen i nifer o fusnesau yn y sector dwristiaeth newid eu hagwedd er mwyn gallu elwa ar dwristiaeth ddiwylliannol.

Dadleua'r Ffederasiwn fod angen gosod cymhellion i fentrau weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, drwy ddarparu'r canlynol:

- a) gwasanaethau cyngori i ddangos sut gall busnesau bach ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol o ddydd i ddydd;
- b) cymorth ymarferol gan gynnwys darparu bathodynau ac arwyddion dwyieithog;
- c) cymorth cyllidol i ariannu cyrsiau hyfforddi dwyieithog ar gyfer y perchnogion a'r staff.

<sup>180</sup> 'Deddf cydraddoldeb, ac nid deddf iaith, ein prif arf', *Asgwrn Cefn*, Rhif 8, Gwanwyn 2003, tud. 3.

<sup>181</sup> Mynegiant personol, Chwefror 2005.

<sup>182</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y Pwyllgor Diwylliant CC-18-01 (tud.2) 21 Tachwedd 2001. Cyflwyniad Ffederasiwn Busnesau Bychan yng Nghymru.

Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bychan yn croesawu'r syniad y dylid ystyried cynnig cymhellion trethiannol i fusnesau bychain. Mae hefyd yn credu mai ysgogi a pherswâd ysgafn yw'r modd mwyaf effeithiol o ddatblygu ewyllys da ymysg busnesau tuag at y Gymraeg. Ei farn yw y gallai polisïau gorfodol fod yn wrthgynhyrchiol yn enwedig yn yr ardaloedd di-Gymraeg.

### **Safbwynt CBI Cymru**<sup>183</sup>

Gellid crynhoi safbwynt CBI Cymru, yn ôl tystiolaeth ei gyfarwyddwr i Ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad ar yr Iaith Gymraeg, i'r pedwar pwynt canlynol:

- Mae cyflogwyr yn rhoi gwerth mawr ar sgiliau iaith
- Ni ddylai'r Cynulliad osod unrhyw ofynion ar gwmnïau preifat mewn perthynas â'r Gymraeg. Byddai unrhyw ymdrech i orfodi busnes i ddefnyddio'r iaith yn wrthgynhyrchiol.
- Ni fyddai unrhyw gam i ymestyn darpariaethau Deddf 1993 er mwyn dwyn gorfodaeth ar fanciau, er enghraifft, i ddefnyddio'r Gymraeg yn gwneud dim ond cynyddu costau'r busnesau hynny sydd eisoes yn defnyddio'r iaith yn wirfoddol.
- Gall rhoi gorfodaeth statudol ar y sector breifat i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal gael effaith negyddol ar fuddsoddi o'r tu allan.

### **Arolwg barn Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2000)**

Mae'r ymchwil farchnata a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg<sup>184</sup> yn cynnig rhyw syniad ynghylch lefel gefnogaeth y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith y gweithle yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ledled Cymru. Gellir crynhoi'r prif gasgliadau sy'n berthnasol i ddibenion yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae lefel uchel o gefnogaeth ymysg y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith busnes a sgil cyfathrebu yn y gweithle.
- Dywedodd 50% o'r ymatebwyr a gyflogir gan gyrff cyhoeddus a 24% o'r rhai hynny sy'n gweithio i gwmnïau preifat bod cyflogwyr yn cyflogi pobl â sgiliau dwyieithog lle bynnag y bo modd.
- Yn y sector breifat, yn ôl pob tebyg, gwneir cais am staff dwyieithog i lenwi swyddi sy'n ymwneud ag ateb y ffôn, gwaith derbynfa, gofalu am gwsmeriaid a chynghor i gwsmeriaid.
- Mae meddu ar sgiliau dwyieithog yn fantais yn y farchnad swyddi yng Nghymru ym marn 71% o drigolion Cymru.
- Disgwylir y ceir y cynnydd mwyaf yn y galw am sgiliau iaith Gymraeg yn y dyfodol yn y sector gyhoeddus. Serch hynny, rhagwelir y ceir galw ychwanegol am sgiliau Cymraeg yn niwydiannau'r sector breifat.
- Ym marn 50-60% o siaradwyr Cymraeg, dylai sefydliadau'r sector breifat a'r sector gyhoeddus wneud rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg.
- Dywed 45% o'r siaradwyr Cymraeg yng Nghymru eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio busnes sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog. (Yn ôl ymchwil gan Menter Môn, mae cynifer ag 84% o gwsmeriaid ar yr ynys yn cefnogi'r defnydd o Gymraeg mewn busnesau, gyda 74% o siaradwyr Cymraeg Môn

<sup>183</sup> Crynodeb o gyflwyniad David Rosser, Cyfarwyddwr CBI Cymru i Ymgynghoriad y Pwyllgor Diwylliant ar yr Iaith Gymraeg.

<sup>184</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2000*, Caerdydd, 2000.

yn fwy tebygol o gefnogi siop, busnes neu wasanaeth lle gwelir defnydd o'r iaith Gymraeg.)

- Ym marn yr holl gwsmeriaid, hyfforddi staff er mwyn iddynt allu defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a sicrhau y gall y cyhoedd adnabod staff sydd â sgiliau Gymraeg yw'r agweddau pwysicaf ar ddarparu gwasanaeth dwyieithog.
- Ymysg agweddau eraill ar wasanaeth dwyieithog y mae o leiaf 60% o'r holl sampl a thros 80% o'r siaradwyr Cymraeg yn meddwl eu bod yn bwysig mae: ffurflenni a llythyrau dwyieithog; arwyddion dwyieithog; ateb y ffôn yn ddwyieithog; marchnata a hysbysebu'n ddwyieithog; a pheycynnu yn ddwyieithog.

### **Arolwg Defnydd Iaith 2004, Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

Yn *Arolwg Defnydd Iaith 2004*, roedd 57% (canran sy'n cynrychioli 315,000 o unigolion) o'r sampl o siaradwyr Cymraeg yn ystyried eu bod yn medru'r Gymraeg rhugl. O'r siaradwyr Cymraeg a holwyd, roedd 92,000 ohonynt yn gweithio yn y sector breifat ac roedd 88,000 yn gweithio yn y sector gyhoeddus. Gofynnwyd i'r siaradwyr hyn nodi agwedd eu cyflogwr tuag at y Gymraeg. Fel y dengys y canlyniadau i'r cwestiwn hwn yn y tabl isod, ceir cryn gefnogaeth ymhlith cyflogwyr y sector breifat i'r defnydd o'r Gymraeg. Mae dros 60% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd yn dweud bod eu cyflogwyr yn gefnogol i ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg neu ddefnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes. Mae 11.8% yn dweud nad yw eu cyflogwyr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg.

<b>Agwedd y Cyflogwr at y Gymraeg, yn ôl sector y cyflogwr<sup>185</sup></b>		
	<b>Preifat</b>	<b>Cyhoeddus</b>
Yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg gan fwyaf	40%	68.1%
Yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol	20.9%	17.9%
Ddim yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg	11.8%	4.5%

### **Arolwg Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru**

Ym mis Mawrth 2005, cyhoeddodd Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru ganlyniadau ei arolwg o'r galw am sgiliau Cymraeg yn y sector breifat. Holwyd bron i 2,000 o fusnesau yng Nghymru gan ganolbwyntio ar y sectorau hynny<sup>186</sup> lle'r oedd rhywfaint o angen neu gryn angen am sgiliau Cymraeg. Rhestrwn brif ganfyddiadau'r arolwg:

- 9% o'r busnesau preifat a holwyd trwy Gymru oedd yn dweud bod angen staff â sgiliau Cymraeg arnynt.
- Y sector lle ceir y galw uchaf am sgiliau Cymraeg ymhlith y staff yw'r cyfryngau.
- Dengys y data fod cryn amrywiaeth yn y galw am sgiliau Cymraeg o sector i sector. Mae'r sectorau gofal a manwerthu'n datgan galw sy'n is na'r galw yn y sectorau bwyd-amaeth, y cyfryngau, twristiaeth a hamdden, cyllid a gwasanaethau busnes.

<sup>185</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Arolwg Defnydd Iaith 2004*, Caerdydd, 2006. Addasiad o Ffigur 20 Agwedd y Cyflogwr at y Gymraeg, yn ôl sector y cyflogwr, tud 21.

<sup>186</sup> Roedd y saith sector a holwyd yn cynnwys y sectorau Amaeth-Bwyd, Adeiladu, Cyfryngau, Twristiaeth a Hamdden, Cyllid a Gwasanaethau Busnes, Gofal, Manwerthu a Chyfanwerthu.

- Mae'r rhanbarth y lleolir y busnesau ynndi'n cael dylanwad sylweddol ar lefel y galw am sgiliau Cymraeg. Er enghraifft, datgan traean o fusnesau'r Gogledd-orllewin bod angen staff â sgiliau Cymraeg, tra bod 3% yn unig o fusnesau'r De-ddwyrain yn datgan bod angen staff â sgiliau o'r fath.
- Mae 15% o'r busnesau sy'n datgan nad oes angen sgiliau Cymraeg arnynt yn datgan hefyd bod staff â sgiliau Cymraeg priodol yn bwysig i'w busnes.
- Ceir arwyddion bod y galw gwirioneddol am sgiliau Cymraeg yn uwch nag yr ymddengys o'r ystadegau uchod. Er enghraifft, dywedodd 29% o'r busnesau a holwyd bod eu cwsmeriaid yn hoffi cael y dewis o ddefnyddio Saesneg neu Gymraeg. Dengys tystiolaeth bellach bod 20% o'r busnesau yn credu bod cael sgiliau iaith Cymraeg priodol yn bwysig i lwyddiant eu busnes.
- Daw'r adroddiad i'r casgliad bod angen gwella ymwybyddiaeth cwmnïau preifat o'r manteision masnachol posib sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Gymraeg, yn arbennig o ran cadw cwsmeriaid ac ymestyn i farchnadoedd newydd.

### **Gorwelion**

Bu Menter a Busnes yn gyfrifol am nifer o fentrau i annog siaradwyr Cymraeg i fentro ym myd busnes. Mae'r cynllun *Gorwelion* a *JobCymru.com* yn darparu gwybodaeth i ddarpar gyflogai am y swyddi hynny lle ceir galw penodol (gan gyflogwyr cwmnïau bach a chanolig eu maint gan fwyaf) am sgiliau Cymraeg. Dengys ymchwil gan Menter a Busnes<sup>187</sup> bod galw pendant am sgiliau dwyieithog ymhlith y mwyafrif helaeth o fusnesau a holwyd yng Ngwynedd, er enghraifft:

<b>Y galw am sgiliau dwyieithog gan fusnesau preifat yng Ngwynedd</b>			
<b>Sector waith</b>	<b>Cwmnïau a holwyd</b>	<b>Sgiliau dwyieithog</b>	<b>%</b>
Cynhyrchu	27	22	79%
Gwasanaeth	101	96	96%
Gwerthu	31	31	100%
<b>Cyfanswm</b>	<b>159</b>	<b>149</b>	<b>94%</b>

Felly, tra bod llefarwyr ar ran y sector breifat yn datgan gwrthwynebiad i unrhyw orfodaeth statudol arnynt i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, dengys tystiolaeth ymchwil yn y maes bod cefnogaeth o gyfeiriad cyflogwyr a'r cyhoedd ar gyfer cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn y sector. Ceir tystiolaeth i gefnogi blaenoriaethu'r busnesau hynny sy'n delio fwyaf â chwsmeriaid Cymraeg eu hiaith.

### **Cyngor Defnyddwyr Cymru**

Dengys gwaith ymchwil gan Gyngor Defnyddwyr Cymru<sup>188</sup> y byddai dysgwyr Cymraeg yn hoffi rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth fanteisio ar wasanaethau a nwyddau yn y sector gyhoeddus a phreifat, ac yn croesawu'r cyfle i

<sup>187</sup> GORWELION: Y Swyddiadur a JobCymru.com, disgrifiad o'r cynllun gan Catherine Rees, 2003. [www.JobCymru.com](http://www.JobCymru.com) a

<sup>188</sup> Cyngor Defnyddwyr Cymru, *Cenedl Ddwyieithog? Agweddau defnyddwyr at ddysgu Cymraeg*, 2005.

wneud hynny. Yn ôl yr ymchwil, “hoffai dysgwyr fedru defnyddio'r Gymraeg pan y siopa ar y stryd fawr a chyrchu gwasanaethau cyhoeddus eraill.”<sup>189</sup>

Ar sail ei ymchwil â defnyddwyr sy'n dysgu'r Gymraeg argymhella'r Cyngor:

- *Dylai Llywodraeth y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith ymrwymo i roi rhagor o adnoddau i weithio gyda busnesau yn y sectorau preifat a gwirfoddol os ydyn nhw eisiau gwneud gwahaniaeth go iawn i ddarpariaeth gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.*
- *Dylid rhoi rhagor o anogaeth i fusnesau ac adwerthwyr i gydnabod a datblygu'r medrau Cymraeg sydd gyda'u staff yn barod. Dylai pob cyflogwr yng Nghymru roi'r cyfle i'w staff ddysgu Cymraeg yn rhan safonol o'u rhaglenni hyfforddi.*<sup>190</sup>

### 6.2.3 Cloriannu'r dystiolaeth

Yn y bennod hon, rhestrwn y prif resymau o blaid ac yn erbyn cynnwys y sector breifat o fewn cwmipas diwygiedig Deddf 1993 gan awgrymu rhai dulliau gweithredu posibl.

#### **Rhesymau o blaid**

- Buasai'n ehangu'r 'peuoedd' lle ceir statws statudol i'r Gymraeg ac felly'n gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy ac yn cynyddu'r defnydd cyhoeddus a wneir ohoni.
- Buasai'n cyfrannu at sefydlu 'hawl' yr unigolion hynny y byddai'n well ganddynt dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg fedru gwneud hynny ym mhob agwedd ar eu bywydau.
- Erbyn heddiw ni ellir gwahaniaethu'n daclus rhwng y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat gan fod pob sector yn cyfrannu i nifer o wasanaethau allweddol megis y gwasanaeth gofal ac iechyd. Felly, byddai parhau i eithrio'r sector breifat yn amddifadu siaradwyr Cymraeg rhag y cyfle i dderbyn gwasanaethau sylfaenol a sensitif yn eu dewis iaith.
- Mae nifer o gwmnïau preifat eisoes wedi ymrwymo i gynlluniau iaith Gymraeg statudol y sefydliadau cyhoeddus y maent yn darparu gwasanaethau ar eu rhan trwy gytundebau 3ydd parti. Ar hyn o bryd mae monitro a sicrhau cydymffurfiaeth darparwyr 3ydd parti yn elfen wan o gynlluniau iaith nifer o sefydliadau cyhoeddus. Erbyn hyn mae Bwrdd yr Iaith yn gofyn i sefydliadau gynnwys gwybodaeth am gydymffurfiaeth darparwyr 3ydd parti â gofynion y cynllun iaith yn yr adroddiadau monitro blynyddol. Mae'r sefydliadau gorau'n sicrhau bod y darparwyr 3ydd parti preifat yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i'w defnyddwyr. Digon naturiol fyddai rhoi'r cyfrifoldeb yn uniongyrchol ar y cwmnïau preifat i sicrhau darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae nifer o gyflogwyr yn y sector breifat yn gefnogol i'r Gymraeg (40% yn gefnogol i ddefnydd ffurfiol ac anffurfiol a 20.9% ychwanegol yn gefnogol i ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn y gwaith yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2004 y Bwrdd).
- Er gwaethaf y gwrthwynebiad cychwynnol, byddai busnesau'n debygol o dderbyn deddfwriaeth iaith. Mae'r sector breifat eisoes wedi'i chynnwys o

<sup>189</sup> Ibid. tud. 19.

<sup>190</sup> Ibid. tud. 56-57.

fewn cwmpas perthnasedd deddfwriaeth sy'n diogelu hawliau merched, lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a'r amgylchedd. Buasai ymestyn dyletswydd statudol y sector i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn gam i unioni cydraddoldeb y Gymraeg â'r cydraddoldebau eraill.

- Gellid cynorthwyo busnes a diwydiant i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd (i) trwy ostwng trethi busnes, (ii) cyflwyno'r newidiadau'n raddol dros gyfnod o amser; (iii) gosod disgwyliadau gwahanol ar fusnesau ar sail natur y gwasanaeth, adnoddau'r darparwr, nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, lefel y cyswllt â'r cyhoedd a'r defnydd o dechnoleg.<sup>191</sup>
- Wrth hepgor y sector breifat o ddeddfwriaeth iaith, mae dadleuon dros ddatblygu economaidd fel rhan o'r broses o warchod cymunedau Cymraeg yn anghyflawn.
- Ceir enghreifftiau o gwmnïau o'r sector breifat yn gweithredu'n ddwyieithog mewn gwledydd eraill (megis Marks a Spencer yn defnyddio'r Ffrangeg a'r Saesneg yn Québec).
- Pwysleisia'r Gymdeithas nad oes rhaid i orfodaeth ar fusnesau a diwydiant i wario arian ar wneud pethau yn Gymraeg gael effaith negyddol ar economi Cymru. Yn ôl tystiolaeth y Gymdeithas, mae Québec a Chatalwnia, er enghraifft, yn ffynnu'n economaidd er eu bod yn gorfodi'r sector breifat i weithredu'n ddwyieithog.<sup>192</sup>
- Mae diffyg tystiolaeth ymchwil gadarn am effaith polisïau dwyieithog ar hyfywedd yr economi yn ei gwneud yn anodd profi go iawn sut yn union y byddai unrhyw gynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn effeithio'n ariannol ar gwmnïau preifat, os o gwbl. Fel y dadleua Colin Williams, mae'r duedd i drafod gosod gofynion ar y sector breifat mewn termau negyddol yn ymfflamychu ymagwedd elyniaethus o'r cyfeiriad hwnnw.

*"Mae siarad llac am ymestyn y Ddeddf Iaith o'r Sector Cyhoeddus i'r Sector Preifat yn ddealladwy, ond yn amlach na pheidio yn awgrymu bygythiad ac nid cyfle ychwanegol i'r cyhoedd, h.y. disgwrs negyddol o orfodaeth sydd ynghlwm wrth hyn - ac mae canolbwyntio ar orfodi a chydymffurfio yn cynnig 'deunydd parod' i wrthwynebwyr y Gymraeg a fydd yn pwysleisio'r gred fod cyfundrefn ddwyieithog yn creu rhwystr i ddenu buddsoddiad ychwanegol yn ein heconomi, yn gost ychwanegol annerbyniol i fusnesau, (nad oes neb wir wedi ei mesur am nad ydym yn gwybod eto beth fyddai natur y newidiadau, os o gwbl), defnyddio'r iaith yn esgus i esbonio ein tlodi cymharol fel cenedl, ac yn y blaen. Ac felly mae angen casglu tystiolaeth i wrthsefyll y fath honiadau. Mae angen trafodaeth am rymuso, am bweru'r dinasyddion sydd am ddewis y Gymraeg."*<sup>193</sup>

### **Rhesymau yn erbyn**

- Mae'r sector breifat yn gyffredinol yn ddi-hid ac nid yw'n croesawu deddfwriaeth ychwanegol.
- Gellir cyflawni digon trwy greu ewyllys da. Mae'r sector breifat wedi ymateb eisoes i bwysau gan Fwrdd yr Iaith, Cymdeithas yr Iaith, Cefn a'r Mentrau Iaith, a gellid parhau â'r gwaith hwn o ddwyn perswâd ar gwmnïau i wella'u

<sup>191</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Deddf Iaith Newydd i'r Ganrif Newydd*, Awst 2001, tud. 4.

<sup>192</sup> Cymdeithas yr Iaith gymraeg, *Y Gymraeg yn Goroesi Globaleiddio: Manifesto Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*, Ionawr 2003.

<sup>193</sup> Colin Williams, *Deddfwriaeth Newydd a'r Gymraeg*, 14 Hydref 2005, tud. 8. (Fersiwn ddiwygiedig o ddarlith a draddodwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau, 4 Awst 2005).

darpariaeth yn y Gymraeg ac ychwanegu at nifer y cwmnïau sy'n gwneud hynny.

- Ni ellir gweithredu cynlluniau iaith statudol effeithiol o fewn y sector breifat heb (i) fuddsoddiad ychwanegol sylweddol mewn adnoddau, (ii) ehangu ar nifer y staff o fewn adran monitro cynlluniau iaith Bwrdd yr Iaith i gynghori a monitro cynlluniau.

### ***Dulliau gweithredu posibl***

- Buasai modd gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o gwmnïau preifat a'i gilydd ac felly'r disgwyliadau fyddai arnynt o ran cydymffurfio â gofynion y ddeddf.
- Buasai modd gosod gofynion amrywiol ar gwmnïau preifat yn dilyn y 'matrics' y mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi'i ddiffinio a fyddai'n asesu sefyllfa cwmnïau yn ôl: natur y gwasanaeth; adnoddau'r darparwr; nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn ardal weithredu'r darparwr; lefel y cyswllt â'r cyhoedd; a'r defnydd o dechnoleg.
- Gellid cryfhau'r oruchwyliaeth ar y cwmnïau hynny sy'n darparu gwasanaethau ar ran cyrff cyhoeddus (e.e. cartrefi gofal) trwy gytundebau 3ydd parti (gweler Pennod 7.2 am fanylion pellach).
- Mater arall i'w ystyried yw pa ddull arall (os nad cynllun iaith ar ei wedd bresennol) allai fod yn briodol i gwmnïau preifat.
  - Gellid ffurfioli'r math o gytundebau a gytunwyd eisoes gan gwmnïau preifat â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith a Cefn sy'n nodi nifer o ffactorau megis pecynnu, hysbysebu, arwyddion a hyfforddiant staff.
  - Gellid pennu Safonau Gwasanaeth Cymraeg ar sail y Safonau a ddefnyddir eisoes â'r Safon Cydraddoldeb. Gallai'r gofynion a'r amserlen ar gyfer bodloni gofynion y Safonau gael eu graddio yn ôl natur, maint, dylanwad, lleoliad ayyb y cwmni.

Beth bynnag fyddai'r dull a'r modd o osod gofynion statudol ar y sector breifat, byddai'n rhaid sicrhau trefn i: (i) gefnogi a chynghori cwmnïau, a (ii) monitro, goruchwyllo a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddf. Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n gyfan gwbl gyfrifol am yr holl agweddau hyn ar hyn o bryd, ac mae pump aelod o staff yn gyfrifol am y gwaith. Byddai'n rhaid wrth adnoddau cyllidol ac adnoddau dynol ychwanegol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg neu'i olynydd i ymgymryd yn effeithiol â'r swyddogaethau hyn.

Rhaid cofio, yn ogystal, bod angen sicrhau digon o allu o fewn y gweithlu (a'r darpar weithlu) yng Nghymru i feithrin y sgiliau iaith Cymraeg yn ddigon da i fedru cyflawni'u gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Buasai'n rhaid wrth raglen hyfforddiant iaith Cymraeg gynhwysfawr i Oedolion, Cymraeg yn y Gweithle a chynyddu'r niferoedd sy'n dysgu Cymraeg o'r cyfnod meithrin hyd at addysg uwch a phellach. Mae ymrwymadau'r Llywodraeth Glymblaid yn datgan y byddai'n:

- *"Llunio cytundeb polisi gydag Awdurdodau Addysg Lleol i'w gwneud yn ofynnol iddynt asesu'r galw am addysg Gymraeg*
- *Creu Strategaeth Addysg gyfrwng Cymraeg genedlaethol i ddatblygu darpariaeth effeithiol o addysg feithrin hyd at addysg bellach ac uwch, a'r strategaeth wedi'i hategu gan raglen weithredu.*
- *Byddwn yn sefydlu Rhwydwaith Addysg Uwch Cyfrwng-Cymraeg – y Coleg Ffederal – er mwyn sicrhau darpariaeth Gymraeg yn ein prifysgolion.*



- *Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Uned Cymraeg i Oedolion a ariennir yn ddigonol, gan roi blaenoriaeth i addysg diwtora.*<sup>194</sup>

Byddai angen gweithredu'n effeithiol ar bob un o'r uchod ynghyd â llwyddo i argyhoeddi rhagor o gyflogai a darpar gyflogai o'r fantais dros ddysgu a/neu wella'u Cymraeg er mwyn llenwi'r bwlch yn y gallu cyfredol o ran sgiliau iaith Cymraeg y gweithlu<sup>195</sup>.

**Argymhelliad 19:** Dylid cryfhau'r oruchwyliaeth ar y cwmnïau preifat (e.e. cartrefi gofal) sy'n darparu gwasanaethau ar ran cyrff cyhoeddus trwy gytundebau 3ydd parti er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn ôl gofynion cynlluniau iaith statudol y cyrff hynny.

**Argymhelliad 20:** Dylid sicrhau adnoddau cyllidol a dynol ychwanegol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn hyrwyddo a chefnogi rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg yn y sector breifat.

**Argymhelliad 21:** Dylid hyrwyddo trafodaeth gyhoeddus am rymuso dinasyddion sydd am ddewis y Gymraeg a manteision busnes, yn hytrach na thrafodaeth sy'n pwysleisio gorfodaeth a chydymffurfiaeth mewn modd negyddol.

**Argymhelliad 22:** Dylid cynorthwyo busnes a diwydiant i gydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth newydd (i) trwy gyflwyno'r newidiadau'n raddol dros gyfnod o amser; (ii) pennu disgwyliadau gwahanol ar gyfer busnesau ar sail natur y gwasanaeth, adnoddau'r darparwr, nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, lefel y cyswllt â'r cyhoedd a'r defnydd o dechnoleg.

## 6.3 Ehangu cwrpas Deddf 1993 i gynnwys y sector wirfoddol

### 6.3.1 Ymdrechion i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg â sefydliadau a mudiadau gwirfoddol

Amcangyfrifir bod rhwng 25,000 a 30,000 o fudiadau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru<sup>196</sup>. Nid yw cyrff gwirfoddol yn dod yn uniongyrchol o dan Ddeddf 1993 ac felly nid yw'n ofynnol iddynt lunio cynlluniau iaith Gymraeg. Serch hynny, mae'r Ddeddf yn effeithio ar rai mudiadau wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ran cyrff cyhoeddus. Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus sy'n gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg fynnu bod pob trydydd parti o'r sector wirfoddol neu'r sector breifat sy'n gweithio ar ei ran i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn cydymffurfio â gofynion ei Gynllun Iaith. Felly, daw cyrff gwirfoddol eisoes o fewn cwrpas gofynion

<sup>194</sup> *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*. Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol. Adran 6 *Dysgu i Fyw*, tud. 22.

<sup>195</sup> 1.) *Ymchwil i anghenion Sgiliau Iaith Gymraeg Cyflogwyr sy'n Gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg Statudol a Gwirfoddol*, Adroddiad gan Cwmni Iaith ar ran ELWa Mehefin 2004; 2.) *Future Skills Wales Survey – Welsh Language Skills in Seven Sectors*. Adroddiad ar gyfer Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru gan Beaufort Research a Menter a Busnes Mawrth 2005; 3.) *Cynllunio a Rheoli Sgiliau Dwyieithog*, Hydref 2006. Astudiaeth gan Cwmni Iaith ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

<sup>196</sup> *Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynllun y Sector Gwirfoddol: Adroddiad Blynyddol 2004-05*, 2006, tud. 1.

Ddeddf 1993 yn anuniongyrchol trwy gytundeb 3<sup>ydd</sup> parti â chyrrff cyhoeddus sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol.

Mae cyfran helaeth o'r sector wirfoddol yn cydnabod bod cynnig gwasanaeth yn newis iaith y defnyddiwr yn greiddiol i arfer da a chyfle cyfartal. Erbyn hyn, mae dros 50 o fudiadau wedi llunio cynlluniau iaith sydd wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o:

- Gyngorau Gwirfoddol Sirol
- Mudiadau ym meysydd gofal a chynghori (cenedlaethol a lleol)
- Mudiadau gweithgaredd (e.e. Clwb Ffermwyr Ifanc, Gwobr Dug Caeredin)
- Mudiadau amgylcheddol
- Sefydliadau Crefyddol
- Sefydliadau Proffesiynol (e.e. Cymdeithas y Cyfreithwyr)
- Mentrau Busnes
- Cyngorau Cymuned

Yn ôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg, mae 27 o fudiadau eraill a 75 o Gyngorau Cymuned wedi naill ai llunio cynllun drafft neu wedi dechrau ar y broses o wneud hynny. Fodd bynnag, mae rhai o'r rhain yn mynd yn ôl i 1996 a 1997 ac ni chafwyd unrhyw gynnydd ar eu cynlluniau ers hynny. Yn ôl swyddogion y prosiect Estyn Llaw, mae nifer sylweddol iawn o fudiadau gwirfoddol wedi llunio cynlluniau / cytundebau / polisi / cytgordd iaith neu'n arddel gweithdrefn ddwyieithog heb dderbyn cyngor gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Ymhlith y mudiadau gwirfoddol sydd wedi mynd ati i lunio cynllun iaith o'u gwirfodd, mae rhai wedi gwneud hynny o ddifrif ac yn fwy trwyadl na nifer o'r cyrrff sydd wedi paratoi cynlluniau iaith statudol. Mae *O'n Gwirfodd: Canllawiau Arfer da i Ddatblygu'r Gymraeg yn y Sector Gwirfoddol* gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC/WCVA)<sup>197</sup> yn cynnig arweiniad a chanllawiau manwl i fudiadau sy'n awyddus i lunio cynllun iaith a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu mudiad. Mae'r canllawiau hyn yn fwy grymus mewn sawl modd na'r canllawiau sy'n sail i gynlluniau iaith Gymraeg statudol am fod egwyddorion gwrth-orthrymol yn sail iddynt.

Yn ychwanegol at y cyngor a gaiff mudiadau gwirfoddol gan Fwrdd yr Iaith, sefydlwyd Estyn Llaw yn 2000 â'r nod deublyg o gynorthwyo mudiadau gwirfoddol a chymunedol i ddatblygu dwyieithrwydd a hybu gwirfoddoli ymhlith siaradwyr Cymraeg. Ers cychwyn y prosiect yng Ngheredigion a gogledd Sir Gâr, mae Estyn Llaw bellach wedi tyfu'n gynllun sy'n cynorthwyo mudiadau ymhob cwr o Gymru, gyda'r gwaith creiddiol yn digwydd yng Ngheredigion, Sir Benfro, Sir Gâr a Phowys. Bwrdd yr Iaith yw prif gyllidwyr y cynllun, gyda nawdd ychwanegol yn dod o gyfeiriad awdurdodau lleol yn bennaf. Iaith Cyf sy'n gweinyddu'r cynllun o'i swyddfeydd yng Nghastellnewydd Emlyn. Mae Estyn Llaw yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr mudiadau gwirfoddol a chymunedol; cyngor a chymorth ymarferol ar faterion penodol; annog arfer da; cyflwyno sgiliau perthnasol; cymorth i lunio a gweithredu cynlluniau iaith; ac ymchwil i agweddau defnyddwyr gwasanaethau gwirfoddol ac agweddau at ddwyieithrwydd o fewn y sector. Mae Estyn Llaw yn cynhyrchu deunydd hyrwyddo ac adnoddau cefnogol sydd o gymorth i fudiadau ac unigolion o fewn y sector. Yn ogystal, Estyn Llaw sy'n cynghori Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf, mewn partneriaeth â Menter a Busnes, ynglŷn ag agweddau ar ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu dwyieithrwydd.

---

<sup>197</sup> Gyda nawdd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

### 6.3.2 Tystiolaeth ymchwil

#### ***Arolygon gan Estyn Llaw***

Yn ystod haf 2004 mynychodd *Estyn Llaw* sioeau amaethyddol lleol yn Sir Gaerfyrddin, y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol gan lenwi holiaduron gyda'r cyhoedd ynglŷn â gwirfoddoli a'u barn ynglŷn â dwyieithrwydd yn y sector wirfoddol.<sup>198</sup>

- Dywedodd mwyafrif y siaradwyr Cymraeg a holwyd y byddent yn fwy tebygol o helpu mudiad petai'r mudiad hwnnw'n defnyddio'r Gymraeg.
- Credai 99% o'r bobl ddi-Gymraeg a holwyd y dylai mudiadau gwirfoddol weithredu'n ddwyieithog.

Hefyd, yn 2004, anfonodd Estyn Llaw 350 o holiaduron at y mudiadau gwirfoddol hynny yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi cofrestru â CAVS, y Cyngor Gwirfoddol Sirol.<sup>199</sup> Derbyniwyd holiaduron yn ôl gan 78 ymatebydd, sef tua 22% o'r mudiadau cofrestredig. Roedd 9 o'r rhain yn fudiadau 'Cymreig' sydd wedi'u hepgor o'r adroddiad terfynol. Seiliwyd y canlyniadau felly ar ymateb 69 o fudiadau gwirfoddol yn Sir Gaerfyrddin.

#### **Canlyniadau'r arolwg:**

- Ceir tangynrychiolaeth o siaradwyr Cymraeg yn y sector, o ran staff, gwirfoddolwyr a defnyddwyr.
- Ar y gorau, ceir diffyg ymwybyddiaeth o natur ieithyddol y cleientiaid / defnyddwyr.
- O ran agweddau penodol eraill, canfuwyd mai:
  - ateb y ffôn, arwyddion neu bosteri a chyswllt wyneb-yn-wyneb yw'r gwasanaethau a gaiff eu cynnig yn ddwyieithog gan amlaf;
  - diffyg staff a gwirfoddolwyr dwyieithog sy'n achosi'r rhwystr mwyaf i fudiadau rhag gweithredu'n fwy dwyieithog, er bod diffyg adnoddau ac ymwybyddiaeth hefyd yn ffactor amlwg;
  - y gefnogaeth orau i ddatblygu gwasanaethau dwyieithog ymhlith mudiadau gwirfoddol fyddai: (i) cymorth i ddenu rhagor o staff a gwirfoddolwyr dwyieithog, (ii) cynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a diwylliant, (iii) hyfforddiant i ddatblygu sgiliau iaith.
- Mae'r ffaith bod gan dros hanner y mudiadau (52%) Gytundeb Lefel Gwasanaeth â chorff cyhoeddus a bod gan 41% o'r holl fudiadau bolisi iaith neu gynllun iaith Gymraeg yn arwyddocaol iawn oherwydd mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n derbyn cytundeb trydydd parti gan y Cyngor Sir ac awdurdodau cyhoeddus eraill gydymffurfio â Chynlluniau Iaith y gwasanaethau statudol hynny wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar eu rhan .
- Mae'n galonogol bod gan 49.3% o'r mudiadau siaradwr/wraig Cymraeg a allai gyfrannu at hybu dwyieithrwydd y mudiad. Yn y cyswllt hwn mae yna gyfle i gynnig hyfforddiant sgiliau iaith er mwyn cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg i fedru gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg gan ei bod yn amlwg, o dystiolaeth

<sup>198</sup> Estyn Llaw, *Arolwg o Wirfoddoli a Gwirfoddolwyr*, Castellnewydd Emlyn: Iaith Cyf, 2004.

<sup>199</sup> Estyn Llaw, *Arolwg o agweddau ar ddwyieithrwydd Mudiadau Gwirfoddol Sir Gâr 2004*, Castellnewydd Emlyn: Iaith Cyf, Hydref 2004.

gyffredin, bod yna ddiffyg hyder ymysg canran uchel o siaradwyr Cymraeg i wneud hynny.

- Pan ofynnwyd i'r mudiadau nodi faint o'u staff, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg, mae'n drawiadol mai'r opsiwn 'hyd at 25%' oedd y categori mwyaf poblogaidd bob tro.

### 6.3.3 Cloriannu'r dystiolaeth

Yn y bennod hon, ystyriwn pa mor ymarferol fyddai symud ymlaen i ddwyn mudiadau gwirfoddol a chymunedol o fewn cwmpas Deddf 1993. Rhestrwn y prif resymau o blaid ac yn erbyn cynnwys y sector wirfoddol o fewn cwmpas diwygiedig y ddeddf, gan awgrymu rhai dulliau gweithredu posibl.

Dengys tystiolaeth ymchwil a phrofiad y rhai sy'n gweithredu yn y maes bod nifer o ffactorau'n rhwystro'r mudiadau hynny sy'n awyddus i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn eu gwasanaethau i'r cyhoedd. Os am gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae ar fudiadau gwirfoddol a chymunedol angen:

- mynediad at wasanaethau cyfieithu am brisiau y gellir eu fforddio;
- staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg;
- mynediad at wybodaeth am arferion da;
- cyngor ar weithredu'n ddwyieithog;
- gwybodaeth ynglŷn â chysiau iaith Gymraeg;
- mynediad at hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg;
- yr adnoddau i gyfieithu deunydd a gyhoeddwyd eisoes a chynhyrchu deunydd dwyieithog;
- meddalwedd a deunydd cyfeiriol<sup>200</sup>.

Er mwyn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg yn y sector wirfoddol byddai angen buddsoddi adnoddau ac arbenigedd ar lefel leol a chenedlaethol.<sup>201</sup>

#### **Rhesymau o blaid**

- Buasai'n ehangu'r peuoedd lle mae'r Gymraeg yn iaith â statws statudol a thrwy hynny'n golygu bod gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg i'r cyhoedd yn fwy cyflawn o safbwynt y defnyddwyr.
- Ceir enghreifftiau o arfer da eisoes yn y sector, a cheir cryn gefnogaeth i egwyddorion hawliau cyfartal.
- Os yw Llywodraeth y Cynulliad am gyflawni'r weledigaeth o "Gymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd"<sup>202</sup>, yna mae'n bwysig bod y sector wirfoddol yn cael ei chynnwys o fewn cwmpas statudol Deddf 1993 ddiwygiedig. Ni all pawb 'ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg' oni bai fod mudiadau gwirfoddol yn rhoi dewis iaith cyflawn i'w defnyddwyr.
- Mae nifer o ddefnyddwyr gwasanaethau gwirfoddol yn y maes iechyd a gofal yn benodol yn perthyn i grwpiau bregus megis pobl hŷn, plant a phobl ifanc, pobl ag anableddau, pobl â salwch meddwl, pobl a fu'n ddefnyddwyr

<sup>200</sup> Tystiolaeth gan Estyn Llaw ar gyfer yr adroddiad hwn.

<sup>201</sup> Tystiolaeth CGGC i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol, 23/1/02.

<sup>202</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog*, Chwefror 2003, tud. 1.

cyffuriau/alcohol ac yn y blaen. Gan nad yw'r bobl hyn yn aml mewn sefyllfa i wneud cais arbennig am wasanaethau drwy gyfrwng eu mamiaith, yna daw'n ddyletswydd ar fudiadau gwirfoddol i sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gynnis yn ddiwahân.

- Mae nifer o fudiadau gwirfoddol wedi troi at Estyn Llaw am hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith ac am gymorth i greu cynlluniau iaith Gymraeg, gan gydnabod fod gweithredu'n ddwyieithog yn fater o arfer da, yn fater o hawliau cyfartal ac yn arfer gwrth-orthrymol. Byddai cynnwys y sector wirfoddol o fewn grym statudol diwygiedig yn ffurfioli'r gwaith sy'n cael ei wneud eisoes.

### **Rhesymau yn erbyn**

- Mae adnoddau'n brin o fewn y sector ac nid oes llawer o gyllid wrth gefn i hwyluso gweithredu'n ddwyieithog. Heb adnoddau a chefnogaeth digonol i weithredu cynllun iaith, gall mudiadau deimlo bod angen iddynt ailgyfeirio adnoddau o'u gweithgarwch craidd â chleientiaid er mwyn ariannu a gweithredu gofynion cynllun o'r fath.
- Mae llawer o'r rhai sy'n gweithio yn y maes yn gweithio am gyflogau isel, yn rhan-amser, neu'n gwbl wirfoddol.
- Nid oes digon o adnoddau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gyflawni ei waith goruchwyllo, arolygu a gwirio cydymffurfiaeth. Yn ôl *O'n Gwirfodd*,<sup>203</sup> cyfrifoldeb y mudiad gwirfoddol ei hun yw monitro a sicrhau gweithrediad effeithiol y cynllun iaith.<sup>204</sup> Awgryma, yn ogystal, fod mudiadau'n sefydlu trefn gwyno fewnol ar gyfer unigolion sy'n teimlo nad ydynt wedi derbyn gwasanaeth dwyieithog teg. Petai'r sector wirfoddol yn cael ei dwyn o fewn cwrmpas statudol Deddf 1993 ddiwygiedig, byddai'n rhaid sefydlu trefn ar gyfer monitro a goruchwyllo cydymffurfiaeth y sector. Buasai'n rhaid wrth adnoddau ychwanegol sylweddol i alluogi staff Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu'i olynydd i wneud hyn yn effeithiol.
- Mae'n gallu bod yn anodd diffinio, adnabod a monitro mudiadau gwirfoddol bach/lleol, yn enwedig rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol.

### **Dulliau gweithredu posibl**

- Petai'r ddeddf yn cael ei hehangu i gynnwys y sector wirfoddol, gellir gwahaniaethu rhwng (i) mudiadau rhyngwladol / cenedlaethol / trefol / pentrefol; (ii) mudiadau sy'n cyflogi cannoedd / degau / nifer bach iawn.
- Gall syniad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg o fatrics o wahanol lefelau cyrhaeddiad fod yn berthnasol i'r sector wirfoddol yn ogystal â'r sector breifat. Hynny yw, byddai safle mudiad gwirfoddol yn y matrices yn dibynnu ar ffactorau megis: natur y gwasanaeth; adnoddau'r mudiad; nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn ardal weithredu'r mudiad; lefel y cyswllt â'r cyhoedd; a'r defnydd o dechnoleg.
- Gellid blaenoriaethu'r mudiadau gwirfoddol hynny sy'n darparu gwasanaethau gofal, iechyd a lles. Buasai hyn yn cyd-fynd â phwyslais strategol Llywodraeth

---

<sup>203</sup> Thomas, S., *O'n Gwirfodd: Canllawiau Arfer Da i Ddatblygu'r Gymraeg yn y Sector Gwirfoddol*, Caerffili: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 1996.

<sup>204</sup> Ibid.

y Cynulliad ar ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a hybu cydweithredu rhwng y sectorau gwirfoddol, iechyd a gofal cymdeithasol.<sup>205</sup>

- Yn hytrach na bod pob mudiad yn llunio ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y sector gyhoeddus, un opsiwn fyddai gosod **safonau cyrhaeddiad** (eto'n debyg i'r Safon Cydraddoldeb) i'r sector wirfoddol. Yn weithredol, gellid llunio amserlen i bob mudiad yn unigol a byddai lefel y safon cyrhaeddiad a ddisgwylir gan y mudiad yn dibynnu ar ei safle yn y matrices. Felly, byddai mudiadau'n dechrau ar wahanol lefelau ond yn symud tuag at yr un nod.
- Heb ddiwygio Deddf 1993, buasai **cryfhau cydymffurfiaeth sefydliadau 3ydd parti** yn fodd o ddylanwadu ar fudiadau gwirfoddol ac, o bosibl, ar fudiadau sy'n gweithredu yn y maes iechyd a gofal yn arbennig. Mae llawer o fudiadau yn y sector wirfoddol ynghlwm wrth gytundeb lefel gwasanaeth neu o dan gontract i ddarparu gwasanaeth ar ran corff cyhoeddus. Mae cynlluniau iaith Gymraeg statudol yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau bod unrhyw drydydd parti'n cydymffurfio â'u cynllun iaith hefyd. Mae gofynion i'r perwyl hwn i'w cynnwys yn y cytundeb a lunnir â'r trydydd parti. Gan mai'r corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am fonitro hyn, mae cydymffurfiaeth yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar y corff cyhoeddus. Yn ôl profiad *Estyn Llaw*:

*“dyw gyrff cyhoeddus yn aml ddim yn pwysleisio'r angen am wasanaeth dwyieithog wrth roi gwaith i dendr. O ganlyniad, dyw mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau i Gyrff Cyhoeddus ar 'gytundeb lefel gwasanaeth' ddim yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol a heb gynnwys costau dwyieithrwydd yn eu cais am y gwaith. Y bobl sy'n dioddef yw defnyddwyr y gwasanaeth sy'n cael eu hamddifadu o wasanaeth yn eu dewis iaith.”<sup>206</sup>*

- Y broblem fwyaf fyddai'n codi wrth geisio sicrhau gwell cydymffurfiaeth na'r hyn a geir ar hyn o bryd fyddai sicrhau adnoddau digonol i fonitro cydymffurfiaeth 3ydd parti. (Gweler Pennod 7.1 am ddulliau i gryfhau cydymffurfiaeth sefydliadau 3ydd parti.)
- Yn niffyg sefydlu cyfrifoldeb statudol ar fudiadau gwirfoddol trwy ehangu ar Ddeddf Iaith 1993, ceir cyfle o fewn amcanion *Iaith Pawb* i ehangu ar y gwaith a gyflawnwyd eisoes yn y sector. Gellid cyflawni hyn trwy ymestyn gweithgareddau hyrwyddo a chefnogi dwyieithrwydd sy'n bodoli eisoes yn y sector. Mae cynllun *Estyn Llaw*, y Mentrau Iaith a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn gweithredu mewn amrywiol ddulliau i'r perwyl hwn ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae *Estyn Llaw*, Mentrau Iaith a Chynghorau Gwirfoddol Sirol mewn rhai ardaloedd wedi ffurfioli perthynas a chreu partneriaethau iaith er mwyn cynorthwyo mudiadau gwirfoddol i lunio a gweithredu cynlluniau iaith. Mae'r partneriaethau hyn yn gyfle i rannu adnoddau ac arbenigedd a datblygu arferion da, a thrwy hynny galluogi mudiadau gwirfoddol bach a mawr i gynnig gwasanaethau dwyieithog. Prin yw'r adnoddau ar gyfer cefnogaeth o'r fath ar hyn o bryd, a byddai'r sector yn elwa'n sylweddol ar ehangu a dwysáu'r gweithgaredd gyda'r adnoddau digonol i gyflawni hynny.

<sup>205</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynllun y Sector Gwirfoddol: Adroddiad Blynyddol 2004 – 05, 2006.*

<sup>206</sup> Sylw gan Estyn Llaw mewn ymateb i ddrafft o'r adran hon o'r adroddiad, Chwefror 2005.

**Argymhelliad 23:** Dylid cryfhau cydymffurfiaeth mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaeth 3ydd parti ar ran cyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn ôl gofynion cynlluniau iaith statudol y cyrff hynny.

**Argymhelliad 24:** Dylid sicrhau adnoddau cyllidol a dynol ychwanegol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a'i bartneriaid er mwyn hyrwyddo a chefnogi rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg yn y sector wirfoddol.

**Argymhelliad 25:** Wrth ystyried deddfwriaeth newydd, dylid blaenoriaethu'r mudiadau gwirfoddol hynny sy'n gweithredu yn y maes iechyd a gofal.

## **6.4 Sefydlu statws swyddogol a chyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg**

Bu yna alw cyson ers degawdau ar i'r wladwriaeth gyhoeddi fod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Yn hanesyddol, mae'r deisyfiad am statws swyddogol yn deillio o'r gwaharddiad statudol hanesyddol ar y defnydd o'r Gymraeg ym mywyd cyhoeddus Cymru, yn dyddio o'r Deddfau Uno. Cam wrth gam a phau wrth bau yr enillwyd statws *de facto* yn ôl i'r Gymraeg dros y trigain mlynedd diwethaf.

Fodd bynnag, er y galw am statws swyddogol, prin yw'r drafodaeth a fu am union natur y statws swyddogol y gofynnir amdano a goblygiadau ymarferol ennill y fath statws. Yn ystod y drafodaeth ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar lawr Tŷ'r Cyffredin ar 15 Gorffennaf 1993 cafwyd datganiad gan Wyn Roberts AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, i'r perwyl:

*"... y mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yn y wlad hon. Nid oes rhaid datgan hynny mewn cyfraith. Nid yw'n cael ei ddatgan mewn cyfraith yn achos y Saesneg. Mae'r Saesneg hefyd yn iaith swyddogol."*

Sail y farn hon oedd y ffaith nad oes gan y Deyrnas Gyfunol gyfansoddiad ysgrifenedig. O'r herwydd, ni cheir fframwaith priodol lle gellir cynnwys datganiadau am ieithoedd swyddogol y wladwriaeth fel y ceir, dyweder, yng nghyfansoddiadau Gweriniaeth Iwerddon, Catalwnia a Gwlad y Basg. Beth felly yw manteision statws swyddogol? Beth yn wir a olygir wrth y term 'statws swyddogol'?

### **Statws symbolaidd**

Ar un wedd, gallai datganiad gan y wladwriaeth, Senedd San Steffan neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r ddau, fod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru gael ei weld yn ddatganiad symbolaidd arwyddocaol. Gallai goblygiadau hynny'n sicr fod yn seicolegol bwysig yn y broses o unioni'r cam hanesyddol a gafodd y Gymraeg a sicrhau cyfreithlondeb moesol o safbwynt defnyddio'r Gymraeg os nad dim arall.<sup>207</sup>

Serch hynny, tybir y byddai'r modd y byddai'r statws hwnnw'n yn cael ei adlewyrchu'n ymarferol drwy fywyd cyhoeddus Cymru yn ddibynnol ar nifer o

<sup>207</sup> Rhaid cofio, wedi'r cyfan, nad yw 'cymalau iaith' y Deddfau Uno wedi'u dileu'n ffurfiol o'r llyfr statud gan y 'Diddymiadau' yn Atodiad 2 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (er i rannau o Ddeddf y Cyfreithiau yng Nghymru gael eu cynnwys ar y rhestr o 'Ddiddymiadau' a gynhwysir yn yr Atodiad hwnnw).

amgylchiadau a mesurau eraill heblaw datganiad o statws swyddogol. Er enghraifft, mesurau i sicrhau:

- Cydraddoldeb wrth weinyddu'r gyfraith a chadw cofnodion Llys;
- Cydraddoldeb wrth weinyddu cyfiawnder;
- Cydraddoldeb wrth weinyddu llywodraeth: ganolog, ddatganoledig a lleol;
- Cydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus;
- Cydraddoldeb wrth dderbyn gwasanaethau cyhoeddus;
- Cydraddoldeb wrth ddarparu addysg;
- Cydraddoldeb wrth dderbyn addysg;
- Cydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau preifat a gwirfoddol;
- Cydraddoldeb wrth dderbyn gwasanaethau preifat a gwirfoddol; ac
- Ystyriaeth lawn wrth weinyddu a gweithredu polisi cyhoeddus.

Ynglwm wrth yr uchod mae tri thrywydd:

1. Dyletswydd darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ac eraill i drin y Gymraeg a defnyddwyr y Gymraeg yn gydradd â'r iaith Saesneg a defnyddwyr y Saesneg.
2. Hawliau unigolion sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg i dderbyn gwasanaeth Cymraeg yn ddirwystr a heb wahaniaethu yn eu herbyn.
3. Dyletswydd y wladwriaeth i sicrhau amodau cymdeithasol ffafriol er ffyniant y Gymraeg.

Y cwestiwn canolog yma yw i ba raddau y byddai datganiad o statws swyddogol yn cryfhau neu'n hwyluso ymdrechion i gyflawni'r amcanion a'r egwyddorion uchod. Ni allwn ddadlau y byddai datganiad o statws swyddogol iaith yn ffon hud er sicrhau ffyniant y Gymraeg. Fodd bynnag, byddai'n llwyfan cadarn er mwyn dechrau unrhyw drafodaeth ar fesurau eraill a fyddai'n cael eu gweld yn ddymunol i hyrwyddo'r Gymraeg. Ar yr un pryd, gellid sicrhau'r amcanion a gweithredu'r egwyddorion uchod heb ddatganiad o statws swyddogol i'r Gymraeg.

Erys dau gwestiwn arall:

1. I ba raddau y credir bod angen datganiad o statws swyddogol y Gymraeg, fel cyd-destun symbolaidd arwyddocaol a datganiad o fwriad cenedl ddwyieithog, er mwyn hyrwyddo egwyddorion perthnasol ac amcanion ymarferol er budd y Gymraeg?
2. I ba raddau y mae'n ymarferol bosibl gwneud y fath ddatganiad ac ym mha gyd-destun a pha ddogfen y dylai datganiad o statws swyddogol gael ei osod: Deddf Seneddol, datganiad gan y Cynulliad Cenedlaethol neu mewn cyfansoddiad ysgrifenedig a fyddai'n deillio o fesur pellach o ymreolaeth Gymreig?

Buasai deddfu i gydnabod statws swyddogol a chyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yn creu newid sylweddol i statws cyfreithiol cyfredol y Gymraeg. Dyma, wrth gwrs, y statws y bu galw hir amdano a'r statws a wrthodwyd yn ystod pob ymgais i ddeddfu ar ran yr iaith Gymraeg ers dechrau'r ugeinfed ganrif. Ar hyn o bryd mae statws cyfreithiol yr iaith yn gyfyngedig iawn a hawliau (*de jure*) siaradwyr Cymraeg yn gyfyngedig i'r llysoedd yn unig.



## **Safbwynt Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

Mae Cymdeithas yr Iaith, ymhlith eraill, wedi bod yn hyglyw ei chri o safbwynt ymgyrchu dros ennill statws iaith swyddogol i'r Gymraeg. Yn ei hymgyrch dros ddeddf iaith newydd, geilw'r Gymdeithas fel a ganlyn:

*"Galwn am gydnabod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru"*<sup>208</sup>

*"Galwn am gydraddoldeb go iawn i'r Gymraeg â'r Saesneg ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru drwy gydnabyddiaeth gyfreithiol o'r egwyddor gyffredinol bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru."*<sup>209</sup>

Pwysleisia Cymdeithas yr Iaith fod Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi'r hawl i'r Cynulliad wneud 'beth bynnag y mae'n ei ystyried yn briodol i gefnogi'r iaith Gymraeg.'<sup>210</sup> Dadleua fod modd i'r Cynulliad yn annibynnol ar Senedd San Steffan:

*"wneud datganiad cynhwysfawr yn cyhoeddi natur unigryw'r iaith Gymraeg fel iaith hanesyddol y genedl ... ac yn un o ddwy iaith swyddogol Cymru yn gydradd â'r Saesneg, yn rhan o'n treftadaeth ac yn eiddo i holl bobl Cymru."*<sup>211</sup>

## **Safbwynt Cymuned**

*"Geilw Cymuned ar y Cynulliad i ddatgan mai'r iaith Gymraeg yw priod iaith Cymru."*<sup>212</sup>

Mae Cymuned yn galw ar y Cynulliad i gydymffurfio â 'Datganiad y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobloedd sy'n perthyn i Leiafrifoedd Cenedlaethol, Ethnig, Crefyddol neu Ieithyddol': (erthygl 1af y datganiad)

*States shall protect the existence and the national or ethnic, cultural, religious and linguistic identity of minorities within their respective territories and shall encourage conditions for the promotion of that identity.*

*States shall adopt appropriate legislative and other measures to achieve those ends.*<sup>213</sup>

## **Safbwynt Llywodraeth y Cynulliad**

Yn dilyn etholiad cenedlaethol y Cynulliad ym mis Mai 2007, datgan y Llywodraeth y byddai'n:

- *ceisio cael mwy o hawl i ddeddfu o safbwynt yr iaith Gymraeg ... gyda'r nod o greu Mesur Cynulliad newydd i gadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg.*

<sup>208</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Deddf Iaith Newydd i'r Ganrif Newydd*, Awst 2001, tud. 1. (Adran 01.2).

<sup>209</sup> Ibid. (Adran 01.2).

<sup>210</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru*, 1998, Adran 32 (c).

<sup>211</sup> Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Deddf Iaith Newydd i'r Ganrif Newydd*, Awst 2001, tud. 7.

<sup>212</sup> *Cymuned, Tai, Gwaith ac Iaith*, 2001, tud. 4.

<sup>213</sup> *The UN Declaration on the Rights of Persons Belonging to a National or Ethnic, Religious or Linguistic Minorities* (1992). <http://www.un.org/documents/ga/res/47/a47r135.htm>

- *parhau â'n hymdrechion i sicrhau cytundeb ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd penodol o fusnes yr Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn defnyddio'r profiad hwn i drafod â llywodraeth San Steffan ynghylch gwneud cais swyddogol i Gyngor y Gweinidogion i'r Gymraeg gael statws iaith gwaith a statws iaith swyddogol yn yr UE.*

### **Opsionau ar gyfer sefydlu'r Gymraeg yn iaith swyddogol Cymru**

Ceir dau brif opsiwn i sefydlu'r Gymraeg yn iaith swyddogol:

- (i) Mesur iaith newydd yn sefydlu statws swyddogol a chyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg (*de jure*).
- (ii) Datganiad swyddogol gan y Cynulliad yn cydnabod statws (*de facto*) swyddogol a chyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg.

### **Goblygiadau a manteision deddfu i sicrhau bod gan y Gymraeg statws (*de jure*) swyddogol a chyfartal â'r Saesneg**

Byddai deddfu i'r perwyl hwn yn cyd-fynd â'r ymagwedd Ewropeaidd gynyddol sydd o blaid cydnabod pwysigrwydd gwarchod, hybu a rhoi urddas i holl ieithoedd yr UE.

Buasai cydnabod statws swyddogol y Gymraeg yn cyd-fynd â'r cysyniadau sydd wrth wraidd y weledigaeth Ewropeaidd sef bod holl bobloedd Ewrop, serch eu gwahaniaethau hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol, yn rhannu'r un dreftadaeth Ewropeaidd ac yn teilyngu'r un urddas a bod hyn hefyd yn wir am ieithoedd lleiafrifol traddodiadol Ewrop yn ogystal â'r holl ieithoedd gwladwriaethol, mwyafrifol swyddogol. Amlygir y themâu hyn yn Rhagarweiniad Siarter Ewrop ar Ieithoedd Lleiafrifol (1992):

*“Considering that the protection of the historical regional or minority languages of Europe, some of which are in danger of eventual extinction, contributes to the maintenance and development of Europe’s cultural wealth and traditions;*

*Considering that the right to use a regional or minority language in private or public life is an inalienable right conforming to the principles embodied in the United Nations International Covenant on Civil and Political Rights and according to the spirit of the Council of Europe Convention for the Protection of Human Rights and fundamental freedoms;*

*Realising that the protection and promotion of regional and minority languages in the different countries and regions of Europe represent an important contribution to the building of a Europe based on the principles of democracy and cultural diversity within the framework of national sovereignty and territorial integrity.”*

Buasai cyhoeddi statws swyddogol y Gymraeg hefyd yn cyd-fynd â'r canlynol:

- Y statws cyffelyb i rai o'r prif ieithoedd lleiafrifol eraill megis Catalaneg, Basgeg, Gwyddeleg, a Ffrangeg yn Québec.
- Byddai'n ei gwneud hi'n haws pwyso am sicrhau hawliau *de jure* (cyfreithiol) i siaradwyr Cymraeg ym mhob maes - megis yr hawl i beidio â phrofi camwahaniaethu ar sail iaith.

- Byddai'n cyd-fynd â'r symudiad i safoni a chysoni statws cyfreithiol yr holl gydraddoldebau statudol ac felly'n gosod sylfaen gadarnach i'r Gymraeg o fewn cyd-destun sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHR) ac Ombwdsmon i Gymru.
- Byddai'n herio'r drefn hanesyddol a chyfredol sy'n rhagdybio mai Saesneg yw'r iaith ddiodyn ym mywyd cyhoeddus Cymru ac ym maes darparu a derbyn gwasanaethau ayb. Gellid dadlau bod trefn o'r fath bellach yn amhriodol yng ngoleuni gweledigaeth *laith Pawb* am Gymru ddwyieithog.
- Byddai'n fodd o ganiatáu i'r Gymraeg fod yn iaith ddiodyn mewn rhai cyd-destunau.
- Byddai'n fodd o ganiatáu ac awdurdodi rhai peuoedd, meysydd a gweithgareddau uniaith Gymraeg sy'n hollbwysig wrth warchod treftadaeth a diwylliant lleiafrifol.

Cefnogwn, felly, fwriad presennol Llywodraeth y Cynulliad i gadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg mewn Mesur Cynulliad. Nodwn, fodd bynnag, nad trwy ddatganiad o'r math hwn yn unig y gellid sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob agwedd ar fywyd cymdeithasol.

**Argymhelliad 26: Dylid cadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg mewn Mesur Cynulliad.**

## 6.5 Casgliadau

Yn y bennod hon, bûm yn ystyried y posibilrwydd o ddiwygio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 fel ei bod yn cynnwys y sector breifat a'r sector wirfoddol a sefydlu'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru.

Gwelwyd bod y Cynulliad eisoes yn derbyn priodoldeb dwyn gorfodaeth statudol ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus i baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg a'i fod yn mynd ati'n rheolaidd i ehangu cwrpas y ddeddf i'r cyfeiriad hwn. Daw nifer o gyfleustodau sy'n perthyn i'r 'sector breifat' o dan orchymyn Deddf 1993 yn uniongyrchol (wrth gael eu rhestru o dan Adran 6 (1) (o)). Mae rhai hefyd yn dod o dan orchymyn y Ddeddf yn anuniongyrchol, gan fod y gofyniad statudol i drin y ddwy iaith yn gyfartal yn berthnasol i'r cwmnïau preifat a'r mudiadau gwirfoddol hynny sydd â chytundebau trydydd parti â chyrrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg. O ran gosod dyletswydd statudol ar gwmnïau preifat a mudiadau gwirfoddol, mae'r drws deddfwriaethol eisoes yn gilagored. Byddai modd cryfhau'r disgwyliadau ar y mathau hyn o gwmnïau a mudiadau heb, o reidrwydd, orfod diwygio'r ddeddf bresennol.

Fodd bynnag, gwelsom fod dadleuon clir dros ehangu'r gofynion statudol ar gwmnïau preifat a mudiadau gwirfoddol i gynnig darpariaeth i'w defnyddwyr yn y ddwy iaith.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cefnogi sefydlu'r hawl i gyfathrebu yn Gymraeg yn y gwaith ar lafar (gyda chydweithwyr a chwsmeriaid) ym mhob sector, gan gynnwys y sector breifat. Serch hynny, mynna'r Bwrdd mai trwy ddylanwadu, dwyn perswâd a chydweithio'n agos â chwmnïau'r sector breifat a mudiadau gwirfoddol y dylid gweithredu yn hytrach na cheisio mynnu gorfodaeth trwy ddeddfwriaeth. Mae'r ddwy strategaeth a luniodd y Bwrdd gogyfer â'r sector breifat a'r sector wirfoddol yn gosod agenda ar gyfer dylanwadu ar y sectorau hyn yn absenoldeb gorfodaeth ddeddfwriaethol. Byddai angen buddsoddi'n bellach ac yn sylweddol yn adnoddau'r Bwrdd a'i bartneriaid i weithredu'n llawn yn y maes er mwyn gweld newid allweddol yn y sectorau hyn.

Daw pwysau o gyfeiriadau eraill i ddiwygio Deddf 1993, gyda phwyslais ar gynnwys y sector breifat yn benodol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r galw i ystyried y Gymraeg yn un o'r cydraddoldebau gan fod hawl yr unigolyn i beidio â phrofi camwahanïaethu ar sail hil neu anabledd, er enghraifft, yn berthnasol i bob sector.

Dengys tystiolaeth ymchwil bod agweddau tuag at y Gymraeg yn gymysg iawn o fewn y sector breifat. Serch hynny, gwelwyd arwydd o gynnydd pendant yn y canfyddiad o werth y Gymraeg o fewn y sector drwy Gymru gyfan ac yn enwedig yn y gogledd-orllewin. Yn y sector wirfoddol, gwelwyd bod cyfran sylweddol yn cydnabod bod cynnig gwasanaeth yn newis iaith y defnyddiwr yn greiddiol i arfer da a chyfle cyfartal.

Ar y cyfan, gwelwyd bod yr hinsawdd bresennol yn dra gelyniaethus tuag at ymestyn cwmipas deddfwriaeth iaith i gynnwys y sector breifat yn ei chyfanrwydd. O ganlyniad, anodd fyddai sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol i ddeddfu i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, mae cynnig Cymdeithas yr Iaith i wahaniaethu rhwng cwmnïau ar sail matrices o ffactorau allweddol yn cynnig modd o ystyried y posibilrwydd o flaenoriaethu rhai mathau o gwmnïau o fewn y sector breifat a'r sector wirfoddol fel ei gilydd.

Yn y bennod hon, nodwyd sawl ffordd o weithredu er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan gwmnïau preifat a mudiadau gwirfoddol. Yn gryno, os am gynyddu'r gofyn ar gwmnïau preifat a mudiadau gwirfoddol i ddarparu eu gwasanaethau'n ddwyieithog trwy fesurau deddfwriaeth, bydd rhaid:

- Blaenoriaethu rhai mathau o gwmnïau a mudiadau gwirfoddol yn ôl natur y defnyddwyr a'r gwasanaeth a ddarperir.
- Hyrwyddo manteision busnes, egwyddorion ansawdd gwasanaeth a chyfle cyfartal, a dulliau cost effeithiol o gynyddu gallu'r cwmni neu'r mudiad i gynnig gwasanaethau dwyieithog.
- Buddsoddi'n ddigonol i gefnogi darparwyr a sicrhau cydymffurfiaeth.
- Sicrhau'r gallu ieithyddol o fewn y gweithlu trwy fuddsoddiad pellach a sylweddol mewn rhaglenni hyfforddiant iaith a'r sector addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Bu rhan olaf y bennod hon yn ystyried goblygiadau diwygio Deddf 1993 o safbwynt sefydlu statws swyddogol i'r iaith Gymraeg. Cefnogwyd bwriad presennol Llywodraeth y Cynulliad i gadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg mewn Mesur Cynulliad. Byddai hyn yn creu statws symbolaidd i'r iaith a allai gryfhau'r cyfleoedd i ddeddfu a gweithredu o blaid y Gymraeg ac anghenion siaradwyr a dysgwyr. Nodwyd, fodd bynnag, nad trwy ddatganiad o'r math hwn yn unig y gellid sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob agwedd ar fywyd cymdeithasol. Ym Mhennod 7, trown ein sylw at gyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg i'r cyhoedd ym mhob sector nad ydynt, o reidrwydd, yn creu'r angen am ddeddfu pellach.

## Pennod 7: Cyfleoedd gweithredu heb angen deddfwriaeth ychwanegol

O ran diogelu'r iaith Gymraeg a chreu gwlad gwbl ddwyieithog, nid yw'r datganiadau o fwriadau a nodau yn *laith Pawb* yn ddigonol i sicrhau gweithredu priodol ar lefel polisi nac ar lefel *micro*. Yn ein profiad ni, mae llawer o uwch reolwyr, ymarferwyr a gweithredwyr ar y lefel darparu gwasanaeth ac o fewn y proffesiynau heb fod yn ymwybodol o'r gofynion a'r disgwyliadau sy'n berthnasol iddynt yn *laith Pawb*.

Yn y bennod hon, felly, trafodwn gyfleoedd gweithredu i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg nad ydynt, o reidrwydd, yn gofyn am estyn cwrmpas Deddf, sef:

- Cryfhau cydymffurfiaeth contractwyr 3<sup>ydd</sup> parti;
- Cryfhau dulliau prif-ffrydio'r Gymraeg i bob agwedd ar fesurau a pholisi'r Cynulliad;
- Gosod gofynion ieithyddol mewn codau ymarfer;
- Cryfhau rôl Arolygiaethau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Cynnwys y Gymraeg yn y Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol;
- Cyfleoedd newydd yn sgîl Adolygiad Beecham.

### 7.1 Cryfhau cydymffurfiaeth contractwyr 3<sup>ydd</sup> parti â gofynion cynlluniau iaith cyrff cyhoeddus

#### 7.1.1 Y gofyniad ar gontractwyr 3<sup>ydd</sup> parti o dan Ddeddf 1993

Cyhoeddwyd canllawiau statudol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y broses o baratoi Cynlluniau Iaith ym 1996. Dyma sy'n cael ei nodi ynglŷn â chydymffurfiaeth contractwyr 3ydd parti:

***“Canllaw 8(v)***

*Dylai'r cynllun bennu'r camau sydd i'w cymryd er mwyn sicrhau y bydd unrhyw gytundeb neu drefniant sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a wneir gyda thrydydd parti yn gyson â thelerau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) gwasanaethau a gaiff eu contractio allan.*<sup>214</sup>

Mae Deddf 1993 a chanllawiau statudol y Bwrdd yn sefydlu'n glir bod angen i gontractwyr 3<sup>ydd</sup> parti (boed yn perthyn i'r sector gyhoeddus, wirfoddol neu breifat) gydymffurfio â chynllun iaith y corff sy'n contractio, wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran. Cafwyd cadarnhad pellach o'r ddyletswydd sydd ar gontractwyr 3<sup>ydd</sup> parti gan Lywodraeth y Cynulliad yng nghyd-destun ymdrin â chofnodion meddygol unigolion.<sup>215</sup> Mae'r canllawiau statudol yn dyfynnu larll Ferrers a ddywedodd hyn wrth i'r Ddeddf fynd trwy'r Senedd :

<sup>214</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Cynlluniau Iaith Gymraeg – Eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, Caerdydd, 1996, tud.45.

<sup>215</sup> Yn achos 'cofnodion meddygol' gwasanaethau cymdeithasol, cadarnhaodd Gweinidog y Cynulliad gyda chyfrifoldeb am lechyd mai y corff sy'n derbyn 'cofnodion meddygol' unigolyn sy'n gyfrifol am eu cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg yn hytrach na'r gwasanaeth cymdeithasol sy'n anfon y cofnodion ymlaen at y corff arall.

*“Os bydd corff cyhoeddus yn contractio un o'i wasanaethau a bod ganddo ddyletswydd i gyflawni rhai elfennau o'r cynllun, bydd hi'n fater i'r corff cyhoeddus hwnnw sicrhau y gall y contractwr gyflawni'r dyletswyddau hynny, y bydd yn eu cyflawni a'i fod wedi eu cyflawni.”<sup>216</sup>*

Mae'n arferiad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gynghori cyrff cyhoeddus bod angen iddynt, wrth contractio, fanylu ar beth sy'n ofynnol i contractwyr 3<sup>ydd</sup> parti (preifat/gwirfoddol neu gyhoeddus) ei gyflawni'n unol â'u cynllun iaith. Yn ein profiad ni, mae'r Bwrdd yn pwysleisio y dylai cyrff cyhoeddus ddilyn yr arweiniad a roddir yn y canllawiau statudol, sef bod rhaid *“manylu ar y gofynion o safbwynt defnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau tendro, contractau ac amodau grantiau a benthyciadau”*<sup>217</sup> yn hytrach na bod cyrff yn bodloni ar osod un cymal cyffredinol mewn contractau yn gofyn i'r contractwr 'gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg'.

### 7.1.2 Tystiolaeth Profiad

Mae sicrhau cydymffurfiaeth 3<sup>ydd</sup> parti yn fan gwan pendant yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu a monitro'u Cynlluniau Iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Yn aml iawn, mae'r elfen hon yn cael ei hepgor o adroddiadau monitro blynyddol cyrff cyhoeddus neu'n cael sylw arwynebol iawn. Prin yw'r cyrff sydd wedi llwyddo i weithredu a monitro'u trefniadau â 3<sup>ydd</sup> parti'n yn foddhaol. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn tynnu sylw'n gyson at y diffyg hwn wrth ymateb i adroddiadau monitro blynyddol. Ymddengys, fodd bynnag, bod hyn yn wendid o hyd. Gweithredu a monitro yw'r broblem. Yn aml iawn nid oes trefniadau cefnogol yn eu lle i staff a chontractwyr, ac mae goruchwyliaeth y cyrff sy'n contractio ar y naill law a Bwrdd yr Iaith ar y llaw arall wedi bod yn annigonol.

Yn ddiweddar, fodd bynnag, mae Bwrdd yr Iaith wedi mynd ati gyda'i ganllawiau ar gyfer cynlluniau iaith diwygiedig i ofyn i gyrff gofnodi ac adrodd yn yr adroddiadau monitro blynyddol i'r Bwrdd:

*Nifer a % y cyrff 3ydd parti gafodd eu monitro sy'n darparu yn unol â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod gan ystyried :-*

- (i) contractau gofal cymdeithasol.*
- (ii) contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc*
- (iii) contractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol*

*Mae'r dangosydd yma yn gosod ffocws ar weithio gyda sefydliadau eraill a bydd ei bwysigrwydd yn cynyddu dros amser.”<sup>218</sup>*

### 7.1.3 Cloriannu'r dystiolaeth

Mae angen goruchwyliaeth fwy trwyadl dros weithrediad cyrff cyhoeddus a chontractwyr yn y cyswllt hwn. Yn anffodus, mae perygl i'r cyfnod yn dilyn cyhoeddi'r bwriad i uno Bwrdd yr Iaith Gymraeg ag adran o'r Llywodraeth roi arwydd i gyrff cyhoeddus bod yr oruchwyliaeth dros weithredu Cynlluniau Iaith am lacio yn hytrach na thynhau neu aros yr un fath. Y cwestiwn sy'n codi yw a oes angen cryfhau'r

<sup>216</sup> House of Commons Official Report, Parliamentary Debates (Hansard) 2, Chwefror 1993

<sup>217</sup> Ibid.

<sup>218</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 'Templed adrodd ar *drefniadau* monitro blynyddol ar gyfer cynlluniau iaith diwygiedig i'w lenwi a'i gyflwyno i'r Bwrdd erbyn 17 Chwefror 2006'

ddeddf bresennol i sicrhau cydymffurfiaeth sefydliadau 3<sup>ydd</sup> parti a sicrhau cydymffurfiaeth cyrff sydd wedi'u lleoli y tu draw i Gymru yn ogystal ag yng Nghymru ei hun. Hefyd, rhaid gofyn ai trwy ddeddfu mae sicrhau gweithrediad effeithiol o ofynion cytundebau 3ydd parti?

### ***Dulliau gweithredu posibl***

Un modd o gryfhau cydymffurfiaeth heb ddiwygio deddfwriaethol yw trwy gynnwys yr agwedd hon ar contractio fel rhan greiddiol o'r broses archwilio ariannol annibynnol a mewnol. Mae sicrhau bod 3<sup>ydd</sup> parti yn cydymffurfio â Chynllun Iaith statudol cyn awdurdodi taliadau i'r contractwr yn fater o reolaeth gyfrifol dros arian cyhoeddus, felly gellid dadlau ei fod yn fater priodol i'r archwilydd mewnol yn ogystal â'r Comisiwn Archwilio ymwneud ag ef. Ceir dadl gref felly dros integreiddio'r modd yr archwilir y trefniadau dan sylw a'r modd yr archwilir pob trefniant ariannol arall. Byddai hyn yn cyd-fynd hefyd â phwyslais y Bwrdd ar 'brif-frydio' y cyfrifoldeb am y Gymraeg ar draws amryw o swyddogaethau craidd o fewn sefydliadau, yn hytrach na'i gadw dan ofalaeth 'ar wahân' (e.e. gan Swyddog Iaith neu Swyddog Monitro).

Gan nad yw'r swyddogion sy'n gyfrifol am drefnu a goruchwyllo contractau'n rhai sydd fel arfer yn ymwneud â'r Cynllun Iaith o ddydd i ddydd, byddai'n rhaid eu briffio neu'u hyfforddi a sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth ddigonol ar ffurf cyfarwyddiadau, canllawiau a chyngor parod. Er enghraifft, gellid paratoi arweiniad ar ffurf cymalau cyfreithiol enghreifftiol<sup>219</sup> i'w gosod yn y cytundeb fyddai'n manylu ar sut y bwriada'r contractwyr ddarparu'r gwasanaeth yn ddwyieithog ar ran y corff cyhoeddus.

Hefyd byddai'n rhaid wrth arweiniad a chefnogaeth debyg ar gyfer y contractwyr<sup>220</sup> eu hunain sydd (yn achos contractwyr preifat a gwirfoddol yn arbennig) hyd yn oed yn llai tebygol o fod yn gyfarwydd ag amcanion ac union ofynion Cynllun Iaith.<sup>221</sup> Er enghraifft, gellid creu rôl gysylltiol gryfach ar gyfer swyddogion iaith i weithio fel dolen gyswllt rhwng y corff cyhoeddus a'r contractwyr 3ydd parti er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau ieithyddol yn hysbys ac yn wybyddus ar ddechrau'r cyfnod cytundeb.

**Argymhelliad 27: Dylid cryfhau cydymffurfiaeth cwmnïau preifat a mudiadau gwirfoddol sy'n ddarparwyr 3ydd parti trwy gynnwys yr agwedd hon ar contractio fel rhan greiddiol o'r broses archwilio ariannol annibynnol a mewnol. Dylid sicrhau bod 3<sup>ydd</sup> parti'n cydymffurfio â Chynllun Iaith statudol cyn awdurdodi taliadau i'r contractwr.**

**Argymhelliad 28: Dylid briffio neu hyfforddi a sicrhau cefnogaeth ddigonol ar gyfer y swyddogion sy'n gyfrifol am drefnu a goruchwyllo contractau 3ydd parti, a hynny ar ffurf cyfarwyddiadau, canllawiau a chyngor parod. Dylid hefyd darparu cyfarwyddiadau, canllawiau a chyngor parod i'r darparwyr 3ydd parti eu hunain.**

**Argymhelliad 29: Dylid creu rôl gysylltiol gryfach ar gyfer swyddogion iaith i weithio fel dolen gyswllt rhwng y corff cyhoeddus a'r contractwyr 3ydd parti er**

---

<sup>219</sup> Gan fod natur y ddarpariaeth yn amrywio gymaint, amhriodol fyddai llunio cymalau safonol yn yr achos hwn.

<sup>220</sup> Rhydd y prosiect *Estyn Llaw* gefnogaeth o'r math hwn i fudiadau gwirfoddol yn ardaloedd Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn bennaf.

<sup>221</sup> Trafodir yr agweddau hyn yn fanwl mewn dogfen ganllawiau a baratowyd gan Gwmni Iaith i Rhwydiaith (y rhwydwaith swyddogion iaith llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill) ym mis Mawrth 2005.

mwyn sicrhau bod y disgwyliadau ieithyddol yn hysbys ac yn wybyddus ar ddechrau cyfnod y cytundeb.

## **7.2 Prif-ffrydio'r Gymraeg i bob agwedd ar fesurau a pholisi'r Cynulliad**

### **7.2.1 Y sefyllfa bresennol**

Mae adrannau 2.22 - 2.23 *laith Pawb* yn mynegi'r angen i brif-ffrydio'r Gymraeg i feysydd portffolio pob un o Weinidogion y Cynulliad a meysydd polisi pob Adran. Mae adrannau 2.25 - 2.28 *laith Pawb* yn nodi bod llawer o bolisïau a chynlluniau Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu gweithredu gan Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC). Ers mis Rhagfyr 2002, mae llythyron cylch gorchwyl pob CCNC yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff o'r fath baratoi strategaeth flynyddol yn dangos sut y bydd yn prif-ffrydio'r Gymraeg yn ei weithgareddau. Er mwyn hwyluso'r broses hon, paratôdd Uned laith y Cynulliad ganllawiau i Adrannau'r Cynulliad ar "egwyddorion a chymhwysiad brif-ffrydio". Fel arfer, mae'r CCNC yn cyflwyno'i strategaeth brif-ffrydio flynyddol i'r Cynulliad fel atodiad i'w Gynllun Busnes. Caiff y strategaethau eu harchwilio gan yr Uned laith ar ran Adrannau'r Cynulliad.

### **7.2.2 Tystiolaeth Profiad**

Ers sefydlu'r drefn uchod, nid yw'r CCNC wedi derbyn ymatebion manwl na dadansoddol iawn gan eu Hadran Noddi berthnasol i'w strategaethau prif-ffrydio. Ymddengys bod yr adrannau noddi eu hunain yn ddibynnol iawn ar arbenigedd Uned laith y Cynulliad i'w cynorthwyo i ymateb yn ystyrlon i'r strategaethau. Fodd bynnag, mae prinder adnoddau o fewn yr Uned yn ei rhwystro rhag mynd i'r afael â'r dasg honno â'r trylwyredd a'r treiddgarwch angenrheidiol. Golyga hyn bod y strategaethau'n cael eu paratoi o flwyddyn i flwyddyn heb i'r CCNC dderbyn arweiniad ystyrlon iawn ynghylch priodoldeb a defnyddioldeb eu ffurf a'u cynnwys. Teg yw awgrymu felly mai diffyg adnoddau (ar ffurf staff priodol a digonol i gynghori CCNC) sy'n llesteirio'r drefn hon, yn yr un modd ag y mae arafwch Bwrdd yr laith i ymateb i adroddiadau monitro blynyddol cyrff cyhoeddus yn llesteirio'r drefn honno.

#### ***Cryfderau'r dull cyfredol o brif-ffrydio***

- Mae'n gorfodi pob Adran yn y Cynulliad a phob CCNC i ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn sydd ei angen i integreiddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau.
- Mae cyflwyno'r strategaethau prif-ffrydio fel rhan o Gynllun Busnes pob CCNC neu fel atodiad iddynt yn sicrhau statws priodol i'r ymarferiad ar lefel cynllunio corfforaethol.
- Mae'r broses o baratoi strategaeth o'r fath yn fodd i godi ymwybyddiaeth am y Cynllun laith a gofynion *laith Pawb* o fewn sefydliad ar lefel uwch reolwyr yn ogystal â lefel y swyddogion gweithredol wrth i'r Swyddog laith neu'r swyddog perthnasol gyd-drafod y gofynion â nhw.

#### ***Gwendidau'r dull cyfredol o brif-ffrydio***

- Nid oes gan Adrannau'r Cynulliad lawer o arbenigedd ym maes gofynion a goblygiadau prif-ffrydio'r Gymraeg. Maent yn ddibynnol iawn ar Uned laith y



Cynulliad am gyngor ac arweiniad ac am werthuso ac ymateb i strategaethau'r CCNC.

- Gan fod Adrannau'r Cynulliad mor fawr ac aml-unedol ac yn meddu ar nifer o wahanol swyddogaethau a chan fod cynifer o CCNC yn bodoli, credir nad oes gan Uned Iaith y Cynulliad adnoddau digonol i gyflawni'r rôl uchod yn effeithiol.
- Nid oes gan y Cynulliad (na Bwrdd yr Iaith Gymraeg) drefn yn ei lle i fonitro a gwerthuso gweithrediad y mesurau prif-ffrydio a nodir yn strategaethau'r CCNC. Mae'n gwbl ddiwynnol ar y CCNC i fonitro'u strategaethau eu hunain ac adrodd arnynt. Gall hyn beryglu hygredd a dilysrwydd yr ymarferiad.
- Ceir peth dryswch ynghylch union rôl Adrannau'r Cynulliad, Uned Iaith y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn y broses brif-ffrydio.

### 7.2.3 Opsiynau posibl ar gyfer prif-ffrydio trwy ddulliau eraill

(1) Cyflwyno Mesur Priflifo Ystyriaeth o'r Gymraeg a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ddiwygio pob deddf sy'n diffinio gweithgarwch mewn meysydd polisi allweddol (e.e. yr amgylchedd, datblygu economaidd, y sector ofal, cynllunio gwlad a thref) fel ei bod yn cynnwys 'cymal(au) iaith' sy'n datgan gofyniad i'r partion perthnasol integreiddio, gwarchod a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg fel rhan greiddiol o'u cylch gorchwyl. Nod y mesur hwn fyddai cryfhau nod ac amcanion *Iaith Pawb* trwy ddeddfwriaeth.

Gwelwyd enghraifft o'r math o beth a fyddai'n bosibl yn y diwygiad diweddaraf o Ddeddf yr Amgylchedd. Ers i *Ddeddf yr Amgylchedd 1995* ddod i rym mae cylch gorchwyl Parciau Cenedlaethol Prydain wedi ehangu i gynnwys cadwraeth a chyfoethogi bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol eu hardaloedd yn ogystal â'u prydfferthwch naturiol. Dywed Adran 3 y ddeddf:

- (1) *The provisions of this Part of this Act shall have effect for the purpose-*
- (a) *of conserving and enhancing the natural beauty, wildlife and cultural heritage of the areas specified in the next following subsection; and*
  - (b) *of promoting opportunities for the understanding and enjoyment of the special qualities of those areas by the public.*

Bellach, dyna nod holl Barciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr. Mae'r diwygiad hwn i'r ddeddf yn cynnig cyfle i'r Parciau Cenedlaethol ddatblygu cynlluniau i warchod a hyrwyddo'r Gymraeg. O ganlyniad, yn ei Gynllun Rheolaeth ar gyfer 2003-2007, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn gosod ei weledigaeth ar gyfer yr ardal yn y cyd-destun canlynol:

*Rydyn ni'n dymuno i'r Parc Cenedlaethol fod yn:*

- *rhywle lle mae cymunedau yn mwynhau ansawdd bywyd uchel, o safbwynt iechyd da, cyflogaeth foddhaus, bywyd diwylliannol a hamddenol gwerthfawr, ac amgylchedd prydfferth ac ecolegol iach;*
- *rhywle lle mae adnoddau naturiol a diwylliannol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy a bod nwyddau a gwasanaethau cymdeithasol ac economaidd sy'n cynnal economi'r Parc o ganlyniad yn cael eu cynnal ar gyfer y tymor hir;*
- *rhywle lle mae adnoddau naturiol a diwylliannol yn ffynhonnell mwynhad ac yn adnodd dysgu ar gyfer pawb.* (ein pwyslais ni)

Mae'r Cynllun Rheolaeth yn mynd rhagddo i hawlio bod y gweithgareddau a restrir yn y cynllun yn fodd i wireddu 29 o fanteision cymdeithasol ac economaidd gan gynnwys:

*gwell diogelwch ar gyfer yr Iaith Gymraeg a thafodieithoedd.*

Mae gwerthusiad o weithgareddau Cynllun Ogam (2002- 2004) - sef cynllun a noddir ar y cyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Menter Iaith Sir Benfro ac APCAP - yn rhestru nifer o ffyrdd y gellid gwireddu'r nodau uchod:

*O ystyried dyletswyddau diwylliannol APCAP a natur ddwyieithog yr ardal mae'n gyfrifol amdani, daliwn y dylai APCAP a Menter Iaith Sir Benfro ddatblygu eu partneriaeth ymhellach ar sail Ogam. Gallai'r bartneriaeth ddwyn ffrwyth i'r Parc mewn sawl modd gan gynnwys:*

- *Cefnogaeth i weithredu Cynllun Iaith Gymraeg APCAP, yn enwedig drwy roi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth gynllunio polisi a blaengareddau newydd;*
- *Hyrwyddo dwyieithrwydd a dealltwriaeth ddiwylliannol ymysg a thrwy bartneriaid y Parc yn y maes amgylcheddol;*
- *Cryfhau'r berthynas rhwng y Parc a chymunedau a rhwydweithiau Cymraeg yr ardal;*
- *Cefnogaeth wrth ddehongli a dathlu treftadaeth Gymraeg yr ardal;*
- *Cynorthwyo APCAP i briflifo'r Gymraeg i brif ffrwd ei weithgareddau;*
- *Cynorthwyo APCAP i adnabod y Gymraeg fel adnodd economaidd a chymdeithasol gwerthfawr;*
- *Cynorthwyo APCAP i weithredu model holistaidd o ddatblygu cynladwy.*<sup>222</sup>

Fel y dengys yr enghraifft uchod, gall 'cymal iaith' ysgogi gweithredu pwrpasol i warchod a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Gellid dadlau y buasai deddf sy'n awdurdodi ychwanegu 'cymal(au) iaith' at ystod gynhwysfawr o ddeddfau cysylltiedig yn fwy tebygol o sicrhau prif-ffrydio effeithiol.

**(2) Gweithredu o dan adran 32(c) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 i greu cynllun statudol i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymdeithasol Cymru** gyda 'newidiadau canlyniadol' (*consequential amendments*) yn deillio o hyn ar gyfer ystod gynhwysfawr o ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol.

### **(3) Safoni a chysoni'r 'teulu' o ddeddfau cydraddoldeb**

Wrth wneud hynny, dylid gwneud y Gymraeg yn fwy 'cydradd' â'r cydraddoldebau eraill drwy:

- sicrhau hawl i siaradwyr Cymraeg ddwyn achosion gerbron llys oni chânt eu trin yn gydradd wrth ddefnyddio neu geisio defnyddio'r Gymraeg
- sicrhau pwerau i Fwrdd yr Iaith Gymraeg (neu'i olynydd) roi cyngor, arweiniad a chymorth i siaradwyr Cymraeg ddwyn achosion llys.

Byddai hyn yn fwy cyson â'r ddeddfwriaeth ar hil ac anabled.

---

<sup>222</sup> 'Gwerthusiad o weithgareddau Ogam 2002 – 04', Cwmni Iaith, Tachwedd 2004, tud 20.

#### **(4) Cryfhau'r broses brif-ffrydio wrth ddiwygio Cynlluniau Iaith**

Wrth gynorthwyo amryw o gyrff cyhoeddus i ddiwygio'u Cynlluniau Iaith Gymraeg ar ôl eu cyfnod cyntaf o weithrediad, manteisiodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y cyfle i argymhell y dylid cryfhau'r rhannau hynny o'r testun sy'n cyfeirio at integreiddio neu brif-ffrydio'r Gymraeg yng ngweithgareddau'r corff. Mae Canllaw 3 - a'r testun sy'n ei ddehongli - yng Nghaneliau Statudol y Bwrdd eisoes yn gofyn am hynny:

*CANLLAW 3 : Dylai'r corff bennu'r mesurau y bwriada'r sefydliad eu cymryd pan mae'n asesu effaith polisiau a mentrau newydd ac yn eu gweithredu.*<sup>223</sup>

Mae'r disgrifiad canlynol o'r Mesurau y disgwylir eu gweld mewn Cynlluniau Iaith yn ymhelaethu ar yr ymrwymadau sydd eu hangen i wireddu hyn:

*Ymrwymiad i asesu canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisiau a mentrau newydd wrth eu llunio;*

*Ymrwymiad y bydd polisiau a mentrau newydd:*

- *yn hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosib*
- *yn symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn bob cyfle a ddaw.*<sup>224</sup>

Gan fod pob CCNC wedi paratoi Cynllun Iaith yn unol â'r Canllaw uchod, gellid dadlau mai'r hyn y mae angen ei wneud yw cryfhau'r ymrwymadau ym mhob Cynllun a chryfhau goruchwyliaeth y Bwrdd (neu ei olynnydd) dros hynny a'r dulliau o'i fonitro, yn hytrach na chreu trefn gyfocrog o baratoi 'strategaethau prif-ffrydio' ar wahân. Yn wir, gellid dadlau bod creu 'strategaethau prif-ffrydio' sydd ar wahân i'r Cynllun Iaith yn golygu nad yw'r broses brif-ffrydio ei hun wedi'i phrif-ffrydio.

**Argymhelliad 30:** Yn hytrach na pharatoi strategaethau prif-ffrydio ar wahân, dylid cryfhau'r ymrwymadau gan gyrff cyhoeddus yn eu cynlluniau iaith Gymraeg i asesu effaith ieithyddol polisiau a mentrau newydd gan gryfhau goruchwyliaeth Bwrdd yr Iaith a'r dulliau o'i fonitro.

**Argymhelliad 31:** Dylid ystyried cyflwyno *Mesur Priflifo Ystyriaeth o'r Gymraeg* a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ddiwygio pob deddf sy'n diffinio gweithgarwch mewn meysydd polisi allweddol (e.e. yr amgylchedd, datblygu economaidd, y sector ofal, cynllunio gwlad a thref) fel ei bod yn cynnwys 'cymal(au) iaith' sy'n datgan gofyniad i'r partïon perthnasol integreiddio, gwarchod a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg fel rhan greiddiol o'u cylch gorchwyl.

**Argymhelliad 32:** Dylid ystyried gweithredu o dan *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* i greu *cynllun statudol i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymdeithasol Cymru* gyda 'newidiadau canlyniadol' (*consequential amendments*) yn deillio o hyn ar gyfer ystod gynhwysfawr o ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol.

<sup>223</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Cynlluniau Iaith Gymraeg – Eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, Caerdydd, 1996, tud. 18.

<sup>224</sup> Ibid.

### 7.3 Cyflwyno cod ymarfer ar gyfer sefydliadau/gwasanaethau penodedig

Defnyddir codau ymarfer yn aml i reoli, cysoni, safoni neu ddylanwadu mewn modd arall ar ymddygiad darparwyr mewn proffesiynau penodol, sectorau penodol neu wasanaethau penodol. Trwy ddylanwadu ar ymddygiad darparwyr gwasanaethau, gall codau ymarfer gynorthwyo i gydraddoli'r berthynas rhwng y darparwr a defnyddiwr neu dderbynnwyd y gwasanaeth. Mae hyn yn bwysig o gofio bod pob perthynas o'r fath yn seiliedig ar rym neu bŵer y darparwr. Dod ar ofyn y darparwr wna'r defnyddiwr - i ofyn am ddarpariaeth, gwasanaeth, gofal, cymorth, budd-dal, grant, awdurdod, caniatâd ac yn y blaen.

Gan amlaf felly, nid yw'n debygol y bydd defnyddiwr gwasanaeth yn teimlo y gall fynnu defnyddio'r Gymraeg wrth ddod ar ofyn darparwr. Gan ei fod yn dymuno cael ymateb ffafriol gan y darparwr, bydd yn annhebygol o herio defnyddiofyn o'r Saesneg gan y darparwr. Fodd bynnag, os bydd y darparwr yn mabwysiadu'r arferiad o gynnig dewis iaith o'r cychwyn cyntaf, a hynny mewn modd rhagweithiol a niwtral, bydd y cydbwysedd grym yn fwy cyfartal a bydd y defnyddiwr yn cael ar ddeall yn syth mai ef / hi sy'n dewis y cyfrwng cyfathrebu. Gall hyn ddangos i'r defnyddiwr bod ei (d)dewis ef/hi yn bwysig i'r darparwr yn gyffredinol, a bod gwerthoedd y darparwr yn parchu hunaniaeth ac amrywiaeth y defnyddwyr.

Mae codau ymarfer yn cynnig modd o fabwysiadu arfer da o'r fath a modd o ddehongli neu gymhwyso gofynion deddfwriaethol mewn meysydd polisi penodol. Wrth wneud hynny, gall codau ymarfer roi arweiniad i staff ar sut i weithredu'r egwyddor o gynnig dewis iaith a pharchu dymuniad y defnyddiwr.

Yng nghyd-destun *Iaith Pawb* ac ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i brif-ffrydio'r Gymraeg wrth ddatblygu pob maes polisi, daw'r cyfle i sicrhau bod geiriad pob cōd ymarfer yn sefydlu'r egwyddor bod gofyn i ddarparwyr gwasanaeth gymryd camau rhagweithiol i gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ôl dymuniad y defnyddwyr. Buasai hyn yn fodd ychwanegol o sicrhau hawl *de facto* unigolion i beidio â phrofi camwahaniaethu ar sail iaith mewn perthynas â sefydliadau a gwasanaethau penodedig.

Mae'n amlwg, felly, y gall codau ymarfer gynorthwyo i brif-ffrydio arfer dwyieithog da mewn llawer maes a llawer cyswllt ag unigolion. Nid yw gofod yn caniatáu lluosogi enghreifftiau yma, ond nodwn isod enghraifft o berthnasedd codau ymarfer yn y sector ofal.

#### ***Deddf Iechyd Meddwl, 1983***

Nid oedd *Deddf Iechyd Meddwl 1983* yn sôn yn uniongyrchol am ddarpariaeth sy'n cyfeirio'n benodol at iaith neu gefndir diwylliannol y claf. Serch hynny, datgan Adran 13(2) y dylai'r gweithiwr cymdeithasol cydnabyddedig gyfweled â'r claf '*mewn dull addas*' wrth asesu a ddylid ei dderbyn i ysbty meddwl yn groes i'w ddymuniad ai peidio.<sup>225</sup>

<sup>225</sup> Davies, Elaine, *Iaith mewn Gwasanaeth Gofalgar: Canllaw ar ddarparu gwasanaeth dwyieithog sensitif, gyda golwg ar sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gweinyddu'r gyfraith*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999, tud. 21.

Cyhoeddwyd Cod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl ym 1989, a chafwyd fersiwn bellach ym 1993. Roedd y côd ymarfer yn cynnig canllawiau a oedd yn dehongli hyn ychydig yn fanylach yng nghyd-destun iaith, fel a ganlyn:

*par. 2.6: wrth benderfynu a ddylid cymryd claf i ysbyty meddwl yn groes i'w ddymuniad mae angen ystyried ei gefndir diwylliannol. ...mae'r gyfraith yn derbyn bod iaith yn rhan o gefndir diwylliannol.*

*par 2.11: dywedir bod y term 'dull addas' yn golygu bod y gweithiwr cymdeithasol a'r claf yn deall iaith ei gilydd. Os nad ydynt, dylid ystyried galw ar wasanaeth cyfieithydd neu alw ar weithiwr cymdeithasol arall sydd wedi ei chymeradwyo ac sy'n siarad iaith y claf.*

*par 2.19: ceir darpariaeth gyfatebol ar gyfer meddygon sy'n gwneud asesiad meddygol.*<sup>226</sup>

Roedd amwysedd yn nehongliad geiriad y ddeddf a'r côd ymarfer yn y sefyllfa ddwyieithog sydd ohoni yng Nghymru "*pan fo person yn medru siarad iaith y gweithiwr ond pan nad honno o angenrheidrwydd yw ei d/dewis iaith.*"<sup>227</sup> Gellid dehongli geiriad Côd Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl i olygu bod gan gleifion yr hawl i dderbyn yr holl wybodaeth y mae ganddynt hawl iddi o dan y ddeddf yn eu dewis iaith: "*Gellir dadlau'n gryf fod ganddo'r hawl i dderbyn y wybodaeth honno yn yr iaith sy'n brif gyfrwng cyfathrebu iddo os mai dyna'i ddymuniad*"<sup>228</sup>

Pasiwyd Deddf Iechyd Meddwl newydd yn 2007 a Chynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn llunio'r côd ymarfer ar gyfer Cymru. Mae'n amserol, felly, i bwysu ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau y bydd y canllawiau'n unioni amwysedd y canllawiau cyfredol ac yn sicrhau hawl unigolyn i gael asesiad meddygol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ymateb i gwestiwn ar y mater, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd y byddai'r hawl hon yn cael ei chydabod yn y côd newydd.<sup>229</sup>

Mae diwygiad cyfredol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnig cyfle euraidd i gryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaeth a gofal trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno hynny. Ceir deddfau eraill ym maes Gofal Cymdeithasol y byddai'n briodol i'w cryfhau o ran cydnabod anghenion a dymuniadau ieithyddol yr unigolyn, ac mae'r deddfau hyn yn cynnwys: Deddf Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau i Gynhalwyr (1996), Deddf Cyfiawnder Troseddol (1991), Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned (1990) a Deddf Plant (1989).

Y Ddeddf Plant yw'r fwyaf arloesol o blith y rhain o safbwynt cydnabod hawliau iaith yr unigolyn gan fod "*adrannau penodol o'r ddeddf ynghyd â rhannau o'r Cyfarwyddiadau a'r Rheolau ar ei chyfer yn gosod dyletswydd ar asiantaethau i roi*

---

<sup>226</sup> Ibid. tud. 21.

<sup>227</sup> Ibid. tud. 21.

<sup>228</sup> Davies, G. P. 'Yr Iaith Gymraeg a Deddfwriaeth' yn Williams, Rh.H., Williams, H., Davies, E., *Gwaith Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994, tud. 41-75.

<sup>229</sup> Q556 Hywel Williams: (Through the interpreter): "do you predict that in the Code of Practice there will be a right for people to be assessed through the medium of Welsh?" Ms Hutt: "Certainly". EV 380 Joint Committee on the Draft Mental Health Bill: Evidence 15.12.2004, Joint Committee on the Draft Mental Health Bill, Session 2004-05, Volume II, Oral and written evidence HL Paper 79-II, HC 95-II.

*ystyriaeth i iaith plentyn wrth asesu a darparu ar ei chyfer*".<sup>230</sup> Cryfder y Ddeddf Plant yw ei bod yn gydnaws ag Erthygl 30 *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn* sy'n datgan "na ddylid gwadu i blentyn sy'n aelod o leiafrif ethnig, crefyddol neu ieithyddol yr hawl i fwynhau ei ddiwylliant, i ymarfer ei grefydd nac i ddefnyddio'i iaith".<sup>231</sup> Serch hynny, mae yna le i gryfhau perthnasedd geiriad y ddeddf i sefyllfa ddwyieithog siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yn achos y deddfau eraill a restrir uchod, ni cheir cyfeiriadau uniongyrchol at iaith er bod yna le, fel yn achos y Ddeddf Iechyd Meddwl, i ystyried materion iaith wrth eu dehongli, er enghraifft: "ystyried y person 'cyfan' - asesu'r unigolyn yn ei ch/gyd-destun"<sup>232</sup> yn achos Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned, 1990 a "gwahaniaethu'n annheg yn erbyn pobl ar sail hil, rhyw neu unrhyw reswm anaddas"<sup>233</sup> yn achos deddf Cyfiawnder Troseddol, 1991.

Rhydd pŵer Llywodraeth y Cynulliad i lunio codau ymarfer ar gyfer Cymru y cyfle i gyfrannu at brif-ffrydio arfer dwyieithog da ym mhatrymau ymddygiad ac arferion gwaith darparwyr. Dylai agenda *Iaith Pawb* i greu Cymru ddwyieithog arwain at greu'r disgwyl i godau ymarfer fanylu ar ystyriaethau o'r Gymraeg. Gellid ceisio cryfhau'r gofyniad i godau ymarfer fanylu ar ystyriaethau am y Gymraeg trwy "Ddeddf Iaith Newydd" ar y naill law neu drwy ddadlau dros ymestyn Deddf 1993 ar y llaw arall.

**Argymhelliad 33: Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod codau ymarfer yn manylu ar ystyriaethau am y Gymraeg er mwyn prif-ffrydio arfer dwyieithog da ym mhatrymau ymddygiad ac arferion gwaith darparwyr.**

## 7.4 Arolygiaethau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Arolygiaethau Gwasanaethu Cyhoeddus, megis *Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru*, *Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru*, *Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*, *Yr Arolygiaeth Gynllunio*, *Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd EM*, yr *Arolygiaeth Cyfiawnder a Diogelwch Cymunedol* ac *Estyn* (Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), i gyd yn chwarae rhan allweddol wrth ddiffinio safon darpariaeth i'r cyhoedd ac arolygu'r darparwyr yn ôl y safonau hynny.

Ceir amrywiaeth sylweddol yn y pwyslais a roddir gan yr amryw Arolygiaethau ar ystyriaeth o'r Gymraeg yn y canllawiau a'r safonau sy'n diffinio'r disgwyliadau ynghylch arfer da a safon gwasanaeth ym mhob maes. Yn achos pob un o'r Arolygiaethau, mae lle i gryfhau a chysoni faint o bwyslais a roddant ar ystyriaethau o'r Gymraeg yn achos:

- (i) dewis iaith unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a
- (ii) effaith ar hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith, (gyda'r ail ystyriaeth yn berthnasol i'r *Arolygiaeth Gynllunio*'n bennaf).

Buasai diwygio canllawiau a safonau'r arolygiaethau fel eu bod yn cwrdd ag amcanion *Iaith Pawb* a *Chreu'r Cysylltiadau* yn fodd o gryfhau'r disgwyliadau parthed

<sup>230</sup> Davies, Elaine, *Iaith mewn Gwasanaeth Gofalgar: Canllaw ar ddarparu gwasanaeth dwyieithog sensitif, gyda golwg ar sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gweinyddu'r gyfraith*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999, tud. 19.

<sup>231</sup> Ibid. tud. 20.

<sup>232</sup> Ibid. tud. 22.

<sup>233</sup> *Deddf Cyfiawnder Troseddol, 1991*, Adran 95 (b) – "their duty to avoid discriminating against any persons on the ground of race, sex or any improper ground".

gwasanaeth/darpariaeth o safon. Dyfynnwn isod y prif gymalau perthnasol yn *laith Pawb* fel enghraifft:

*Bod y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth yn cael ei atal (laith Pawb 2.16)*

*Mae prif-ffrydio yn golygu gwneud asesiad effaith ieithyddol yn elfen berthnasol mewn polisiau mewn meysydd fel datblygu economaidd a gofal cymdeithasol neu ofal iechyd. (laith Pawb 2.24, t12)*

*Rhoi'r grym i unigolion i wneud dewis go iawn ynghylch yr iaith, neu'r ieithoedd, y dymunant fyw eu bywydau trwyddynt (laith Pawb 4.1, t37)*

*Bod gan bob person ifanc yr hawl i ystod o wasanaethau cefnogi yn yr iaith o'u dewis (laith Pawb 4.2, t37)*

Gwelir bod diffyg adnoddau dynol o ran staff sy'n medru'r Gymraeg a staff sydd wedi derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith yn aml yn cyfyngu ar allu'r Arolygiaeth i gynnig dewis iaith wrth arolygu a rhoi sylw priodol i anghenion ieithyddol yr unigolion a wasanaethir gan y darparwyr y mae'n eu harolygu. Mewn rhai achosion, mae rhai cyrff cyhoeddus a arolygwyd wedi mynegi bod angen arolygu'r cyrff arolygu eu hunain o safbwynt eu hymdriniaeth ag agweddau ieithyddol. Mae hyn wrth reswm yn tansellio hygrededd y cyrff arolygu ac effeithiolrwydd a phroffesiynoldeb eu harolygiaeth.

Mae'r pwyslais newydd ar 'anghenion a phrofiadau'r dinasyddion', sy'n treiddio drwy ymateb polisi Llywodraeth y Cynulliad i adolygiad Beecham, yn cynnig cyfle i gryfhau ystyriaethau am ddewis iaith y 'dinesydd' wrth fesur ac arolygu safon gwasanaethau.

Nodwn hefyd fod argymhellion Llywodraeth y DU ar gyfer *Mesur Cydraddoldeb Unigol i Brydain Fawr* yn pwysleisio'r angen i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gytuno ar **femorandwmau dealltwriaeth** â'r Arolygiaethau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn sicrhau bod y cyrff a arolygir ganddynt yn cydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb<sup>234</sup>. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn nodi yn ei ymateb i argymhellion y Llywodraeth:

*"We support the need for the CEHR to agree memoranda of understanding with the public service inspectorates. We believe that the Board (or the proposed Welsh Language Commissioner) should have similar memoranda agreed with the inspectorates"*<sup>235</sup>

Mae'n bosibl, felly, y cyfyd cyfle yn fuan i sefydlu dyletswydd statudol ar yr Arolygiaethau i werthuso darpariaeth Cymraeg darparwyr gwasanaethau cyhoeddus trwy femorandwmau dealltwriaeth o dan y Mesur Cydraddoldeb Unigol fel y'i gweithredir yng Nghymru.

**Argymhelliad 34: Dylid cryfhau a chysoni faint o bwyslais a rydd Arolygiaethau Gwasanaethau Cyhoeddus ar ystyriaethau o'r Gymraeg yn achos:**

<sup>234</sup> Discrimination Law Review, *A Framework for Fairness: Proposals for a Single Equality Bill for Great Britain*, Mehefin 2007.

<sup>235</sup> 'Every one of us...' *The Welsh Language Board's response to the Discrimination Law Review consultation paper "A Framework for Fairness: proposals for a Single Equality Bill for Great Britain."* Medi 2007.

- (i) dewis iaith unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a
- (ii) effaith ar hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith, (gyda'r ail ystyriaeth yn berthnasol i'r *Arolygiaeth Gynllunio*'n bennaf).

**Argymhelliad 35:** Dylid diwygio canllawiau a safonau'r Arolygiaethau fel eu bod yn cwrdd ag amcanion *Iaith Pawb* a *Chreu'r Cysylltiadau* a thrwy hynny'n cryfhau'r disgwyliadau parthed gwasanaeth/darpariaeth o safon.

## 7.5 Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol

Ym mis Ebrill 2005 cyflwynwyd ystod newydd o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol Cymru. Caiff y fframwaith ddangosyddion newydd ei strwythuro i gynnwys:

### **Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (statudol)**

Cyfes o ddangosyddion statudol<sup>236</sup> sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol pwysig Llywodraeth Cynulliad Cymru a gaiff eu pennu a'u diwygio gan y Llywodraeth i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth ac ymarfer sy'n benodol i wasanaeth.

### **Setiau Dangosyddion Craidd**

Diben y Setiau Dangosyddion Craidd yw rhoi darlun cytbwys o berfformiad ar lefel gorfforaethol a lefel y gwasanaeth / polisi fel ei gilydd. Cesglir gwybodaeth ar gyfer y setiau craidd yn lleol a'i rhannu'n genedlaethol fel y gellir cymharu perfformiad awdurdodau. Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru sy'n casglu ac yn cyhoeddi'r data gan ddefnyddio meddalwedd TGCh sy'n dwyn yr enw *Ffynnon*.

### **Dangosyddion Perfformiad Lleol a Data Meincnodi (anstatudol)**

Ar lefel lleol, caiff y fframwaith ei gwblhau drwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad lleol sy'n addas ar gyfer anghenion a blaenoriaethau lleol.

Rhydd dogfennau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef *Creu'r Cysylltiadau a Rhannu Cyfrifoldeb*, bwyslais ar ganfod anghenion dinasyddion / defnyddwyr lleol wrth ddarparu a gwerthuso gwasanaethau cyhoeddus (gweler pennod 7.6). Yn sgîl hyn, bydd disgwyl i awdurdodau lleol a'u partneriaid ddatblygu cwestiynau ar gyfer arolygon barn dinasyddion/ defnyddwyr gwasanaeth fel eu bod yn gallu'u defnyddio i asesu agwedd defnyddwyr at y gwasanaethau a dderbyniant.

Yn y **Fframwaith Mesur Perfformiad** ar gyfer 2005-2006 a 2007-2008 ceir un dangosydd addysg ynglŷn ag asesiadau Cymraeg iaith Gyntaf<sup>237</sup>. Ni cheir Dangosydd Perfformiad Strategol sy'n gofyn am fesur perfformiad awdurdodau lleol o ran darparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Os yw Llywodraeth y Cynulliad o ddifrif ynglŷn â chyflawni 5 targed allweddol *Iaith Pawb*, buasai cynnwys dangosydd(ion) ychwanegol ar gyfer y Gymraeg ymhlith y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol statudol yn fodd o:

<sup>236</sup> Rhydd *Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau – Cymru) 2005* ofyniad statudol ar awdurdodau lleol i gyhoeddi data ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'u cofnodi yn eu Cynlluniau Gwella.

<sup>237</sup> EDU 006 NS14 a) nifer b) canran y disgyblion sy'n gymwys am asesiad mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod sy'n cael Asesiad Athro yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf): i) Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. ii) Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.



- gasglu tystiolaeth ar raddfa genedlaethol all gyfrannu tuag at fesur cyflawniad yn ôl targedau *laith Pawb*;
- cryfhau cyfrifoldeb statudol cyrff i fesur eu perfformiad o ran darparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

Mae hepgor dangosydd(ion) o'r fath mewn perthynas ag *laith Pawb* – sy'n bolisi cenedlaethol a rydd gryn bwyslais ar brif-ffrydio – yn ddiffyg sylweddol sy'n groes i ysbryd ac amcanion agenda Beecham. Mae'n neilltuo'r Gymraeg o brif-ffrwd yr ymdrechion i safoni a gwarantu gwasanaethau o safon dda.<sup>238</sup>

### 7.5.1 Dangosyddion iaith Gymraeg

Rhydd adroddiadau blynyddol ar drefniadau monitro Cynlluniau iaith statudol cyrff cyhoeddus gyfle i gasglu a chyflwyno tystiolaeth am safon y gwasanaeth a ddarperir, ynghyd ag ymdrechion y sefydliad i gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r goreuon ymhlith y cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith statudol wedi bod yn deisyfu dulliau o lunio dangosyddion i fesur cynnydd o'r fath ers tro. Er mwyn ceisio cysoni'r data a gesglir a chanolbwyntio ar elfennau gwannaf cynlluniau iaith, lluniodd Bwrdd yr Iaith Gyfres o Ddangosyddion Iaith Gymraeg y mae bellach yn gofyn i bob corff sy'n gweithredu cynllun iaith statudol adrodd arnynt yn flynyddol.

Mae'r pum Dangosydd Iaith Gymraeg (DIG) sy'n ymddangos ar dempled y Bwrdd ar gyfer adrodd ar drefniadau monitro cynlluniau iaith diwygiedig<sup>239</sup> ers mis Chwefror 2006 yn ddangosyddion fyddai'n cyfrannu tystiolaeth werthfawr (dros gyfnod ac wrth eu casglu ynghyd) er mwyn mesur cyflawniad y pumed o dargedau allweddol *laith Pawb* sef:

*Erbyn 2011 ei bod yn bosibl i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau, trwy gyfrwng y Gymraeg.*<sup>240</sup>

Cyflwynwn isod y pum dangosydd iaith:

#### **Dangosyddion Iaith Gymraeg (Templad Adroddiadau Monitro Cynlluniau Iaith Diwygiedig Bwrdd yr Iaith Gymraeg)**

##### **a) Gwasanaethau Rheng Flaen**

**DIG 2** Nifer a % swyddi y brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop un stop a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' ac a lenwyd gan staff dwyieithog.

*Mae'r dangosydd yma yn gosod ffocws ar ofal cwsmer ar bwynt allweddol o'r rhyngwyneb cyhoeddus.*

##### **b) Safon y gwasanaethau iaith Gymraeg**

<sup>238</sup> Ymddengys yn groes hefyd i Gynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad, sy'n ymrwmo Llywodraeth Cymru i brif-ffrydio'r Gymraeg i bolisiau newydd a mentrau newydd ac unrhyw safonau gwasanaeth a threfniadau monitro cysylltiedig.

<sup>239</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 'Templed adrodd ar *drefniadau* monitro blynyddol ar gyfer cynlluniau iaith diwygiedig i'w lenwi a'i gyflwyno i'r Bwrdd erbyn 17 Chwefror 2006'.

<sup>240</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog*, Chwefror 2003, tud. 11.

**DIG 6** Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y cynllun iaith a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor.

**c) Caffael**

**DIG 1** Nifer a % y cyrff 3ydd parti gafodd eu monitro sy'n darparu yn unol â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod gan ystyried :-

- (i) contractau gofal cymdeithasol.
- (ii) contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc
- (iii) contractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol

*Mae'r dangosydd yma yn gosod ffocws ar weithio gyda sefydliadau eraill a bydd ei bwysigrwydd yn cynyddu dros amser.*

**d) Adnoddau dynol – sgiliau**

**DIG 4** (a) Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol.

(b) Nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

**e) Adnoddau dynol – Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

**DIG 5** Nifer a % y staff o fewn gwasanaeth y Cyngor sy'n medru siarad Cymraeg (ag eithrio athrawon a staff ysgolion)

- fesul adran wasanaeth
- yn ôl gradd y swydd
- fesul gweithle (swyddfa, canolfan ac phrif swyddfeydd ardal).

*Mae dangosydd 5 yn ymwneud â medr sefydliad i ddarparu dewis iaith wrth ddarparu gwasanaeth. Bydd gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar feini prawf 'hunan ddewis' y cyfrifiad.*

Hyd yma, mae 27 o'r 33 awdurdod lleol yng Nghymru wedi cytuno i adrodd ar y pump DIG ac mae'r adroddiadau monitro blynyddol ar Gynlluniau Iaith Gymraeg diwygiedig, megis adroddiad Cyngor Powys, yn cyfrannu tystiolaeth fanwl ar gyfer mesur a gwerthuso cynnydd yn narpariaeth cyfrwng Cymraeg gwasanaethau'r awdurdod.

Ar fater mwy cyffredinol, amser a ddengys i ba raddau y bydd gweledigaeth ac egwyddor graidd *Creu'r Cysylltiadau* yn cael eu rhoi ar waith wrth gydlynu dangosyddion perfformiad ieithyddol a ddeillia o sawl cyfeiriad. Er enghraifft, os bydd dangosyddion neu feincnodau'n cael eu pennu mewn perthynas â'r elfennau iaith yn y Fframwaith Gwella Cydraddoldeb newydd, a fydd y rheiny'n ategu neu'n adlewyrchu 'DIG' Bwrdd yr Iaith? Ac os bydd awdurdodau lleol yn ychwanegu dangosyddion lleol neu safonau gwasanaeth i ategu'r DIG, a fydd unrhyw arolygu ar i ba raddau y mae'r rheiny yn gyfraniad lleol tuag at gyflawni amcanion strategol *Iaith Pawb*?

Ar hyn o bryd erys cryn aneglurder ynghylch sut y cydlynir yr agweddau hyn. Yr argraff a geir yw nad yw'r Gymraeg wedi'i phrif-frydio'n effeithiol ac nad oes ganddi'r statws angenrheidiol i rai o feysydd polisi arweiniol y Llywodraeth, ac nad oes digon o groes-gyfeirio na chysoni'r ymdriniaeth â'r Gymraeg yn y meysydd hynny.

**Argymhelliad 36:** Dylid cynnwys dangosydd(ion) ychwanegol ar gyfer y Gymraeg ymhlith y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol statudol er mwyn:

- (i) casglu tystiolaeth ar raddfa genedlaethol all gyfrannu tuag at fesur cyflawniad yn ôl targedau *laith Pawb*;
- (ii) cryfhau cyfrifoldeb statudol cyrff i fesur eu perfformiad o ran darparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

**Argymhelliad 37:** Dylai adroddiadau monitro blynyddol ar weithrediad Cynllun laith Gymraeg pob corff cyhoeddus gynnwys adroddiad ar y dangosyddion canlynol, yn ôl argymhelliad Bwrdd yr laith Gymraeg:

**a) Gwasanaethau Rheng Flaen**

Nifer a % swyddi y brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop un stop a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' ac a lenwyd gan staff dwyieithog.

**b) Safon y gwasanaethau laith Gymraeg**

Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y cynllun iaith a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor.

**c) Caffael**

Nifer a % y cyrff 3ydd parti gafodd eu monitro sy'n darparu yn unol â gofynion Cynllun laith Gymraeg yr awdurdod gan ystyried :-

- (i) contractau gofal cymdeithasol
- (ii) contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc
- (iii) contractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol

**d) Adnoddau dynol – sgiliau**

- (i) Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol.
- (ii) Nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

**(e) Adnoddau dynol – Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

Nifer a % y staff o fewn gwasanaeth y Cyngor sy'n medru siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon a staff ysgolion)

- fesul adran wasanaeth
- yn ôl gradd y swydd
- fesul gweithle (swyddfa, canolfan ac phrif swyddfeydd ardal).

## **7.6 Cyfleoedd newydd yn sgîl Adolygiad Beecham**

Ers ei sefydlu, bu'n brif flaenoriaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i weddnewid y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Comisiynwyd Adolygiad Syr Jeremy Beecham<sup>241</sup> ar ddarparu gwasanaethau lleol fel rhan o *Creu'r Cysylltiadau*<sup>242</sup>, cynllun gweithredu 5 mlynedd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer darparu gwell gwasanaethau

<sup>241</sup> *Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd*. Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir yn Lleol: Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cadeirydd yr Adolygiad, Syr Jeremy Beecham, Gorffennaf 2006.

<sup>242</sup> *Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth*, Mehefin 2005.

i Gymru. Amlyga ymateb y Llywodraeth i Beecham, sef *Creu'r Cysylltiadau*<sup>243</sup>, ynghyd â'r crynodeb gweithredol a ddeillia ohono, sef *Rhannu Cyfrifoldeb*<sup>244</sup>, ymagwedd newydd tuag at ddarparu a mesur effeithlonrwydd gwasanaethau. Yn ganolog i'r ymagwedd hon mae 'model y dinesydd' a'r pwyslais ar sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn canolbwyntio ar anghenion a phrofiadau'r dinasyddion yn eu cymunedau a hybu "ethos o sicrhau iawn i'r dinesydd."<sup>245</sup>

Pwysleisia *Rhannu Cyfrifoldeb* fod "gan lywodraeth leol ran aruthrol i'w chwarae wrth wrando lleisiau'n dinasyddion a gweithredu arnynt":

*"Y prawf ynglŷn â llawer o'r hyn yr ydym yn ceisio'i sicrhau yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru yw sut mae'n gwasanaethau a'n democratiaeth yn cael eu profi ar lefel leol iawn y gymuned a'r gymdogaeth. Ar y stryd ac ar yr aelwyd y mae'n rhaid inni brofi ein holl uchelgais ar gyfer ymglymiad dinasyddion, mynediad i wasanaethau a chyd-drefnu gwasanaethau. Rhaid inni sicrhau ein bod yn gallu clywed lleisiau'r dinasyddion yn glir wrth i'n rhaglen bolisi ddatblygu a sicrhau bod honno'n cael effaith wirioneddol ar gynllunio gwasanaethau, eu dylunio a'u hintegreiddio."*<sup>246</sup>

*Ein strategaeth ar gyfer sicrhau gwelliannau mawr wrth gyflwyno gwasanaethau ac ym mhrofiad y dinasyddion o'r gwasanaethau fydd hoelio sylw ar dri maes datblygu allweddol:*

- *creu'r amodau i helpu i ddatblygu ymagwedd newydd at drefnu lywodraethu leol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a hynny ar ffurf Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chytundebau Gwasanaethau Lleol;*
- *datblygu ar y cyd â hynny fodel traws-sectoraidd bywiog ac effeithiol ar gyfer gwaith craffu, gan gyfuno'r dull cyfranogi a'r dull cynrychioli democratiaidd;*
- *ac yn olaf cynhyrchu gwybodaeth leol a chenedlaethol ragorol am foddhad dinasyddion ac am berfformiad yr awdurdodau lleol."*<sup>247</sup>

Mae ymrwymïadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys:

- Cynhyrchu datganiad polisi ar ymglymiad y cyhoedd ar draws holl wasanaethau cyhoeddus Cymru a fydd yn cynnwys set o egwyddorion ar gyfer ymglymiad y cyhoedd a chymorth wedi'i dargedu er mwyn cryfhau cyfranogiad dinasyddion a'r gymuned y tu hwnt i'r cylch etholiadol.
- Ystyried deddfu ar gyfer dyletswydd ehangach ar ddarparwyr gwasanaethau i ymgynghori â'r dinasyddion a'u cynnwys wrth ddatblygu'r Strategaeth Gymunedol.
- Datblygu fframwaith arolygu cenedlaethol ar gyfer ymchwil ar foddhad lleol, wedi'i dargedu ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol newydd.
- Sefydlu adroddiadau blynyddol cenedlaethol i'r dinasyddion am berfformiad Llywodraeth leol.<sup>248</sup>

<sup>243</sup> *Creu'r Cysylltiadau – Cyflawni Ar Draws Ffiniau: Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru*, Tachwedd 2006.

<sup>244</sup> *Rhannu Cyfrifoldeb: Crynodeb Gweithredol – Cyfraniad Llywodraeth leol at wella bywydau pobl*. Datganiad Polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2007

<sup>245</sup> *Creu'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth*, Mehefin 2005, tud. 1.

<sup>246</sup> *Rhannu Cyfrifoldeb: Crynodeb Gweithredol – Cyfraniad Llywodraeth leol at wella bywydau pobl*, tud. 15.

<sup>247</sup> *Ibid.* tud. 2.

<sup>248</sup> *Ibid.* tud. 16.

- Sefydlu cyfres o safonau gwasanaeth cenedlaethol y mae'n hawdd i'r cyhoedd eu gweld er mwyn iddynt wybod pa wasanaethau craidd y dylent eu disgwyl lle bynnag y maent yn byw. Bydd hyn yn cydnabod mai pennu safonau yn lleol sydd orau yn aml.<sup>249</sup>

Bwriad y Llywodraeth wrth sefydlu'r safonau gwasanaeth yw defnyddio fframweithiau a safonau sy'n bodoli eisoes ar gyfer cyfres gyfyngedig o wasanaethau allweddol fel man cychwyn, gan ymrwymo i ymgynghori'n agos ar ddatblygiadau pellach. Gyda chefnogaeth drawsbleidiol i amcanion *laith Pawb* mae'n dra sicr y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys cynnig dewis iaith i'r dinesydd ymhlith y safonau gwasanaeth cenedlaethol heb yr angen am unrhyw bwerau deddfu ychwanegol. Pe na bai modd sicrhau cefnogaeth i safon iaith genedlaethol, dylai pwyslais y polisi ar weithredu ar lefelau lleol a rhanbarthol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ganiatáu cynnwys ymrwymiad i wasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y lefelau hynny. Wedi dweud hynny, nid yw'n draddodiad nac yn arferiad gan gyrrff cyhoeddus i fanteisio'n adeiladol ar gyfleoedd o'r fath i brif-ffrydio ystyriaethau ieithyddol heb arweiniad neu bwysau penodol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Hwyrach mai afrealistig felly fyddai disgwyl ymrwymiad i lefelau gwasanaeth yn Gymraeg heb ymyrraeth o'r fath, un ai trwy'r Bwrdd neu drwy adain berthnasol o'r Cynulliad.

Rhydd y pwyslais ar "hoelio sylw ar ddinasyddion yn eu cymunedau"<sup>250</sup> gyfle i wleidyddion a mudiadau bwysu am well cydnabyddiaeth ac ystyriaeth o anghenion a dewis iaith dinasyddion yn achos gwasanaethau cyhoeddus.

Rhydd yr ymrwymiad ar ymglymiad y cyhoedd a chasglu data ar farn a bodlonrwydd y dinesydd gyfle newydd i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru leisio barn am yr angen am ragor o wasanaethau yn y Gymraeg a dwyn cwyn pan nad yw'r gwasanaethau hynny ar gael neu'n diwallu eu hanghenion.

**Argymhelliad 38: Dylai Bwrdd yr Iaith ac adrannau perthnasol o fewn Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio'r pwyslais yn Adolygiad Beecham ar "hoelio sylw ar ddinasyddion yn eu cymunedau"<sup>251</sup> i bwysu am well cydnabyddiaeth ac ystyriaeth o anghenion a dewis iaith dinasyddion yn achos gwasanaethau cyhoeddus.**

## 7.7 Casgliadau

Bu'r bennod hon yn ymdrin â nifer o gyfleoedd i wella ystod a safon y ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg sy'n galw am well ddulliau a moddau o sicrhau gweithrediad yn hytrach nag, o reidrwydd, deddfu pellach.

Nid yw'r datganiadau o fwriadau a nodau yn *laith Pawb* yn ddigonol i sicrhau gweithredu priodol ar lefel polisi nac ar lefel *micro*. Yn ein profiad ni, mae llawer o uwch reolwyr, ymarferwyr a gweithredwyr ar y lefel darparu gwasanaeth ac o fewn y proffesiynau heb fod yn ymwybodol o'r gofynion a'r disgwyliadau sy'n berthnasol iddynt yn *laith Pawb*.

Nodwyd chwe maes penodol ar gyfer cryfhau gweithrediad, sef: 1) Cryfhau cydymffurfiaeth contractwyr 3<sup>ydd</sup> parti; 2) Cryfhau dulliau prif-ffrydio'r Gymraeg i bob agwedd ar fesurau a pholisi'r Cynulliad; 3) Gosod gofynion ieithyddol mewn codau

<sup>249</sup> Ibid. tud. 58.

<sup>250</sup> Ibid. tud. 15.

<sup>251</sup> Ibid. tud. 15.

ymarfer; 4) Cryfhau rôl Arolygiaethau Gwasanaethau Cyhoeddus; 5) Cynnwys y Gymraeg yn y Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol; a 6) Cyfleoedd newydd yn sgîl Adolygiad Beecham. Y tu hwnt i Uned Iaith y Cynulliad, ni cheir unrhyw raglen waith neu dasglu i hyrwyddo a sicrhau gweithrediad *Iaith Pawb* ar draws yr holl sectorau, proffesiynau, gweithluoedd a gweithleoedd.

Gellid dadlau y byddai pwysau gan gyrff proffesiynol a gwleidyddion ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau'r union ddulliau a moddau a'r adnoddau angenrheidiol i wireddu gofynion *Iaith Pawb* ynghylch prif-ffrydio, normaleiddio a chydaddoli defnydd o'r Gymraeg yn yr holl feysydd a thrwy'r holl ddulliau a drafodir yn adrannau 7.2, 7.3 a 7.4 uchod yn gam bras ymlaen tuag at unioni'r diffyg arweiniad a diffyg cysondeb a welir o bau i bau ar hyn o bryd.

Nid yw'n draddodiad nac yn arferiad gan gyrff cyhoeddus i fanteisio'n adeiladol ar gyfleoedd o'r fath i brif-ffrydio ystyriaethau ieithyddol heb arweiniad neu bwysau penodol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Hwyrach mai afrealistig felly fyddai disgwyl ymrwymiad i lefelau gwasanaeth yn Gymraeg heb ymyrraeth o'r fath, un ai trwy'r Bwrdd neu drwy adain berthnasol o'r Cynulliad.

\* \* \*

## Pennod 8: Cyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg a hawliau iaith Gymraeg trwy ddeddfwriaeth Senedd y Deyrnas Unedig

Pwysleisiwyd ar sawl achlysur yn yr adroddiad hwn nad trwy un deddf iaith yn unig y bydd modd sefydlu hawliau ieithyddol llawn i siaradwyr Cymraeg a thrigolion Cymru. Yn hytrach, bydd rhaid sefydlu'r hawliau hynny gam wrth gam, trwy gyfuniad o fesurau dros gyfnod o amser. Bydd rhaid hefyd wrth gyfuniad o Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Mesurau Senedd y DU. Bwriad y Bennod hon, felly, yw amlinellu'r math o fesurau y gellid eu cyflwyno yn Senedd y DU, gan fanylu ar dair enghraifft benodol.

### 8.1 Cyfleoedd i gryfhau hawliau iaith Gymraeg trwy fesurau Senedd y DU

Gellid dyrannu cyfleoedd i gryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg trwy ddeddfwriaeth yn Senedd y DU yn dri chategori:

- A) **Mesurau sy'n trosglwyddo'r pŵer deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.** Ceir dwy ffurf ar y mesurau hyn:
  - i) Wrth gynnwys 'pwerau fframwaith' yn neddfau Cymru a Lloegr. Mae hyn yn berthnasol i nifer cyfyngedig o deddfau (sef deddfau a basiwyd cyn i Ddeddf Llywodraeth Cymru ddod yn weithredol megis yr *Education and Inspections Act 2006*). Yn dilyn gweithredu Deddf Llywodraeth Cymru yn llawn ers etholiad Mai 2007, nid oes rhaid i Fesurau'r DU gynnwys 'pwerau fframwaith' gan fod modd ychwanegu materion yn uniongyrchol at Ran 1 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
  - ii) Trwy fesurau (e.e. *Mesur Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007*) sy'n caniatáu ychwanegu materion at Ran 1 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006) ac felly rhoi'r pŵer i'r Cynulliad lunio ei Fesurau ei hun ar y materion hynny.
- B) **Cymalau mewn Mesurau Cymru a Lloegr, Mesurau Prydain Fawr a Mesurau Deyrnas Unedig.** Yn achos y mesurau hyn gellid ychwanegu cymalau i fanylu ar ddarpariaeth yn y Gymraeg neu ddarpariaeth ddwyieithog.
- C) **Mesurau hawliau iaith penodol.** Byddai'n briodol hefyd llunio mesurau Senedd DU penodol ar agweddau ar ddeddfwriaeth iaith neu hawliau iaith mewn meysydd (megis y gyfraith) nad oes pŵer gan y Cynulliad Cenedlaethol i deddfu arnynt.

### 8.2 Yr hawl i dystysgrifau uniaith Gymraeg

Mae'r hawl i gael tystysgrifau genedigaeth, priodas a marwolaeth uniaith Gymraeg yn enghraifft o hawl ieithyddol y gellid ei sicrhau yn gymharol ddi-ffwdan trwy gymal neu gymalau mewn mesur Cymru-Lloegr.

Mynna'r ddeddfwriaeth gyfredol fod genedigaethau, priodasau a marwolaethau yng Nghymru yn cael eu cofnodi'n ddwyieithog. Wrth wneud copi ardystiedig (sef tystysgrif) o'r cofnod gwreiddiol rhaid iddo fod yn gopi cywir o'r cofnod hwnnw.

Canlyniad y ddeddfwriaeth gyfredol yw bod rhaid, felly, i'r Gymraeg a'r Saesneg ymddangos ar dystysgrifau genedigaeth, priodas a marwolaeth.

Pan fu ymgais i ddiwygio'r *Regulatory Reform (Registration of Births and Deaths) (England and Wales only) Order 2004*, bu i'r diwygiad hwnnw gynnwys cymalau a oedd yn caniatáu tystysgrifau uniaith Gymraeg. Er na chafodd y Gorchymyn ei gymeradwyo, mae un o weinidogion y Llywodraeth wedi datgan ei gefnogaeth yn ddiweddar i dystysgrifau uniaith Gymraeg ac ymrwymiad Llywodraeth y DU i ganiatáu tystysgrifau uniaith trwy fesur arall yn y dyfodol:

*"The Government accepts the case for a certificate to be produced in Welsh only and has previously supported changes in the law allowing for "Welsh-only" certificates through Private Members Bills. ... The Government remains committed to enabling Welsh-only certificates and will continue to seek a suitable legislative opportunity."*<sup>252</sup>

### 8.3 Ehangu hawliau ym myd y gyfraith

Ni chaniatâ *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yr hawl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio mesurau ym maes y gyfraith. O ganlyniad, erys y cyfleoedd i lunio mesurau i gryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg yn y maes hwn yn Senedd y DU. Ceir sawl agwedd ar ehangu hawliau ym myd y gyfraith sy'n teilyngu deddfwriaeth bellach, megis:

- yr hawl i reithgor dwyieithog
- hawliau iaith i garcharorion - gan gynnwys y rhai o Gymru yng ngharchardai Lloegr
- yr hawl i wasanaeth Cymraeg gan yr Heddlu.

Awgrymodd adolygiad o Lysoedd Troseddol Cymru a Lloegr (2001)<sup>253</sup> y dylid ystyried cael rheithgorau y mae eu haelodau i gyd yn ddwyieithog, a hynny er mwyn sicrhau prawf teg i bob diffynnydd. Arweiniodd yr adolygiad at bapur ymgynghori a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol ym mis Rhagfyr 2005. Roedd yr ymatebion a gafwyd o du'r gyfraith i'r papur ymgynghori o blaid rheithgorau dwyieithog. Ym mis Ionawr 2007, cyflwynwyd Mesur Rheithgorau Dwyieithog<sup>254</sup> ar ffurf Mesur Rheol deg munud (sef mesur gan Aelod Seneddol). Mae'r Mesur yn galw am ddiwygio adran 10 *Deddf Rheithgorau 1974* fel ei bod yn cynnwys cymalau sy'n sefydlu y bydd rhaid, mewn achosion penodol, i bob aelod o'r rheithgor fod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn deall tystiolaeth yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy gyfrwng cyfieithydd.

**Argymhelliad 39: Dylid ymdrechu i ehangu hawliau ieithyddol ym myd y gyfraith trwy fesurau Senedd y DU er mwyn sefydlu, er enghraifft, yr hawl i reithgor dwyieithog; hawliau iaith i garcharorion - gan gynnwys y rhai o Gymru yng ngharchardai Lloegr; a'r hawl i wasanaeth Cymraeg gan yr Heddlu.**

<sup>252</sup> Llythyr oddi wrth y gweinidog John Healy AS at Hywel Williams AS, Mehefin 27 2007.

<sup>253</sup> *Review of the Criminal Courts of England and Wales* by The Right Honourable Lord Justice Auld, September 2001.

<sup>254</sup> Bilingual Juries (Wales) Bill, Ionawr 2007.



## 8.4 Yr hawl i beidio â phrofi camwahaniaethu ar sail iaith mewn gwasanaethau penodol

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'n anodd darogan faint o bŵer yn union a ddaw i'r Cynulliad trwy'r cais cyntaf am Gymhwysedd Deddfwriaethol i ddeddfu ynglŷn â'r Gymraeg. Pe byddai'r Cynulliad yn ennill y grym i greu mesur sy'n sefydlu'r hawl i wasanaethau yn y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg a thrigolion Cymru, gorau oll. Os na fydd hynny'n digwydd, buasai'n briodol ystyried cyflwyno mesur neu cyfres o fesurau yn Senedd y DU fyddai'n sefydlu'r hawl unigolyddol i siaradwyr Cymraeg beidio â phrofi camwahaniaethu anuniongyrchol ar sail iaith yn achos gwasanaethau penodol.

Serch ei bwyslais ar gyfleoedd cyfartal a dileu camwahaniaethu, nid yw Llywodraeth na Senedd y DU yn gwbl groesawgar i ddeddfwriaeth fyddai'n sicrhau hawliau llawn i siaradwyr Cymraeg. Yn y cyd-destun sydd ohoni, mae'n bosibl bod gwell cyfle i sefydlu'r egwyddor bod camwahaniaethu ar sail iaith yn anghyfreithlon yn achos rhai grwpiau 'bregus' o siaradwyr Cymraeg nac yn achos siaradwyr Cymraeg a thrigolion Cymru yn gyffredinol. Mae gweddill yr bennod hon yn ymhelaethu ar un mesur enghreifftiol o'r fath.

### 8.4.1 Cefndir a chyfiawnhad

Gwelwyd cynnydd di-os yn y gwasanaethau sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg gan gyrff cyhoeddus yn sgîl gweithredu'r Cynlluniau Iaith Gymraeg a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Serch hynny, erys gwendidau mawr yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd. Golyga hyn na chaiff siaradwyr Cymraeg eu trin yn gyfartal â defnyddwyr eraill y gwasanaethau hyn. O ganlyniad, gellid dadlau nad yw safon y gwasanaethau sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg, mewn rhai achosion, gystal â safon y gwasanaethau a ddarperir i siaradwyr Saesneg.<sup>255</sup> Fel y nodwyd uchod (Pennod 3.1), nid oes hawl gan siaradwyr Cymraeg i beidio â phrofi camwahaniaethu ar sail iaith yn yr un modd ag sydd gan unigolyn yr hawl statudol i beidio â phrofi camwahaniaethu ar sail anabledd, hil, oedran neu ryw. Deillia'r gwendid hwn yn uniongyrchol o ddiffygion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Os am flaenoriaethu'r meysydd hynny lle mae angen deddfu i gryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau'r hawliau a'r urddas sylfaenol y cyfeirir atynt gan ddeddfwriaeth hawliau dynol rhyngwladol, yna gellid dadlau mai'r meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a gweinyddu'r gyfraith yw'r mwyaf allweddol. Nodir pedair carfan allweddol o 'ddefnyddwyr bregus' gan Gyngor Defnyddwyr Cymru sy'n 'haeddu sylw arbennig' sef:

- cleifion iechyd meddwl;
- pobl ag anableddau dysgu ac anghenion arbennig eraill;
- pobl hŷn;
- plant ifanc.

Gellid ystyried rhoi blaenoriaeth, yn y lle cyntaf, i'r gwasanaethau hynny sy'n effeithio fwyaf arnynt hwy.<sup>256</sup>

<sup>255</sup> Andrew Misell, Cyngor Defnyddwyr Cymru, *Y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd: Ehangder, Natur a Dichonolrwydd Darpariaeth Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru*, 2000.

<sup>256</sup> Ibid. tud. 24-25.

Y modd mwyaf grymus o unioni'r anghyfartaledd a'r annhegwch hyn fyddai llunio mesur iaith newydd a fyddai'n sefydlu'r hawl i siaradwyr Cymraeg beidio â chael eu trin yn wahanol i siaradwyr Saesneg o ran defnydd iaith yng nghyd-destun gwasanaethau penodol. Byddai mesur o'r fath yn blaengynllunio ar gyfer ymestyn yr hawl hon i siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol ymhen amser, gan ddechrau trwy flaenoriaethu grwpiau penodol o siaradwyr.

#### 8.4.2 'Yr hawl i wasanaeth' o dan fesur o'r fath

- Buasai'r mesur yn cael ei gyflwyno i sefydlu hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau penodol a gwneud achosion o wahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg ar sail iaith gan ddarparwyr gwasanaethau yn anghyfreithlon yng nghyd-destun y gwasanaethau hynny.
- Wrth ddatgan bod gwahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg ar sail iaith yn anghyfreithlon, buasai'r mesur yn sefydlu'r un egwyddor o gyfleoedd cyfartal sy'n sail i *Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976* a *Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995*.
- Buasai'r mesur yn sefydlu'r egwyddor bod cyfrifoldeb ar y darparwr i ymateb i ddymuniadau ieithyddol y defnyddiwr fel rhan o'r berthynas sydd rhyngddynt. Gwelir egwyddor debyg yn *Neddf Iechyd Meddwl 2006* a fabwysiadwyd gan Senedd yr Alban. Mae'r ddeddf honno'n amlinellu pwerau'r awdurdodau iechyd meddwl. Yn ogystal, ar wyneb ddalen y ddeddf, ceir rhestr o egwyddorion sy'n nodi'r hyn y mae gan y claf yr hawl i'w ddisgwyl.<sup>257</sup>
- Buasai'r mesur yn cryfhau hawl siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaeth trwy gyfrwng eu dewis iaith ond nid yr hawl i gyflogaeth trwy gyfrwng eu dewis iaith.
- Buasai rheolau dilynol y mesur yn diffinio meysydd blaenoriaethol a'r 'gwasanaethau penodol arbennig' lle byddai gan yr unigolyn yr hawl i beidio â chael ei d/thrin yn wahanol o ran defnydd iaith megis:
  - therapi iaith a lleferydd (yn arbennig therapi lleferydd plant)
  - asesu anghenion pobl hŷn / pobl hŷn ddryslud
  - darparu gofal a gofal preswyl i bobl ag anawsterau dysgu
  - asesu pobl ag anawsterau dysgu
  - gofal a thriniaeth iechyd meddwl
  - asesu iechyd meddwl ar gyfer derbyniad gorfodol i'r ysbyty
  - darparu gofal a gofal preswyl i blant
  - asesu plant ar gyfer eu derbyn i ofal
  - gofal salwch angheuol
  - gofal yn y cartref a gofal parhaol yn y cartref
  - cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn
  - gwasanaethau argyfwng a brys - Gwasanaethau Ambiwlans a Pharafeddygon
  - ymarferwyr annibynnol - Meddygon Teulu, Deintyddion a Fferyllwyr
  - ymwelwyr iechyd
  - gwasanaethau beichiogrwydd a bydwreigiaeth
  - unedau gofal arbennig
  - agweddau anfeddygol ar y maes iechyd a gofal (e.e. yn ystod arhosiad mewn ysbytai) - Radio a Theledu, Cylchgronau a Phapurau Newydd, Crefydd a Chaplaniaid

<sup>257</sup> Egwyddorion Milan – 'Principle of Reciprocity'.

- y gwasanaeth prawf

- Buasai'r meysydd blaenoriaethol yn cynnwys darparwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gan gynnwys y darparwyr preifat sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus dan gytundebau 3ydd parti. Buasai'r mesur yn caniatáu ychwanegu at y rhestr trwy Orchymyn gan y Cynulliad.

#### 8.4.3 Cryfhau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Buasai mesur o'r fath hefyd yn cryfhau *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* ar ei ffurf bresennol, trwy:

- Gryfhau hawl siaradwyr Cymraeg yn eu hymwneud â darparwyr gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gryfhau eu hawl i ohebu yn Gymraeg; siarad Cymraeg â staff y corff ar y ffôn; siarad Cymraeg wrth dderbyn gwasanaethau wyneb-yn-wyneb; a derbyn gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg.
- Sicrhau bod llinellau cymorth a gwefannau darparwyr yn cynnig gwasanaeth Cymraeg llawn.
- Buasai adrannau o ddarparwyr sy'n gwasanaethu Cymru o rannau eraill o'r DU yn dod o dan yr un amodau statudol i baratoi Cynllun Iaith Gymraeg ag sy'n weithredol eisoes o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ac felly, buasai mesur o'r fath hefyd yn cryfhau eu cynlluniau iaith hwythau.

#### 8.4.4 Gweithredu'r mesur

- Buasai'r mesur yn cyd-fynd â datblygiadau sy'n codi yn sgîl sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldebau a Hawliau Dynol drwy wneud holl ddarpariaethau'r Mesur newydd yn faterion sydd o dan oruchwyliaeth y Comisiwn.
- Buasai'r mesur yn cysylltu â datblygiadau sy'n codi yn sgîl pasio Mesur Ombwdsmon (Cymru) drwy ddarparu dull a modd i ddwyn cwynion gerbron y dyfarnydd annibynnol hwnnw a'u datrys.
- Buasai'r mesur yn cyd-fynd â *Siarter Ewrop ar gyfer leithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol* trwy sefydlu'r hawl i ddefnyddio iaith leiafrifol.

#### 8.4.5 Goblygiadau mesur fyddai'n sefydlu hawliau ieithyddol i 'grwpiau bregus' o ran cynllunio iaith a chynllunio'r gweithlu

##### ***Strategaethau Sgiliau iaith***

Buasai gweithredu'r mesur yn rhoi pwysau ychwanegol ar weithluoedd y darparwyr dan sylw i ddatblygu a blaengynllunio ar gyfer caffael sgiliau iaith Gymraeg priodol i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn effeithiol. Mae canllawiau statudol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y broses o baratoi Cynlluniau iaith yn mynd i'r afael â hyn.<sup>258</sup> Yn yr adran o'r canllawiau sy'n ymwneud â *Gweithredu ac Arolygu'r Cynllun*, mae canllawiau 8(i) ac 8(ii) yn ymdrin â staffio gweithrediad y Cynllun:

<sup>258</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Cynlluniau Iaith Gymraeg – Eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, Caerdydd, 1996.

*“Dylai'r cynllun bennu:*

- *mesurau i sicrhau bod gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg;*
- *mesurau i glustnodi'r swyddi hynny lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle ystyrir ei fod yn ddymunol er mwyn darparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg”.*<sup>259</sup>

Er mwyn hwyluso'r dasg o ymdrin mewn modd strategol ag agweddau staffio, mae'r Bwrdd yn cynnig y dull canlynol o weithredu:

1. *“Drwy ystyried yn fanwl natur ei weithgareddau a'i berthynas â'r cyhoedd yng Nghymru dylai'r sefydliad mewn modd gwrthrychol glustnodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad neu ysgrifennu yn Gymraeg yn sgil hanfodol a'r rhai lle mae'n ddymunol, a lefel y medruswydd sydd ei angen. Dylid llunio disgrifiadau tîm a disgrifiadau swyddi yn unol â hynny, lle mae angen;*
2. *Dylai'r sefydliad hefyd sefydlu faint o'i staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg, a lefel eu medruswydd, a faint o'r rheiny sydd ar hyn o bryd mewn gweithleoedd neu swyddi a glustnodwyd yn unol ag (1) uchod. Yna dylid cymharu canlyniadau'r ymarfer hwn â chasgliadau (1) uchod er mwyn canfod lle mae angen gweithredu;*
3. *Yna dylai'r sefydliad ystyried y ffordd orau i gyflawni gweddill yr amcanion staffio a bennir yn (2) uchod. Gall y dewis sydd ar gael gynnwys trosglwyddo staff sy'n siarad Cymraeg i weithleoedd neu swyddi penodol, darparu hyfforddiant dysgu Cymraeg i staff, a recriwtio siaradwyr Cymraeg i weithleoedd neu swyddi penodol;*
4. *Dylai'r sefydliad fabwysiadu rhaglen weithredu lle pennir blaenoriaethau. Dylai rheolwyr ac eraill sy'n gyfrifol am recriwtio, hyfforddi ac arolygu staff fod yn gyfarwydd â'r rhaglen, ac yn gyfrifol am ei gweithredu;*
5. *Dylid arolygu gweithredu'r rhaglen fel rhan o'r gwaith o arolygu'r cynllun [y Cynllun Iaith statudol], a fydd hefyd yn amlygu'r camau i'w cymryd os bydd nifer y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn dechrau lleihau”.*<sup>260</sup>

Cafodd y cyngor uchod, a gyflwynir â Chanllaw 8(i) ac 8(ii), ei baratoi mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.

Mae'r cyrff cyhoeddus hynny sydd fwyaf blaenllaw o ran gweithredu cynlluniau iaith eisoes wedi datblygu neu wedi dechrau datblygu Strategaethau Sgiliau Iaith. Buasai mesur sy'n sefydlu hawliau ar gyfer 'grwpiau bregus' o siaradwyr Cymraeg yn

---

<sup>259</sup> Ibid. tud. 36.

<sup>260</sup> Ibid. tud. 37.

cynyddu'r gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau penodol i weithredu Strategaeth Sgiliau Iaith er mwyn datblygu a blaengynllunio ar gyfer caffael sgiliau iaith.

### **Cymhwyster Cymraeg Proffesiynol**

Er mwyn gweithredu mesur o'r fath yn effeithiol, byddai'n rhaid hefyd rheoleiddio'r proffesiynau a sefydlu cymwysterau iaith Gymraeg a fyddai'n orfodol i bawb sy'n gweithio neu sydd am weithio yn y proffesiynau hynny. Gellid sefydlu **Cymhwyster Cymraeg Proffesiynol (CCP)** ar gyfer galwedigaethau penodol megis gweithwyr iechyd a gofal.

Mae'r egwyddor o drin iaith fel *Legitimate Occupational Qualification* eisoes yn weithredol yng Ngwledydd Prydain yng nghyd-destun y Saesneg, ac fe'i gweithredir hefyd yng nghyswllt gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir yn ieithoedd gwahanol grwpiau ethnig yng Ngwledydd Prydain. Yn achos meddygon, nyrsys, bydwragedd, fferyllyddion a deintyddion, mae gofyn i gyflogwyr y Gwasanaeth Iechyd (NHS) sicrhau bod y gweithwyr a gyflogir o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn meddu ar y medrau iaith a'r medrau cyfathrebu angenrheidiol yn y Saesneg. Dywed cylchlythyr HSC 1999/137 yr Adran Iechyd fel a ganlyn:

*“Employers are responsible for ensuring that the staff they employ have the necessary language and communication skills. A valid registration of an EEA (\*European Economic Area) national from a healthcare regulatory authority is no guarantee of competence in English language or usage. This circular clarifies the respective roles of registration authorities (who verify the qualifications of healthcare professionals and register them to practice within the UK) and employers ...”*<sup>261</sup>

Deillia'r gofyniad statudol am brawf o gymwysterau iaith gweithwyr iechyd o dramor o Ddeddf Meddygaeth 1983. Dywed Adran 22 y Ddeddf, sy'n manylu ar y gofynion ar feddygon â chymwysterau tramor, bod rhaid i'r meddyg fodloni Cofrestrwyd y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) fod ganddi/o *“the necessary knowledge of English or is an exempt person”*. Nid yw'r ddeddf yn manylu ar y prawf iaith na'r union lefel o gymhwyster y disgwylir i ymgeiswyr feddu arni.

Yn ymarferol, mae'r rhan helaeth o feddygon o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn sefyll y prawf PLAB (*Professional and Linguistic Assessment Board*)<sup>262</sup> sy'n gyfuniad o brawf o wybodaeth feddygol a gwybodaeth o'r Saesneg. Ni chaiff meddyg o'r gwledydd hynny sefyll y prawf PLAB heb gyrraedd y safon ddisgwyliedig yn y prawf IELTS (*International English Language Testing System*). Mae'r prawf IELTS yn asesu medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu ar ystod o fandiau sy'n amrywio o 1 ar gyfer 'non-users of English' i 9 ar gyfer 'expert users'. Rhaid ennill marc o 7.0 o leiaf ar gyfer siarad ac isafswm o 6.0 ar gyfer gwrando, darllen ac ysgrifennu er mwyn eistedd y prawf PLAB. Cafodd y cymhwyster IELTS ei achredu gan yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm yn y Deyrnas Unedig fel rhan o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar gyfer y DU. Yn yr Awdurdod mae cymwysterau IELTS bandiau 6 a 7 yn cyfateb i NVQ lefel 2, TGAU lefelau A-C.

<sup>261</sup> Cylchlythyr o'r Adran Iechyd yn 1999 – HSC 1999/137 to NHS employers, *Employment of European Economic Area nationals: ensuring language competency*, <http://www.dh.gov.uk/assetRoot/04/01/20/04/04012004.pdf>

<sup>262</sup> Yn ystod 2002, roedd 71% o'r 3658 o feddygon tramor a gafodd gofrestrriad cyfyngedig gan y GMC wedi pasio'r prawf PLAB. [http://www.gmc-uk.org/global\\_sections/sitemap\\_frameset.htm](http://www.gmc-uk.org/global_sections/sitemap_frameset.htm)

Yn achos y Gymraeg, ceir nifer o ddatblygiadau a fyddai'n galluogi sefydlu prawf penodol i fesur sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y gweithle a modd o gydnabod cymwysterau iaith cydnabyddedig eraill. Mae CBAC wedi sefydlu 5 lefel cymhwyster 'Defnyddio'r Gymraeg' ar gyfer y sector 'Cymraeg i Oedolion', sy'n cyd-fynd â system arholi Ewropeaidd ALTE (*Association of Language Testers in Europe*), er mwyn mesur cynnydd wrth ddysgu ail iaith. Amlygodd astudiaeth gan Gwmni Iaith i ELWa<sup>263</sup> ar y galw am sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle gan gyflogwyr sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg yr angen i deilwra cymwysterau iaith ar gyfer gofynion iaith swyddi penodol. Mae ymgais gan rai o'r awdurdodau sydd fwyaf blaenllaw o ran datblygu a gweithredu Strategaeth Sgiliau Iaith wedi mynd ati i alw am greu rhaglen gyfrifiadurol sy'n caniatáu categorïddio safonau iaith ar gyfer swyddi penodol.

Felly, o ran sefydlu Cymhwyster Cymraeg Proffesiynol:

- Gellid gosod yr angen am o leiaf Tystysgrif Ganolradd neu uwch mewn Cymraeg Ail Iaith (lefel ganolradd)<sup>264</sup> mewn sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu ar gyfer swyddi penodedig mewn meysydd allweddol o fewn y sector gofal ac iechyd.
- Gellid hefyd ystyried datblygu cyrsiau sgiliau iaith (ac, felly, cymwysterau iaith) sydd wedi'u teilwra'n arbennig i anghenion swyddi penodol a'u sefydlu fel rhan o hyfforddiant proffesiynol therapyddion lleferydd, ymwelwyr iechyd ayb.
- Gellid cynnwys prawf iaith fel rhan o brofion a chymwysterau proffesiynol yn y sector gofal a iechyd.

#### **8.4.6 Sefydlu'r egwyddor o hawliau iaith a chyfle cyfartal i'r unigolyn**

Un o brif fanteision y mesur fyddai sefydlu **hawl i'r unigolyn** beidio â phrofi camwahaniaethu anuniongyrchol ar sail iaith. Cyfiawnhad cyffredin gan ddarparwyr dros beidio â darparu gwasanaethau Cymraeg yw'r 'diffyg galw' o du'r cyhoedd. Trwy fesur o'r fath ni fuasai angen profi 'galw' na thrafod beth a gydnabyddir fel 'galw digon sylweddol' i gyfiawnhau darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Buasai'r hawl unigolyddol hon yn golygu y byddai rhaid i ddarparwyr gwasanaethau wneud y trefniadau priodol i sicrhau bod eu gwasanaeth ar gael yn Gymraeg pe bai person sy'n siarad Cymraeg yn dymuno defnyddio'r gwasanaeth hwnnw.

#### **8.4.7 Ehangu a chryfhau grym rheoleiddio Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

Erys y mater o oruchwylio a sicrhau cydymffurfiaeth darparwyr yn hollbwysig i hygredd unrhyw fesur newydd. Byddai mesur sy'n sefydlu hawl unigolyn i beidio â phrofi camwahaniaethu ar sail iaith yn sicr o greu rhagor o waith monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg (neu'i olynydd). Byddai'n gwbl hanfodol sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i wneud y gwaith o gynnig gwybodaeth a chefnogaeth i ddarparwyr, goruchwylio eu gwasanaethau Cymraeg a sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Buasai'n briodol, yn ogystal, i fesur o'r fath osod dyletswydd statudol ar y Bwrdd i warchod hawliau siaradwyr Cymraeg yn achos meysydd penodedig a rhoi'r grym i Fwrdd yr Iaith fedru cyflwyno rhybuddion cydymffurfiaeth a'r gallu i sefydlu adolygiad barnwrol.

<sup>263</sup> Cwmni Iaith, 'Research into Welsh Language Skills Needs of Employers Operating Statutory and Voluntary Welsh Language Schemes', Bedwas: ELWa, 2004.

<sup>264</sup> Sef Lefel 3 (Fframwaith Safonau Iaith Cenedlaethol/safon gyfatebol mewn prawf arall)

**Argymhelliad 40: Os am flaenoriaethu'r meysydd hynny lle mae angen deddfu i gryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau'r hawliau a'r urddas sylfaenol y cyfeirir atynt mewn deddfwriaeth hawliau dynol ryngwladol, yna dylid rhoi blaenoriaeth i feysydd iechyd, gofal cymdeithasol a gweinyddu'r gyfraith.**

**Argymhelliad 41: Dylid blaenoriaethu'r pedair carfan allweddol o 'ddefnyddwyr bregus' sy'n 'haeddu sylw arbennig' sef: cleifion iechyd meddwl; pobl ag anableddau dysgu ac anghenion arbennig eraill; pobl hŷn; a phlant ifanc.**

**Argymhelliad 42: Dylid ystyried cyflwyno mesur yn Senedd y DU a fyddai'n sefydlu'r hawl i siaradwyr Cymraeg beidio â phrofi camwahaniaethu anuniongyrchol ar sail iaith yn achos gwasanaethau penodol.**

**Argymhelliad 43: Dylid ystyried sefydlu Cymhwyster Cymraeg Proffesiynol (CCP) ar gyfer galwedigaethau penodol megis gweithwyr iechyd a gofal a fyddai'n orfodol i bawb sy'n gweithio neu sydd am weithio yn y proffesiynau hynny.**

## 8.5 Casgliadau

Yn y bennod hon, pwysleisiwyd mai trwy gyfuniad o Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Mesurau Senedd y DU y bydd rhaid gweithredu i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg a sefydlu hawliau ieithyddol i siaradwyr Cymraeg a thrigolion Cymru. Gwelwyd bod tri phrif gyfle i gyflawni hyn trwy ddeddfwriaeth Senedd y DU, sef trwy:

- Fesurau sy'n trosglwyddo'r pŵer deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cymalau mewn Mesurau Cymru a Lloegr, Mesurau Prydain Fawr a Mesurau Deyrnas Unedig.
- Mesurau hawliau iaith penodol.

Gwelwyd bod Llywodraeth y DU wedi datgan ei chefnogaeth i ganiatáu tystysgrifau genedigaeth uniaith Gymraeg pan gyfyd cyfle deddfu priodol, megis trwy ddiwygiad yn y dyfodol o'r *Regulatory Reform (Registration of Births and Deaths) (England and Wales only) Order 2004*.

Nodwyd, yn ogystal, nad yw'r Gyfraith yn un o'r meysydd y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu arno. Dim ond trwy fesurau Senedd y DU y gellid, felly, ymdrechu i ehangu hawliau ieithyddol ym myd y gyfraith. Ymgais gyfredol i ehangu hawliau yn y parth hwn yw'r Mesur Rheithgorau Dwyieithog<sup>265</sup> a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2007. Mae'r Mesur yn galw am ddiwygio adran 10 *Deddf Rheithgorau 1974* fel ei bod yn cynnwys cymalau sy'n sefydlu y bydd rhaid, mewn achosion penodol, i bob aelod o'r rheithgor fod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn deall tystiolaeth yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy gyfrwng cyfieithydd.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, bu'n anodd darogan faint o bŵer yn union a ddaw i'r Cynulliad trwy'r cais cyntaf am Gymhwysedd Deddfwriaethol trwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor i ddeddfu ynglŷn â'r Gymraeg. Mater i Senedd y DU fydd hynny. Pe byddai'r Cynulliad yn ennill y grym i greu mesur sy'n sefydlu'r hawl i wasanaethau yn y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg a thrigolion Cymru, gorau oll. Os na fydd hynny'n

<sup>265</sup> Bilingual Juries (Wales) Bill, Ionawr 2007.

digwydd, amlinellwyd mesur y gellid ystyried ei gyflwyno yn Senedd y DU a fyddai'n sefydlu'r hawl i siaradwyr Cymraeg beidio â phrofi camwahaniaethu anuniongyrchol ar sail iaith yn achos gwasanaethau penodol.

Daw'r cyfleoedd i'r Cynulliad ddeddfu ym maes yr iaith Gymraeg yn fwy eglur wrth i'r broses o gyflwyno'r cais am Gymhwysedd Deddfwriaethol fynd rhagddi yn ystod y misoedd nesaf. Doed a ddêl, rhagwelir y bydd rhaid wrth gyd-gynllunio gofalus rhwng camau deddfu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU. Fel y nodwyd ym Mhennod 4.5 byddai'r rôl gydlynol hon yn gweddu i Uned Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad, gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu'i olynnydd yn cadw gorolwg ac yn cynnig cyngor amhleidiol ar y materion hynny.

\*

\*

\*



## Pennod 9: Casgliadau ac Argymhellion

### 9.1 Casgliadau

Creu “Cymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd.”<sup>266</sup> Dyma weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cynigia'r weledigaeth her sylweddol, yn enwedig o ran galluogi pawb sydd am fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny'n llawn.

Er mwyn llwyddo bydd rhaid gwneud rhagor na chyflawni camau gweithredu *laith Pawb*, er bod y rheini'n gamau i'r cyfeiriad cywir. I wireddu'r weledigaeth, bydd rhaid hefyd wrth gyfuniad o ddeddfwriaeth bellach, gweithredu polisi effeithiol, newid agweddau, dysgu, annog a chefnogi.

Bwriad yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth gyfeiriol i'w defnyddio wrth ystyried cyfleoedd gogyfer â llunio deddfwriaeth newydd ynglŷn â'r iaith Gymraeg. Ei bwriad hefyd yw cyflwyno tystiolaeth ac argymhellion er mwyn mynd i'r afael â gweithredu polisi yn gadarn o blaid hawliau siaradwyr Gymraeg i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

Dengys **Pennod 1** bod sefyllfa deddfwriaethol y Gymraeg wedi cryfhau'n sylweddol ers dechrau'r ganrif ddiwethaf. Fodd bynnag, tra bod mabwysiadu Cynlluniau Iaith Gymraeg wedi cynyddu a gwella'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i unigolion trwy gyfrwng y Gymraeg, ceir anghysondeb yn y modd y gweithredir y Cynlluniau hyn ac, felly, anghysondeb yn y gwasanaethau Gymraeg a ddarperir.

Dengys **Pennod 2** bod yr agenda ar gyfer diwygio Deddf 1993 a chyflwyno mesur(au) iaith newydd yn un eang. Gwelir, yn ogystal, y ceir cefnogaeth drawsbleidiol bellach i'r galw am lunio deddfwriaeth newydd ynglŷn â'r Gymraeg, a hynny'n cael lle o fewn amserlen y Cynulliad ar gyfer hydref 2007. Y prif gonsŷrn ym mhob achos a adolygwyd yw'r angen i gryfhau eto ar hawliau unigolion i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r pwyslais ar hawliau ieithyddol yn amserol ac yn adlewyrchu nifer o ddatblygiadau deddfwriaethol ar lefel Ewropeaidd a Phrydeinig sy'n rhoi pwyslais ar hawliau'r unigolyn gan gynnwys yr hawl i ddefnyddio ieithoedd lleiafrifol.

Ym **Mhennod 3**, gwelir bod *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* yn wannach o lawer na'r deddfau cydraddoldebau eraill o ran sefydlu hawliau penodol ar gyfer siaradwyr Gymraeg. Ceir felly anghysondeb yn y maes cydraddoldebau y perthyn y Gymraeg iddo yng Nghymru gan fod y deddfwriaeth yn gwahardd camwahaniaethu ar sail anabledd, hil a rhyw ond nid ar sail iaith. Mae deddfwriaeth Ewropeaidd a rhyngwladol yn cydnabod hawliau iaith fel un o hawliau sylfaenol unigolion. Gwelir bod cydnabyddiaeth o hawliau iaith eisoes yn ymddangos yn natganiadau polisi a dogfennau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth y Cynulliad. Awgryma hyn fod y sefyllfa'n aeddfed i bwysu am gydnabyddiaeth o hawliau iaith siaradwyr Gymraeg wrth weithredu'r deddfwriaeth gyfredol ac wrth lunio unrhyw fesur(au) iaith newydd neu unrhyw fesurau penodol eraill a allai neilltuo hawliau ieithyddol mewn meysydd a chyd-destunau penodol i siaradwyr Gymraeg.

<sup>266</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog*, Chwefror 2003, tud. 1.

Un o'r problemau sy'n llesteirio gweithrediad yr agenda gydraddoldebau yng Nghymru yw bod cyfartaledd i'r Gymraeg, o ganlyniad i statws statudol cyfyngedig y Bwrdd, yn cael ei weld yn llai "cyfartal" na'r cyfartaleddau eraill. Dengys **Pennod 4** bod sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yn tanlinellu hyn ac yn cyfiawnhau'r angen i:

- (i) sefydlu hawliau ieithyddol pendant i siaradwyr Cymraeg, a
- (ii) sicrhau bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu'r Comisiynydd Iaith arfaethedig yn cael y pwerau i gyflwyno rhybuddion cydymffurfiaeth a'r gallu i sefydlu adolygiad barnwrol.

Wedi cydnabod bod y Gymraeg yn teilyngu lle priodol o fewn yr agenda gydraddoldebau, yr unig anfantais o bosibl o gysylltu'r iaith Gymraeg â'r agenda honno yw'r posibilrwydd o glymu mater parhad ac adferiad yr iaith yn gyfan gwbl wrth y cyd-destun hwnnw. Mae gwyddor cynllunio iaith, wrth gwrs, yn llawer ehangach.

Awgrymwn y dylid ailsefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel Comisiwn yr Iaith Gymraeg. Byddai'r Comisiwn arfaethedig yn parhau i ddwyn holl gyfrifoldebau presennol y Bwrdd ond gyda'r cyfrifoldeb statudol newydd i ddiogelu hawliau siaradwyr Cymraeg (a dinasyddion Cymru'n gyffredinol i ddysgu'r iaith) a gyda'r un grym rheoleiddio a'r gallu i ddwyn adolygiad barnwrol ag sydd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Byddai cyflawni'r holl ddyletswyddau hyn y tu hwnt i allu un Comisiynydd Iaith gyda thîm bychan o staff cynorthwyol megis yn achos y Comisiynydd Plant neu'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn. O ganlyniad, dadleuwn y byddai'n fwy priodol ailsefydlu'r Bwrdd yn Gomisiwn yr Iaith Gymraeg. Byddai'n rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol a diwygio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 i gyflawni hyn.

Dadleuwyd hefyd o blaid creu Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg gref o fewn Llywodraeth y Cynulliad fyddai'n ehangu ar waith presennol yr Uned Iaith Gymraeg. Buasai'r Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg arfaethedig yn cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu, gweithredu a chyfathrebu mesurau, polisiâu a chynlluniau sy'n cyflawni ei hamcanion i hyrwyddo a gwarchod yr iaith Gymraeg. Byddai dyletswydd ar yr Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg i gadw golwg hefyd ar fesurau Cymru-Lloegr, Prydain Fawr a DU yn Senedd y DU yn San Steffan.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn berchen ar y grym angenrheidiol i greu Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg yn ddi-oed heb orfod gwneud cais ar Lywodraeth y DU. Ceir yma gyfle, felly, i fynd ati ar unwaith i gryfhau'n sylweddol sefyllfa'r Gymraeg a hawliau siaradwyr Cymraeg a dinasyddion Cymru yn gyffredinol.

Mae'n gwbl briodol bod unrhyw gynigion i ddiwygio Deddf Iaith 1993 a chyflwyno mesurau eraill i gryfhau a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn cael eu llunio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n codi yn sgîl *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Dengys **Pennod 5** nad yw'n eglur eto ym mha fodd y byddid yn cyfyngu ar gyfrifoldeb y Cynulliad dros yr iaith Gymraeg, heblaw mai mater i Senedd y Deyrnas Unedig fyddai hynny. Cofiw'n hefyd y byddai fersiwn ddiwygiedig o Ddeddf 1993 yn parhau i fod yn fesur y bydd angen craffu democrataidd arno yn San Steffan gan fod y ddeddf yn weithredol ar lefel y Deyrnas Gyfunol ac yn creu goblygiadau statudol i gyrff sy'n gweithredu o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Felly, wrth bwysleisio cyfrifoldeb y Cynulliad i arwain yr agenda ar gyfer deddfwriaethu pellach i hybu a gwarchod sefyllfa'r Gymraeg, rhaid

edrych hefyd am gyfleoedd a gyfyd yn San Steffan i ategu a chryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mwyn gwarchod a hybu defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymdeithasol, mae angen fframwaith deddfwriaethol sy'n symud ymhellach na darparu gwasanaethau'n unig. Dylid, felly, ystyried gweithredu ar sawl agwedd er mwyn sicrhau statws cydnabyddedig i'r Gymraeg a mabwysiadu gweithdrefnau a fyddai'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd cymdeithasol.

Nid trwy un ddeddf iaith yn unig y bydd modd sefydlu hawliau ieithyddol llawn i siaradwyr Cymraeg a thrigolion Cymru. Yn hytrach, bydd rhaid sefydlu'r hawliau hynny gam wrth gam, trwy gyfuniad o fesurau dros gyfnod o amser. Bydd rhaid hefyd wrth gyfuniad o Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Mesurau Senedd y DU.

Ystyriwyd rhai opsiynau ar gyfer diwygio *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* ym **Mhennod 6**. Nodwyd sawl ffordd o weithredu er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan gwmnïau preifat a mudiadau gwirfoddol. Yn gryno, os am gynyddu'r gofyn ar gwmnïau preifat a mudiadau gwirfoddol i ddarparu eu gwasanaethau'n ddwyieithog trwy fesurau deddfwriaeth, bydd rhaid:

- Blaenoriaethu rhai mathau o gwmnïau a mudiadau gwirfoddol yn ôl natur y defnyddwyr a'r gwasanaeth a ddarperir.
- Hyrwyddo manteision busnes, egwyddorion ansawdd gwasanaeth a chyfle cyfartal, a dulliau cost effeithiol o gynyddu gallu'r cwmni neu'r mudiad i gynnig gwasanaethau dwyieithog.
- Buddsoddi'n ddigonol i gefnogi darparwyr a sicrhau cydymffurfiaeth.
- Sicrhau'r gallu ieithyddol o fewn y gweithlu trwy fuddsoddiad pellach a sylweddol mewn rhaglenni hyfforddiant iaith a'r sector addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Cefnogwyd bwriad presennol Llywodraeth y Cynulliad i gadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg mewn Mesur Cynulliad. Byddai hyn yn creu statws symbolaidd i'r iaith a allai gryfhau'r cyfleoedd i ddeddfu a gweithredu o blaid y Gymraeg ac anghenion siaradwyr a dysgwyr. Nodwyd, fodd bynnag, nad trwy ddatganiad o'r math hwn yn unig y gellid sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob agwedd ar fywyd cymdeithasol.

Bu **Pennod 7** yn ymdrin â nifer o gyfleoedd i wella ystod a safon y ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg sy'n galw am well ddulliau a moddau o sicrhau gweithrediad yn hytrach nag, o reidrwydd, deddfu pellach.

Nodwyd chwe maes penodol ar gyfer cryfhau gweithrediad sef: 1) Cryfhau cydymffurfiaeth contractwyr 3<sup>ydd</sup> parti; 2) Cryfhau dulliau prif-ffrydio'r Gymraeg i bob agwedd ar fesurau a pholisi'r Cynulliad; 3) Gosod gofynion ieithyddol mewn codau ymarfer; 4) Cryfhau rôl Arolygiaethau Gwasanaethau Cyhoeddus; 5) Cynnwys y Gymraeg yn y Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol; a 6) Cyfleoedd newydd yn sgîl Adolygiad Beecham.

Daw'r cyfleoedd i'r Cynulliad ddeddfu ym maes yr iaith Gymraeg yn fwy eglur wrth i'r broses o gyflwyno'r cais am Gymhwysedd Deddfwriaethol fynd rhagddi yn ystod y misoedd nesaf. Doed a ddêl, rhagwelir y bydd rhaid wrth gyd-gynllunio gofalus rhwng camau deddfu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU. Ym **Mhennod 8**, amlinellir y mathau o fesurau y gellid eu cyflwyno yn Senedd y DU, gan fanylu ar :

- ehangu hawliau siaradwyr Cymraeg trwy gymalau mewn mesurau amrywiol ar gyfer Cymru-Lloegr, Prydain Fawr a'r Deyrnas Unedig;
- ehangu hawliau ym myd y Gyfraith;
- cyflwyno mesur i sefydlu'r hawl i siaradwyr Cymraeg beidio â phrofi camwahaniaethu anuniongyrchol ar sail iaith mewn gwasanaethau penodol.

## 9.2 Argymhellion

### 9.2.1 Cynlluniau Iaith Gymraeg a Chynlluniau Addysg Gymraeg

Argymhelliad 1: Dylid parhau â'r drefn o weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol gan edrych am gyfleoedd deddfwriaethol i gryfhau dyletswydd cyrff i weithredu eu cynlluniau iaith yn llawn. (Pennod 1.3.1)

Argymhelliad 2: Dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg sefydlu trefn fanwl a thrwyadl ar gyfer arolygu a monitro Cynlluniau Addysg Gymraeg. (Pennod 1.3.2)

Argymhelliad 3: Dylid meithrin agwedd llawer iawn mwy holistaidd a chyfannol tuag at gynllunio iaith ar draws pob gwasanaeth a sector awdurdodau unedol. (Pennod 1.3.2)

Argymhelliad 4: Dylid sicrhau bod Cynllun Iaith Gymraeg a Chynllun Addysg Gymraeg pob Awdurdod Unedol yn rhannu'r un weledigaeth ac yn atgyfnerthu ei gilydd. (Pennod 1.3.2)

### 9.2.2 Hawliau ieithyddol

Argymhelliad 17: Dylid gweithredu i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg a sefydlu hawliau ieithyddol pendant i siaradwyr Cymraeg a thrigolion Cymru trwy gyfuniad o Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Mesurau Senedd y DU.

- (i) Dylai Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad (gweler Argymhelliad 16 isod) arwain ar hyn gan gydweithio'n agos â Swyddfa Cymru.
- (ii) Dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd gadw gorolwg ar gyfleoedd deddfu o safbwynt amhleidiol a hyd-braich oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad gan gynghori fel y bo'n briodol. (Pennod 5.1)

Argymhelliad 5: Dylid ystyried cyfleoedd i ddeddfu i sicrhau hawliau i bobl Cymru fedru defnyddio a chael mynediad i'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. (Pennod 2.3.6)

Argymhelliad 7: Dylid cynnal trafodaeth ddeallusol a chytbwys ynglŷn â hawliau unigolyddol a hawliau grŵp lleiafrifol er mwyn cyfarwyddo barn gyhoeddus a chyfrannu at ddatblygiadau mewn cyfraith a pholisi. (Pennod 3.5)

Argymhelliad 9: Dylid sefydlu hawliau ieithyddol pendant i siaradwyr Cymraeg. (Pennod 4.1.3)

### 9.2.3 Hawliau ieithyddol siaradwyr Cymraeg a'r maes cydraddoldebau

Argymhelliad 6: Dylid sefydlu'r egwyddor bod hawliau unigolion i ddysgu Cymraeg a hawliau siaradwyr Cymraeg i'w defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd yn fater cyfle cyfartal dilys a gydnabyddir gan gyfraith a pholisi cyfle cyfartal yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. (Pennod 3.3)

Argymhelliad 8: Dylid gochel rhag clymu mater parhad ac adferiad yr iaith yn gyfan gwbl wrth y cyd-destun cydraddoldeb. (Pennod 4.1.3)

Argymhelliad 11: I gyd-fynd ag egwyddorion cyfreithiol a sefydlwyd eisoes gan gyfraith cydraddoldeb (megis yn achos y Roma a Theithwyr Gwyddelig), dylid ceisio sefydlu statws grŵp penodol i siaradwyr Cymraeg trwy ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn gwarchod siaradwyr Cymraeg rhag gwahaniaethu anuniongyrchol. (Pennod 4.2.1)

Argymhelliad 12: Dylid parhau i weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg ochr yn ochr â'r *Fframwaith Gwella Cydraddoldeb ar gyfer Cymru*. (Pennod 4.3)

Argymhelliad 13: Dylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gydweithredu'n agos â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sicrhau bod y *Fframwaith Gwella Cydraddoldeb ar gyfer awdurdodau lleol yn adlewyrchu gofynion trin y Gymraeg yn fater cydraddoldeb cyflawn*. (Pennod 4.3)

### 9.2.4 Diwygio cyfrifoldebau statudol a phŵer Bwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydlu Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg yn Llywodraeth y Cynulliad

Argymhelliad 10: Dylid sicrhau (trwy ddiwygio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 neu fesur arall megis y *Mesur Cydraddoldeb Sengl*) bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael y pwerau i gyflwyno rhybuddion cydymffurfiaeth a'r gallu i sefydlu adolygiad barnwrol. (Pennod 4.1.10)

Argymhelliad 15: Dylid ystyried ailsefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel Comisiwn yr Iaith Gymraeg trwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Dylai'r Comisiwn barhau i ddwyn holl gyfrifoldebau presennol y Bwrdd ond dylai feddu hefyd ar (i) y cyfrifoldeb statudol i ddiogelu hawliau, a (ii) y grym i reoleiddio a dwyn Adolygiad Barnwrol. (Pennod 4.5.2)

Argymhelliad 14: Dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg gydweithredu'n agos ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn osgoi dyblygu dyletswyddau a hysbysu'r cyhoedd sut y gellid dwyn cwyn yn erbyn corff cyhoeddus am safon gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. (Pennod 4.4.2)

Argymhelliad 16: Dylid sefydlu'n ddi-oed (gan nad oes angen mesur i gyflawni hyn) Adran Polisi a Deddfwriaeth Gymraeg gref o fewn Llywodraeth y Cynulliad gyda'r adnoddau priodol er mwyn:

- Sicrhau bod yr ymrwymiad statudol i warchod a hybu'r iaith Gymraeg wrth wraidd pob un o fesurau, polisïau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad.
- Cynghori'r gweinidog â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg a gweinidogion eraill ar weithredu *Iaith Pawb* a gofynion ieithyddol polisïau eraill Llywodraeth y Cynulliad.

- Cynorthwyo Gweinidogion a staff i lunio a gweithredu'r ddeddfwriaeth neu'r rheoliadau sydd eu hangen i warchod a hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus.
- Ymyrryd yn ôl yr angen i warantu cysondeb gweithredu ar bolisiâu a chynlluniau'r Llywodraeth o ran y Gymraeg.
- Adolygu mesurau Cymru-Lloegr, Prydain Fawr a DU newydd o San Steffan a pharatoi adroddiad i'r Gweinidogion ar y cyfleoedd i gynnwys cymalau i gydnabod anghenion/hawliau siaradwyr Cymraeg a/neu drosglwyddo cyfrifoldeb deddfwriaethol i'r Cynulliad.
- Cyd-weithio'n agos â'r Is-ysgrifennydd Gwladol a swyddogion Swyddfa Cymru. (Pennod 4.5.3)

### **9.2.5 Gwella darpariaeth yn y Gymraeg gan gwmnïau preifat**

Argymhelliad 18: Dylid parhau i ddwyn gorfodaeth statudol ar ddarparwyr cyfleustodau cyhoeddus o dan adran 6(1)(o) *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* neu ddiwygiad pellach o'r ddeddf honno. (Pennod 6.1)

Argymhelliad 19: Dylid cryfhau'r oruchwyliaeth ar gwmnïau preifat (e.e. cartrefi gofal) sy'n darparu gwasanaethau ar ran cyrff cyhoeddus trwy gytundebau 3ydd parti er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn ôl gofynion cynlluniau iaith statudol y cyrff hynny. (Pennod 6.2.3)

Argymhelliad 20: Dylid sicrhau adnoddau cyllidol a dynol ychwanegol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn hyrwyddo a chefnogi rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg yn y sector breifat. (Pennod 6.2.3)

Argymhelliad 21: Dylid hyrwyddo trafodaeth gyhoeddus am rymuso dinasyddion sydd am ddewis y Gymraeg a manteision busnes, yn hytrach na thrafodaeth sy'n pwysleisio gorfodaeth a chydymffurfiaeth mewn modd negyddol. (Pennod 6.2.3)

Argymhelliad 22: Dylid cynorthwyo busnes a diwydiant i gydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth newydd (i) trwy gyflwyno'r newidiadau'n raddol dros gyfnod o amser; (ii) pennu disgwyliadau gwahanol ar gyfer busnesau ar sail natur y gwasanaeth, adnoddau'r darparwr, nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, lefel y cyswllt â'r cyhoedd a'r defnydd o dechnoleg. (Pennod 6.2.3)

### **9.2.6 Gwella darpariaeth yn y Gymraeg gan fudiadau gwirfoddol**

Argymhelliad 23: Dylid cryfhau cydymffurfiaeth mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaeth 3ydd parti ar ran cyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn ôl gofynion cynlluniau iaith statudol y cyrff hynny. (Pennod 6.3.3)

Argymhelliad 24: Dylid sicrhau adnoddau cyllidol a dynol ychwanegol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a'i bartneriaid er mwyn hyrwyddo a chefnogi rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg yn y sector wirfoddol. (Pennod 6.3.3)

Argymhelliad 25: Wrth ystyried deddfwriaeth newydd ar gyfer y 3ydd sector, dylid blaenoriaethu'r mudiadau gwirfoddol hynny sy'n gweithredu yn y maes iechyd a gofal. (Pennod 6.3.3)

### **9.2.7 Rhai opsiynau i'w cynnwys mewn Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Argymhelliad 26: Dylid cadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg mewn Mesur Cynulliad. (Pennod 6.4.5)

Argymhelliad 31: Dylid ystyried cyflwyno *Mesur Priflifo Ystyriaeth o'r Gymraeg* a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ddiwygio pob deddf sy'n diffinio gweithgarwch mewn meysydd polisi allweddol (e.e. yr amgylchedd, datblygu economaidd, y sector ofal, cynllunio gwlad a thref) fel ei bod yn cynnwys 'cymal(au) iaith' sy'n datgan gofyniad i'r partiön perthnasol integreiddio, gwarchod a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg fel rhan greiddiol o'u cylch gorchwyl. (Pennod 7.2.3)

Argymhelliad 32: Dylid ystyried gweithredu o dan *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* i greu *cynllun statudol i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymdeithasol Cymru* gyda 'newidiadau canlyniadol' (*consequential amendments*) yn deillio o hyn ar gyfer ystod gynhwysfawr o fesurau a rheoliadau perthnasol. (Pennod 7.2.3)

### **9.2.8 Rhai opsiynau i'w cynnwys mewn Mesurau Senedd y Deyrnas Unedig**

Argymhelliad 39: Dylid ymdrechu i ehangu hawliau ieithyddol ym myd y gyfraith trwy fesurau Senedd y DU er mwyn sefydlu, er enghraifft, yr hawl i reithgor dwyieithog; hawliau iaith i garcharorion - gan gynnwys y rhai o Gymru yng ngharchardai Lloegr; a'r hawl i wasanaeth Gymraeg gan yr Heddlu. (Pennod 8.3)

Argymhelliad 40: Os bydd rhaid blaenoriaethu'r meysydd hynny lle mae angen deddfu i gryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau'r hawliau a'r urddas sylfaenol y cyfeirir atynt mewn deddfwriaeth hawliau dynol ryngwladol, yna dylid rhoi blaenoriaeth i feysydd iechyd, gofal cymdeithasol a gweinyddu'r gyfraith. (Pennod 8.4)

Argymhelliad 41: Dylid blaenoriaethu'r pedair carfan allweddol o 'ddefnyddwyr bregus' sy'n 'haeddu sylw arbennig' sef: cleifion iechyd meddwl; pobl ag anableddau dysgu ac anghenion arbennig eraill; pobl hŷn; a phlant ifanc. (Pennod 8.4)

Argymhelliad 42: Dylid ystyried cyflwyno mesur yn Senedd y DU a fyddai'n sefydlu'r hawl i siaradwyr Cymraeg beidio â phrofi camwahaniaethu anuniongyrchol ar sail iaith yn achos gwasanaethau penodol. (Pennod 8.4)

Argymhelliad 43: Yn sgîl mesur o'r fath, dylid ystyried sefydlu Cymhwyster Cymraeg Proffesiynol (CCP) ar gyfer galwedigaethau penodol megis gweithwyr iechyd a gofal a fyddai'n orfodol i bawb sy'n gweithio neu sydd am weithio yn y proffesiynau hynny. (Pennod 8.4)

### **9.2.9 Cyfleoedd i gynyddu darpariaeth yn y Gymraeg heb yr angen am ddeddfwriaeth newydd**

Argymhelliad 27: Dylid cryfhau cydymffurfiaeth cwmnïau preifat a mudiadau gwirfoddol sy'n ddarparwyr 3ydd parti trwy gynnwys yr agwedd hon ar gontractio fel rhan greiddiol o'r broses archwilio ariannol annibynnol a mewnol. Dylid sicrhau bod 3<sup>ydd</sup> parti'n cydymffurfio â Chynllun Iaith Statudol cyn awdurdodi taliadau i'r contractwr. (Pennod 7.1.3)

Argymhelliad 28: Dylid briffio neu hyfforddi a sicrhau cefnogaeth ddigonol ar gyfer y swyddogion sy'n gyfrifol am drefnu a goruchwyllo contractau 3ydd parti, a hynny ar ffurf cyfarwyddiadau, canllawiau a chynghor parod. Dylid hefyd darparu cyfarwyddiadau, canllawiau a chynghor parod i'r darparwyr 3ydd parti eu hunain. (Pennod 7.1.3)

Argymhelliad 29: Dylid creu rôl gysylltiol gryfach ar gyfer swyddogion iaith i weithio fel dolen gyswllt rhwng y corff cyhoeddus a'r contractwyr 3ydd parti er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau ieithyddol yn hysbys ac yn wybyddus ar ddechrau cyfnod y cytundeb. (Pennod 7.1.3)

Argymhelliad 30: Yn hytrach na pharatoi strategaethau prif-ffrydio ar wahân, dylid cryfhau'r ymrwymïadau gan gyrrff cyhoeddus yn eu cynlluniau iaith Gymraeg i asesu effaith ieithyddol polisiâu a mentrau newydd gan gryfhau goruchwyliaeth Bwrdd yr Iaith a'r dulliau o'i fonitro. (Pennod 7.2.3)

Argymhelliad 33: Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod codau ymarfer yn manylu ar ystyriaethau am y Gymraeg er mwyn prif-ffrydio arfer dwyieithog da ym mhatriymau ymddygiad ac arferion gwaith darparwyr. (Pennod 7.3)

Argymhelliad 34: Dylid cryfhau a chysoni faint o bwyslais a rydd Arolygiaethau Gwasanaethau Cyhoeddus ar ystyriaethau o'r Gymraeg yn achos:

- (i) dewis iaith unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a
- (ii) effaith ar hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith (gyda'r ail ystyriaeth yn berthnasol i'r *Arolygiaeth Gynllunio*'n bennaf). (Pennod 7.4)

Argymhelliad 35: Dylid diwygio canllawiau a safonau'r arolygiaethau fel eu bod yn cwrdd ag amcanion *Iaith Pawb* a *Chreu'r Cysylltiadau* a thrwy hynny'n cryfhau'r disgwyliadau parthed gwasanaeth/darpariaeth o safon. (Pennod 7.4)

Argymhelliad 36: Dylid cynnwys dangosydd(ion) ychwanegol ar gyfer y Gymraeg ymhlith y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol statudol er mwyn:

- (i) casglu tystiolaeth ar raddfa genedlaethol all gyfrannu tuag at fesur cyflawniad yn ôl targedau *Iaith Pawb*;
- (ii) cryfhau cyfrifoldeb statudol cyrff i fesur eu perfformiad o ran darparu gwasanaethau yn y Gymraeg. (Pennod 7.5.1)

Argymhelliad 37: Dylai adroddiadau monitro blynyddol ar weithrediad Cynllun Iaith Gymraeg pob corff cyhoeddus gynnwys adroddiad ar y dangosyddion canlynol a nodwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei gyngor ar ddiwygio cynlluniau iaith awdurdodau lleol:

a) Gwasanaethau Rheng Flaen

Nifer a % swyddi'r brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop un stop a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' ac a lenwyd gan staff dwyieithog.

b) Safon y gwasanaethau iaith Gymraeg

Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y cynllun iaith a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor.

c) Caffael

Nifer a % y cyrff 3ydd parti gafodd eu monitro sy'n darparu yn unol â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod gan ystyried :-

- (i) contractau gofal cymdeithasol



- (ii) contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc
- (iii) contractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol

d) Adnoddau dynol – sgiliau

- (i) Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol.
- (ii) Nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

(e) Adnoddau dynol – Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Nifer a % y staff o fewn gwasanaeth y Cyngor sy'n medru siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon a staff ysgolion)

- fesul adran wasanaeth
- yn ôl gradd y swydd
- fesul gweithle (swyddfa, canolfan a phrif swyddfeydd ardal). (Pennod 7.5.1)

Argymhelliad 38: Dylai Bwrdd yr Iaith ac adrannau perthnasol o fewn Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio'r pwyslais yn Adolygiad Beecham ar "hoelio sylw ar ddinasyddion yn eu cymunedau"<sup>267</sup> i bwysu am well cydnabyddiaeth ac ystyriaeth o anghenion a dewis iaith dinasyddion yn achos gwasanaethau cyhoeddus. (Pennod 7.6)

\* \* \*

---

<sup>267</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Rhannu Cyfrifoldeb: Crynodeb Gweithredol – Cyfraniad Llywodraeth Leol at wella bywydau pobl*, tud. 15.